

Agenda – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd Fay Buckle
Dyddiad: Dydd Mawrth, 29 Medi 2015 Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.00 0300 200 6565
SeneddArchwilio@Cynulliad.Cymru

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09:00)

2 Papurau i'w nodi

(09:00)

(Tudalennau 1 – 3)

3 Craffu ar Gyfrifon 2014–15: Comisiwn y Cynulliad

(09:00 – 09:45)

(Tudalennau 4 – 179)

PAC(4)–24–15 Papur 1

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

David Melding AM – Comisiynydd y Cynulliad Dros Dro

Claire Clancy – Prif Weithredwr

Nicola Callow – Cyfarwyddwr Cyllid

4 Craffu ar Gyfrifon 2014–15: Chwaraeon Cymru

(09:45–10:35)

(Tudalennau 180 – 310)

PAC(4)–24–15 Papur 2

PAC(4)–24–15 Papur 2A

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Sarah Powell, Prif Weithredwr, Chwaraeon Cymru

Peter Curran, Cyfarwyddwr Cyllid, Chwaraeon Cymru



5 Gwaith Caffael a Rheoli Gwasanaethau: Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol 2014 – 2015

(10:35–10:45)

(Tudalennau 311 – 406)

PAC(4)–24–15 Papur 3 – Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) – Adroddiad Blynyddol 2014–15

PAC(4)–24–15 Papur 3A – Canllawiau Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol – Cyfreithwyr

PAC(4)–24–15 Papur 3B – Canllawiau Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar Effeithlonrwydd Adnoddau Cymru – Cyngor ar Effeithlonrwydd Ynni a'r Amgylchedd

PAC(4)–24–15 Papur 3C – Canllawiau Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol – Adeiladu

6 Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn: Ystyried ymateb Llywodraeth Cymru

(10:45–10:50)

(Tudalennau 407 – 412)

PAC(4)–24–15 Papur 4

PAC(4)–24–15 Papur 5

7 Ymateb i Ddiwygio Lles yng Nghymru: Ystyried ymateb Llywodraeth Cymru

(10:50–10:55)

(Tudalennau 413 – 421)

PAC(4)–24–15 Papur 6

8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

(10:55)

Eitem 9

9 Craffu ar Gyfrifon 2014–15: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(10:55 – 11:00)

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

<http://senedd.tv/cy/3227>

Dyddiad: Dydd Mawrth, 22 Medi 2015

Amser: 09.02 – 11.09

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Darren Millar AC (Cadeirydd) Mohammad Asghar (Oscar) AC Jocelyn Davies AC Mike Hedges AC Sandy Mewies AC Julie Morgan AC Jenny Rathbone AC Aled Roberts AC
Tystion:	David Anderson, Amgueddfa Cymru Colin John, Llyfrgell Genedlaethol Cymru Avril Jones, Llyfrgell Genedlaethol Cymru David Michael, Llyfrgell Genedlaethol Cymru Neil Wicks, Amgueddfa Cymru
Staff y Pwyllgor:	Fay Buckle (Clerc) Claire Griffiths (Dirprwy Clerc)



	Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol) Terry Lewis (Swyddfa Archwilio Cymru) Matthew Mortlock (Swyddfa Archwilio Cymru) Steve Wyndham (Swyddfa Archwilio Cymru)
--	---

TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgriafiad o'r cyfarfod](#).

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

3 Craffu ar Gyfrifon 2014–15: Llyfrgell Genedlaethol Cymru

3.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod cyfrifon blynyddol Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar gyfer 2014–15, gan holi David Michael, y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, Colin John, Trysorydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ac Avril Jones, Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

3.2 Cytunodd David Michael i ddarparu copi o'r Adolygiad a wnaed gan Price Waterhouse Coopers, ac amserlen ar gyfer rhoi'r argymhellion a geir yn yr Adolygiad hwnnw ar waith.

4 Craffu ar Gyfrifon 2014–15: Amgueddfa Cymru

4.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod cyfrifon blynyddol Amgueddfa Cymru ar gyfer 2014–15, gan holi David Anderson, y Cyfarwyddwr Cyffredinol, a Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, Amgueddfa Cymru.

4.2 Cafwyd datganiad o fuddiant gan Julie Morgan AC fel aelod o Grŵp Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) yn y Cynulliad Cenedlaethol.

4.3 Cytunodd David Anderson i ddarparu nodyn yn dangos dadansoddiad o'r gost o £6.5m am weithgareddau elusennol o ran gweithrediadau'r amgueddfa.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

6 Craffu ar Gyfrifon 2014–15: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

7 Gohebiaeth y Pwyllgor – y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach (17 Medi 2015)

7.1 The paper was noted.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon

Adolygiad o'r flwyddyn

Ebrill 2014 - Mawrth 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynnwys

Cyflwyno'r adroddiad	5
Rhagair y Llywydd.....	6
Cyflwyniad gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad.....	8
Comisiynwyr a'r Dirprwy Lywydd	10
Cynghorwyr annibynnol.....	12
Y cefndir – y cyd-destun strategol a chyfansoddiadol.....	15
Edrych tua'r dyfodol	22
Cyflawni'r nodau strategol	25
Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf.....	27
Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru.....	43
Defnyddio adnoddau'n ddoeth – adolygiad strategol	61
Adroddiad cynaliadwyedd	77
Adroddiad taliadau ac adroddiad y Cyfarwyddwyr	85
Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu.....	101
Datganiad Llywodraethu 2014-15.....	103
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	115
Datganiad Cyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.....	119
Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon Adnoddau.....	135

Cyflwyno'r adroddiad

Rhagair y Llywydd



Y Fonesig Rosemary Butler AC

Llywydd y Cynulliad a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad

Braint o'r mwyaf yw bod yn Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad. Mae bod yn Llywydd yn ystod cyfnod a fydd yn cael cymaint o ddylanwad ar ein dyfodol cyfansoddiadol wedi bod yn gyfle anhygoel. Bydd yr Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf yn creu darlun o'r hyn y byddwn yn ei ddarparu yn ystod blwyddyn olaf y Cynulliad hwn, ond caiff ei gyflwyno gan fy olynydd ac nid gennyf fi. Byddaf yn ymddiswyddo fel Aelod Cynulliad yn yr etholiad nesaf. Felly, rwyf am fanteisio ar fy nghyfle olaf mewn Adroddiad Blynyddol i edrych yn ôl ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni, a myfyrio ar yr hyn rwy'n gobeithio y bydd yn ei olygu ar gyfer dyfodol y Cynulliad.

Mae sawl agwedd ar rôl y Llywydd. Rwyf wedi dewis canolbwyntio'n bennaf ar dri phrif faes y credaf fydd yn bwysig iawn i'r Cynulliad ac i Gymru: diwygio cyfansoddiadol; craffu cadarn; ac ymgysylltu a chymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.

Rwy'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i gyflwyno Bil Cymru sy'n anrhydeddu'n llawn yr ymrwymïadau a wnaed yn y broses Dydd Gŵyl Dewi. Bydd yn arwain at newid yn y cydbwysedd grym rhwng San Steffan a'r Cynulliad, a bydd yn ein galluogi, o'r diwedd, i wneud penderfyniadau ynghylch ein materion ein hunain. Bydd hefyd yn rhoi'r Cynulliad ar seiliau cadarn a pharhaol. Mae'n rhaid inni fod yn sicr na fydd unrhyw fodel newydd o bwerau a gedwir yn lleihau ein gallu i ddeddfu mewn unrhyw ffordd a'i fod yn ein galluogi i wneud hynny gydag eglurder a chysondeb. Roedd barn y Goruchaf Lys ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) yn dangos ymhellach pa mor gymhleth yw'r setliad datganoli presennol yng Nghymru a pha mor hanfodol bwysig yw eglurder os yw'r Cynulliad i ddeddfu'n effeithiol ac os yw pobl Cymru am ddeall ei bwerau.

Bydd y newidiadau rwyf wedi bod yn galw fwyaf amdanynt yn golygu:

- bydd gan y Cynulliad y pŵer i gynyddu ei gapasiti i gydweddu ei faint â maint ei dasg a chaniatau inni graffu'n llawn ar raglen bolisi a deddfu gynyddol y Llywodraeth a phwerau newydd i godi trethi;
- gall y Cynulliad benderfynu ar ei drefniadau etholaethol ei hun yn ogystal â materion symbolaidd ac ymarferol pwysig fel enw'r Cynulliad ei hun a'i ddulliau gweithredu mewnol;
- bydd angen i'r Cynulliad gytuno'n ffurfiol cyn y caiff Senedd y DU ddeddfu mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i'r Cynulliad; a
- gall y Cynulliad benderfynu ar yr oedran pleidleisio priodol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad.

Mae craffu cadarn yn rhan sylfaenol, hanfodol o unrhyw ddiwylliant democrataidd. Rwyf wedi ceisio gwella effeithiolrwydd craffu drwy greu cyfleoedd hyblyg, ymatebol i'r Aelodau godi materion pwysig sydd o bryder cyhoeddus yn y Cynulliad. Rwyf wedi gweithredu nifer o newidiadau yn ystod y Cynulliad hwn fel y terfynau amser byrrach i gyflwyno cwestiynau llafar er mwyn cynyddu amseroldeb ac amrywiaeth gwaith craffu'r Aelodau meinciau cefn ar waith y Gweinidogion; dadleuon Aelodau Unigol gyda chynigion trawsbleidiol; amser wedi'i neilltuo ar gyfer Cwestiynau'r Arweinwyr yn ystod y sesiwn 'Cwestiynau i'r Prif Weinidog', sydd wedi rhoi cyfle i arweinwyr y pleidiau graffu'n fanwl ar waith y Prif Weinidog mewn meysydd o'u dewis hwy, heb orfod rhoi rhybudd ymlaen llaw; a Chwestiynau'r Llefarywyr yn ystod Cwestiynau Llafar y Cynulliad, sy'n caniatáu i lefarywyr y pleidiau ofyn tri chwestiwn heb rybudd i'r Gweinidog perthnasol. Mae'r holl newidiadau hyn wedi sicrhau cyfle i fwy o amseroldeb a holi'r Llywodraeth yn fanylach.

Sbardunodd refferendwm yr Alban adfywiad democrataidd i'r gogledd o'r ffin, a chafwyd lefel heb ei thebyg o ddiddordeb o du'r cyhoedd. Fy uchelgais yw y gwelwn frwdfrydedd democrataidd tebyg yng Nghymru drwy annog rhagor o bobl i gael cyfle i ddweud eu dweud a chael effaith uniongyrchol ar ein gwaith yma yn y Cynulliad. Er mwyn gwneud hynny, rhaid i ni feithrin perthynas ddeinamig â'r bobl rydym yn eu cynrychioli.

Mae'r Comisiwn a minnau wedi rhoi pobl ifanc yn ganolog i'n strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd. Y llynedd, cafodd Siarter Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc ei lansio gennyf, ar sail yr hyn a ddywedodd pobl ifanc wrthym yr oeddent am ei gael gan y Cynulliad. Dangosodd ein hymgyngghoriad fod awydd mawr gan bobl ifanc ledled Cymru i gael dweud eu dweud ar y materion sydd o bwys iddynt. Mae'n rhaid inni wrando a gweithredu ar y sylwadau hynny. Rwyf am i'r Cynulliad arwain y byd ym maes ymgysylltu â phobl ifanc drwy eu galluogi i fynegi barn a chael eu gwerthfawrogi yng nghalon democratiaeth Cymru. Yn ddiweddar, rydym wedi bod yn archwilio'r cwestiwn a ddylai'r oedran bleidleisio gael ei ostwng i 16 drwy drafodaeth genedlaethol â phobl ifanc yng Nghymru. Cafwyd ymateb rhagorol, gyda dros 10,000 o bobl ifanc yn cymryd rhan. Byddwn yn cynnal diwrnod ieuenctid ym mis Gorffennaf i ystyried y canlyniadau a thrafod yr hyn ddylai ddigwydd nesaf.

Agwedd arall ar fy ngwaith o gynyddu amrywiaeth ac ehangder y bobl sy'n cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus yw fy ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus. Mae llai o fenywod na dynion yn gweithio mewn bywyd cyhoeddus ac nid yw llais menywod yn cael ei glywed. Rwyf wedi bod yn gweithio i fynd i'r afael â'r angen i gael rhagor o fenywod i wneud cais am swyddi a phenodiadau cyhoeddus a derbyn y rolau hynny fel bod ganddynt gynrychiolaeth deg ar bob lefel o fywyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae cryn waith i'w wneud o hyd ond, fel y Llywydd benywaidd cyntaf, a thrwy fy ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus, gobeithio y byddaf wedi ysbrydoli ac annog menywod eraill i gymryd y cam i mewn i fywyd cyhoeddus.

I gloi, hoffwn ddiolch i Gomisiynwyr y Cynulliad, y Prif Weithredwr a staff y Comisiwn am y cyfan maent wedi'i wneud i ddarparu cefnogaeth ragorol i'n holl wasanaethau seneddol. Gallant fod yn falch bod y Cynulliad yn cael ei ystyried yn enghreifftiol ac yn fodel rôl mewn cymaint o agweddau ar ei waith. Rydym yn gorff seneddol cryf, sy'n llawn addewid ar gyfer y dyfodol ac rwy'n ddiolchgar fy mod wedi gallu chwarae fy rhan. Edrychaf ymlaen at wneud cynnydd pwysig pellach yn ystod y misoedd nesaf cyn i'r Cynulliad gamu i mewn i gyfnod newydd arall yn 2016.

Cyflwyniad gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad



Claire Clancy

Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn lle unigryw i weithio a Chomisiwn y Cynulliad yn sefydliad anhygoel i'w arwain. Yn ystod blwyddyn olaf ond un y Pedwerydd Cynulliad, rydym wedi parhau i weithio'n galed i gryfhau'r Cynulliad fel senedd, drwy ysgwyddo cyfrifoldebau presennol y Cynulliad a thrwy ddylanwadu ar newidiadau cyfansoddiadol y dyfodol a fydd yn galluogi'r Cynulliad i wireddu ei botensial ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ein rôl ni fel staff y Cynulliad yw helpu i wneud y Cynulliad yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn deddfwrfa sy'n cyflawni'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru. Rydym yma i wasanaethu'r Aelodau Cynulliad a etholwyd gan bobl Cymru ac sy'n gorfod cynrychioli buddiannau eu hetholwyr, deddfu a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae cwmpas ein gwaith wrth wneud hynny yn eang iawn, o gyfrifoldebau am reoli ystâd sydd ag adeiladau eiconig, i drylwyrdd deallusol gwaith trefniadol, cyfansoddiadol a deddfwriaethol, i ymgysylltu â phobl ledled Cymru, a'r holl ffordd i lawr i'r manylion o sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth ar gyfer y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgorau. Bydd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi cipolwg ichi ar yr hyn a gyflawnwyd a'r hyn sydd eto i ddod.

Busnes ffurfiol y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau sy'n ganolog i'r hyn a wna'r Cynulliad fel deddfwrfa. Yno y caiff y Llywodraeth ei dwyn i gyfrif, a chaiff ei chynigion ar gyfer deddfwriaeth, a'i phenderfyniadau, syniadau a chyflawniadau polisi eu gwella gan waith craffu'r Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn ystyried rhagoriaeth ac integreiddio parhaus holl arbenigedd staff y Comisiwn yn allweddol i gyflawni ei nod o ddarparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf. Rydym wedi ceisio deall yn well fyth yn ystod y flwyddyn pa wasanaethau y mae Aelodau am inni eu darparu iddynt a defnyddio ein hadnoddau mewn modd hyblyg er mwyn eu cyflawni.

Ein huchelgais yw bod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle gall Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd ddewis gweithio a chyfathrebu drwy ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall neu'r ddwy iaith Swyddogol, ac yn sefydliad lle bydd y defnydd o'r ddwy iaith yn destun balchder i bawb. Mae Deddf Ieithoedd Swyddogol 2012 yn gosod dyletswydd ar Gomisiwn y Cynulliad i sicrhau y gall pob ymgysylltiad â thrafodion y Cynulliad ddigwydd drwy gyfrwng y naill iaith swyddogol neu'r llall, sef y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn nodi sut y bydd Comisiwn y Cynulliad yn darparu gwasanaethau dwyieithog i Aelodau'r Cynulliad ac aelodau'r cyhoedd - ac yn y gwaith rydym wedi bod yn ei wneud, rydym wedi ceisio codi'r bar i sefydliadau eraill ei ddilyn, yn y DU ac yn rhyngwladol.

Er mwyn i wleidyddiaeth weithio, mae angen i etholwyr ymgysylltu â'r broses. Mae'r Comisiynwyr wedi pwysleisio wrthym pa mor bwysig yw ymestyn allan y tu hwnt i furiau'r Cynulliad i bawb ar draws Cymru. Maent wedi bod yn arbennig o awyddus ein bod yn ymgysylltu â sectorau gwahanol yn ein cymunedau, ac nid dim ond y rheini sydd eisoes yn dueddol o gymryd rhan. O ran pobl ifanc, mae ein gwasanaeth addysg eisoes yn destun eiddigedd i seneddau eraill ac mae ein gwaith ymgysylltu â phobl ifanc wedi adeiladu ar y sylfaen aruthrol hon, fel bod mwy o bobl ifanc yn defnyddio'r cyfle i gyfrannu at y siâp Cymru a democratiaeth Cymru yn y dyfodol.

Fel cartref democratiaeth Cymru, mae ystâd ein Cynulliad yn ased gwerthfawr a phwysig y gallwn ei defnyddio i hyrwyddo'r Cynulliad, i ddenu'r cyhoedd ac ymgysylltu â hwy a rhoi gwybod iddynt am ei waith. Mae ein goruchwyliaeth o'r ystâd hefyd yn cynnig cyfleoedd sylweddol inni ddangos gwasanaeth o'r radd flaenaf i'r rhai sy'n ymweld â'n hystâd ac yn ei defnyddio, ynghyd ag arddangos y safonau uchaf o arfer da o ran cynaliadwyedd.

Yn olaf, mae'n anochel bod y ffocws mewn Adroddiad Blynyddol ar yr hyn a gyflawnwyd, ac mae hynny'n ddigon teg. Fodd bynnag, mae'r ffordd yr ydym yn gwneud ein gwaith hefyd yn bwysig iawn inni ac yn creu diwylliant ein sefydliad. Drwy ein gwaith, mae pob un ohonom sy'n gweithio i'r Cynulliad yn ymdrechu i:

- weithredu gan roi sylw llawn i'n cyfrifoldebau ym maes cydraddoldeb, gan barchu pawb a thrin pawb yn deg;
- darparu pob agwedd ar gyfrifoldebau'r Comisiwn yn gyflym, gydag arbenigedd proffesiynol ac ethos gwasanaeth cadarn;
- gosod safonau uchel a chadw ein haddewidion;
- bod yn agored a thryloyw, gwneud ein hunain yn agored i graffu manwl o bob tu, a darparu tystiolaeth y gellir ei mesur o'r hyn a gyflawnwyd gennym;
- dangos ein hymrwymiad llwyr i ddemocratiaeth seneddol yng Nghymru a'n balchder yn y Cynulliad.

Bydd yn dda inni wrth y gwerthoedd hyn wrth inni symud tuag at ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad a rhagweld yr heriau sydd o flaen y Cynulliad.

Comisiynwyr a'r Dirprwy Lywydd

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i helpu i'w wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n cyflawni'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru. Ei rôl yw darparu'r staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad Cenedlaethol i gyflawni'r swyddogaeth hon.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod Cynulliad, un wedi ei enwebu gan bob un o'r pedair plaid wleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yn y Cynulliad.



Y Fonesig Rosemary Butler AC (Llafur Cymru)

Llywydd y Cynulliad a Chadeirydd y Comisiwn, sydd â'r prif gyfrifoldeb dros gyfathrebu a datblygiad proffesiynol yr Aelodau a'u staff.



Peter Black AC (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros TGCh, darlledu ac e-ddemocratiaeth, ystâd y Cynulliad, a chynaliadwyedd.



Angela Burns AC (Ceidwadwyr Cymreig)

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros y gyllideb, llywodraethu (gan gynnwys aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg) a chysylltiadau â'r Bwrdd Taliadau. Angela, hefyd, sydd â chyfrifoldeb dros wella gwasanaethau i Aelodau'r Cynulliad, a rôl y Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad.



Rhodri Glyn Thomas AC (Plaid Cymru)

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros leithoedd Swyddogol y Cynulliad, gwasanaethau cyfreithiol a Rhyddid Gwybodaeth.



Sandy Mewies AC (Llafur Cymru)

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros wasanaethau addysg, cyswllt cyntaf, cyfleusterau'r Cynulliad, arlwy, y siop a diogelwch. Sandy, hefyd, sydd â chyfrifoldeb dros swyddogaethau cydraddoldeb statudol y Comisiwn.



David Melding AC (Ceidwadwyr Cymreig)

Yn ogystal â dirprwyo ar ran y Llywydd, bydd y Dirprwy Lywydd hefyd yn mynd i gyfarfodydd a digwyddiadau yn rhinwedd ei swydd er mwyn codi proffil Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynghorwyr annibynnol

Mae Comisiwn y Cynulliad wedi penodi cynghorwyr annibynnol i sicrhau bod y Comisiynwyr ac uwch dîm rheoli'r Cynulliad yn cael eu cynorthwyo a'u herio mewn modd adeiladol wrth eu gwaith.

Mae'r cynghorwyr yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau a meysydd gwasanaeth y Cynulliad. Maent yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Comisiwn; yn ystyried ein trefniadau rheoli perfformiad a threfniadau adrodd; yn cynghori ar gyfrifoldebau'r Comisiwn ar gyfer polisiau a systemau arfarnu a thalu staff a chynnal trosolwg beirniadol o reolaeth ariannol y Comisiwn a'i weithdrefn rheoli risg.



Keith Baldwin


Treuliodd Keith 20 mlynedd fel partner yn PricewaterhouseCoopers (PWC). Ar wahân i'w gyfrifoldebau dros gleientiaid yn ystod y cyfnod hwn, daliodd hefyd nifer o swyddi rheoli gan gynnwys Dirprwy Bartner yn gyfrifol am ymgynghori â'r Llywodraeth a Phartner yn gyfrifol am y swyddogaethau rheoli risg ac ansawdd o fewn Busnes Cynghori PWC.

Ers gadael PWC mae wedi dal nifer o swyddi anweithredol a chynghorol, gan gynnwys fel aelod anweithredol o'r Bwrdd ac aelod o Bwyllgor Archwilio CVQO Cyf (sy'n helpu pobl ifanc i ennill cymwysterau galwedigaethol). Mae'n aelod o'r Cynghor ac yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Chyflogau Amgueddfa Genedlaethol y Fyddin ers 2010. Roedd yn gyfarwyddwr anweithredol y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol (y Coleg Barnwrol erbyn hyn) rhwng 2007 a 2011 ac mae bellach yn gwasanaethu ar ddau bwyllgor ym Mwrdd Safonau'r Bar (y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer y Bar).



Mair Barnes

Mae Mair Barnes y cynghori ac yn mentora nifer o gyfarwyddwyr Byrddau ar draws amrywiaeth o sectorau yn ogystal â bod yn gyfarwyddwr anweithredol ar fusnes byd-eang. Mae'n gyn-Gadeirydd Vantios ccc a Rheolwr Gyfarwyddwr Woolworths ccc. Mae wedi dal swyddi cyfarwyddwr anweithredol yn yr Adran Masnach a Diwydiant ac yn Swyddfa'r Cabinet.



Helena Feltham

Mae Helena wedi profi gyrfa hir ym maes Manwerthu ac Arweiniad ym maes Adnoddau Dynol. Yn fwyaf diweddar, bu'n Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol i TOPSHOP TOPMAN a chyn hynny mae wedi bod yn Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Marks & Spencer, Jack Wills Cyf a Woolworth De Affrica. Mae hefyd wedi treulio amser gyda Odgers Berndtson, y cwmni sy'n ymwneud â phenodiadau uwch swyddogion gweithredol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae Helena wedi bod yn gyfarwyddwr anweithredol ar Ymddiriedolaeth y GIG, ac ar hyn o bryd mae'n Aelod o Fwrdd yr Elusen Gweithredu dros Blant a'r Ymddiriedolaeth Manwerthu.



Eric Gregory

Mae Eric yn gyfarwyddwr anweithredol i Swyddfa Basport Ei Mawrhydi (HMPO), Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a Rhaglen Trawsnewid Cofrestru Etholiadol Swyddfa'r Cabinet, lle mae hefyd yn cadeirio Bwrdd Risg a Sicrwydd y Rhaglen. Mae'n aelod o Bwyllgorau Archwilio HMPO ac LAA.

Bu'n gweithio i Bartneriaeth John Lewis am 25 mlynedd tan 2009, lle roedd yn Gyfarwyddwr Bwrdd am saith mlynedd, yn dal pob un o'r tair prif swydd Cyfarwyddwr TG cyn dod yn Gyfarwyddwr Personél. Cyn hynny, roedd yn gyfarwyddwr anweithredol i Wasanaeth Eryl y Goron (CPS) Llundain ac yn aelod o'i Fwrdd TGCh. Mae hefyd wedi dal swydd Cadeirydd Bwrdd TG Fforwm Cynnyrch Defnyddwyr, ac roedd yn aelod o Fwrdd Busnesau e-sgiliau am chwe blynedd.



Hugh Widdis

Hugh yw Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu yn Senedd Gogledd Iwerddon. Yn y rôl honno, mae'n Gwnsler i'r Cynulliad, mae'n darparu gwasanaethau archwilio mewnol a gwasanaethau llywodraethu, ac mae'n aelod o'r Bwrdd Rheoli. Mae ganddo dros 13 mlynedd o brofiad o weithio yn y gwasanaeth seneddol. Cyn ymuno â thîm cyfreithiol y Cynulliad, roedd Hugh yn gweithio ym maes ymchwil, fel bargyfreithiwr mewn practis preifat ac fel cyfreithiwr mewnol gyda chwmni darparu gwasanaethau ariannol amlwg. Mae hefyd wedi gweithio yn swyddfa gyfreithiol Senedd yr Alban, ac ym maes cyfraith wahaniaethu yn Swyddfa'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog. Mae Hugh yn fargyfreithiwr. Mae'n aelod o Far Iwerddon a Bar Gogledd Iwerddon.

Datganiad o ddiben

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i helpu i'w wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n cyflawni'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Amcanion strategol y Comisiwn ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad

Byddwn yn:

- darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf;
 - ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru; a
 - defnyddio adnoddau'n ddoeth.
-

Y cefndir – y cyd-destun strategol a chyfansoddiadol

Cyflawni Strategaeth y Comisiwn ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn edrych ar sut mae Comisiwn y Cynulliad yn cyflawni yn erbyn ei nodau a blaenoriaethau strategol ar gyfer y cyfnod 2014-15. Yr amcanion strategol sy'n rhoi ffocws i'n holl waith.

Ym mis Mai 2014, lluniodd y Comisiwn gynllun a blaenoriaethau strategol ar gyfer dwy flynedd olaf y Pedwerydd Cynulliad. Bydd cyflawni'r blaenoriaethau hyn, a darparu gwasanaethau rhagorol, cost effeithiol i Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd yng Nghymru, yn sicrhau bod y Comisiwn yn gadael etifeddiaeth gref, glir ar gyfer 2016 ymlaen a dyfodiad y Pumed Cynulliad.

Mae'r Comisiwn wedi nodi pum maes blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi

- galluogi'r Cynulliad i fod mor effeithiol â phosibl drwy'r gefnogaeth a ddarperir gennym, a thrwy'r camau nesaf yn ein strategaeth TGCh;
- gwasanaethau dwyieithog ehangach;
- ymgysylltu mwy â phobl yng Nghymru;
- gwneud y gorau o'n hystâd; a
- bod yn gwbl barod ar gyfer y Pumed Cynulliad, a'r heriau newydd a ddaw yn sgil hynny.

Mae Cymru'n cael oddeutu £15 biliwn bob blwyddyn i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i bobl Cymru. 'Bloc Cymru', y gelwir yr arian hwn, a chaiff bron y cyfan o'r arian hwn ei ddefnyddio i ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; ein hysgolion, ein hysbytai, ein seilwaith trafnidiaeth a phob agwedd ar ein bywydau y mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdanynt.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwario cyfran fechan o'r arian hwn (0.3 y cant) i dalu costau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr arian hwn sy'n caniatáu i'r Cynulliad gyflawni ei rolau o gynrychioli etholwyr Cymru (drwy'r 60 Aelod etholedig o'r Cynulliad), deddfu a chraffu ar bolisiau a phenderfyniadau gwariant Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2014-15, roedd gan Gomisiwn y Cynulliad gyfrifoldeb am gyllideb o £51.8 miliwn. O'r cyfanswm hwn, roedd £14.1 miliwn ar gael ar gyfer tâl ein 60 Aelod Cynulliad, eu staff cymorth, a chostau rhedeg eu swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol ledled Cymru.

Rhoddir gweddill y gyllideb at ddefnydd y Comisiwn i ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau at ddibenion rhedeg y Cynulliad. Mae hyn yn amrywio o redeg y Senedd a Thŷ Hywel yn esmwyth i sicrhau bod gan y Cynulliad y bobl iawn i ddarparu gwasanaeth seneddol rhagorol i Aelodau'r Cynulliad.

Ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad nododd y Comisiwn strategaeth y gyllideb ar gyfer hyd y Cynulliad cyfan. Bob blwyddyn, caiff ein cyllideb flynyddol ei phennu o fewn y fframwaith cynllunio ac ariannu amlflynedd hwn. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi Dangosyddion Perfformiad Allweddol i ddangos perfformiad corfforaethol ar draws pob maes gweithgarwch. Mae'r rhain wedi parhau i ddangos

gwelliant ar gyfer bron pob dangosydd trwy gydol 2014-15, perfformiad uchel, parhaus ar draws llawer o wasanaethau a gwelliant cyflym lle mae ymdrechion wedi cael eu targedu.

Mae'r ymdrechion hyn wedi canolbwyntio ar ddau brif thema. Mae'r cyntaf wedi canolbwyntio o'r newydd ar wella parhaus i wneud y Cynulliad yn sefydliad seneddol enghreifftiol. Mae rhaglen uchelgeisiol o newid sefydliadol a thrawsnewid strategol wedi cael ei phennu i sicrhau etifeddiaeth gref, i baratoi at y newid i'r Pumed Cynulliad. Yr ail oedd cyflymder a graddfa datblygiadau cyfansoddiadol y DU gyfan a'n hymateb a'n pharodrwydd ar gyfer newidiadau cyfansoddiadol pellach yn y dyfodol.

Newid, trawsnewid a phontio

Mae gan y Comisiwn raglen uchelgeisiol yn ei lle o drawsnewid a newid strategol; newid, i adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi'i wneud yn y gorffennol a gwella arno, a thrawsnewid, i ddatblygu ffyrdd newydd, arloesol o weithio yn y dyfodol. Rydym wedi buddsoddi yn sgiliau ein staff, gan gynyddu ein hadnoddau ym maes rheoli prosiect a rheoli newid; arbenigedd ymchwil a deddfwriaeth ariannol a chyfansoddiadol; sgiliau cyfraith fusnes a chorfforaethol; datblygiad proffesiynol ar gyfer yr Aelodau a'u staff cymorth; arbenigedd caffael ac Adnoddau Dynol; cyfleoedd i fynd ar secondiad ac i gysgodi swyddi; a chapasiti TGCh yn fewnol. Mae trefniadau llywodraethu da a phwyslais cadarn a chilir ar weithio'n strategol ac yn gydgysylltiedig ar draws gwasanaethau'r Comisiwn yn sail i'r holl waith hwn.

Mae rheolaeth lawn dros gostau'r gwasanaethau TGCh, a darparu'r gwasanaethau hynny, wedi rhoi'r gallu a'r modd i'r Cynulliad i fynd i'r afael â ffyrdd newydd o weithio. Yn ogystal, mae creu Gwasanaeth Trawsnewid Strategol yn 2013 wedi ein galluogi i weithio gyda chyflymder a gallu llywio'r gwaith o drawsnewid elfennau critigol o wasanaethau'r Comisiwn.

O ganlyniad, mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda mewn nifer o feysydd:

- adolygu a thrawsnewid y ffordd rydym yn cynhyrchu ac yn defnyddio adroddiadau o waith ffurfiol y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau, gan gynnwys sut y gallwn wella ymgysylltiad â gwaith y Cynulliad a dealltwriaeth ohono;
- gwelliannau pellach i'n darpariaeth o wasanaethau dwyieithog;
- prosiectau i adnewyddu'r system ffôn a datblygu meddalwedd yn y Siambr a fydd yn cael ei ddefnyddio yn ystod y Cyfarfod Llawn;
- parhau i wneud gwelliannau i ystâd y Cynulliad ac ymateb i heriau allweddol cynaliadwyedd;
- cynllunio ar gyfer trosglwyddo'n llyfn i'r Pumed Cynulliad ym mis Mai 2016.

Mae llawer iawn o waith cynllunio eisoes wedi'i wneud i baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r Pumed Cynulliad. Wrth wneud hynny, rydym wedi bod yn rhoi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod yr Aelodau'n cael yr arbenigedd a'r capasiti i ymdrin â phwerau sy'n newid a chyfrifoldebau ehangach y maent yn eu hwynebu. Bydd hyn yn cryfhau democratiaeth ac atebolrwydd a'r modd y mae'r Cynulliad yn gwasanaethu pobl Cymru.

Caiff ethos gwelliant parhaus y Comisiwn ei adlewyrchu'n gyson ym maes rheolaeth ariannol a pherfformiad. Mae gosod y sylfeini ar gyfer trosglwyddo'n llyfn i'r Comisiwn nesaf yn golygu cael strategaethau rheoli ariannol yn eu lle ar gyfer darparu adnoddau yn y Pumed Cynulliad.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Bwrdd Taliadau, a sefydlwyd yn 2010 fel corff annibynnol i benderfynu tâl a lwfansau Aelodau'r Cynulliad, yn ystyried y pecyn tâl llawn ar gyfer Aelodau yn y Pumed Cynulliad. Yn ystod haf a hydref 2014, ymgynghorodd y Bwrdd ar gynigion ar gyfer trefniadau pensiwn a newidiadau i faterion yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer staff cymorth yr Aelodau a threuliau'r Aelodau. Ym mis Tachwedd, ymgynghorodd y Bwrdd hefyd ar gynigion ar gyfer cyflogau Aelodau yn y Pumed Cynulliad, gan ysgogi diddordeb sylweddol yn y cyfryngau ac ymysg y cyhoedd.

Yn dilyn yr ymgynghoriadau hyn, cyhoeddodd y Bwrdd Benderfyniad ar gyfer blwyddyn olaf y Pedwerydd Cynulliad ym mis Ebrill 2015 a Phenderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad ym mis Mai 2015.

Beth yw pwerau a roddir a phwerau a gedwir?

Beth yw pwerau a roddir a phwerau a gedwir? Ar hyn o bryd, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithredu dan fodel pwerau 'a roddir'. Mae hyn yn golygu bod y meysydd hynny y caiff y Cynulliad ddeddfu yn eu cylch wedi'u pennu yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae symud i fodel pwerau a gedwir (fel sy'n digwydd yn yr Alban) yn golygu y byddai'r ddeddfwriaeth yn nodi'r meysydd hynny na all y Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu yn eu cylch.

Byddai symud i fodel pwerau a gedwir yn gyfle i wneud pethau'n gliriach ac yn galluogi pobl Cymru i ddeall cyfansoddiad eu gwlad yn well, a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Datblygiadau cyfansoddiadol

Mae datblygiadau cyfansoddiadol ar draws y DU wedi bod yn gefnlen sylweddol i'n gwaith eleni, gyda chwestiynau sylfaenol yn cael eu gofyn ynglŷn â natur yr Undeb, pwerau ei seneddau a maint a phwerau llywodraethu cenedlaethol a lleol. Mae'r Comisiwn wedi canolbwyntio ar sicrhau bod y cymorth a'r gwasanaethau a ddarperir i Aelodau yn gwbl barod ar gyfer goblygiadau newid cyfansoddiadol.

Mae Cymru eisoes wedi gweld Deddf Cymru 2014 yn dod i rym ym mis Rhagfyr 2014, gan roi pwerau codi trethi am y tro cyntaf i'r Cynulliad ac yn gweithredu llawer o argymhellion adroddiad cyntaf y Comisiwn Silk (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012).

Drwy Refferendwm yr Alban ar Annibyniaeth yn mis Medi 2014, daeth brys o'r newydd i newid cyfansoddiadol y DU gyfan a sbarduno prosesau newydd ym mhob un o'r gwledydd.

Yn dilyn sefydlu Comisiwn Smith yn yr Alban, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym mis Hydref 2014 ei fod yn bwriadu sicrhau consensws trawsbleidiol tebyg ar ddatganoli i Gymru yn y dyfodol, yn seiliedig ar ail adroddiad Comisiwn Silk (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014), a oedd yn ystyried ei gymhwysedd deddfwriaethol. Byddai'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn ystyried argymhellion Comisiwn Smith, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2014.

Arweiniodd hyn at Gyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi ar 27 Chwefror 2015, sef 'glasbrint' a fyddai'n sail i ddatganoli yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'n dangos meysydd lle mae'r pedair plaid yn cytuno ar yr hyn y dylid eu datganoli, yn ogystal â materion cyfansoddiadol fel symud at bwerau a gedwir a chaniatáu pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol dros ei sefydliad ei hun, gan gynnwys ei faint, ei enw a'i weithrediadau mewnol. Nid yw'r Cyhoeddiad yn trosglwyddo unrhyw bwerau pellach ond mae'n ganllaw i ddeddfwriaeth y gellir ei disgwyl yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Mai 2015.

Mae'r Llywydd wedi hyrwyddo'n gyson ei thair blaenoriaeth ar gyfer newid cyfansoddiadol: gwella gallu'r Cynulliad drwy gynyddu ei faint; ymgorffori sofraniaeth a sefydlogrwydd y Cynulliad, a symud tuag at setliad datganoli cliriach y gellid ei ddarparu drwy fodel pwerau a gedwir. Mae Cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi yn adlewyrchu'r safbwynt hwn.

Tra'n cydnabod ei gwmpas cyfyngedig, croesawodd y Llywydd y Cyhoeddiad gan ei fod yn gosod sail dda ar gyfer diwygio sefydliadol i hyrwyddo trafodaeth ar ddatganoli rhagor o bwerau:

"Am y tro cyntaf, ceir consensws trawsbleidiol yng Nghaerdydd a San Steffan y dylai'r Cynulliad fod yn senedd sofran sy'n rheoli drosto'i hun sut y mae'n cyflwyno cyfreithiau ac yn craffu ar Lywodraeth Cymru."

Cyhoeddodd y Comisiwn adroddiad pwysig ym mis Ionawr 2015, gan ychwanegu at y drafodaeth am bwerau'r Cynulliad yn y dyfodol. Nododd y Comisiwn ei farn yn **Dyfodol y Cynulliad: sicrhau capasiti i gyflawni dros Gymru** y dylai nifer yr Aelodau etholedig yn y Cynulliad gael ei gynyddu. Yn yr adroddiad hwn, cyflwynodd y Comisiwn gostiadau dros dro ar gyfer 80, 90 neu 100 o Aelodau. Roedd ein dadl yn seiliedig ar yr awydd i roi cyfle realistig i Aelodau graffu ar bolisiau, gweinyddiaeth, gwariant a chynigion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mor gadarn ag y mae pobl Cymru yn ei haeddu. Roedd yr adroddiad hefyd yn cefnogi'r egwyddor allweddol y dylai'r Cynulliad gael mwy o annibyniaeth i drefnu ei fusnes ei hun. Wrth lansio'r adroddiad ar ran y Comisiwn, dywedodd y Llywydd:

"Rydym am i'r Cynulliad hwn fod yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar, a deddfwrfa sy'n darparu ar gyfer pobl Cymru.

Mae Aelodau'r Cynulliad wedi cyflawni llawer i sicrhau hyn ers sefydlu'r Cynulliad.

"Fodd bynnag, bydd cryfder a llwyddiant datganoli yng Nghymru yn y dyfodol mewn perygl os na chymerwn gamau i gyfateb maint y sefydliad â maint y dasg."

Roedd yr adroddiad yn croesawu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno model bwerau a gedwir, gan nodi pa mor heriol yw i esbonio bwerau a chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn termau syml a sut mae hyn yn rhwystr i ddealltwriaeth y cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r ddau ddyfarniad Goruchaf Lys ar Fesurau Cymru a welsom eleni yn rhoi cyd-destun pwysig wrth ystyried symud tuag at setliad datganoli cliriach drwy fodel bwerau a gedwir.

Ar 9 Gorffennaf 2014, roedd dyfarniad y Goruchaf Lys ar Fil y Sector Amaethyddol (Cymru), sydd bellach yn Ddeddf, yn cefnogi'r farn bod meysydd datganoledig o fewn cymhwysedd y Cynulliad, hyd yn oed os nad ydynt wedi'u datganoli'n benodol. Ar 9 Chwefror 2015, dyfarnodd y Goruchaf Lys nad oedd y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a'i fod yn anghydnaws â hawliau cydadferyddion o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR).

Mae'r dyfarniadau hyn - yn enwedig yr ail un, lle roedd y Goruchaf Lys wedi'i rannu ar fanylion y canlyniad - wedi tynnu sylw at gymhlethdod y setliad presennol. Mae'r Llywydd wedi gwneud yn glir mai ei disgwyliad yw bod yn rhaid i unrhyw fodel newydd roi mwy o eglurder i'r Cynulliad a phobl Cymru ynghylch bwerau deddfwriaethol y sefydliad. Mae hefyd wedi pwysleisio bod yn rhaid i setliad newydd gadw cymhwysedd presennol y Cynulliad, ac adeiladu arno - fel y dehonglwyd yn unfrydol gan y Goruchaf Lys yn achos y Cyflogau Amaethyddol - ac nad yw'n cael ei weld fel cyfle i dynnu yn ôl ar elfennau o'r cymhwysedd hwnnw.

Gan gydnabod yr holl waith sydd i'w wneud yn y maes hwn, rhoddodd y Comisiwn gyfrifoldeb ar y tîm Trawsnewid Strategol i arwain ar ymateb y Comisiwn i newid cyfansoddiadol a sicrhau bod y gwasanaethau a'r cymorth a ddarperir i Aelodau yn cael eu paratoi ar gyfer unrhyw newidiadau a ddilynai, fel bwerau codi trethi. Oherwydd graddfa'r gwaith cyfansoddiadol sydd y gweill, mae Grŵp Llywio Newid Cyfansoddiadol, sy'n cynnwys uwch staff y Comisiwn wedi cael ei sefydlu er mwyn sicrhau trosolwg cynhwysfawr o bob agwedd ar waith cyfansoddiadol, a thrwy hynny gryfhau trefniadau llywodraethu.

Mae'r gwaith hyd yma wedi canolbwyntio ar dri maes:

- sicrhau bod deddfwriaeth yn diwallu anghenion y Cynulliad;
- parodrwydd ar gyfer newid, sicrhau bod gennym y capasiti a'r sgiliau cywir i ymateb i bwerau newydd a goblygiadau ehangach o ran gweithdrefnau a'r ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithio; a
- codi ymwybyddiaeth am y newidiadau er mwyn sicrhau y caiff y posibiladau eu cadw mewn cof wrth gynllunio ar gyfer y Pumed Cynulliad.

Mae paratoi ar gyfer y datganoli ariannol a geir yn Neddf Cymru 2014 yn faes blaenoriaeth arall o ran gwaith y Comisiwn a'i staff. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyhoeddi dau adroddiad ar arferion gorau o ran gweithdrefnau'r gyllideb mewn ymateb i argymhellion Comisiwn Silk. Roedd yr ail adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015, yn cynnig model o broses gyllidebol ac yn argymhell bod y Cynulliad a'r Llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd i roi trefn gyllidebol newydd ar waith sy'n diwallu anghenion a gofynion y naill sefydliad a'r llall.

Edrych tua'r dyfodol

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar lwyddiannau Comisiwn y Cynulliad a sut rydym wedi perfformio yn erbyn ein hamcanion strategol dros y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, mae gweledigaeth a strategaeth gynllunio a chyllideb y Comisiwn yn rhai tymor hir ac mae'r cyfeiriad wedi'i osod y tu hwnt i weddill y Cynulliad hwn. Yn ystod blwyddyn olaf y Pedwerydd Cynulliad, bydd y Comisiwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol, cryf i'r Aelodau, gan ymdrechu i gyflawni ei flaenoriaethau strategol a gadael etifeddiaeth barhaus. Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi adroddiad etifeddiaeth, gan gynnwys syniadau y gall Comisiwn y Pumed Cynulliad eu hystyried ar gyfer y dyfodol.

Bydd gwaith yn canolbwyntio ar:

- Cefnogi'r rhaglen gynyddol o waith deddfwriaethol. Rhwng mis Ionawr 2015 a mis Mehefin 2015, bu'r Cynulliad yn ystyried 11 o Filiau ar yr un pryd (sy'n gynydd ar yr uchafswm blaenorol o 8 a oedd o dan ystyriaeth ar yr un pryd);
- Bydd newidiadau cyfansoddiadol yn y DU ac yn Ewrop yn sylweddol yn dilyn Deddf Cymru 2014 a Chyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi ym mis Chwefror 2015, felly mae'n rhaid sicrhau bod gan y Cynulliad lais cryf yn y newidiadau cyfansoddiadol hyn, a'i fod yn barod amdanynt. Dylanwadu ar unrhyw Fil Cymru yn y dyfodol a lle'r Cynulliad yn nhrefniadau cyfansoddiadol y DU, a sicrhau y caiff blaenoriaethau'r Llywydd eu cyflawni.
- Parhau â gwaith ymgysylltu a hyrwyddo'r Comisiwn, gyda phwyslais ychwanegol i adlewyrchu'r datblygiadau cyfansoddiadol newydd. Bydd ffocws y Comisiwn ar bwysigrwydd galluogi ac annog ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfranogiad yng ngwaith y Cynulliad, yn parhau gyda brwdfrydedd newydd. Mae gwaith ar y gweill a fydd yn helpu i sicrhau newid sylweddol mewn gwaith ymgysylltu'r Cynulliad â'r cyhoedd, gan gynnwys datblygu naratif sy'n gyson glir a diddorol i esbonio sut mae democratiaeth seneddol Cymru yn gweithio dros Gymru ac ehangu cyrhaeddiad ein gwaith gyda'r cyfryngau. Mae dengmlwyddiant y Senedd ar 1 Mawrth 2016 yn gyfle gwych i godi ymwybyddiaeth o'r Cynulliad, etholiad 2016, ac atgyfnerthu'r adeilad fel cartref y Cynulliad yng nghalonau a meddyliau pobl Cymru.

- Parhau i newid ein gwasanaethau, drwy newidiadau mewn technoleg, trawsnewid systemau Cymorth y Cyfarfod Llawn, adnewyddu caledwedd a gwneud addasiadau desg o fewn costau ac amser, ac i safon a fydd yn creu gwell amgylchedd gwaith ac amgylchedd gwaith mwy effeithiol i'r Aelodau.
- Gwneud gwaith pellach i wireddu'r cyfleoedd a gyflwynir drwy newid y ffordd rydym yn cyflwyno gwaith a thrafodion y Cynulliad ac archwilio'r potensial i gyflwyno Cofnod Seneddol dwyieithog sy'n addas ar gyfer dulliau cyfathrebu'r unfed ganrif ar hugain, y gellir ei aildefnyddio, sydd ar gael yn gynt ac yn hygyrch. Bydd y gwaith hwn yn eistedd o fewn cyd-destun newidiadau ehangach a ragwelir ar draws y sefydliad, fel yr angen i wella ein ffyrdd o gyhoeddi data agored, y gellir eu haildefnyddio. Bydd gwaith yn dechrau i ddarparu democratiaeth seneddol ddigidol, i drawsnewid y ffordd rydym yn cynhyrchu, rheoli, rhannu a defnyddio ein gwybodaeth.
- Cryfhau rhaglen ddatblygiad proffesiynol yr Aelodau ymhellach er mwyn diwallu anghenion Aelodau newydd y Cynulliad, ac Aelodau sy'n dychwelyd. Bydd y gwaith hwn yn adeiladu ar y rhaglen bresennol, a fydd yn destun gwerthusiad llawn, a bydd yn darparu cyfnod sefydlu a mynediad priodol i ystod eang o hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus i'r Aelodau.
- Adeiladu ar record gref y Comisiwn o ran cyflawni gwerth am arian law yn llaw â'n nodau a blaenoriaethau strategol o ddechrau'r Pumed Cynulliad. Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i ddysgu gwersi o'r Cynulliad hwn i sicrhau bod cymorth priodol ar gael i gefnogi Aelodau wrth gyflawni eu dyletswyddau yn y dyfodol, yn enwedig yng ngoleuni pwerau cyllidol newydd y Pumed Cynulliad a'r tirlun cyfansoddiadol sy'n newid.



Cyflawni'r nodau strategol

BUSNES Y CYNULLIAD:

Yn ystod 2014-15, bu Aelodau'r Cynulliad yn cynrychioli eu hetholwyr ac yn craffu ar bolisi, deddfwriaeth a gwariant y Llywodraeth mewn Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd pwyllgor wythnosol.



67

CYFARFOD
LLAWN

14

CWESTIWN
BRYS



5 BIL WEDI CAEL
CYDSYNIAD
BREHINOL



10

DADL GAN AELODAU UNIGOL



253

CYFARFOD
PWYLLGOR



68

ADRODDIAD GAN
BWYLLGOR

Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

Blaenoriaeth y Comisiwn yw sicrhau bod cymorth integredig, sy'n gyson gryf yn cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion Aelodau unigol y Cynulliad a'i bwyllgorau. Mae hyn yn eu galluogi i weithredu fel senedd ragorol. Rôl staff y Comisiwn yw sicrhau bod democratiaeth seneddol yn gweithio yng Nghymru. Ym mhopeth a wnaiff y staff, eu nod yw cael eu cydnabod fel model o arfer gorau gan seneddau eraill a chan bawb yr effeithir arnynt gan eu gwaith. Mae hyn yn golygu gwella'n barhaus ar y gwasanaethau seneddol o ansawdd uchel a ddarperir ganddynt ar gyfer Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad.

Amseroldeb yn y Siambr

Mae'r Llywydd a'r Pwyllgor Busnes wedi parhau i ganolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i Aelodau'r meinciau cefn a gwella amseroldeb a pherthnasedd Busnes y Cynulliad. Cyflwynodd y Llywydd 'Gwestiynau'r Llefarywr' yn ystod Cwestiynau Llafar y Cynulliad yn y Siambr ym mis Medi 2014, ar ôl byrhau dyddiadau cau cyflwyno cwestiynau yn 2013 er mwyn galluogi cwestiynau mwy amserol i gael eu cyflwyno. Mae'r drefn newydd wedi cael ei modelu ar Gwestiynau Arweinwyr sydd wedi bodoli ers 2011, gan alluogi llefarywr y pleidiau i ofyn tri chwestiwn heb rybudd i'r Gweinidog. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer cwestiynau amserol ac er mwyn i lefarywr holi'r Gweinidog mewn mwy o ddyfnder.

Un llwyddiant mawr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fu'r Dadleuon Aelod Unigol. Fe'u cyflwynwyd gyntaf yn 2011, gyda'r Pwyllgor Busnes yn trefnu un ddatl bob hanner tymor. Dros y flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag, mae diddordeb yr Aelodau ac ansawdd y cynigion trawsbleidiol a gyflwynwyd wedi arwain at gynnal cyfanswm o ddeg o ddadleuon, gyda'r Pwyllgor Busnes weithiau'n dewis cynnwys yr holl gynigion a gyflwyno i gael eu trafod. Yn y cyfamser, caiff y cynnydd yn llwyth gwaith deddfwriaethol y Cynulliad ei adlewyrchu yn y ffaith bod saith o Filiau wedi cael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ers dechrau 2014.

Deddfu ar gyfer Cymru

Mae hwn yn parhau i fod yn amser cyffrous iawn i bawb sy'n rhan o'r gwaith o ddeddfu ar gyfer Cymru. Yn yr hydref, rhoddodd y Llywydd dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am rôl y Comisiwn o ran cefnogi gwaith craffu deddfwriaethol, yn ogystal â'i sylwadau o safbwynt trefniadol. Rydym yn edrych ymlaen at adroddiad y Pwyllgor ar yr ymchwiliad ar Deddfu yn y Pedwerydd Cynulliad.

Mae maint a chymhlethdod y gwaith craffu deddfwriaethol y mae'r Cynulliad yn ei wneud yn cynyddu'n sylweddol ac yn gyflym ac rydym yn disgwyl i hyn ddod yn arferol yn y Pumed Cynulliad.

Nodweddion allweddol y cynnydd hwn yw:

- Rhagor o Filiau a Biliau mwy ac ehangach eu natur. Bellach, mae Biliau'r Cynulliad yn debyg i rai Senedd y DU o ran maint a chymhlethdod. Yn ogystal, caiff yr holl weithdrefn deddfwriaethol yn y Cynulliad – o'r cyflwyniad, i'r gwaith craffu a chyflwyno gwelliannau i'r gymeradwyaeth derfynol – ei chynnal yn ddwyieithog. Mae yr un statws gyfreithiol i'n Deddfau yn Gymraeg ac yn Saesneg;

- Cynnydd yn y galw am gyngor cyfreithiol manwl ar gymhwysedd deddfwriaethol. O ystyried y nifer o Filiau'r Cynulliad a gafodd eu hatgyfeirio i'r Goruchaf Lys, mae'n rhaid rhoi'r flaenoriaeth uchaf bosibl a'r sylw manylaf posibl i'r gwaith hwn;
- Ym mis Mawrth 2015, roedd 17 o Ddeddfau wedi cael Cydsyniad Brenhinol ers dechrau'r Pedwerydd Cynulliad. Roedd wyth Bil arall yn y broses o gael eu hystyried gan y Cynulliad, gyda'r posibilrwydd o ddeddfwriaeth bellach;
- Galw cynyddol am wybodaeth hygyrch gan y Gwasanaeth Ymchwil i gefnogi gwaith craffu deddfwriaethol, a gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yn egluro sut mae Bil yn newid wrth iddo fynd yn ei flaen drwy'r Cynulliad. Mae papurau crynodeb y Bil (sy'n nodi cyd-destun polisi, prif amcanion a darpariaethau pob Bil newydd) a geirfaoedd termau ac ymadroddion Cymraeg a ddefnyddir mewn Biliau'r Cynulliad yn boblogaidd iawn.;
- Mwy o is-ddeddfwriaeth yn deillio o bwerau yn Neddffau'r Cynulliad;
- Mwy o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, sydd ond yn destun y gwaith craffu lleiaf posibl ar hyn o bryd er gwaethaf eu dylanwadau polisi a chyfansoddiadol pellgyrhaeddol; a
- Ddeddfwriaeth sy'n ehangach ei chwmpas: wedi'i llywio gan ffactorau fel dyfarniadau'r Goruchaf Lys ar gymhwysedd a chyflwyno pwerau cyllidol yn y Pumed Cynulliad a'r symudiad tuag at setliad datganoli cliriach trwy fodel pwerau a gedwir.

Mae craffu ar Filiau wedi bod ar flaen rhaglenni gwaith rhai pwyllgorau ac wedi cyfyngu, i ryw raddau, ar eu gallu i graffu ar bolisi. Mae deddfwriaeth yn waith arbennig o adweithiol, a arweinir gan y galw, gydag amserlenni a chyfaint yn cael ei benderfynu, i raddau helaeth, gan y Llywodraeth. Unwaith y bydd Bil wedi'i gyflwyno, daw'n gyfrifoldeb y Cynulliad (nid Llywodraeth Cymru). Mae'n hanfodol bod cefnogaeth o ansawdd uchel yn ei lle ar gyfer gwelliant a chraffu deddfwriaethol, fel y mae ar gyfer craffu ar bolisi a phenderfyniadau ariannol Llywodraeth Cymru. Mae'r newid sylweddol hwn mewn llwyth gwaith wedi golygu hyblygrwydd yn y ffordd rydym yn trefnu cymorth ar gyfer gwaith craffu deddfwriaethol.

Ein hymateb oedd cynnal ymarfer cynllunio capasiti ar draws y sefydliad cyfan er mwyn alinio adnoddau yn well i feysydd blaenoriaeth. Arweiniodd hyn at ddefnyddio adnoddau ychwanegol dros dro i fynd i'r afael â'r llwyth gwaith deddfwriaethol trwm. Mae sefydlu Bwrdd Rhaglen Deddfwriaeth, sy'n cynnwys uwch staff y Comisiwn, wedi caniatáu mwy o drosolwg strategol ar graffu deddfwriaethol. Mae hefyd yn sicrhau y caiff adnoddau eu halinio ar draws meysydd gwasanaeth ac yn rhoi trosolwg o brosiectau datblygu, fel gwella'r meddalwedd Legislation Workbench a ddefnyddiwn ar y cyd â Llywodraeth Cymru.

Mae'r Comisiwn wedi parhau i adeiladu a gwella sgiliau drafftio deddfwriaethol cyfreithwyr y Comisiwn, drwy hyfforddiant a mentora gan gyn Gwnsler Seneddol profiadol. Mae Tri Bil Cynulliad a gyflwynwyd gan Aelodau'r Cynulliad wedi cael eu llunio drwy'r fenter hon, gan gynnwys y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru); y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) a'r Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru).

DEDDFU AR GYFER CYMRU

Biliau a'u cynnydd drwy'r Cynulliad (ar 31 Mawrth 2015), a'r Biliau a gafodd Gydsyniad Brenhinol dros y flwyddyn ddiwethaf.

1

Cyfnod 1: Ymchwiliad pwyllgor ac yna drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar egwyddorion cyffredinol.

Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)

Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)

Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)

Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

2

Cyfnod 2: Pwyllgor yn ystyried gwelliannau.

Bil Cymwysterau Cymru

3

Cyfnod 3: trafod y gwelliannau yn y Cyfarfod Llawn.

Bil Cynllunio (Cymru)

4

Cyfnod 4: Trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar a ddylid pasio'r Bil.

Ar ôl Cyfnod 4: Dyma'r cyfnod pan gaiff Bil ei baratoi ar gyfer Cydsyniad Brenhinol, neu weithiau ei gyfeirio i'r Goruchaf Lys.

– Y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

Cydsyniad Brenhinol: Daw'r Bil yn gyfraith.

Deddf Tai (Cymru) 2014

Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

Deddf Addysg (Cymru) 2014

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf y Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

Cefnogi pwyllgorau o safon fyd-eang

Mae pwyllgorau yn chwarae rhan hollbwysig o ran deddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am ei phenderfyniadau polisi a gwariant. Mae ganddynt gyfrifoldeb deul ar gyfer polisi a chraffu deddfwriaethol ac mae'r Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau y caiff y pwyllgorau yr adnoddau llawn er mwyn cyflawni eu swyddogaethau.

Er mai sefydliad bach yw hwn, ceir cymorth da o ran adnoddau ar gyfer pwyllgorau, ond mae hefyd wedi'i drefnu yn y fath fodd ag i wneud y gorau o effeithlonrwydd a sicrhau bod gan bwyllgorau yr amrywiaeth ehangaf o sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd sydd ar gael iddynt. Mae buddsoddiad parhaus y Comisiwn mewn Swyddfa benodedig yr UE ym Mrwsel yn gydnabyddiaeth o bwysigrwydd presenoldeb ym mhrifddinas yr UE i gefnogi gwaith y Cynulliad a'r pwyllgorau sy'n gysylltiedig â'r UE.

Caiff pob pwyllgor ei gefnogi gan dîm integredig (sy'n nodwedd unigryw ymysg deddfwrfeydd y DU), sy'n cynnwys clercod, ymchwilwyr, staff allgymorth a chyfathrebu, cyfreithwyr a chyfieithwyr sy'n darparu gwahanol agweddau ar gyngor arbenigol. Y dyhead yw ein bod yn darparu gwasanaethau arloesol o safon uchel heb i'r Aelodau erioed 'weld y gwifrau'.

Y ffocws ar gyfer 2014-15 oedd cryfhau'r diwylliant o welliant parhaus yn ein cefnogaeth i bwyllgorau, ymgorffori gweledigaeth y Comisiwn ar gyfer cymorth o'r radd flaenaf i bwyllgorau a sicrhau bod gweithgaredd yn cael ei arwain gan Aelodau, ac wedi'i deilwra i'w hanghenion.

Ym mis Tachwedd 2014, cymeradwyodd y Comisiwn nifer o welliannau a wnaed i gefnogi pwyllgorau, gan gynnwys bapurau briffio mwy cryno gan y gwasanaeth ymchwil, a'r rheini wedi'u teilwra; argaeledd cynyddol o bapurau preifat yn y ddwy iaith swyddogol; mwy o ddyfnder ac ehangder o ran ymgysylltu â phobl Cymru, yn enwedig pobl ifanc; a chyflwyno rhaglen barhaus o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer Aelodau. Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill, mae:

- monitro darparu papurau pwyllgor ar amser fel Dangosydd Perfformiad Allweddol, gan fesur yn erbyn terfynau amser y cytunwyd arnynt gan bob pwyllgor;
- gweithio gyda staff cymorth yr Aelodau i'w helpu i gymryd rhan yng ngwaith y pwyllgorau;
- defnydd cynyddol o gyngor arbenigol allanol pan fo angen;
- paratoi tystion yn well drwy ganllawiau ar-lein a sesiynau hyfforddi wedi'u teilwra ar gyfer rhanddeiliaid;
- cynnwys rhanddeiliaid mewn digwyddiadau'n ymwneud â lansio adroddiadau a dadleuon y Cyfarfod Llawn;
- gwybodaeth chwiliadwy a mwy hygyrch ar-lein;
- ffyrdd newydd o rannu gwaith pwyllgorau y tu hwnt i adroddiadau traddodiadol, gan gynnwys adborth wedi'i deilwra ar gyfer rhanddeiliaid sydd wedi cymryd rhan mewn gwaith pwyllgor, fideos, infograffeg, crynodebau iaith glir a llyfrynau'n dangos sut mae tystiolaeth wedi dylanwadu ar yr argymhellion.

Dyhead y Comisiwn

Dylai pwyllgorau'r Cynulliad ddangos eu bod yn gwella safon canlyniadau polisi, deddfwriaeth, gwasanaethau cyhoeddus a gwariant y Llywodraeth ar gyfer y gymdeithas gyfan yng Nghymru. Dylent gael eu parchu a bod yn ddylanwadol a hygyrch, gan weithredu gyda gonestrwydd ac annibyniaeth. Dylai eu gwaith fod yn strategol a thrwyadl.

Ffocws y Comisiwn

Y meysydd y mae angen inni ganolbwyntio arnynt er mwyn cyflawni ein dyhead gan ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael inni.

Dulliau gweithredu'r Comisiwn

Y pethau y gellir eu gwella i wneud ein pwyllgorau, a'r cymorth a roddir iddynt, mor dda â phosibl.



Mae adborth gan Aelodau a'u staff cymorth, drwy'r arolwg blynyddol, yn adlewyrchu lefelau uchel o foddhad gyda'r gwasanaethau estynedig a gyflwynodd y Comisiwn ar gyfer pwyllgorau. Mae'r sgôr gan Aelodau wedi aros ar lefel uchel yn gyson, ac mae wedi gwella ers y llynedd o ran y staff cymorth.

Mae'r gwelliannau hyn wedi cael eu llywio hefyd gan ymarfer dewis Aelodau. Cynhaliodd y timau integredig drafodaethau ag aelodau'r pwyllgorau i gael cymaint o wybodaeth â phosibl ynghylch sut y maent yn mynd ati i wneud gwaith pwyllgor, er mwyn deall sut y maent yn defnyddio'r cynnyrch a'r gwasanaethau a ddarperir iddynt ac i gael gwybod beth arall y gall timau ei wneud i helpu Aelodau i ymgysylltu a chymryd rhan yng ngwaith y pwyllgor.

Mae'r wybodaeth hon wedi galluogi staff i weithredu ystod o 'atebion cyflym' a chamau wedi'u teilwra i bob pwyllgor gyda'r nod o barhau i wella a mireinio lefel y gefnogaeth.

Bu cryn bwyslais ar weithio ar draws timau, a rhannu arferion da fel rhan o'r ymgyrch i ganfod ffyrdd mwy effeithlon ac effeithiol o weithio. Mae'r timau integredig wedi gwneud defnydd da o gyfleoedd dysgu a datblygu. Mae Fforwm Gweithdrefnau Cyfarwyddiaeth Busnes ac Arferion Da'r Cynulliad yn helpu i gefnogi hyn drwy raglen strwythuredig, gyda siaradwyr proffil uchel o ddeddfwrfeydd eraill a gweithdai'n canolbwyntio ar bynciau fel rhannu arfer da wrth ymgynghori a chasglu tystiolaeth ac edrych ar sut y gallai pwyllgorau graffu orau ar bwerau ariannol cynyddol y Cynulliad. Mae cyfleoedd eraill wedi cael eu defnyddio i ddatblygu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o faterion yr UE, gyda staff o bob rhan o'r Comisiwn yn ymweld â Brwsel ar gyfer rhaglen hyfforddi strwythuredig, wedi'u hariannu gan y Comisiwn Ewropeaidd, gyda chefnogaeth Swyddfa UE y Cynulliad.

Mae staff sy'n cefnogi pwyllgorau yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn trafodaethau ac yn arwain ambell un hefyd ar rwydweithiau seneddol ar draws y DU, sy'n dangos lefelau uchel o gefnogaeth ac arloesi yn ein gwaith pwyllgor.

Gwella gwasanaethau i bwyllgorau - atebion cyflym

Yn dilyn adborth gan yr Aelodau, newidiodd tîm integredig y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei linellau amser a phrosesau ar gyfer cynhyrchu briffiau wedi'u cyfieithu. Drwy gyfateb gwasanaethau i anghenion aelodau'r pwyllgor, mae wedi gwella ei lefel o wasanaeth gan sicrhau rhywfaint o arbedion effeithlonrwydd hefyd.

Mae deall pryd a ble y mae Aelodau'r Cynulliad yn paratoi ar gyfer pwyllgorau wedi golygu y gall y tîm integredig sy'n cefnogi'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd dargedu gohebiaeth y tu allan i gyfarfodydd pwyllgor mewn ffordd fwy gwybodus. Erbyn hyn, gall y tîm fod ychydig yn hyblyg wrth ddarparu papurau pwyllgorau (gan gynnwys papurau briffio) ac mae, er enghraifft, wedi gallu darparu gwell gwasanaethau dwyieithog. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl pe bai wedi parhau i weithio o fewn y terfynau amser mwy cyfyngedig a llai deallus a oedd wedi'u sefydlu cynt.

O ganlyniad i adborth gan yr Aelodau, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi addasu'r ffordd y mae'n cynllunio ei flaenraglen waith. Dywedodd yr Aelodau y byddai'n well ganddynt ganolbwyntio'n llawn ar un mater ar y tro. Cynt, roedd yn trafod nifer o faterion ar yr un pryd. Mae addasu'r flaenraglen waith, wedi golygu bod y Pwyllgor, bellach, yn cymryd tystiolaeth ar un mater dros gyfnod o wythnosau sy'n dilyn ei gilydd. I hwyluso hyn, fe wnaeth y tîm integredig newidiadau i'r ffordd y mae'n cefnogi ymchwiliadau'r Pwyllgor.

Gwahanol ffyrdd o ymgysylltu â gwaith y Cynulliad

- Mae pob pwyllgor bellach yn gweithredu ffrwd Twitter pwrpasol yn y ddwy iaith swyddogol.
- Defnyddir hashnodau perthnasol i dargedu grwpiau ac unigolion ar-lein i ofyn iddynt gyflwyno tystiolaeth i ymgynghoriadau pwyllgorau.
- Gan ddefnyddio'r llwyfan ar-lein, Google Hangouts, ar gyfer trafodaethau rhwng aelodau'r pwyllgor a chyfranogwyr ledled Cymru, mae hyn yn galluogi arbenigwyr a defnyddwyr gwasanaethau i gyfrannu heb fod angen teithio i'r Senedd ar gyfer sesiwn dystiolaeth ffurfiol.
- Mae Storify wedi cael ei ddefnyddio'n ehangach fel ffordd effeithiol o gasglu gwybodaeth am ymchwiliad pwyllgorau penodol, a'i rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Gellir gweld ein byrddau Storify yma: <https://storify.com/assemblywales>
- Defnyddio trafodaethau grŵp ffocws, fel y trafodaethau rhwng aelodau'r pwyllgor a chleifion cancer yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Cancer Llywodraeth Cymru:

“Cryw da yn y sesiwn @lechydsenedd gydag Aelodau a chleifion cancer. Negeseuon allweddol: mae angen gweithiwr allweddol a chynllun gofal ysgrifenedig #cansercymru” (@MacMillanCymru)

“Gwych clywed am y trafodaethau cadarnhaol heddiw yn y sesiynau grwpiau ffocws @lechydsenedd gyda chleifion ar gynllun cyflawni #cansercymru” (@NestaLloydJones).



Ymgysylltu ag ystod ehangach o bobl o bob rhan o Gymru

Mae pwyllgorau yn rhan ganolog o fusnes y Cynulliad ac mae darparu cymorth ymgysylltu arloesol ar gyfer pwyllgorau wedi bod yn flaenoriaeth. Mae nifer o weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd wedi cefnogi gwaith y pwyllgorau, gyda mwy o leisiau a gwahanol leisiau yn cyfrannu at ymchwiliadau pwyllgorau drwy arolygon, grwpiau ffocws a thystiolaeth fideo, gan gryfhau ystod a chyfoeth y dystiolaeth a gasglwyd. Mae'r Comisiwn hefyd wedi ail-ganolbwyntio adnoddau tuag at rymuso plant a phobl ifanc i gyfrannu at fusnes y Cynulliad ac ymgysylltu â hwy y tu hwnt i gyfyngiadau'r ystafell ddsbarth.

Dyma rai enghreifftiau o waith ymgysylltu gan bwyllgorau yn ystod y flwyddyn:

- Cymerodd 3,252 o bobl, gan gynnwys 2,377 o blant a phobl ifanc ran mewn arolwg ar ailgylchu fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.
- Ymwelodd Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol â phrosiectau fel Prosiect Wrexham Warehouse, Dan 24/7 yn y gogledd, DrugAid a Chlwb Ieuenctid Forsythia ym Merthyr Tudful fel rhan o'u hymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd, wedi'u dilyn gan ddigwyddiadau gyda staff rheng flaen yn Wrecsam a Merthyr.
- Cymerodd dros 1,000 o bobl ifanc ran mewn arolwg yn gofyn am eu barn am y cwricwlwm a chymwysterau. Dywedodd y bobl ifanc wrthym y dylai llythrennedd ariannol, gwleidyddiaeth ac ieithoedd busnes modern gael eu dysgu fwy mewn ysgolion. Dim ond 29 y cant o'r rhai a ymatebodd oedd yn teimlo fod yr hyn oedd yn cael ei addysgu mewn ysgolion ar hyn o bryd yn eu paratoi'n ddigonol at fywyd ar ôl yr ysgol a dod o hyd i waith. Rhannodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y canfyddiadau hyn gyda'r Athro Graham Donaldson, sy'n arwain Adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru. Dywedodd yr Athro Donaldson:

"Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Pwyllgor am ddwyn hyn i'm sylw ac am rannu canfyddiadau eich arolwg diweddar â mi. Bydd yn sicr o ddiddordeb mawr i mi wrth lunio fy argymhellion i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau."

- Cafodd canlyniadau'r arolwg hwn eu hystyried hefyd gan y Pwyllgor Menter a Busnes, fel rhan o'i ymchwiliad i Helpu Pobl Ifanc i gael Gwaith, ac a oedd yn ystyried y cyngor ar yrfaeodd a gaiff pobl ifanc mewn ysgolion. Maer canlyniadau yn ategu'r hyn a ddywedodd nifer o bobl ifanc wrth y tîm Allgymorth wrth roi tystiolaeth fideo – sef, bod angen gwella'r cyngor ar yrfaeodd a ddarperir mewn ysgolion er mwyn helpu pobl ifanc i benderfynu sut i ddod o hyd i waith a chael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud hynny. Dangosodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r arolwg a'r dystiolaeth fideo i'r Dirprwy Weinidog mewn sesiwn graffu gyhoeddus o'r Pwyllgor yn y Senedd.

- Cymerodd tenantiaid ran mewn cyfres o drafodaethau bord gron anffurfiol gydag Aelodau o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i rannu eu safbwyntiau ar y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru), fel rhan o waith craffu Cyfnod 1 ar y Bil. Wrth ysgrifennu fel gwestai ar flog y Cynulliad, dywedodd Is-Lywydd Undeb Myfyrwyr Campws Parc y Mynydd Bychan ym Mhrifysgol Caerdydd:

“Wnes i wir fwynhau cymryd rhan yn y grwpiau ffocws, ac roedd yn wych clywed Aelodau'r Cynulliad a oedd â chymaint o ddiddordeb mewn clywed barn myfyrwyr. Dwi'n edrych ymlaen at pan gaiff y Bil Cartrefi ei ryddhau, a gobeithio y bydd fy marn yn cael ei hystyried. Diolch i Gynulliad Cymru am y gwahoddiad!”

- Trefnodd y tîm Allgymorth ddigwyddiad ar gyfer y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol fel rhan o'i ymchwiliad i Ddeddfu yn y Pedwerydd Cynulliad. Dyma'r tro cyntaf i ddigwyddiad pwyllgor gael ei achredu, sy'n golygu bod y rhai a oedd yn bresennol wedi cyfrannu drwy gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp ag Aelodau ac wedi derbyn pwyntiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus am gymryd rhan.
- Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i dlodi, ymwelodd yr Aelodau â phrosiectau Remploy, RNIB ac Oasis ledled Cymru i drafod materion â defnyddwyr y gwasanaethau.
- Cynhaliodd y Pwyllgor Menter a Busnes ddigwyddiad i randdeiliaid ar Gampws Cyncoed Prifysgol De Cymru i drafod profiadau myfyrwyr, academyddion a staff rhaglen symudedd Erasmus yr Undeb Ewropeaidd fel rhan o'i ymchwiliad i gyfleoedd cyllid yr UE 2014-2020.

Rydym yn falch o'r gwaith sy'n cael ei wneud i gynnwys plant a phobl ifanc a'u cynnwys mewn ffyrdd ystyrlon yng ngwaith y Cynulliad. Fel y mae'r dudalen nesaf yn dangos, mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud i ymgorffori ymgysylltu â phobl ifanc yn ymgynghoriadau'r pwyllgorau, gyda dros 8,000 o bobl ifanc yn cymryd rhan ym musnes y Cynulliad dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi cyflawni hyn drwy addasu ein technegau ymgysylltu yn dibynnu ar natur yr ymgynghoriad; ehangu ein rhwydwaith partneriaeth; sicrhau ein bod yn gadael i bobl ifanc wybod sut mae'r pwyllgorau wedi ystyried a defnyddio eu cyfraniadau a dysgu gwersi i barhau i wella yr hyn sydd gennym i'w gynnig i blant a phobl ifanc.

CYNNWYS POBL IFANC YNG NGWAITH Y CYNULLIAD

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae dros 8,000 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yng ngwaith Pwyllgorau'r Cynulliad

Y Pwyllgor Amgylchedd a
Chynaliadwyedd

Ymchwiliad i ailgylchu

2,783

Bil Aelod

Y Bil Addysg a Chynhwysiant
Ariannol (Cymru)

623

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal
Cymdeithasol

Ymchwiliad i sylweddau
seicoweithredol newydd

519

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc
ac Addysg

Ymchwiliad i waith athrawon cyflenwi

929

Y Pwyllgor Menter a Busnes

Ymgynghoriad i helpu pobl ifanc i gael
gwaith

2,008

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc
ac Addysg

Ymchwiliad i'r cwricwlwm,
asesiadau a chymwysterau

1,177

Ymgysylltu drwy'r broses Ddeisebau

Mae system Ddeisebau'r Cynulliad yn parhau i fod yn ffordd boblogaidd, syml a hawdd ei deall i ddinasyddion ymgysylltu â'r Cynulliad a, thrwy hynny, â Llywodraeth Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor Deisebau 85 o ddeisebau newydd rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015, a rhyngddynt, fe'u cefnogwyd gan bron i 90,000 o bobl.

O werth arbennig yw'r modd y gall y system ddeisebau helpu i sicrhau gwelliannau mewn polisiâu neu arferion o ran materion sy'n peri pryder penodol. Er enghraifft, roedd un ddeiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud trefniadau mwy cyson ledled Cymru ar gyfer personoli beddau, yn enwedig beddau babanod a phlant. Drwy hyn, cytunodd y Gweinidog cyfrifol i ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru yn gofyn iddynt sicrhau bod ganddynt reolau a rheoliadau clir ar waith, sy'n cael eu cadw yn gyfoes, gyda chysondeb wrth eu gorfodi.

Dim ond rhan o'r darlun yw'r nifer sylweddol o ddeisebau a gyflwynwyd (bron 600 ers dechrau'r Cynulliad presennol) a'r nifer sylweddol o bobl sy'n eu llofnodi. Er na fydd llawer o'r deisebau yn cyflawni eu nod gwreiddiol yn uniongyrchol, gwyddom o drafod gyda deisebwyr bod y system ddeisebau yn cael ei hystyried yn ffordd gadarnhaol o geisio dylanwadu ar bolisi'r Llywodraeth neu ei newid, ac o ysgogi trafodaeth gyhoeddus ynghylch syniadau newydd neu bolisiâu newydd i'r Cynulliad eu hystyried. Gwyddom, hefyd, fod deisebwyr yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y system yn cynnig llwybr uniongyrchol i ddinasyddion fynegi pryderon a chyflwyno syniadau yng nghanol llywodraeth ac yn uniongyrchol gan Aelodau'r Cynulliad eu hunain.

Gan edrych ymlaen i'r dyfodol, mae'r Pwyllgor Deisebau yn adolygu ei system i ganfod pa welliannau eraill y gellir eu gwneud. Fel rhan o hyn, mae'r Pwyllgor yn cynnal arolwg o farn pawb sydd wedi deisebu yn y gorffennol a deisebwyr presennol, a'r cyhoedd yn gyffredinol, ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb yn y maes hwn. Bydd y canlyniadau yn helpu'r Cynulliad i benderfynu ar y ffordd orau o gefnogi'r broses ddeisebau yn y dyfodol.



Gweithio mewn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog

Mae'r gallu i gymryd rhan yn ddirwystr yn y naill a'r llall o'n hieithoedd swyddogol mewn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog yn ddyhead pwysig i'r Comisiwn. Mae'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol, y cytunwyd arno gan y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2013, yn nodi ein huchelgais i fod yn esiampl o fewn Cymru. Wrth gyflwyno Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol cyntaf Comisiwn y Cynulliad ar y Cynllun ym mis Gorffennaf 2014, dywedodd Rhodri Glyn Thomas AC, y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros y polisi dwyieithog:

"Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio ein hadnoddau yn ddoeth i ddarparu'r gwasanaethau dwyieithog gorau drwy holl feysydd gwaith y Cynulliad i sicrhau y gall pawb sy'n ymgysylltu â ni wneud hynny yn y naill iaith swyddogol neu'r llall. Mae dwyieithrwydd yn rhan annatod o'r holl wasanaethau."

Rydym wedi gweithio i drawsnewid y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau dwyieithog drwy ein defnydd o dechnoleg, drwy sefydlu ein Strategaeth Sgiliau Dwyieithog ym mis Ebrill 2015 i ganolbwyntio o'r newydd ar adnoddau staffio a newid diwylliant y sefydliad mai gweithio'n ddwyieithog yw'r norm.

Mae cynnydd wedi bod yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae hyn i'w weld yng nghanlyniadau arolwg 2014 o Aelodau'r Cynulliad, pan ofynnwyd i Aelodau a'u staff roi sgôr ar gyfer y gefnogaeth a gânt i weithio yn eu dewis iaith; dyma a gafodd y sgôr uchaf o bob maes yn yr arolwg. Mae lansio Microsoft Translator yn 2014 wedi trawsnewid ffyrdd o weithio drwy alluogi'r defnyddiwr i gyfieithu o un iaith i'r llall yn uniongyrchol o raglenni a gaiff eu cefnogi gan Microsoft. Mae hyn wedi arwain at newid yn y ffyrdd yr ydym yn cyfathrebu fel sefydliad, ar gyfer pobl ddi-Gymraeg a chyfieithwyr proffesiynol. Gall y di-Gymraeg gael hanfod gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg, ac mae defnydd y cyfieithwyr o gyfieithu peiranyddol wedi arwain at effeithlonrwydd cynyddol cyffredinol o tua 20 y cant. Mae hyn wedi arwain at ryddhau adnoddau staffio i weithio mewn meysydd blaenoriaeth eraill.

Mae gwaith yn parhau i gael ei wneud gyda Microsoft er mwyn gwella'r cyfleuster, ac mae'r Gwasanaeth Cyfieithu wedi cysylltu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus dwyieithog i ddangos manteision cyfieithu peiranyddol, yn ogystal ag annog sefydliadau i rannu data gyda ni i wella ansawdd y system gyfieithu.

Nid yw ein hymdrechion i drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio'n ddwyieithog yn dibynnu ar dechnoleg yn unig. Mae lansiad y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn amlinellu ein dull o gynllunio, datblygu a rheoli adnoddau sgiliau dwyieithog y sefydliad. Un o bum amcan y strategaeth yw asesu sgiliau Cymraeg pob aelod o staff. Bydd yr archwiliad dilynol o sgiliau Cymraeg yn mapio sgiliau Cymraeg presennol pob aelod o staff a chaiff ei ddefnyddio i nodi ein cryfderau a meysydd ar gyfer gwella.

Yn ogystal, mae penodi tiwtor Cymraeg ym mis Tachwedd 2014 ar gyfer y staff wedi bod yn llwyddiannus oherwydd y dull amrywiol, wedi'i deilwra sydd ar gael. Mae hyn wedi cynnwys sesiynau mentora un i un, gwersi ffurfiol a gweithgareddau dysgu mwy anffurfiol i unigolion a grwpiau, o

ddechreuwr llwyr i ddysgwyr uwch. Un o'r prif flaenoriaethau oedd cynnig hyfforddiant i'n staff sy'n wynebu'r cyhoedd, fel y swyddogion diogelwch a'r staff arlwyo, ac mae hyn wedi bod yn arbennig o llwyddiannus. Mae mentrau eraill fel 'Gair y Dydd' ar fewnrwyd y staff wedi bod yn boblogaidd hefyd, ac mae 74 o aelodau staff (62 o staff y Comisiwn a 12 o staff arlwyo) bellach wedi cael hyfforddiant.

Gwella sgiliau drwy Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae'r Comisiwn wedi parhau i ddarparu cyfleoedd DPP i Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yn ystod y flwyddyn, gyda lefelau ardderchog o gyfranogiad. Mae 40 o Aelodau a 164 o'u staff wedi manteisio ar gyfleoedd DPP yn ystod y flwyddyn. Cymerodd yr Aelodau a phwyllgorau ran mewn rhaglen DPP ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau, elfen o gafodd ei chyflwyno ar y cyd â chymheiriaid o Gynulliad Gogledd Iwerddon, ac mae cymorth parhaus wedi cael ei ddarparu ar gyfer pwyllgorau wrth wneud gwaith craffu deddfwriaethol ac ariannol. Mae sesiynau briffio wedi cael eu cynnal ar newidiadau cyfansoddiadol y DU-gyfan a chefnogaeth yn cael ei chynnig i'r rhai sydd am ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg. Roedd yr ymyriadau wedi'u targedu'n benodol at staff cymorth yr Aelodau yn cynnwys cwrs Rheoli ac Arweinyddiaeth achrededig; ysgrifennu areithiau a hyfforddiant o ran cysylltiadau â'r wasg; a chymorth i'r rhai sy'n gweithio mewn swyddfeydd etholaethol ar ddiwygio lles, ymyrraeth hunanladdiad, rheoli swyddfa a recriwtio.

Y Senedd

Mae nifer yr ymwelwyr ar deithiau a lefelau boddhad ymwelwyr wedi parhau i godi drwy gydol y flwyddyn. Mae'r adborth a gafwyd gan ymwelwyr yn gadarnhaol ac yn dangos bod grwpiau yn gadael gyda gwell dealltwriaeth o'r Cynulliad a sut mae'n gweithio.

“Rydym wedi mwynhau bob munud o'r daith! Yr oedd yn ddiddorol, mor hyfryd edrych o amgylch y Senedd, a dysgu mwy am y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd ein tywysydd yn wych, yn gyfeillgar iawn a gallech ddweud ei fod wir yn credu yn y gwerthoedd a'r egwyddorion a hyrwyddir gan y Cynulliad. Diolch yn fawr.”

“Roedd tywysydd y gyfeillgar, yn gadarnhaol ac yn llawn gwybodaeth. Roedd pawb yn y grŵp yn ymddangos fel pe bai ganddynt ddiddordeb yn y daith ac rydych yn sicr yn dysgu mwy na fydddech wrth gerdded o gwmpas ar eich pen eich hun. Ni fyddem yn petruso dim wrth argymhell y daith o amgylch y Senedd i eraill.”

“Mae'n destun balchder i Gymru. Adeilad hardd, staff cwrtais, hyfryd.”

AGORWYD GAN EI MAWRHYDDI ENHINES

OPENED BY HER MAJESTY THE QUEEN ON 13-2006

Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

Blaenoriaeth y Comisiwn yn y maes hwn yw dangos bod y Cynulliad yma i weithio dros bobl Cymru a dangos effaith ei waith ar eu bywydau, er mwyn sefydlu diben y Cynulliad yng nghalonau a meddyliau pobl Cymru. Mae ystâd y Cynulliad a'i adeiladau eiconig yn ased gwerthfawr ac arwyddocaol y gallwn eu defnyddio i hyrwyddo'r Cynulliad a'i waith.

Bu cynnydd mawr mewn agweddau penodol ar ein gwaith ar ymgysylltu ledled Cymru. Eleni, cynhaliwyd rhaglen gyffrous o ddigwyddiadau mawr, yn defnyddio'r Senedd fel canolfan ar gyfer bywyd cyhoeddus Cymru.

Bu'r Senedd yn gartref i nifer o ddigwyddiadau allweddol o arwyddocâd cenedlaethol, gan gynnwys dychweliad Tîm Cymru o Gemau'r Gymanwlad a diwrnod i'r teulu ar Ddydd Gŵyl Dewi, gyda dros 500 o westeion yn dathlu'r diwrnod, gyda gweithgareddau celf a chrefft ac adloniant cerddorol gan blant ysgol lleol.

Mae mentrau o dan arweiniad y Cynulliad ledled Cymru yn rhoi cyfleoedd i filoedd o bobl ymgysylltu â'r Cynulliad. Roedd ein presenoldeb mewn 12 digwyddiad cenedlaethol a rhanbarthol ledled Cymru yn ein galluogi i siarad â bron i 10,000 o aelodau o'r cyhoedd fel rhan o raglen ddigwyddiadau'r haf lwyddiannus. Ymatebodd ymwelwyr yn gadarnhaol i ymweliad y Cynulliad Cenedlaethol â'u cymunedau a gofyn am eu hadborth a chyfraniad at ei waith. Aeth y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i Sioe Amaethyddol Cymru, lle y trafodwyd y sector ffermio ac amaeth yng Nghymru a lle y cafodd y Pwyllgor gyfraniadau sylweddol i'w Ymchwiliad i Ailgylchu yng Nghymru. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol, roedd gan yr ymwelwyr ddiddordeb mawr mewn trafod y Gymraeg mewn oes ddigidol a lansiad rhaglen goffa'r Cynulliad Cenedlaethol ym Mhabell y Cymdeithasau i nodi'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ar ystâd y Cynulliad fel rhan o ddigwyddiad coffáu swyddogol y Cynulliad i nodi canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd hyn yn cynnwys lansio rhaglen Cymru dros Heddwch, sef digwyddiad ar gyfer Heddlu Trafnidiaeth Prydain i goffáu y rhai a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, dadl ar gyfer pobl ifanc yn Siambr Hywel a darlith gan y Pennaeth Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Ein hymrwymiad i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Cafodd uchelgais y Comisiwn ar gyfer gwaith ymgysylltu â phobl ifanc ei lywio gan farn bron i 3,000 o bobl ifanc, a gasglwyd yn 2013. Roedd y farn hon yn caniatáu inni ddatblygu tair egwyddor graidd fel sail ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc - estyn allan, caniatáu trafodaeth a rhoi adborth, a gosod tri maes blaenoriaeth i weithio arnynt - ymgysylltu â phobl ifanc ym musnes y Cynulliad, gweithio gyda chynulleidfaoedd newydd a'r ymgynghoriad Pleidleisio@16.

Mae'r Siarter Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc, a lofnodwyd gan y Llywydd ac Arweinwyr y Pleidiau yn y Senedd ym mis Gorffennaf 2014, yn sail i ymrwymiad y Cynulliad i gynyddu ei ymgysylltiad â phobl ifanc Cymru. Wrth lansio'r Siarter, dywedodd y Llywydd:

“Mae Comisiwn y Cynulliad bellach wedi cytuno ar weledigaeth newydd ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc. Rydym am i'r Cynulliad gael ei weld fel arweinydd byd o ran ymgysylltu â phobl ifanc, lle y bydd galluogi pobl ifanc i gael clust i wrando ar eu barn ar y materion sy'n bwysig iddyn nhw, a rhoi gwerth ar eu barn wrth wraidd democratiaeth Cymru.

Ategir y gwaith hwn gan Siarter newydd sy'n gontract rhyngom â phobl ifanc Cymru. Mae'n amlinellu'r hyn y gall pobl ifanc ei ddisgwyl gan y Cynulliad, a'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl ganddynt hwy.”

Bellach, mae pontio pendant rhwng y staff sy'n ymwneud ag adeiladu dull cryfach, mwy cynhwysol o gynnwys pobl ifanc yng ngwaith y Cynulliad. Mae'r tîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc, sy'n cynnwys Swyddog Ymgysylltu â Phobl Ifanc newydd, wedi canolbwyntio ei adnodd o'r newydd i gynyddu cyfleoedd i gysylltu â'r sector addysg nad yw'n ffurfiol, cryfhau ein rhwydweithiau o grwpiau ieuenctid a mudiadau eraill a chynnig mwy o gyfleoedd i ymgysylltu y tu allan i'r ysgol er mwyn cynnwys pobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd.

Dy Gynulliad di
Dy lais di
Dy ffordd di

Your Assembly
Your say
Your way

Y Siarter Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc

Mae plant a phobl ifanc Cymru wedi dweud:

- Siaradwch gyda ni,
- Gwrandewch arnom ni, a
- Cymerwch ni o ddifrif.

Ar y dydd hwn, 16 Gorffennaf 2014, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymrwmo i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn cael y cyfle i gyfrannu at ein gwaith.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Estyn allan ac annog cyfranogiad;
- Helpu pobl ifanc i drafod y materion sy'n effeithio arnynt hwy;
- Rhoi adborth a'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfraniadau pobl ifanc i'n gwaith.

Byddwn ninnau'n disgwyl i bobl ifanc:

- Gymryd rhan yn ein gwaith a rhoi barn onest inni;
- Deall y gall gymryd llawer o amser i newid pethau ar ôl i rywun fynegi ei farn;
- Parchu safbwyntiau eraill a deall mai democratiaeth yw'r Cynulliad ac mae'n rhaid inni felly ystyried mwy nag un safbwynt.

Children and Young People Engagement Charter

The children and young people of Wales have said:

- Speak to us,
- Listen to us, and
- Take us seriously.

On this day, 16 July 2014, the National Assembly for Wales commits to making sure that every child and young person in Wales has the opportunity to contribute to our work.

We will do this by:

- Reaching out and encouraging participation;
- Helping young people to debate the issues that affect them;
- Providing feedback and updates on young people's contributions to our work.

In return, we will expect young people to:


- Participate in our work and give us their honest opinion;
- Understand that it may take a long time to change things after they have had their say;
- Respect the views of others and understand that the Assembly is a democracy so we must take more than one view into account.



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Tudalen y pecyn 48



Pleidleisio@16?

Un o brif feysydd gwaith ymgysylltu â phobl ifanc oedd y sgwrs genedlaethol Pleidleisio@16? a gafodd ei lansio gan y Llwydd ar ddiwrnod pen-blwydd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn 25 ar 20 Tachwedd 2014. Mae'r ymgyrch chwe mis hon, sydd wedi digwydd yn erbyn cefndir o newidiadau cyfansoddiadol ehangach y DU, yn gofyn i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed yng Nghymru am eu barn am ostwng yr oedran pleidleisio i 16. Rydym wedi cael ymateb gwych, gyda dros 10,000 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy ystod o ddulliau, gan gynnwys gwefan benodedig i bobl ifanc, yn www.dygynulliaidi.org; mewn cyfarfodydd grwpiau ieuenctid gyda'r timau Addysg ac Allgymorth a thrwy ddefnyddio pecynnau gwybodaeth a grëwyd yn arbennig i ganiatáu i bobl ifanc gynnal y drafodaeth eu hunain. Mae gwaith wedi cael ei wneud gydag Aelodau'r Cynulliad hefyd i gasglu barn pobl ifanc drwy gyfrwng tystiolaeth fideo a lluniau. Dyma sampl o farn pobl ifanc ar y pwnc o ostwng yr oedran pleidleisio:

“Os ydych yn ddigon hen i adael cartref, gweithio neu gael plentyn, dylech allu cael rhoi eich barn am sut i redeg y wlad.”

“Mae'n rhaid i bobl gael eu haddysgu cyn y disgwylir iddynt bleidleisio.”

“Caiff democratiaeth ei chynnal gan ddinasyddion sy'n chwarae eu rhan yn gyfartal fel gwleidyddion a deddfwriaeth yn gwneud eu rhan.”

“Er mwyn i bob llais gael ei glywed, rhaid i leisiau gael eu defnyddio.”

Roedd Cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth y DU ym mis Chwefror 2015 yn arwydd y bydd y Cynulliad yn cael y pŵer yn y dyfodol i ddeddfu i ostwng yr oedran pleidleisio. Bydd y Cynulliad yn cynnal diwrnod ieuenctid ym mis Gorffennaf 2015 i ystyried y dystiolaeth a chanlyniadau'r ymgynghoriad a thrafod yr hyn a ddylai ddigwydd nesaf.

ADDYSG AC YMGYSYLLTU Â PHOBL IFANC


Bu ein Tîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc yn parhau i weld niferoedd mawr o bobl ifanc o bob cwr o Gymru eleni - a rhannu eu gwybodaeth am waith y Cynulliad a sut y gall pobl ifanc gymryd rhan.

203

YMWELIAD
ADDYSGOL
Â BAE CAERDYDD

6201

MYFYRIWR WEDI
CYMRYD RHAN



297

GWEITHGAREDD
ALLGYMORTH
ADDYSGOL

9,998

MYFYRIWR WEDI
CYMRYD RHAN

20

GWEITHGAREDD
YMGYSYLLTU Â
PHOBL IFANC

559

PERSON IFANC WEDI
CYMRYD RHAN

29

MUDIAD
IEUENCTID WEDI
CYMRYD RHAN



42 CYFARFOD GYDA
GRŴPIAU IEUENCTID

CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn cadw mewn cysylltiad â mwy o bobl ac yn darparu cynnwys diddorol trwy ein llwyfannau ar-lein.

MAE EIN DILYNWYR
TWITTER WEDI CYNFYDDU
13,555



SEF
600
O DDILYNWYR
Y MIS AR
GYFARTALED

36

FFRWD TWITTER YN
CYRRAEDD DROS
30,000
PROFFIL



BELLACH MAE GENNYM DROS

50

SIANEL AR DRAWS SAWL
PLATFFORM O RAN Y
CYFRYNGAU CYMDEITHASOL



MAE NIFER Y BOBL
SY'N EIN HOFFI AR
FACEBODD WEDI CYNFYDDU

35%

BELLACH MAE GENNYM

30000

YN HOFFI DROS 5
TUDALEN FACEBOOK



Y NIFER SYDD WEDI GWYLIO AR YOUTUBE

75,000

Tudalen y pecyn 51

SY'N CYFATEB I DROS

70

DIWRNOD O
WYLIO FIDEOS

Datblygu deialog ar-lein gyda'n cynulleidfaoedd, estyn allan a gwneud gwahaniaeth gyda chyfryngau cymdeithasol

Rydym wedi parhau i gyflwyno cynnwys y cyfryngau cymdeithasol yn unol â pholisi a strategaeth cyfryngau cymdeithasol y Comisiwn, gan gyflwyno gwybodaeth mewn ffordd agored, hygyrch a diddorol, a phrofi anghenion ein cynulleidfaoedd yn rheolaidd. Mae ein defnydd arloesol o gyfryngau cymdeithasol yn rhywbeth yr ydym yn falch ohono a chaiff ei edmygu gan gydweithwyr seneddol a chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus.

Nid rhywbeth ynysig a wnawn yw'r cyfryngau cymdeithasol, mae'n rhan o sbectrwm o weithgareddau ymgysylltu. Felly, bu twf cyflym yn y defnydd o gyfryngau cymdeithasol fel ffordd o roi gwybod i bobl am waith y Cynulliad, ond hefyd fel ffordd o ymgysylltu â rhannau mor eang ac amrywiol o'r cyhoedd ag y bo modd.

- Bellach, mae gan y Cynulliad dros 50 sianel yn y ddwy iaith swyddogol ar draws lawer o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol gwahanol, gan ehangu cyrhaeddiad busnes y Cynulliad yn sylweddol drwy gysylltu â gwahanol gynulleidfaoedd.
- Gyda 36 ffrwd Twitter, rydym wedi gallu cynyddu ein cyrhaeddiad i dros 30,000 o broffiliau.
- Rydym yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i roi gwybod i bobl am fusnes allweddol y Cynulliad, fel dadleuon yn y Cyfarfod Llawn a Chwestiynau i'r Prif Weinidog.
- Mae cynnydd mewn nifer dilynwyr y rhan fwyaf o ffrydiau Twitter Cymraeg a Saesneg bob mis, gyda chyfrifon @dygynulliad a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol @lechydsenedd yn dringo i dros 1,600 a 1,200 o ddilynwyr yr un.
- Mae'r prif gyfrif corfforaethol @CynulliadCymru ar Twitter, yn tyfu'n gyflym, gyda dros 28,000 o ddilynwyr, a chyfartaledd o 600 o ddilynwyr newydd bob mis.
- Bellach, mae pum tudalen Cynulliad wedi'u sefydlu ar Facebook, gyda chyfuniad o dros 3,000 yn 'hoffi' ac mae'r nifer yn dal i dyfu.
- Mae fideos ar sianel YouTube y Cynulliad wedi casglu dros 75,000 o wylwyr - sy'n cyfateb i werth 70 niwrnod o wyllo.
- Un o'r ymgyrchoedd mwyaf llwyddiannus yn y cyfryngau cymdeithasol yn ystod 2014 oedd #1000Plenary. I ddathlu'r milfed Cyfarfod Llawn ar 8 Hydref 2014, cysylltwyd â holl Seneddau'r DU, ynghyd â Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i roi gwybod iddynt am y digwyddiad a'u hannog i ddefnyddio'r hashnod #1000Plenary. Roedd y canlyniadau'n ddramatig, ac mewn llai na 24 awr roedd yr hashnod wedi cyrraedd dros 405,000, gan sicrhau mai dyma ymgyrch ar-lein fwyaf llwyddiannus y Cynulliad mewn amser byr.
- Ymarfer arloesol arall ar y cyfryngau cymdeithasol oedd ymgyrch Twitter yn gwahodd cwestiynau i'r Llywydd, ac ymatebodd hithau wedyn ar fideos byr a gafodd eu rhoi ar YouTube. Mae hyn yn galluogi cynulleidfaoedd i ymgysylltu â'r Llywydd mewn ffordd newydd, wrth iddynt wyllo fideo ohoni'n ateb cwestiynau'n uniongyrchol.

Dulliau arloesol eraill o gyfathrebu:

Mae blogs wedi dod yn ffordd fwyfwy poblogaidd ac effeithiol o rannu gwybodaeth. Mae defnyddio llais llai ffurfiol ar flog Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ein galluogi i drafod gwaith y Cynulliad mewn ffordd haws ei deall, â chynulleidfa a allai fod yn anghyfarwydd ag ambell i derminoleg neu broses. Gyda bron 200 o erthyglau blog a 13,000 o ymwelwyr hyd yn hyn, mae hefyd yn gyfle i hyrwyddo gwaith y Cynulliad i amrywiaeth o bobl sydd â diddordeb ac sy'n cysylltu â ni ar-lein.

Mae blog dwyieithog Y Gwasanaeth Ymchwil *Pigion / In Brief yn ffordd boblogaidd ac effeithiol* o ran defnydd effeithlon o adnoddau, o gynhyrchu erthyglau byr, atyniadol, cyfoes. Anelir yr erthyglau at yr Aelodau a'u staff ac maent yn bennaf cysylltiedig â busnes y Cynulliad, er bod ffigurau adborth a gwyllo yn dweud wrthym eu bod o ddiddordeb i ystod eang o randdeiliaid, sefydliadau ac unigolion, ac felly'n cyfrannu at y ddadl wleidyddol ehangach yng Nghymru. Mae ffigurau gwyllo wedi tyfu'n gyflym ers lansio'r blog ym mis Hydref 2013, gyda 65,200 wedi edrych ar y blog Saesneg a 6,003 wedi edrych ar y blog Cymraeg. Mae rhai o'r erthyglau blog sydd wedi'u hail-drydar fwyaf wedi cynnwys mapiau ac infograffeg yn dangos materion amserol cyllidebol ac ariannol a gwybodaeth arall mewn fformat graffig fwy apelgar, gweledol.

Cafodd llwyfan Senedd.tv newydd mwy effeithlon ei lansio ym mis Medi 2014, ac mae'n gyfle arall i hyrwyddo gwaith y Cynulliad. Mae'n caniatáu i ddefnyddwyr wyllo, oedi ac ail-chwarae darllediadau byw ar wahanol ddyfeisiau gan gynnwys tabledi a ffonau clyfar. Gall defnyddwyr hefyd ddewis eu clipiau eu hunain o gyfarfodydd - yn ôl amser dechrau a gorffen, neu yn ôl eitem agenda benodol - y gellir ei rannu'n rhwydd gyda phobl eraill trwy gyfryngau cymdeithasol ac e-bost, neu eu gosod ar wefannau eraill. Mae lansio Senedd.tv wedi denu pobl newydd i'r gwasanaeth ac mae'r ffigurau gwyllo yn llawer uwch nag o'r blaen.

Mae lansio ap dwyieithog y Cynulliad ar gyfer dyfeisiadau symudol ym mis Mawrth 2015 mewn derbyniad TEDx a gynhaliwyd yn y Senedd, wedi ychwanegu dull ar-lein arall i bobl gael gwybod mwy am yr hyn sy'n digwydd yn y Cynulliad. Wrth lansio'r ap, dywedodd Peter Black AC, Comisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, darlledu ac e-ddemocratiaeth:

"Gyda rhagor o'n defnyddwyr nag erioed o'r blaen yn edrych ar ein gwaith drwy ddefnyddio dyfeisiau symudol, gan gynnwys bron i 60 y cant o fideos a wylwyd ar ein sianel YouTube, mae creu'r ap newydd hwn yn ddilyniant naturiol yn ein gweithgarwch ymgysylltu ar-lein."

Y Cynulliad oedd un o'r sefydliadau cyntaf i gymryd yr enwau parh mewnwyd lefel uchaf .cymru / .wales ar gyfer Cymru, gan nodi un o'r newidiadau mwyaf i dirwedd y rhyngwyd yng Nghymru ers lansio'r we fyd-eang ym 1989. Roedd y symudiad hanesyddol hwn a mudo 120,000 o dudalennau a 100,000 o ddogfennau yn llwyddiannus ar wefan y Cynulliad i'r platfform SharePoint newydd yn gyfle i ailfeddwl ac adnewyddu strwythur a chynllun cynnwys holl wefannau'r Cynulliad. Bellach, mae'r wefan yn fwy defnyddiol ar ffonau symudol ac mae'n haws i ddefnyddwyr chwilio a chael gwybod beth sy'n digwydd yn y Cynulliad, gan arwain at arbedion sylweddol o ran cynnal a chadw a chostau cynnal.

LLYWIO TRAFODAETH - BLOG Y GWASANAETH YMCHWIL

Ers iddo gael ei lansio 2013, mae 'Pigion', blog y Gwasanaeth Ymchwil, wedi parhau i dyfu'n ffynhonnell o wybodaeth amserol y gellir ymddiried ynddi i Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid eraill, gan lywio trafodaethau ledled Cymru.



423


BLOGIAU GWEDD

71,203

WEDI EDRYCH AR Y BLOG CYMRAEG NEU SAESNEG

DIWRNOD PRYSURAF Y BLOG SAESNEG OEDD

24 EBRILL 2015



EDRYCHWYD ARNO

703

O WEITHIAU



Y PUM POST AR **IN BRIEF** GYDA'R NIFER MWYAF O GLICIAU UNIONGYRCHOL:

General Election 2015: The battleground in Wales

969 WEDI'I WELD

Obesity Levels in Wales

886 WEDI'I WELD

The Welsh language and legislation – the latest position

642 WEDI'I WELD

New figures for youth unemployment and young people not in education, employment or training released

460 WEDI'I WELD

Drive time to major A&E hospitals

456 WEDI'I WELD



THE FIVE BLOG POSTS ON **PIGION** WITH THE GREATEST NUMBER OF DIRECT CLICKS ARE:

Y Gymraeg yn deddfwriaeth - y sefyllfa Diweddaraf

129 WEDI'I WELD

Etholiad Cyffredinol 2015: y frwydr yng Nghymru

108 WEDI'I WELD

Cyhoeddiad Newydd: Amseroedd aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn y GIG Awst 2014

64 WEDI'I WELD

Bwrw Mlaen – I'r cyfeiriad cywir er budd y Gymraeg?

46 WEDI'I WELD

Adolygiad Donaldson: Ei feirnidaeth a'i weledigaeth

37 WEDI'I WELD

Tudalen y pecyn 54

Mynd â'r Cynulliad ar daith gyda #SeneddWrecsam

Cynhaliodd Tîm Digwyddiadau'r Cynulliad wythnos ymgysylltu hynod lwyddiannus yn Wrecsam yn ystod mis Mawrth 2015. Nod y fenter #SeneddWrecsam oedd mynd â'r Cynulliad ar daith ac adleoli rhai o'i weithgareddau i ddangos sut mae'r Cynulliad yn gweithio i Gymru gyfan.

Roedd y digwyddiad yn cynnwys Cynulliad dros dro mewn sawl lleoliad ledled Wrecsam, yn cyflwyno gweithdai allgymorth ac ymgysylltu i sefydliadau lleol, gweithdai ymgysylltu â phobl ifanc gyda grwpiau ieuencid a sesiynau addysgol gydag ysgolion yn yr ardal leol. Hefyd, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth ynghylch y sgwrs genedlaethol Pleidleisio@16, a mentrau'r Llywydd, Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth a Diffyg Democrataidd.

Yn ystod yr wythnos, siaradodd staff y Cynulliad yn uniongyrchol â dros 2,000 o bobl a chafwyd cryn sylw yn y wasg leol. Cafwyd ymateb cadarnhaol i ymweliad y Cynulliad â Wrecsam gan y bobl a ymwelodd â'r safle ac a ddaeth i'r gwahanol ddigwyddiadau yn ystod yr wythnos. Dywedodd llawer o'r rhai a ymwelodd â'r bws ac a ddaeth i'r digwyddiadau eu bod yn teimlo bod mentrau o'r fath yn mynd i'r afael â'r canfyddiad o'r rhwyg rhwng y gogledd a'r de a'u bod yn dangos sut mae gwaith y Cynulliad yn cael effaith uniongyrchol ar fywydau pobl y gogledd.

...cynrychioli chi?

...you?



...awer
...dydd.
...nnos
...dd.
...hw'n
...suon ar
...dydd.

Mae Aelodau'r Cynulliad yn eistedd ar bwyllgorau hefyd. Grwpiau bach o Aelodau yw'r pwyllgorau, ac maen nhw'n ystyried yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud am faterion penodol. Yna, maen nhw'n awgrymu sut y gall wella pethau.

I gael gwybod beth mae Aelodau'r Cynulliad yn gweithio arnyn nhw ar hyn o bryd, ewch i: www.cynulliadcymru/pwyllgorau

...od yn

...wn

...ork
...et
...d's
...tings
...ing

Assembly Members also sit on committees. Committees are small groups of Assembly Members who look at what the Welsh Government is doing about certain issues.

...ing:



Mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd -- ymgysylltu â newyddiadurwyr cymunedol lleol

Mae'r Llywydd wedi ceisio mynd i'r afael â'r bwch yn y sylw a roddir i fywyd gwleidyddol Cymru yn y cyfryngau drwy'r ymgyrch Diffyg Democrataidd, a lansiwyd yn 2013 mewn araith yn narlith Gymreig flynyddol y Gymdeithas Deledu Frenhinol. Mae nifer o ddigwyddiadau a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn hon wedi creu cyfleoedd i ni ymgysylltu â chyfryngau sy'n datblygu i wella'r gwaith o adrodd ar waith y Cynulliad a denu cynulleidfaoedd newydd posibl.

Mewn digwyddiad a oedd yn unigryw i bob un o gyrff seneddol y Deyrnas Unedig, cynhaliodd y Cynulliad ddiwrnod newyddion hyperleol ym mis Hydref 2014, mewn partneriaeth â Chanolfan Newyddiaduraeth Gymunedol Prifysgol Caerdydd. Gwahoddwyd newyddiadurwyr hyperleol a chymunedol Cymru i'r Cynulliad am y dydd i adrodd ar sut i wneud gwaith y Cynulliad yn fwy perthnasol i'w cymuned leol, gyda digwyddiad tebyg yn cael ei gynnal gyda newyddiadurwyr cymunedol yn y gogledd fel rhan o'r wythnos #SeneddWrecsam ym mis Mawrth 2015.

Mae'r digwyddiadau hyn gyda newyddiadurwyr cymunedol yn ddechrau ar broses sy'n anelu at ennyn diddordeb cynulleidfaoedd newydd yng ngwaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd cefnogaeth wych i'r ddau ddigwyddiad ar draws y cyfryngau cymdeithasol ac mae'r straeon a gynhyrwyd ar y diwrnod i'w gweld yma: <http://democraticdeficitwales.tumblr.com/>

Ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus (#POWiPL)

Mae ymgyrch y Llywydd, Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus, sydd bellach yn ei phedwaredd flwyddyn, wedi ymgysylltu â menywod o bob grŵp oedran a chefnidir i godi ymwybyddiaeth ynghylch yr angen i ragor o fenywod wneud cais am rolau a phenodiadau cyhoeddus a'u derbyn.

Cynyddu cynrychiolaeth seneddol menywod yw un elfen o'r ymgyrch ac eleni gwelwyd sefydlu'r Cawcws Menywod mewn Democratiaeth. Caiff ei gadeirio gan y Llywydd ac mae'n cynnwys grŵp trawsbleidiol o Aelodau'r Cynulliad. Nod y cawcws yw canfod arfer gorau o seneddau eraill o amgylch y byd o ran sut i gynyddu cynrychiolaeth seneddol menywod a rhannu'r arfer gorau hwnnw. Ym mis Mawrth 2015, cyhoeddodd y Cawcws ei adroddiad gyda deg argymhelliaid yn amlinellu camau gweithredu i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau y mae menywod yn eu hwynebu o ran ymgymryd â swyddi cyhoeddus.

Mewn un arall o gyflawniadau'r ymgyrch, mae tair o'r 14 menyw sy'n cael eu mentora ac a gafodd hyfforddiant fel rhan o'r Cynllun Datblygu Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus, wedi gwneud ceisiadau llwyddiannus am swyddi mewn bywyd cyhoeddus. Mae dwy arall yn sefyll mewn etholiadau, y naill yn etholiad y Cynulliad yn 2016 a'r llall mewn etholiadau cyngor tref.

Mae digwyddiadau POWiPL wedi cael eu cynnal ar ystâd y Cynulliad, gan gynnwys un i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2015, pan gafodd y Senedd ei goleuo'n borffor fel rhan o'r ymgyrch byd-eang #PaintitPurple i godi ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n parhau o ran cydraddoldeb rhywiol. Cynhaliwyd digwyddiad #POWiPL yn Wrecsam hefyd fel rhan o'r wythnos o ddigwyddiadau #SeneddWrecsam ym mis Mawrth.

YMWELIADAU RHYNGWLADOL

Mae'r Cynulliad wedi croesawu ystod o gynrychiolwyr o bob rhan o'r byd, yn ogystal ag ymweld â'n cymheiriaid i hyrwyddo Cymru a'r Cynulliad.



Ymweliadau â'r Cynulliad Ebrill 2014 - Mawrth 2015

Iwerddon 7 -11 Ebrill 2014	India 8 Mai 2014	Namibia 9 Mai 2014	Mecsico 14 Mai 2014	Groeg 14 Mai 2014	Canada 20 Mai 2014
Jamaica 20 Mehefin 2014	India 25 Mehefin 2014	Yr Almaen 26 Mehefin 2014	Belarws 2 Medi 2014	Bangladesh 11 Medi 2014	Seland Newydd 2 Hydref 2014
Yr Eidal 16 Hydref 2014	Namibia 21 Hydref 2014	Iwerddon 27 Hydref 2014	Croatia 12 Tachwedd 2014	Hwngari 19 Tachwedd 2014	Unol Daleithiau 25 Tachwedd 2014
Canada 15 Ionawr 2015	Ffiji 2 Chwefror 2015	Yr Iseldiroedd 10 Chwefror 2015	Japan 25 Chwefror 2015	Latfia 26 Chwefror 2015	India 10 Mawrth 2015
Ffrainc 17 Mawrth 2015					

Ymweliadau â gwledydd eraill Ebrill 2014 - Mawrth 2015

Iwerddon 1 Ebrill 2014	Sbaen 12 Mehefin 2014	Gwlad Belg 20 Mehefin 2014	Gwlad Belg 16 Awst 2014	Gwlad yr Iâ 17 Medi 2014	Gwlad Belg 19 Hydref 2014
Canada 25 Hydref 2014	Gibraltar 6 Chwefror 2015	Cypru 24 Mai 2015	Yr Eidal 24 Mai 2015		

Hyrwyddo Cymru o amgylch y byd

Mae'r Comisiwn yn gweithredu fel llysgennad dros Gymru yn y byd ehangach, gan sicrhau bod pob cyfle'n cael ei ddefnyddio i'r eithaf i hyrwyddo Cymru a gwaith y Cynulliad yn y DU a thramor. Ar lefel Ewropeaidd, mae'r Cynulliad wedi parhau i chwarae rhan gadarnhaol o ran ymgysylltu â pholisïau'r UE a'r broses ddeddfu mewn meysydd allweddol sydd o ddiddordeb i Gymru.

Roedd 2014 yn flwyddyn o drawsnewid yn sefydliadau'r UE, gyda Senedd Ewrop newydd, Comisiwn Ewropeaidd newydd, a Llywydd newydd y Cyngor Ewropeaidd, tra dechreuodd mandad newydd Pwyllgor y Rhanbarthau ym mis Ionawr 2015. Cyfarfu'r Dirprwy Lywydd â'r pedwar ASE o Gymru yn ystod yr hydref i drafod eu cynnwys yn effeithiol yng ngwaith y Cynulliad, ac mae nifer o bwyllgorau'r Cynulliad wedi cynnal sesiynau tystiolaeth gydag Aelodau Cymru o Senedd Ewrop, gan gynnwys y Pwyllgor Menter a Busnes yn ystod ei ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE 2014-2020.

Mae pwyllgorau'r Cynulliad wedi ceisio datblygu deialog 'deddfwrfa i ddeddfwrfa' hefyd gyda Senedd Ewrop i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth newydd yr UE. Mewn enghraifft ardderchog o hyn, cafodd David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ei wahodd i gymryd rhan mewn digwyddiad rhanddeiliaid a drefnwyd gan Swyddfa'r DU o Senedd Ewrop yn Llundain i rannu canfyddiadau allweddol y Pwyllgor o'i adroddiad i'r ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd.

Bu David Melding AC, fel Dirprwy Lywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, yn cynrychioli'r Cynulliad mewn dau gyfarfod y Fforwm EC-UK yn ystod y flwyddyn. Mae'r fforwm hwn yn dwyn ynghyd Gadeiryddion Pwyllgorau Ewropeaidd (neu gyfwerth) y DU a Deddfwrfeydd Datganoledig i drafod materion perthnasol ar agenda'r UE.

Yn eu rolau fel cynrychiolwyr y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau (CoR) ym Mrwsel, mae Mick Antoniw AC a Rhodri Glyn Thomas AC wedi bod yn arbennig o weithgar. Mae Mick Antoniw wedi chwarae rhan fawr yn ymateb y Pwyllgor i'r argyfwng yn Wcráin, yn cynnal cyfarfod dwyochrog gyda Dirprwy Is-Brif Weinidog Wcráin, a siarad ar ran ei grŵp gwleidyddol yn ystod y ddadl Cyfarfod Llawn ym Mrwsel ym mis Ebrill 2014. Bu hefyd ar ymweliad â Wcráin fel rhan o ddirprwyaeth wleidyddol lefel uchel Pwyllgor y Rhanbarthau, gan gwrdd â Phrif Weinidog Wcráin.

Bu Rhodri Glyn Thomas yn cadeirio seminar yn Wythnos Diwrnodau Agored y Rhanbarthau ym mis Hydref 2014, a oedd yn canolbwyntio ar rôl cyllid Banc Buddsoddi Ewrop mewn cefnogi buddsoddiadau rhanbarthol a lleol. Roedd y seminar hon yn dilyn ei adroddiad ar y pwnc hwn a fabwysiadwyd yng nghyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ym mis Ionawr 2014.

Ym mis Mawrth 2015, penodwyd y ddau yn rapporteurs Pwyllgor y Rhanbarthau o dan y mandad newydd; mae adroddiad Mick Antoniw ar Safonau Cydnabyddiaeth mewn Cyflogaeth; a hwn fydd y pedwerydd i Rhodri Glyn Thomas ers dod yn aelod yn 2010, y tro hwn ar Ddatblygu Potensial Ynni Cefnforoedd.

Mae Swyddfa'r UE a'r Gwasanaeth Ymchwil wedi parhau i gynhyrchu cyhoeddiadau i gefnogi gwaith yr Aelodau ar faterion yr UE, gan gynnwys Diweddariad Wythnosol yr UE, Diweddariadau Polisi'r UE a gwybodaeth blog, a gwneud defnydd effeithiol o'r ffrwd @SeneddEurope ar Twitter. Mae llawer o'r cynnwys hwn yn canfod darllenwyr eraill ymhlith rhanddeiliaid a'r cyhoedd ehangach yng Nghymru

gan ei fod yn anelu at godi ymwybyddiaeth o flaenoriaethau allweddol i Gymru, ac esbonio eu perthnasedd a'u heffaith bosibl, yn ogystal ag olrhain coflenni drwy'r broses o wneud penderfyniadau yn yr UE.

Mae ansawdd y gwaith hwn wedi cael ei gydnabod yn allanol. Cafodd Papur Ymchwil ar y cyd ar weithredu'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn y DU ac Iwerddon, a baratowyd gan wasanaethau ymchwil priodol y pedair senedd a chynulliad y DU a Thai'r Oireachtas yn Iwerddon, ei roi ar restr fer ar gyfer Gwobr Gyfathrebu'r PAC 2014 gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Llywydd, Comisiynwyr y Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad wedi cynrychioli'r sefydliad a chymryd rhan helaeth yng ngwaith rhwydweithiau a fforymau rhyngwladol, gan gynnwys Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA), y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig (BIPA) a Chynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE). Drwy barhâd gwaith proffil uchel i hyrwyddo democratiaeth Cymru i gynulleidfaoedd rhyngwladol, caiff y Cynulliad ei weld yn gynyddol fel deddfwrfa ryngwladol amlwg, arloesol a blaengar.

Ym mis Mai 2014, cynhaliodd Cangen Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad Gynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir (BIMR) yn y Senedd. Thema'r gynhadledd oedd 'Cydraddoldeb Mynediad at Ddemocratiaeth, a oedd yn adlewyrchu rhai o flaenoriaethau strategol y Llywydd a Chomisiwn y Cynulliad. Cymerodd y cynrychiolwyr ran mewn sesiynau ar annog cyfranogiad menywod mewn bywyd cyhoeddus a democratiaeth, dwyieithrwydd a rôl ieithoedd swyddogol yn y Senedd ac ymgysylltu â phobl Ifanc yn y broses ddemocrataidd.

Dyma'r tro cyntaf i'r Cynulliad gynnal y gynhadledd bwysig hon ers 2002, gan ddenu dros 50 o gynrychiolwyr o 15 o ddeddfwrfeydd y DU a deddfwrfeydd rhyngwladol. Roedd yr adborth yn gadarnhaol eithriadol, gan adlewyrchu llwyddiant y gynhadledd gyfan.

Cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Gwledydd Môr y Canoldir (BIMR)

Cafodd y Comisiwn ei longyfarch gan gangen Ynys Manaw “...friendly efficiency with which all arrangements were made...Your welcome has set everyone else a hard standard to emulate.... Cardiff Castle was a special treat, but the setting of the dinner in the Senedd was magnificent and we were honoured to be part of the first group to dine there as well as to use your Chamber”

Dywedodd Andrew Tuggey, Ysgrifennydd a Phrif Weithredwr CPA UK a BIMR “An excellent conference, ran like clockwork, innovative, novel and... quite the warmest conference I have attended in the CPA BIMR – the CPA Wales Team have set a very high benchmark”

The Scottish Parliament said:” Congratulations on a great conference last week... thoroughly enjoyed it and the organisation was excellent. I know that you and your colleagues must have put a great deal of time and effort into the organisation of the conference and it really paid off!”



Yn Seville ym mis Mehefin 2014, cafodd y Llywydd ei chynrychioli gan Peter Black AC, Comisiynydd y Cynulliad, a rhoddodd gyflwyniad ar waith y Cynulliad yn y Gweithgor CALRE ar e-ddemocratiaeth. Mae paratodau ar y gweill i'r Llywydd gynnal Gweithgor CALRE ym mis Mehefin eleni ar Gydraddoldeb Rhywiol.

Bu nifer o ymweliadau rhyngwladol llwyddiannus hefyd. Ym mis Hydref 2014, arweiniodd y Llywydd ddirprwyaeth, ynghyd â Chomisiynwyr y Cynulliad, ar yr ymweliad swyddogol cyntaf â Chanada, gan fynd i gyfarfodydd yn y Senedd Ffederal yn Ottawa ac ymweld â Chynulliad Deddfwriaethol New Brunswick. I nodi 20 mlynedd ers yr hil-laddiad yn Srebrenica ym mis Ebrill 2015, arweiniodd David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, ddirprwyaeth a oedd yn cynnwys Comisiynwyr y Cynulliad, i Bosnia Herzegovina fel rhan o'r rhaglen addysg "Gwersi o Srebrenica". Rydym hefyd wedi croesawu dirprwyaethau a diplomyddion rhyngwladol yn cynrychioli Fiji, India, Mecsico, Gwlad Groeg, yr Almaen, yr Eidal a Ffrainc, yn ogystal ag ymweliad ym mis Hydref 2014 gan Arlywydd Iwerddon, Michael D. Higgins.

I gydnabod pwysigrwydd chwarae rhan weithredol yn natblygiad democratiaeth seneddol dramor, rhoddodd y Comisiwn ei gefnogaeth i Gyfarwyddwr Busnes y Cynulliad dderbyn cyfle i fynd ar secondiad i roi cyngor arbenigol i raglenni cryfhau seneddol yn yr Aifft, Iorddonen ac mewn mannau eraill yn y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica. Mae bellach wedi dychwelyd i'r Cynulliad, ac yn parhau â'r gwaith hwn yn rhan-amser, yn helpu i ddatblygu systemau llywodraeth ddemocrataidd dramor a chodi proffil a dylanwad y Cynulliad yr un pryd.

Dathliadau Rhyngwladol

Cymerodd y Llywydd ac Arweinwyr y Pleidiau ran mewn digwyddiadau cofio rhyngwladol eleni, gan ymweld â Fflandrys ar gyfer Gwasanaeth Cysegru Cofeb Genedlaethol newydd y Cymry yng Nghefn Pilckem, Langemark, lle y gosododd y Llywydd dorch ar ran y Cynulliad.

Bu'r Llywydd a Sandy Mewies AC a Rhodri Glyn Thomas AC, Comisiynwyr y Cynulliad, mewn digwyddiad coffa arbennig yn Fflandrys ar ôl derbyn gwahoddiad gan Jan Peumans, Llywydd Senedd Fflandrys. Arweiniodd David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, hefyd, ddirprwyaeth drawsbleidiol o Aelodau'r Cynulliad, fel rhan o ymweliad Cynhadledd Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon (BIPA) â Fflandrys. Yn ystod yr ymweliad, gosododd dorchau ar Gofeb y Cymry yn Langemark ac ar Gatiau Menin yn Ypres.



Tudalen y pecyn 6




Defnyddio adnoddau'n ddoeth – adolygiad strategol

Strategaeth gyllidebol effeithlon ac effeithiol


Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu dull strategol o gynllunio cyllideb, gyda strategaeth y gyllideb ar gyfer cyfnod llawn y Pedwerydd Cynulliad a chyllidebau aml-flwyddyn. Yn 2011, pennodd y Comisiwn strategaeth gyllidebol glir er mwyn cyflawni'r canlynol: gwella capasiti a hybu gallu gwasanaethau'r Cynulliad i gyflawni nodau strategol y Comisiwn; rhoi cymorth i'r Aelodau a'u cyfrifoldebau deddfwriaethol newydd; buddsoddi yn yr ystâd fel lleoliad ar gyfer Cymru; buddsoddi mewn cyfathrebu a thechnoleg a buddsoddi yn y ffordd rydym yn gweithio fel corff corfforaethol effeithlon. Mae cynlluniau manwl yn sail i'r strategaeth gyllidebol, sy'n ein galluogi i gymryd golwg tymor hir ar ofynion gwariant. Mae'r ymagwedd hon wedi sicrhau gwell eglurder, tryloywder a chysondeb.

Mae'r Comisiwn wedi sicrhau bod digon o adnoddau ariannol ar gael drwy ei broses gyllideb flynyddol gadarn. Mae hyn yn arwain at gyllideb derfynol a gyflwynir i Aelodau'r Cynulliad bob hydref yn dilyn craffu gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad. Cymeradwywyd cyllideb 2014-15 yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Tachwedd 2013. Roedd yn cwmpasu tair ffrwd ariannu ar wahân y mae Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad yn atebol amdanynt (gweler ffigurau 1 a 2). Ym mis Gorffennaf 2014, cafodd y Comisiwn wahoddiad i roi tystiolaeth bellach o'i waith i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch trawsnewid y gwasanaeth TGCh a'r gwasanaethau dwyieithog. Rydym yn falch iawn o'n llwyddiant, ac yn falch hefyd o ymrwymiad y staff a'n galluogodd i ddarparu'r gwasanaethau hyn gyda llai o adnoddau ariannol, a'r rheini'n wasanaethau hyblyg ac wedi'u teilwra.

Ffigur 1: Cyllideb Ddiwygiedig 2014-15



Ffigur 2: Costau uniongyrchol y Comisiwn 2014-15
















Mae sylw'r Comisiwn wedi'i hoelio ar fod yn fwy effeithlon a sicrhau gwerth am arian. Ategir hynny gan brosesau llywodraethu a rheolaeth ariannol cryf. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer parhau i arloesi a gwella ansawdd y gwasanaethau i Aelodau a'r cyhoedd, tra'n cyflawni ein hymrwymiad i weithio o fewn cyfyngiadau ariannol y sector cyhoeddus. Bydd y Comisiwn yn hwyluso proses esmwyth o drosglwyddo i'r Comisiwn nesaf drwy fod â strategaethau rheolaeth ariannol yn eu lle ar gyfer darparu adnoddau i'r Pumed Cynulliad.





Tryloywder, atebolrwydd a sicrwydd

Rydym yn cyhoeddi Adroddiadau Perfformiad Corfforaethol yn rheolaidd. Mae'r rhain yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar ddarparu gwasanaethau, perfformiad cyllidebol, llywodraethu a sicrhwydd, gan ddangos ymrwymiad y Comisiwn i weithredu mewn ffordd agored a thryloyw. Mae'r adroddiadau yn rhoi dadansoddiad o berfformiad ar sail mesurau a thargedau manwl, cymariaethau â chyfnodau cynharach a sylwadau i osod y cyd-destun ac esboniad am unrhyw bryderon, megis bylchau rhwng perfformiad a disgwyladau. Mae'r trosolwg ar ffurf goleuadau traffig yn rhoi arwydd clir o'r perfformiad yn gyffredinol.


Mesurau Perfformiad Corfforaethol – crynodeb o'r cyflawniadau ar sail y nodau strategol



	Ebrill 2013 – Mawrth 2014	Ebrill 2014 – Mawrth 2015	Sylwadau
Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf			
1	Bodddhad Aelodau  oren	 gwyrdd	Mae'r cynnydd yn sgorau'r Aelodau am y gallu i weithio yn eu dewis iaith wedi cyfrannu at y gwelliant hwn.
2	Prydlondeb a Chyflenwi Gwasanaethau  gwyrdd	 gwyrdd	Perfformiad cyson uchel o ran prydlondeb cyhoeddi papurau pwyllgor, briffiau ymchwil, Cofnod y Trafodion a thrawsgrifiadau pwyllgorau.
3	Datblygiad Proffesiynol  gwyrdd	 oren	Y gostyngiad bychan yn ystod y flwyddyn yn nifer yr Aelodau Cynulliad a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad sy'n ymgymryd fwy nag unwaith mewn DPP sy'n cyfrif am y newid. Fodd bynnag, bu cynnydd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2015. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar werthusiad ac ar gynlluniau DPP ar gyfer y Pumed Cynulliad.
4	Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol  gwyrdd	 gwyrdd	Cynnydd pellach tuag at bwyllgorau o'r radd flaenaf. Technoleg wedi'i huwchraddio wedi gwella mynediad at wybodaeth a thrafodion. Arbedion a sicrhawyd drwy ddefnyddio adnoddau cyfieithu gwell.
Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru			
5	Bodddhad Aelodau -	 oren	Sgôr o 6.7 yn erbyn targed o 8. Mae hwn yn fesur newydd ac nid oes cymaryddion o'r arolygon blaenorol. Mae'r Comisiwn wedi cytuno ar gynlluniau llawn ar gyfer ymgysylltu ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn.
6	Ymgysylltu â'r Cynulliad  gwyrdd	 gwyrdd	Mae niferoedd ymwelwyr yr un fath ac mae lefelau bodddhad ymwelwyr wedi gwella (sgorau da/bodddhaol - 90%).
7	Proffil Allanol y Cynulliad  gwyrdd	 gwyrdd	Cafwyd cynnydd sylweddol o ran ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig ar Twitter, YouTube a Senedd.tv.



	Ebrill 2013 – Mawrth 2014	Ebrill 2014 – Mawrth 2015	Sylwadau
--	------------------------------------	------------------------------------	----------



8	Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (gwella ymgysylltu)	 gwyrdd	 gwyrdd	Lefel dda o ymgysylltiad â gwaith y Cynulliad, yn enwedig o ran pobl ifanc a gwaith y pwyllgorau. Cynnydd sylweddol o ran ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol.
---	---	---	---	---



Defnyddio adnoddau'n ddoeth


9	Bodddhad Aelodau	 gwyrdd	 gwyrdd	Sgorau wedi gwella ym mhob categori gyda chynnydd sylweddol yn y sgorau TGCh.
---	------------------	---	---	---



10	Perfformiad Cyllidebol	 gwyrdd	 gwyrdd	Sefyllfa gref o ran sicrhau tanwariant o £64,000 neu 0.1 y cant o'r gyllideb. Cyrhaeddwyd y targed arbedion blynyddol yn ystod mis Rhagfyr.
----	------------------------	---	---	---

11	Staff	 oren	 oren	Mae'r gyfradd absenoldeb 3.3%, ychydig dros y targed o 3% neu lai. Mae'r rhesymau am absenoldebau yn cael eu dadansoddi ac yn cael sylw.
----	-------	---	---	--




12	Gwasanaeth Cwsmeriaid TGCh	 oren	 oren	Roedd cyflawni'r targedau Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer trin digwyddiadau yn isel oherwydd prinder staff dros dro sydd wedi'u datrys erbyn hyn. Mae'r sgôr bodddhad cwsmeriaid yn uchel o hyd.
----	----------------------------	--	--	---

13	Llywodraethiant	 gwyrdd	 gwyrdd	Mae taliadau'n parhau o fewn yr amser targed. Gwelliant o ran % y ceisiadau rhyddid gwybodaeth sy'n cael eu hateb ar amser (94% yn erbyn targed o 100%).
----	-----------------	---	---	--

14	Cynaliadwyedd	 oren	 gwyrdd	Cyflwynwyd targed newydd ar gyfer lleihau'r allyriadau ynni 30% arall erbyn 2021.
----	---------------	---	---	---

15	Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (gwneud y gorau o ystâd y Cynulliad)	 gwyrdd	 gwyrdd	Blaenoriaethau'r flaenraglen fuddsoddi a'r cynllun cynnal a chadw wedi'u cwblhau.
----	--	---	---	---

Allwedd:

-  **COCH:** Mae materion sylweddol yn effeithio ar y gallu i gyflawni amcanion busnes. I sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, mae angen newidiadau o ran amser, costau a/neu gwmpas.
-  **OREN:** Mae materion neu risgiau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd modd cyflawni'n llwyddiannus heb effeithio rhyw lawer ar y gyllideb, safon gwasanaethau na dyddiadau targed.
-  **GWYRDD:** Mae'r gwaith yn cyrraedd y safonau y cytunwyd arnynt neu'n datblygu yn ôl y disgwyl. Mae pob risg sy'n hysbys yn cael ei rheoli.

Mae'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau yn herio ac yn adolygu'r holl benderfyniadau o ran adnoddau. Y Bwrdd yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau o ran adnoddau yn y Cynulliad a chaiff ei gadeirio gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad. Cafodd ei sefydlu yn 2012, ac mae'n cyfarfod bob pythefnos. Drwy gydol y flwyddyn ariannol, mae'r Bwrdd yn cydbwysio argaeledd arian ag anghenion prosiectau a gwasanaethau dros nifer o flynyddoedd i sicrhau y caiff ei fuddsoddiad yn y Cynulliad ei graffu, ei flaenoriaethu a'i reoli'n gywir.

Roedd gwaith a wnaeth y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys y canlynol:

- Adolygu'r gyllideb, gwariant ac ymrwymadau;
- Craffu ar achosion busnes sy'n awyddus i gael cyllid buddsoddi, er mwyn sicrhau gwerth am arian. Dyma rai enghreifftiau: y contract gwasanaethau darlledu yn y dyfodol; cyflwyno system ffôn newydd; system sain newydd; ail-osod ceblau gweinydd TG; gosod rheolaethau drws awtomatig ychwanegol yn Nhŷ Hywel; ailwampio Ystafell Seminar y Pierhead; ailwampio'r ystafelloedd cynadleda; rhoi bleinds newydd yn y swyddfeydd; gwella seilwaith a meddalwedd TGCh; cyfleuster cyfieithu symudol i gefnogi'r Cynulliad yn y gymuned; gosod goleuadau PIR a ffitiadau golau LED; rhwystr diogelwch ym maes parcio Tŷ Hywel ac integreiddio'r larwm tân â'r CCTV.
- Penderfynu ar y blaenoriaethau cymharol ar gyfer buddsoddi a chytuno sut i ddyrannu'r arian buddsoddi;
- Goruchwyllo'r broses flynyddol o gynllunio capasiti.
- Adolygu a chymeradwyo/gwrthod achosion busnes ar gyfer pob gweithgaredd recriwtio;
- Llywodraethu mentrau a phrosiectau newid mawr;
- Blaenoriaethu prosiectau a mentrau newid lle mae angen cyllid buddsoddi;
- Penodi uwch-swyddogion cyfrifol a rheolwyr prosiect, a phenderfynu ar eu cylch gwaith, i reoli prosiectau a mentrau newid mawr y Cynulliad.
- Goruchwyllo'r gofrestr contractau a'r cynlluniau caffael.

Mae'r Comisiwn wedi sefydlu trefniadau sicrwydd cryf i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymadau i randdeiliaid ac yn cyflawni ein hamcanion strategol, gan gynnwys rheoli'n briodol y cyllidebau y cytunwyd arnynt ar gyfer y Comisiwn gan y Cynulliad. Mae ein Fframwaith Sicrwydd, a ganmolwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chan ein harchwilwyr, yn amlinellu'r ffordd y mae rheolwyr y Comisiwn yn cael sicrwydd bod y rheolaethau mewnol yn gweithio'n effeithiol.

Enghraifft o sut y mae'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau yn herio ac yn adolygu penderfyniadau o ran adnoddau.

Mae'r System Rheoli Adeiladu (BMS) ar gyfer Tŷ Hywel yn system gyfrifiadurol ganolog sy'n rheoli'r system wresogi, aerdymheru, systemau awyru a'r larymau ar gyfer systemau critigol. Cafodd y BMS presennol ei gomisiynu 22 mlynedd yn ôl ac roedd ei oes wedi dod i ben. Nodwyd bod angen newid y BMS yn y Blaengynllun Cynnal a Chadw 10 mlynedd, a luniwyd ar gyfer y Comisiwn gan arbenigwyr annibynnol, fel anghenraid cyfalaf.

Trafododd y Bwrdd yr achos busnes i ddisodli'r BMS ym mis Gorffennaf 2014, a chytunodd ar y costau terfynol ym mis Rhagfyr. Adolygwyd tri opsiwn: parhau â'r BMS presennol, ehangu'r BMS a osodwyd yn y Senedd; neu brynu a gosod BMS newydd.

Wrth ddod i benderfyniad, bu'r Bwrdd yn ystyried tystiolaeth ynghylch:

y gwerth gorau am arian dros oes ddisgwyliedig o 10 mlynedd neu ragor;

y manteision, gan gynnwys y potensial i leihau'r costau gweithredol ac ynni, y defnydd o ynni a chostau cynnal a chadw;

pa morr ddibynnol ac effeithiolw'r rheolaethau amgylcheddol;

y potensial i helpu i reoli'r amgylchedd gwaith a chyfrannu at wella ein safle fel sefydliad gwyrdd a chynaliadwy.

Hefyd, archwiliodd y Bwrdd y trefniadau caffael a rheoli prosiectau a chafodd sicrwydd y cynhelir proses dendro ar y farchnad agored. Cymeradwywyd yr achos busnes a gofynnwyd am gadarnhad o'r costau gwirioneddol ar ôl derbyn tendrau cystadleuol. Cyflogwyd arbenigwyr i gynorthwyo i ddatblygu'r fanyleb ac i dadansoddi'r tendrau. Ar ôl cael tendrau cystadleuol, roedd y tendr o'r safon uchaf am y gost isaf yn costio £348,122 (gan gynnwys TAW a ffioedd).

Yn eu hadolygiad ym mis Rhagfyr 2014, cadarnhaodd y Bwrdd y byddai'r system arfaethedig yn bodloni gofynion manyleb y tendr ac yn sicrhau'r manteision a nodwyd yn yr achos busnes gwreiddiol. Cytunodd y Bwrdd ar gyllid o gyllideb 2014-15, a phenderfynodd y dylai'r gwaith gael blaenoriaeth dros alwadau eraill ar y cyllid buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ariannol. Cafodd y system ei chyflwyno ar amser ac o fewn y gyllideb.



Twyll

Ym mis Chwefror 2014, bu achos o dwyll yn y Comisiwn lle llwyddodd troseddwr i dorri ein prosesau llywodraethu a'n rheolaethau. Arweiniodd hynny at daliadau gwallus iddynt o £104,000. Mae'r twyll yn destun ymchwilad troseddol sy'n ehangach nag achos y Comisiwn. Pan gafodd y twyll ei ganfod, cafodd Cynllun Ymateb i Dwyll y Comisiwn ei roi ar waith a hysbyswyd yr holl randdeiliaid allweddol. Hefyd, dechreuwyd adolygiad manwl ar unwaith a roddodd sicrwydd, a gadarnhawyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, fod y digwyddiad yn un ynysig ac na fu unrhyw gamarfer mewnol. Mae swyddogion y Comisiwn yn parhau i weithio gyda'r heddlu i ddod â'r troseddwr o flaen eu gwell. Mae unrhyw dwyll sy'n arwain at golli arian cyhoeddus yn annerbyniol. O ran y dyfodol, rydym yn hyderus bod gennym reolaethau a threfniadau llywodraethu cadarn a bod ein prosesau yn addas at y diben. Mae manylion pellach yn y Datganiad o Gyfrifon.

Sicrhau Gwerth am Arian

Mae'r Comisiwn yn credu bod sicrhau gwerth am arian yn hanfodol a bod targedau gwerth am arian wedi bod yn elfen o'n dull o reoli ein cyllideb bob blwyddyn. Ym mis Mawrth 2015, daeth adroddiad archwilio mewnol i'r casgliad:

"fod gan Gomisiwn y Cynulliad ddiwylliant da o ran gwerth am arian ac mae'r diwylliant hwn wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad".

Rydym yn ceisio sicrhau bod pob punt a gaiff ei gwario i gynorthwyo'r Cynulliad yn rhoi gwerth da am arian a bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf priodol wrth ddarparu gwasanaethau effeithiol i'r Cynulliad a phobl Cymru. Bu gennym dair blaenoriaeth:

- gwella rheoli gwybodaeth er mwyn deall yn well y gweithgarwch a'r costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau'r Cynulliad a'r hyn sy'n llywio'r costau hynny;
- symleiddio prosesau a'r ffordd rydym yn gweithio er mwyn manteisio'n llawn ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau'r Cynulliad a defnyddio adnoddau hyd yn oed yn well;
- gwneud y defnydd llawn o'r manteision a'r arbedion costau o gaffael a rheoli contractau'n gadarn.

Rydym wedi arbed £4.6 miliwn ers dechrau'r Pedwerydd Cynulliad. Mae'r mentrau arbedion ers 2011 wedi cynnwys: arbedion cyfunol yn ystod y flwyddyn, arbedion rhyddhau arian parod a'r arian annisgwyl o ad-daliad trethi, a ddychwelwyd i Lywodraeth Cymru drwy gyllideb atodol.

Ers 2012 rydym wedi gosod targed arbedion o £500,000 ym mhob blwyddyn. Cyrhaeddwyd y targed ar gyfer 2014-15 erbyn mis Tachwedd 2014 ac arbedwyd £584,000 erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'n her fawr i'r Comisiwn i sicrhau canran uwch o arbedion rheolaidd fel y gallwn barhau i fuddsoddi a gwella gan gadw'r effaith ar arian cyhoeddus i'r lleiafswm. Hyd eleni, roedd y rhan fwyaf o'r arbedion yn effeithio ar flynyddoedd unigol yn unig, gan eu bod yn ymwneud â swyddi gwag. Rydym bellach yn sicrhau canran gynyddol o arbedion sy'n lleihau ein llinellau sylfaen gweithredol am fwy na blwyddyn. Yn 2013-14 cafodd 43 y cant o'r targed ei gyflawni drwy arbedion rheolaidd, ac yn 2014-15 mae hyn bellach yn 60%. Un enghraifft o hyn yw'r gwaith caffael lle llwyddwyd i sicrhau mwy o arbedion caffael yn 2014-15 na'r ddwy flynedd flaenorol gyda'i gilydd.

Yn ogystal â'r ffigurau caffael hyn, daeth yr arbedion effeithlonrwydd mwyaf o'r newidiadau yng ngwasanaeth TGCh y Comisiwn sydd wedi symud o wasanaeth a ddarperir yn allanol i ddarpariaeth fewnol. Mae hyn wedi lleihau costau sylfaenol y gwasanaeth TGCh ac wedi sicrhau bod adnoddau ar gael i fuddsoddi mewn gwelliannau i seilwaith a systemau busnes i gefnogi Aelodau'r Cynulliad a'r Comisiwn.

Gwelliant parhaus o ran effeithlonrwydd

Ein nod yw ymdrechu'n barhaus am well gwerth am arian heb gyfaddawdu ar ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn, neu ar ein gallu i fod yn arloesol yn y gefnogaeth a ddarperir i'r Aelodau. Rydym yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd fel ein bod yn cael y gwerth gorau posibl o'r arian cyhoeddus yr ydym yn ei wario.

Mae ein hymdrechion caffael wedi canolbwyntio ar sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau'n cael eu caffael mewn modd effeithlon, yn gynaliadwy, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol gyfrifol. Mae'r pwyslais hefyd ar gael nwyddau a gwasanaethau sy'n darparu'r ansawdd a'r gwerth am arian y mae gan yr Aelodau a'r cyhoedd yr hawl i'w ddisgwyl. Darperir cefnogaeth ac anogaeth benodol i ddarparu gyflenwyr bach a leolir yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae gennym 49 o gontractau, a phob un â gwerth mwy na £25k. Caiff y rhain eu hail-dendro pob 3 - 5 mlynedd.

Mae'r arbedion caffael a gafwyd dros y tair blynedd diwethaf i'w gweld isod. Roedd pob un o'r arbedion y llynedd wedi rhyddhau arian a daeth pob un o gontractau TGCh. Mae'r cynnydd mewn arbedion y llynedd yn bennaf oherwydd y system ffôn newydd sy'n cael ei chyflwyno. Pan fydd hyn wedi'i gyflwyno, ac ar ôl ystyried costau gweithredu, byddwn yn talu 72 y cant yn llai nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Arbedion caffael a gyflawnwyd 2012-15

Mesur	2012-13	2013-14	2014-15
Contractau a ddyfarnwyd	7	12	12
Arbedion hyd yn hyn	£83,563	£283,209	£557,126

Byddwn yn cyflwyno rhaglen datblygu cyflenwyr ar gyfer y cyflenwyr allweddol hynny sydd â staff sy'n gweithio ochr yn ochr â staff y Comisiwn ar ein hystâd – darlledu, rheoli cyfleusterau, glanhau, ac arlwy. Y nod yw annog gwell effeithlonrwydd a gwerth am arian o'r contractau hyn, annog arloesedd a hyrwyddo ein gwerthoedd sefydliadol. Rydym am i'r cyflenwyr hyn gefnogi ein gwerthoedd craidd yn enwedig ym meysydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynaliadwyedd.

Ym maes arbed ynni, mae'r Comisiwn wedi gwneud cynnydd da o ran lleihau ei ôl troed carbon ac mae wedi gwneud newidiadau sydd wedi lleihau defnydd ac allbwn. Eleni, cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig yn ein hymdrechion parhaus i leihau allyriadau carbon y pethau mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar ein hystâd. Daeth ein Cynllun Rheoli Carbon i ben ym mis Rhagfyr 2014, a llwyddwyd i sicrhau 35% o ostyngiad yn yr allyriadau ynni, a 4% o ostyngiad yn yr allyriadau o deithiau busnes o gymharu â llinell sylfaen 2008-09. I roi hyn mewn cyd-destun ariannol, cynyddodd ein costau trydan blyneddol am dair blynedd cyntaf y Pedwerydd Cynulliad 9 y cant tra bod ein defnydd mewn Kwh wedi

lleihau tua'r un peth. Heb y camau a gymerwyd, byddai ein costau wedi bod £20k yn uwch dros y cyfnod. Mae rheoli ein defnydd o ynni wedi ein galluogi i reoli ein cyllidebau cyfleustodau yn fwy effeithiol yn erbyn tuedd o gynydd blynyddol mewn costau cyfleustodau.


Yn 2015-16, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar effeithlonrwydd trwy gynnal adolygiad effeithlonrwydd busnes i roi sicrwydd bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn ateb y diben ac yn gosteffeithiol, ac i'n herio ni i fod hyd yn oed yn fwy effeithlon. Fel cam cyntaf, byddwn yn pennu targed gwerth am arian sy'n seiliedig, yn benodol, ar arbedion o ran gwasanaethau a chontractau. Disgwylwn i'r adolygiad effeithlonrwydd busnes arwain at ddull mwy cynhwysfawr o weithredu a fydd yn atgyfnerthu'r ymrwymiad i effeithlonrwydd a rhagoriaeth ym mhob agwedd ar waith y Comisiwn, yn ogystal â darparu ystod ehangach o dystiolaeth o gyflawniadau effeithlonrwydd mewn prosiectau a rhaglenni, newid busnes, darparu gwasanaeth ac o ran caffael a rheoli contractau. Caiff hyn ei gefnogi drwy flaenoriaethu buddsoddiadau'n ofalus, a thrwy reoli costau'n gadarn. Rydym hefyd yn gobeithio cyflwyno dulliau dilysu a meincnodi annibynnol neu allanol ychwanegol.

Adeiladu gweithlu cryf, integredig

Mae'r Cynulliad yn parhau i ennill amrywiaeth o wobrau pwysig. Yn 2014, roeddem ymhlith y 30 Cyflogwr Gorau ar gyfer Teuluoedd sy'n Gweithio ac yn rhestr y Times o'r 50 Cyflogwr Gorau i Fenywod. Rydym wedi gwella ein safle ym Mynegai Stonewall o'r Cyflogwyr Gorau ar gyfer Pobl Lesbiaidd a Hoyw, gan gyrraedd y 4ydd safle (ar safle 11 yr oedden ni y llynedd). Am yr ail flwyddyn yn olynol, cawsom ein henwi'n Brif Gyflogwr y Sector Cyhoeddus yng Nghymru ac, am y tro cyntaf, rydym wedi ennill Gwobr Mynediad y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol. Hefyd, rydym yn parhau'n ymrwymedig i'r ymgyrchoedd 'Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl' a 'Hyrwyddwyr Oedran', nod siarter 'Yn Uwch na Geiriau' Action on Hearing Loss, a Safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl.

Ym mis Rhagfyr 2014, cynhaliodd arbenigwr Buddsoddwyr mewn Pobl adolygiad interim i weld a ydym ar y trywydd iawn i gynnal ein statws Aur Buddsoddwyr mewn Pobl. Roedd casgliadau'r arbenigwr yn gadarnhaol iawn, ac atgyfnerthir hyn gan ei anogaeth i ni anelu at statws Pencampwr Buddsoddwyr Mewn Pobl adeg ein hasesiad nesaf yn 2016. Ni chynhaliwyd arolwg staff yn 2014-15 ond mae dadansoddiad cynnar o'r un a gynhaliwyd ym mis Mai 2015 yn dangos bod lefelau eithriadol o uchel wedi gwneud yr arolwg. Roedd 84% o staff wedi cwblhau'r arolwg, o gymharu â 62% ar gyfer y Gwasanaeth Sifil a Llywodraeth Cymru (yn 2014). Mae'r canlyniadau yn dangos bod Mynegai Ymgysylltu'r Cynulliad yn uwch na sefydliadau eraill, ac mae'n sgorio'n well o ran Arweinyddiaeth a Rheoli newid.

Mynegai Ymgysylltu Cynulliad Cenedlaethol Cymru



Blaenoriaeth y Comisiwn yw sicrhau bod cymorth integredig, sy'n gyson gryf yn cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion Aelodau unigol y Cynulliad a'i bwyllgorau. Mae hyn yn golygu gwella'n barhaus ar y gwasanaethau seneddol o ansawdd uchel a ddarperir gan staff y Comisiwn. Mae angen hefyd inni gynllunio a bod yn barod ar gyfer y dyfodol. Gwyddom fod maint a chymhlethdod y gwaith craffu deddfwriaethol y mae'r Cynulliad yn ei wneud yn cynyddu'n sylweddol ac rydym yn disgwyl i hyn fod yn arferol yn y Pumed Cynulliad. Mae canlyniad naturiol cyflymder y newid cyfansoddiadol a'r goblygiadau ar gyfer datganoli pellach yng Nghyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi, yn golygu y bydd angen i'r Comisiwn gynllunio gweithlu'n effeithiol i sicrhau bod y Cynulliad a'i Aelodau'n cael eu cefnogi'n briodol yn eu gwaith.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd gweithgareddau cylch busnes blynyddol newydd i fynd i'r afael yn benodol ag anghenion y Comisiwn am adnoddau yn y tymor byr a chanolig ac i asesu'r opsiynau ar gyfer bodloni'r rheini, gan gynnwys y goblygiadau o newid ffyrdd o weithio a blaenoriaethu'r defnydd a wneir o'r adnoddau presennol. Un o'r prif ddulliau o wneud hyn yw drwy gyfarfod ddwywaith y flwyddyn i adolygu newidiadau i gynlluniau gwasanaeth, ystyried blaenoriaethau ar gyfer datblygiadau newydd, nodi risgiau a chyfleoedd ac asesu'r goblygiadau ar gyfer anghenion y Comisiwn o ran y gyllideb ac adnoddau. Mae herio'n effeithiol yn rhan bwysig o'r broses adolygu hon. Mae hynny'n cynnwys herio gan gymheiriaid, adolygiad pellach gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau, a goruchwyliaeth a sicrwydd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yn y pen draw, mae canlyniad yr ymarfer hwn yn dod yn rhan o'r cylch blynyddol o gynllunio'r gyllideb, ac yn cael ei adlewyrchu yn yr adolygiad o Strategaeth y Comisiwn. Er mwyn ein helpu i wneud hyn, rydym ni hefyd yn ystyried defnyddio meincnodau er mwyn cymharu, llinellau sylfaen, a dulliau o fesur llwyddiant.

Trwy gynllunio capasiti rydym ni'n:

- adolygu sgiliau allweddol ac yn rheoli'r ail-alinio yn y gweithlu yn fwy strategol;
- diogelu'r amrywiaeth o sgiliau yn y gweithlu at y dyfodol drwy sicrhau bod sgiliau'n gysylltiedig â gofynion newydd;
- penderfynu faint o weithwyr y bydd eu hangen;
- rheoli'r gwariant ar gyflogaeth drwy ragweld newidiadau;
- darparu gwybodaeth i ragweld adegau brig a thawel yn y cyflenwad a'r galw am sgiliau penodol a mynd i'r afael â hwy;
- cadarnhau cynlluniau i gael gwared ar rwystrau posibl i gydraddoldeb a sicrhau gwelliannau demograffig penodol yn unol â chanfyddiadau Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Comisiwn.

Mae newidiadau eleni o fewn yr adran Adnoddau Dynol wedi helpu i wella lefel y gefnogaeth i weithwyr a rheolwyr y Comisiwn. Mae'r system Adnoddau Dynol a chyflogres wedi cael ei gwella i awtomeiddio prosesau craidd, ac mae cryn ymdrech wedi cael ei buddsoddi mewn darparu system wirioneddol ddwyieithog sy'n galluogi staff i weithio yn eu dewis iaith, ac rydym wedi cael ar ddeall mai dyma'r tro cyntaf i'r system hon. Bu gwelliannau i'r broses awdurdodi recriwtio, ac mae cymorth ar gael yn fwy hwylus i reoli achosion a gwerthuso swyddi. Mae'r newidiadau i feithrin cysylltiadau cryfach rhwng adolygu perfformiad a'r fframwaith cymhwysedd yn dod yn eu blaenau'n dda. Rydym

wedi gweddwedid y ffordd rydyn ni'n croesawu staff newydd i'r sefydliad o ran ein prosesau cynefino corfforaethol. Mae gwaith ar y gweill i adolygu ein polisiau corfforaethol, ac mae staff y Comisiwn wedi gallu manteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd i fynd ar secondiad (dros 122 yn ystod y flwyddyn), ynghyd â chyfleoedd datblygu sgiliau rheoli a chyfleoedd hyfforddi a mentora.

Gan adeiladu ar lwyddiant ein cynllun prentisiaeth a lansiwyd ddwy flynedd yn ôl, cawsom ein rhoi ar restr fer rownd derfynol Gwobrau Prentisiaethau Cymru eleni. Mae ein cynllun prentisiaeth yn rhoi cyfle i bobl ifanc gael cyflog wrth ddysgu ac ennill cymwysterau, ac rydym yn gweithio i baratoi pob prentis i ymgeisio am swyddi addas. Gorffennodd ein ail grŵp eu cynllun prentisiaeth ym mis Mai 2015, a llwyddodd y chwech ohonynt i gyflawni eu cymhwyster NQF mewn Busnes a Gweinyddiaeth. Mae pump o'r chwe phrentis wedi dod o hyd i swydd barhaol neu dros dro yn y Comisiwn, ac mae pob un o'r chwech yn parhau i chwilio am gyfleoedd yn dilyn eu prentisiaeth gyda ni.

Creu cyfleoedd ac effeithlonrwydd mewn gwasanaethau TGCh.

Cafodd y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau TGCh ar gyfer y Dyfodol ei chwblhau ar amser ac o fewn y gyllideb ym mis Gorffennaf 2014. Y weledigaeth oedd:

- i roi i'r Cynulliad a'r Comisiwn wasanaeth TGCh a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer eu hanghenion;
- rhoi rheolaeth dros fuddsoddi a datblygu yn ôl i'r Comisiwn;
- cyflwyno hyblygrwydd ac arloesedd i'r atebion TGCh i gefnogi busnes;
- gwneud hyn i gyd o fewn y gyllideb TGCh bresennol a hefyd rhyddhau arian i ddarparu'r Strategaeth TGCh.

Rydym yn falch iawn ein bod wedi llwyddo i gyflawni pob rhan o'r weledigaeth hon ac yn falch bod y ffordd y cafodd y trawsnewid ei gynllunio, ei reoli, ei lywodraethu a'i gyflawni wedi'i gydnabod yn esiampl da gan archwilyr allanol a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad. Dysgwyd llawer iawn ar y daith 18 mis hon, ac erbyn hyn gofynnir yn rheolaidd inni rannu'r gwersi hyn gyda sefydliadau eraill sy'n ystyried dewis rhwng contract allanol neu gontract mewnol ar gyfer eu gwasanaethau TGCh.

Mae cael rheolaeth lawn dros amser a chost y gwasanaethau TGCh, a darparu'r gwasanaethau hynny, wedi rhoi'r gallu a'r modd i'r Cynulliad i fynd i'r afael â ffyrdd newydd o weithio. Rydym yn cydnabod nad yw gweithio mewn swyddfa bob amser yn ddelfrydol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a llawer o'u staff. Mae gan swyddfeydd etholaethol anghenion penodol na ellir eu bodloni gan un math o ateb penodol. Gall teithio o gwmpas Cymru a dibynnu ar wasanaeth rhynggrwyd amrywiol iawn olygu ei bod yn anodd weithiau cael yr un wybodaeth a'r cymwysiadau sydd ar gael mewn swyddfa. Byddwn yn mynd ati fwyfwy i ddarparu cymwysiadau a gwybodaeth ar wasanaethau cwmwl diogel gan fod hyn yn gwella hygyrchedd a gwytnwch. Gydag amser bydd yn lleihau'r costau i'r Comisiwn. Mae'r rhwydwaith i swyddfeydd etholaethol yn cael ei uwchraddio i wella gwasanaethau am gost is ac rydym wedi dechrau ar ddatblygiad sylweddol i fynd i'r afael â'r cylch o wybodaeth sydd gan y Cynulliad i wella'r modd y caiff busnes y Cynulliad ei greu, ei rannu, ei gyhoeddi a'i archifo.

Wrth ddod â'r gwasanaeth TGCh yn ôl fewnol, cydnabuwyd bod angen dull gwahanol o ddarparu cymwysiaid TGCh i'r Cynulliad. Felly, sefydlwyd swyddogaeth fewnol ar gyfer rheoli a datblygu cymwysiaid. Os bydd angen arbenigedd ychwanegol arnom, byddwn yn ymgysylltu ag arbenigwyr meddalwedd mewn busnesau bach a chanolig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae hyn yn golygu, lle bynnag y bo modd, nad oes rhaid i ni brynu cynnyrch oddi ar y silff. Roedd angen i'r cyflenwyr deilwra'r rheini'n sylweddol a oedd yn gostus o ran amser ac arian ond nad oedd byth braidd yn diwallu ein holl anghenion.

Mae bod yn hyblyg wrth ddatblygu systemau eisoes yn talu am ei le yn y broses o greu System Busnes y Cyfarfod Llawn, a fydd ar gael i'w ddefnyddio yn 2016. Mae'r dull hwn wedi hwyluso cyfranogiad gan Aelodau, staff y Comisiwn, ein dadansoddwyr busnes ac arbenigwyr cymwysiaid i adeiladu a chytuno ar y rhaglen fesul cam, gan sicrhau ein bod yn cael yr hyn sydd ei angen am lai na'r gost ar y farchnad agored. Byddwn yn parhau â'r dull hwn wrth ddatblygu'r fethodoleg graidd ar gyfer datblygu cymwysiaid yn y dyfodol.

Yn ogystal â chael mwy o hyblygrwydd, rheolaeth a dewis o ran gwasanaethau TGCh, mae'r buddion ariannol a gafwyd yn cefnogi penderfyniad y Comisiwn i symud y ddarpariaeth yn fewnol. Yn y flwyddyn ariannol 2013-14 (blwyddyn olaf y trefniadau TGCh ar gontract allanol), costiodd y gwasanaethau TGCh £5 miliwn i'r Comisiwn, ac roedd £2.3 miliwn o hwnnw'n dâl uniongyrchol i'n contractwr allanol am y gwasanaeth TGCh a reolwyd ganddynt. O ran cymhariaeth, yn 2014-15 (blwyddyn gyntaf y gwasanaeth mewnol), mae'r sefyllfa alldro yn dangos cost o £4.3 miliwn, a dim ond £545,000 o hwnnw sy'n dâl am wasanaethau ar gontract allanol. Costau'r gwasanaeth TGCh newydd yw £4.3 miliwn, gan gynnwys 43 o staff sy'n darparu cymorth TGCh, darlledu a gwasanaethau clywedol yn ogystal â chymorth uniongyrchol i'r Aelodau a staff y swyddfeydd etholaethol. Yn ystod 2014-15, rhyddhawyd £0.4 miliwn o gostau rhedeg TGCh i'w ail-fuddsoddi yn seilwaith TGCh y Cynulliad; yn y gorffennol, byddai angen arian newydd i dalu am fuddsoddiad o'r fath. Mae'r buddsoddiad hwn wedi gwneud y seilwaith TGCh yn fwy dibynadwy a gwydn, ac mae wedi gostwng y costau cymorth a chynnal a chadw gweithredol at y dyfodol. Hefyd, mae'r rhyddid i benderfynu sut i gyflenwi gwasanaethau wedi dod â manteision go iawn; er enghraifft, rydym wedi disodli'r contract cymorth cyfarpar clyweledol blaenorol gyda gwasanaethau mewnol sydd wedi sicrhau arbedion o tua £400,000 y flwyddyn a bydd disodli'r hen gontract ffôn yn arbed tua £180,000 y flwyddyn ar ôl i'r gwaith gael ei orffen ym mis Gorffennaf 2015.

Gan edrych ymlaen, byddwn yn parhau i ddarparu atebion hyblyg, costeffeithiol, yn ôl anghenion defnyddwyr. Hyblygrwydd fydd conglaen y Strategaeth TGCh wrth inni wynebu'r posibilrwydd y gallai'r Cynulliad ehangu a thrwy hynny alw am ragor o wasanaethau.

Gwella'r ystâd

Un o flaenoriaethau strategol y Comisiwn yw gwneud yn fawr o'n hystâd fel ei bod yn parhau i fod yn addas at y diben, yn adlewyrchu sefyllfa'r Cynulliad yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac yn rhoi lle canolog i'r Senedd a'r Pierhead ym mywyd cyhoeddus Cymru. Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni hyn, cymeradwyodd y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau gynllun buddsoddi tymor hir ar gyfer cynnal a chadw ac adnewyddu. Datblygwyd hwn ar ein cyfer gan arbenigwyr a adolygodd gyflwr ein holl adeiladau, offer a pheiriannau, ynghyd â rhagolwg o oes ac amserlenni ar gyfer ailwampio ac adnewyddu. O ganlyniad, mae gennym restr o'r gwaith sydd ei angen dros gyfnod o ddeng mlynedd, a bwriadwn ei defnyddio i lywio ein penderfyniadau buddsoddi ar gyfer yr ystâd.

Yn ychwanegol at y gwaith cynnal a chadw arferol a drefnwyd yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cwblhau nifer o brosiectau i adnewyddu systemau sy'n dod i ddiwedd eu hoes, gan gynnwys system newydd i reoli adeiladau, ac offer aerdymheru newydd ar gyfer y man lle lleolir ein gweinydd TG. Yn ogystal â helpu i sicrhau gostyngiadau yn y defnydd o ynni drwy fuddsoddiadau mewn technoleg fwy cynaliadwy, bydd y prosiectau hyn yn cyflwyno system fwy effeithlon ac effeithiol o reoli peiriannau ac offer. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi buddsoddi mewn nifer o feysydd er mwyn eu gwella:

- adnewyddu ystafelloedd cyfarfod ac ystafelloedd cynadledda i roi argraff mwy addas o'r Cynulliad ar gyfer yr amrywiaeth eang o ymwelwyr a sefydliadau sy'n eu defnyddio.
- cynyddu argaeledd y gofod sydd ar gael ar gyfer digwyddiadau ar lawr gwaelod Tŷ Hywel yn ystod adegau o alw brig, gyda sgrin a drysau gwydr wedi'u gosod ger derbynfa Tŷ Hywel;
- rydym wedi adnewyddu'r toiledau gan wella'r gwaith plymio, pibellau a gwneud nifer o welliannau cynaliadwy gan gynnwys gosod goleuadau LED a synwryddion;
- ailaddurno ac ail-garpedu'r grisiau am y tro cyntaf ers adeiladu'r adeilad, a gosod goleuadau LED ynni isel i gefnogi ein hamcanion cynaliadwyedd;
- gwella'r lifftiau yn unol â gofynion hygyrchedd, Deddf Cydraddoldeb 2010 a rheoliadau adeiladu;
- gosod twll yn y wal, gyda chefnogaeth Swyddfa'r Post yn yr adeilad, sydd wedi profi i fod yn gyfleuster ychwanegol gwerthfawr a gaiff ddefnydd da;
- amnewid y system aerdymheru yn Swyddfeydd yr Aelodau, a oedd yn 14 oed, ac yn nesáu at ddiwedd ei hoes. Mae'r unedau newydd yn fwy cynaliadwy oherwydd y nwy oerydd a ddefnyddir a'u bod yn effeithlon o ran ynni, gan gyfrannu at ein targedau lleihau carbon.

Oherwydd yr ymosodiadau gan frawychwyr ledled y byd, bu'n rhaid inni godi ein statws diogelwch, ac aethom ati i wella diogelwch yr ystâd, gan gryfhau diogelwch yr ardal o gwmpas y Cynulliad drwy osod rhwystr llawer mwy diogel i fynedfa'r maes parcio. Rydym hefyd yn adolygu ein seilwaith diogelwch a'n systemau gweithredol i nodi pethau sy'n flaenoriaeth i'w hadnewyddu a'u newid yn y dyfodol.



15:27

Adroddiad cynaliadwyedd

O dan Adran 212 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyletswydd gyfreithiol i fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy yn ei holl waith. Rydym yn deall y rhan allweddol rydym yn ei chwarae yng nghyswllt hyrwyddo datblygu cynaliadwy a sicrhau bod ein gweithrediadau'n cael yr effaith leiaf posibl ar yr amgylchedd.

Eleni, cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig yn ein hymdrechion parhaus i leihau allyriadau carbon y pethau mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar ein hystâd. Cwblhawyd ein Cynllun Rheoli Carbon i ben ym mis Rhagfyr 2014, ar ôl pum mlynedd a hanner o waith caled, buddsoddiad ac ymrwymiad. Llwyddwyd i sicrhau gostyngiad o 35% yn yr allyriadau ynni, a gostyngiad o 4% yn yr allyriadau o deithiau busnes o gymharu â llinell sylfaen 2008-09. Cydnabu'r Ymddiriedolaeth Garbon bod y perfformiad hwn yn flaenllaw yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac i gydnabod ein hymdrechion cawsom wobwr am y sefydliad mwyaf cynaliadwy ym maes llywodraeth yng Ngwobrau Cynaliadwyedd Sector Cyhoeddus y DU.

Mae gennym hefyd gynlluniau ar waith ar gyfer y dyfodol. Mae allyriadau o drydan a nwy yn dal yn gyfystyr ag 84 y cant o gyfanswm ein hól troed carbon, felly rydym wedi datblygu Llwybr Lleihau Ynni er mwyn sicrhau gostyngiad pellach o 30 y cant mewn allyriadau ynni erbyn 2021 o'i gymharu â llinell sylfaen blwyddyn ariannol 2012-13.

Byddwn yn parhau i weithio i leihau ein dwysedd ynni, i arloesi a manteisio ar gyfleoedd i leihau effaith ein busnes ar yr amgylchedd a gosod esiampwl i eraill ei dilyn.

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i fod yn sefydliad agored a thryloyw, ac rydym wedi cyhoeddi data ynghylch ein perfformiad ym maes cynaliadwyedd ers 2007-08. Rydym yn mesur ac yn cyhoeddi'r data ynghylch ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr drwy gyfrwng Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol.

Crynodeb o berfformiad

Yn y flwyddyn ariannol hon, rydym wedi parhau i leihau ein heffaith amgylcheddol unigol mwyaf - y defnydd o ynni. Mae buddsoddi mewn offer hanfodol a'i adnewyddu, ynghyd â tharged o ran rheoli prosiectau a monitro ynni, wedi helpu i gynnal y tueddiad o ostyngiad yn ein defnydd o ynni. Er bod ein hól troed carbon wedi cynyddu 18 y cant (yn bennaf o ddefnydd ac ailosod oerydd sy'n gysylltiedig â'n systemau aerdymheru ac oeri), bydd adnewyddu 80 o unedau aerdymheru yn sicrhau arbedion gweithredol ac effeithlonrwydd drwy ein gwasanaethau adeiladu yn y tymor hwy.

Rydym yn disgwyl amrywiadau blynyddol mewn allyriadau sy'n gyson ag amodau tywydd anwadal, deiliadaeth amrywiol a gwelliannau i'r peiriannau, ond mae'r duedd hirdymor o fwy o ddi-ddordeb i ni. Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi llwyddo i ragori ar ein targed lleihau dŵr yn dilyn gwaith adnewyddu helaeth ar ein cyfleusterau glanweithiol ar draws Tŷ Hywel ac, er ein bod wedi methu â chyrraedd ein targed o ddim gwastraff i safleoedd tirlenwi o ddim ond 5 y cant, rydym wedi cynyddu ein cyfradd ailgylchu i 95 y cant. Rydym yn parhau i fuddsoddi yng ngwneuthuriad yr adeilad a pheiriannau Tŷ Hywel, ein hadeilad mwyaf llwglyd o ran ynni, a phan fyddwn yn gwneud hynny, mae effeithlonrwydd ynni yn ofyniad allweddol.

Ardystio prosesau rheoli amgylcheddol

Mae'r Safon Rheoli Amgylcheddol yn ddull o lywio gwelliannau amgylcheddol ac ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy ar draws y Cynulliad. Llwyddwyd i ddal gafael ar Lefel 5 (sef lefel uchaf bosibl) y Ddraig Werdd, a hynny am y seithfed flwyddyn yn olynol. Rydym wedi ymrwymo i adnewyddu'r ardystiad hwn yn flynyddol. Mae hyn yn darparu system o sicrwydd trydydd parti ac yn cydnabod blaenoriaeth barhaus y Comisiwn i barhau i wella a chydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol. Mae'r safon hefyd yn ein helpu i ganfod, monitro a rheoli ein heffeithiau amgylcheddol er mwyn ein galluogi i wneud penderfyniadau, datblygu polisi a rheoli risg yn wybodus.

Ynni

Er gwaethaf sicrhau gostyngiad o 2.4 y cant yn y defnydd o drydan o gymharu â'r llynedd, mae ffactor trosi carbon uwch (yn sgil y gyfran uchel o lo yng nghymysgedd tanwydd trydan y grid ar gyfer y flwyddyn flaenorol), wedi arwain at gynnydd o 8.5 y cant yn allyriadau trydan yr ystâd. I'r gwrthwyneb, mae'r defnydd o nwy wedi gostwng 9.5 cant, sy'n gyfwerth â gostyngiad o 10 y cant mewn allyriadau dros yr un cyfnod. Mae hyn gyfwerth â gostyngiad cronol o 4 y cant am flwyddyn.

Mae tueddiadau defnydd yn codi bennaf o ddau ffactor allweddol; llai o alw am nwy a thrydan o duedd dymhorol ysgafn drwy gydol y flwyddyn; ac uwchraddio parhaol i gyfarpar a rheolyddion cyfarpar yn Nhŷ Hywel. Rydym wedi gweithredu ymyriadau arbed ynni gan gynnwys:

- 01.** gosod system newydd ar gyfer rheoli'r adeilad (BMS);
- 02.** adnewyddu golau LED mewn ystafelloedd cyfarfod a manau cyhoeddus yn Nhŷ Hywel a'r Senedd;
- 03.** gwell rheolyddion gwresogi a falfiau rheiddiaduron;
- 04.** goleuadau synhwyro symudiadau;
- 05.** gwell inswleiddio ac effeithlonrwydd ynni yn y fynedfa i'n swyddfa; a
- 06.** gosod ffilm haul perfformiad uchel ar ffenestri lle bo'n briodol.

Teithio

Mae teithio ar fusnes yn cyfrif am 12 y cant o gyfanswm ein hól troed carbon. Yn 2014-15, cynyddodd ein allyriadau teithio ar fusnes 13 y cant o'i gymharu â 2013-14. Caiff hyn ei briodoli bron yn gyfan gwbl i gynnydd mewn milltiroedd teithio awyr o 126,922 o filltiroedd y llynedd i 333,192 o filltiroedd eleni i gefnogi nod y Comisiwn o hyrwyddo Cymru a'n gwaith i'r byd ehangach.

Mae bron i chwarter yr holl deithio busnes bellach yn cael ei wneud ar fws neu drên ac rydym wedi parhau i gynyddu'r defnydd o gar y Cynulliad at ddefnydd pawb. Mae'r defnydd o'r car allyriadau isel hwn wedi cynyddu 18 y cant o'i gymharu â'r llynedd a 30 y cant dros y pum mlynedd diwethaf. Mewn ymateb i'r nifer cynyddol o feicwyr sy'n cymudo i'r gwaith, mae'r cyfleusterau storio beiciau yn Nhŷ Hywel wedi cael eu hadnewyddu a'u gwella, gan gynyddu capasiti a gwella mynediad a threfn. Mae allyriadau carbon o'n defnydd o geir preifat wedi gostwng 8 y cant o'i gymharu â'r llynedd. Er ei fod yn

parhau i gynrychioli'r prif gyfrannwr o ran allyriadau cludiant, gostyngodd y ffigur hwn 14 y cant, yn gyfatebol i 56 y cant o'r cyfanswm dros yr un cyfnod.

Gwastraff

Yn dilyn cynnydd cyson mewn cyfraddau deiliadaeth, mae'r cyfaint o wastraff a waredir wedi cynyddu 6 y cant o'i gymharu â 2013-14. Fodd bynnag, bu gostyngiad o 26 y cant ymhellach yn y cyfaint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, sydd bellach yn ddim ond 5 y cant o'r cyfanswm. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, mae allyriadau gwastraff yn parhau i fod yn gyson â'r llynedd yn 3tCO₂e, sy'n cynrychioli dim ond 0.1 y cant o gyfanswm ein hôl troed carbon.

- Mae'r gyfradd ailgylchu yn parhau i wella, ac erbyn hyn yn sefyll ar 95 y cant o gyfanswm y gwastraff. Rydym hefyd yn elwa ar welliannau i gyfleusterau ein contractwr ar gyfer didoli ac ôl-ddidoli gwastraff i gynyddu cyfaint ailgylchu.
- Rydym yn gweithio gyda chontractwyr ar y safle i wella ansawdd y data gwastraff rydym yn ei gipio o brosiectau adnewyddu er mwyn sicrhau ein bod yn casglu'r sbectrwm llawn o ffynonellau gwastraff a gaiff eu priodoli i weithrediad y safle.

Dŵr

Ein prif nod yw lleihau ein defnydd uniongyrchol o ddŵr gan mai dyma'r maes lle gallwn ddylanwadu fwyaf. Rydym wedi lleihau ein defnydd o ddŵr o'r prif gyflenwad 16 y cant o'i gymharu â'r llynedd a 18 y cant ers blwyddyn waelodlin 2010 -11 drwy osod dyfeisiau arbed dŵr. Mae hyn yn rhagori ar ein targed o 10 y cant o ostyngiad erbyn 2015, gan arwain at yr hyn sy'n cyfateb i 12 y cant o ostyngiad mewn allyriadau sy'n gysylltiedig â chyflenwi a thrin ein dŵr o'i gymharu â'r flwyddyn waelodlin.

Mae'r mentrau a gynhaliwyd yn 2014-15 yn cynnwys:

- Adnewyddu 36 o ystafelloedd ymolchi yn Nhŷ Hywel a gosod wrinalau di-ddŵr, synwryddion ar dapiau a synwryddion i lifo dŵr i doiledau;
- Gwell mesuryddion, monitro a rheoli ein tanciau dŵr llwyd i wneud y defnydd gorau yn ystod cyfnodau sych, gan arwain at gynnydd o 19 y cant yn y gyfradd ddefnydd o'i gymharu â'r llynedd a 110 y cant o'i gymharu â 2010-11.

Gwella parhaus

Bob blwyddyn, rydym yn ymdrechu i wella ansawdd a hygrededd data ein perfformiad ym maes cynaliadwyedd drwy ddatblygu dulliau cadarn o gasglu data, er mwyn dangos ein hymrwymiad i gyflwyno adroddiadau clir ar yr holl ffyrdd yr ydym yn effeithio ar yr amgylchedd. Cefnogir hyn gan adolygiadau parhaus, archwiliadau mewnol ac allanol a, lle y bo'n bosibl, asesiadau dilysu sylfaenol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Ein data

Caiff y ffigurau ynghylch allyriadau yn yr adroddiad hwn eu cyfrifo drwy ddefnyddio Ffactorau Trosi 2014 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), sy'n benodol i'r DU. Yn unol â chanllawiau Defra, ni chaiff Allyriadau Nwyon Tŷ gwydr eu cywiro i adlewyrchu ffactorau yn ymwneud â'r tywydd.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr		2011-12	2012-13	2013-14	2014-15
Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tCO ₂ e)	Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas 1	292	329	273	561
	Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas 2	1,501	1,470	1,366	1,480
	Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas 3	439	432	427	465
	Cyfanswm yr allyriadau y tu hwnt i'r cwmpasau	313	298	167	130
	Cyfanswm yr allyriadau crynswth	2,548	2,588	2,287	2,636
	Cyfanswm yr allyriadau net	2,235	2,290	2,120	2,506
	Gwariant ar wrthbwysiadu ardystiedig (e.e. Cronfa Gwrthbwysu Carbon y Llywodraeth)	£0	£0	£0	£0
Dangosyddion Ariannol (£)	Gwariant Crynswth yng nghyswllt yr Ymrwymiad i Leihau Allyriadau Carbon	Amh	Amh	Amh	Amh
Y defnydd o ynni ^{1,2}		2011-12	2012-13	2013-14	2014-15
Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (oriau cilowat)	Trydan (anadnewyddadwy)	3,320,599	3,194,890	3,067,778	2,995,138
	Nwy	1,203,866	1,741,299	1,431,017	1,295,506
	Biomass (adnewyddadwy)	885,500	840,438	470,750	372,225
Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tCO₂e)	Cyfanswm yr allyriadau ynni	1,885	1,956	1,786	1,881
Dangosyddion Ariannol (£)	Cyfanswm y gwariant ar ynni	445,005	458,168	459,093	448,586

¹ Mae'n cynnwys costau trydan ac aerdymheru ar gyfer 'fferm weinyddwyr' oddi ar y safle ers 2010.

² Mae'r holl ddata ynni bellach yn cynnwys allyriadau trawsyrru a dosbarthu presennol ac ôl-weithredol ac allyriadau ffynnon i'r tanc lle bo hynny'n berthnasol.

Teithio swyddogol ^{3,4}		2011-12	2012-13	2013-14	2014-15
Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (milltiroedd)	Teithio ar fusnes	811,842	858,809	884,176	1,061,374
	Cerbydau y mae'r Cynulliad yn berchen arnynt, a cherbydau wedi'u llogi	36,434	25,707	31,949	26,440
Dangosyddion ariannol (£) (tCO2e)	Gwariant ar deithio ar fusnes swyddogol	265,217	266,576	349,775	393,509
Gwastraff		2011-12	2012-13	2013-14	2014-15
Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tunelli)	Cyfanswm y gwastraff	156	121	118	125
	Wedi'i ailgylchu/wedi'i aildddefnyddio	116	103	111	119
	Tirlenwi	39	17	6.4	4.7
	Gwastraff wedi'i gompostio	14.2	11.3	5.5	5.5
	Gwastraff peryglus	0.05	0.29	0.5	1
	Papur a brynwyd (A4 ac A5) (fesul miliwn o ddalennau)	2.17	2.77	2.7	2.6
Dangosyddion ariannol (£)	Gwariant ar waredu pob gwastraff	28,271	21,312	26,561	26,930
Y defnydd o ddŵr		2011-12	2012-13	2013-14	2014-15
Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (m3)	Y defnydd o ddŵr				
	Y dŵr a gyflenwyd (uniongyrchol)	7,669	9,449	7,315	6,117
	Y dŵr a gasglwyd (anuniongyrchol)	747	2,407	1,301	1,554
	Tynnu dŵr (anuniongyrchol)	0	0	0	0
Dangosyddion ariannol (£)	Gwariant ar y gyflenwad a charthffosiaeth	22,777	31,773	23,681	22,245

³ Mae'n cynnwys teithiau gan Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad o 2011-12 ymlaen a theithiau a brynwyd drwy'r cerdyn credyd corfforaethol.

⁴ Mae'r holl ddata teithio bellach yn cynnwys allyriadau presennol ac ôl-weithredol ffynnon i'r tanc ar gyfer defnyddio tanwydd.

Nodiadau

- Mae'r wybodaeth uchod wedi'i datblygu ar gyfer ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn unol â Chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi ynghylch Cyflwyno Adroddiadau ar Gynaliadwyedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14.
- Caiff allyriadau eu nodi ar sail rheolaeth ariannol ac maent yn berthnasol i'r ystâd weinyddol graidd yn unig.
- Ceir crynodeb llawn o'n perfformiad amgylcheddol yn Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol y Cynulliad.
- Caiff yr holl ddata ynghylch gweithrediadau eu trosi yn dunelli o garbon deuocsid cyfatebol (tCO₂e) at ddibenion adrodd. Mae CO₂e yn uned fesur gyffredinol sy'n ei gwneud yn bosibl cymharu potensial cynhesu byd-eang nwyon tŷ gwydr gwahanol.

Adroddiad taliadau ac adroddiad y Cyfarwyddwyr

Y Bwrdd Taliadau

Mae'r Bwrdd Taliadau (y Bwrdd), a sefydlwyd gan Fesur Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010, yn gyfrifol am bennu Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau. Daeth y Bwrdd yn weithredol ym mis Medi 2010. Mae pedwar aelod y Bwrdd, sef Mary Carter, Stuart Castledine, yr Athro Monojit Chatterji a'r Athro Laura McAllister, yn cael £185 y diwrnod. Mae Cadeirydd y Bwrdd, Sandy Blair CBE DL, yn cael £243 y diwrnod. Fel rheol, penodir i'r Bwrdd am dymor o bum mlynedd. Fodd bynnag, penodwyd yr Athro McAllister am flwyddyn yn unig o fis Gorffennaf ymlaen. Mae pob un o'r contractau yn dod i ben yn 2015.

Cyhoeddwyd adroddiad y Bwrdd, Addas i'r Diben, ym mis Mawrth 2011, a daeth i'r casgliad y dylai'r cyflog o £53,852 ar Aelodau'r Cynulliad yn 2010-11 barhau am bedair blynedd o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad. Mae'r lefel hon o gyflog wedi'i chadarnhau mewn penderfyniadau dilynol ar gyflogau a lwfansau'r Aelodau. Bu'r Penderfyniad diweddaraf ym mis Awst 2014. Mae'r Bwrdd wedi pennu cyflog sylfaenol yr Aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16 ar £54,391. Roedd gan y swyddi canlynol hawl i gael cyflogau ychwanegol fel a ganlyn:

	0 1 Ebrill 2014	0 1 Ebrill 2011
Y Llywydd	£41,949	£41,949
Y Dirprwy Lywydd	£26,385	£26,385
Comisiynwyr y Cynulliad	£12,420	£12,420
Cadeiryddion y pwyllgorau ⁵	£12,420	£12,420
Cadeiryddion pwyllgorau eraill ⁶	£8,280	£8,280

Roedd y tabl hwn yn destun archwiliad

O fis Ebrill 2011, mae Arweinydd y grŵp gwleidyddol nad oes ganddo swyddogaeth weithredol yn cael lwfans deiliad swydd ychwanegol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £12,420 a £1,000 ychwanegol am bob Aelod o'r grŵp hyd at uchafswm cyflog o £41,949. O ganlyniad, amrediad lwfans y deiliaid swyddi yw £17,420 - £26,420.

O fis Ebrill 2011, a dechrau'r Pedwerydd Cynulliad, penodwyd Rheolwyr Busnes gan y grwpiau gwleidyddol. Mae Rheolwyr Busnes yn cael lwfans deiliad swydd ychwanegol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £6,210 a £250 ychwanegol am bob Aelod o'r grŵp hyd at uchafswm cyflog o £12,420. O ganlyniad, amrediad lwfans y deiliaid swyddi yw £7,460 - £12,420.

⁵ Y Pwyllgorau oedd: Plant a Phobl Ifanc; Amgylchedd a Chynaliadwyedd; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol; Menter a Busnes; Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol; y Pwyllgor Cyllid; Cyfrifon Cyhoeddus.

⁶ Y Pwyllgorau eraill oedd: Deisebau; Safonau Ymddygiad

O'r aelodau a oedd â'r hawl i gyflogau ychwanegol yn 2014-15, ni wnaeth 3 ohonynt hawlio'r cyfanswm yr oedd ganddynt hawl iddo ar gyfer y flwyddyn gyfan (yn 2013-14 ni wnaeth 16 Aelod hawlio'r cyfanswm am y flwyddyn gyfan).

Nid yw'r Comisiwn yn rhoi buddion mewn nwyddau.

Mae Aelodau'r Cynulliad yn aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chaiff cyfrifon blyneddol eu cyhoeddi ar wahân ar gyfer y cynllun hwn ar wefan y Cynulliad www.cynulliad.cymru.

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ac maent yn cael eu codi ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn er mwyn effeithlonrwydd gweinyddol. Mae Cyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth y datgeliad.

Yn ei adolygiad o'r pecyn tâl sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad yn y Pumed Cynulliad, adolygodd y Bwrdd y cyflog sylfaenol a nododd nad oedd y cynnydd sylweddol yng nghyfrifoldebau'r Aelodau cyffredin yn cael ei adlewyrchu yn y Penderfyniad blaenorol. Yn ei Benderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015, flwyddyn cyn etholiad cyffredinol Cymru, daeth y Bwrdd i'r casgliad y dylai'r cyflog sylfaenol fod yn £64,000 o fis Mai 2016 ymlaen. Mae wedi pennu'r cyflogau i adlewyrchu'r cynnydd yng nghyfrifoldebau'r Aelodau ac mae wedi cynyddu'r cyflogau a delir i ddeiliaid swyddi yn y ddeddfwrfa ar yr un raddfa â'r rhai yn y Llywodraeth. Bydd y newidiadau y mae'r Bwrdd yn ei wneud i gynllun pensiwn yr Aelodau yn lleihau ystod a maint y buddion a gynnigir gan y cynllun a'r gost i'r trethdalwyr, gan ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau dalu mwy. At ei gilydd, bydd cyfanswm cost y cyflogau ychwanegol i ddeiliaid swyddi yn is.

Deiliaid swyddi yn y Comisiwn

Sefydlwyd y Comisiwn ym mis Mai 2007 o dan Adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Mae'r Comisiwn yn cynnwys pum Comisiynydd: y Llywydd, sy'n cadeirio'r Comisiwn, a phedwar arall o Aelodau Cynulliad a benodir gan y Cynulliad.

Enw	Teitl
Y Fonesig Rosemary Butler Etholwyd ar 11 Mai 2011	Bu Rosemary Butler yn bresennol ym mhob un o'r 14 cyfarfod o'r Comisiwn.
Angela Burns AC Penodwyd ar 25 Mai 2011	Oherwydd amgylchiadau annisgwyl yn ystod y flwyddyn, cytunodd y Llywydd i Angel Burns fod yn bresennol mewn 5 cyfarfod o'r Comisiwn.
Peter Black AC Ailbenodwyd ar 25 Mai 2011	Bu Peter Black yn bresennol ym mhob un o'r 14 cyfarfod o'r Comisiwn.
Sandy Mewies AC Penodwyd ar 25 Mai 2011	Bu Sandy Mewies yn bresennol ym mhob un o'r 14 cyfarfod o'r Comisiwn.
Rhodri Glyn Thomas AC Penodwyd ar 25 Mai 2011	Bu Rhodri Glyn Thomas yn bresennol mewn 13 o 14 cyfarfod o'r Comisiwn.

Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau'r Cynulliad ar gael yn www.cynulliad.cymru a www.assembly.wales.

Mae'r Comisiwn wedi cytuno ar drefniadau portffolio gyda'r Comisiynwyr yn cymryd cyfrifoldeb arweiniol dros faterion penodol. Caiff y rhain eu hegluro yn yr Adroddiad Blynyddol. Mae gan y Comisiynwyr gyfrifoldebau eraill sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad sy'n eu hatal rhag mynychu cyfarfod y Comisiwn o bryd i'w gilydd.

Mae gan Gomisiynwyr y Cynulliad, ac eithrio'r Llywydd, hawl i gyflog blynyddol o £12,420 yn ychwanegol at eu cyflog fel Aelodau'r Cynulliad. Nid yw manylion eu pensiwn wedi'u cynnwys isod gan mai dim ond rhan o'u tâl sy'n berthnasol i'w gwaith fel Comisiynwyr. Ni all eu pensiwn cronedig a'u Gwerthoedd Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) fel Comisiynwyr gael eu gwahanu o'r cyfansymiau a gronnwyd.

Mae costau cyflogau'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn cael eu talu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Enw a theitl	Cyflog 2014-15	Cyflog 2013-14	Gwir gynnydd mewn pensiwn ¹	Cyfansw m y pensiwn cronedig ²	CETV ar 31 Mawrth 2015	CETV ar 31 Mawrth 2014	Gwir gynnydd mewn CETV
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Y Fonesig Rosemary Butler AC, - y Llywydd	95-100	95-100	2.5-5.0	30-35	464	428	36
David Melding AC –Y Dirprwy Lywydd (dechreuodd ar 12/5/2011)	80-85	80-85	0-2.5	20-25	315	278	18

¹Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn

²Cyfanswm y pensiwn cronedig ar oedran pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar 31 Mawrth 2015

Clerc y Cynulliad (a benodir o dan Adran 26 o Ddeddf 2006) yw Prif Weithredwr y Comisiwn a'i Brif Swyddog Cyfrifyddu. Yn ymarferol, mae'r Comisiwn wedi dirprwyo'i gyfrifoldebau gweithredol i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, gyda rhai eithriadau. Mae ei staff yn cael eu penodi o dan baragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006. Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru (Gweinidogion Cymru).

Mae gan y Comisiwn ddyletswydd i sicrhau bod y Cynulliad yn cael yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen arno i ymgymryd â'i rwymedigaethau statudol. Mae hyn yn sicrhau y gall y Cynulliad a'i bwyllgorau gynnull. Mae hefyd yn annog ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses ddemocrataidd ac yn hybu ymgysylltiad â'r broses honno, ac mae'n cefnogi'r uchelgais o wneud y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

Cynghorwyr Annibynnol

Mae'r Comisiwn wedi penodi cynghorwyr i gynnig her annibynnol ac adeiladol i Gomisiwn y Cynulliad. Maent yn gwneud hyn drwy fynd i gyfarfodydd y Comisiwn, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Taliadau, ac maent hefyd yn cyfrannu at feysydd eraill o waith y Comisiwn. Mae pump cynghorwr annibynnol. Mae'r cynghorwyr yn cael tâl amhensiynadwy o £5,000 y flwyddyn, £7,000 y flwyddyn i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a £6,250 y flwyddyn i Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau.

Mair Barnes

(Tachwedd 2007 - Tachwedd 2016)

Bu Mair Barnes yn bresennol mewn 6 o 14 cyfarfod o'r Comisiwn

Eric Gregory

(Tachwedd 2012 – Hydref 2015)

Bu Eric Gregory yn bresennol mewn 5 o 5 cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, 1 o 14 cyfarfod o'r Comisiwn, ac 1 o 1 cyfarfod y Pwyllgor Taliadau.

Helena Feltham

(Tachwedd 2012 – Hydref 2015)

Bu Helena Feltham yn bresennol mewn 2 o 14 cyfarfod o'r Comisiwn, ac 1 o 1 cyfarfod y Pwyllgor Taliadau

Keith Baldwin

(Tachwedd 2012 – Hydref 2015)

Bu Keith Baldwin yn bresennol mewn 4 o 5 cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a 0 cyfarfod y Pwyllgor Taliadau

Hugh Widdis

(Tachwedd 2013 – Hydref 2016)

Bu Hugh Widdis yn bresennol mewn 5 o 5 cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Y Pwyllgor Taliadau

Mae gan y Comisiwn Bwyllgor Taliadau sy'n cynnwys o leiaf dri aelod sy'n annibynnol ar Gomisiwn y Cynulliad a'i staff, ac nid oes ganddynt fuddiannau personol neu fusnes yn y swyddogaethau'r Pwyllgor. Rhaid i un neu ddau ohonynt fod yn aelodau o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Taliadau yn sicrhau bod y Comisiwn yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd yn y modd y defnyddir arian cyhoeddus ac, yn benodol, yn ein polisiau a'n systemau arfarnu a thalu.

Aelodau'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 oedd:

- Helena Feltham - Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau (o Ebrill 2014) a Chynghorwr Annibynnol.
- Keith Baldwin, Cynghorwr Annibynnol
- Eric Gregory, Cynghorwr Annibynnol

Yn ystod y flwyddyn cyfarfu'r Pwyllgor unwaith, ar 3 Ebrill 2014.

Uwch-reolwyr

Penodir staff y Comisiwn, yn unol ag amodau a thelerau a bennir gan y Comisiwn, yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd â threfniadau'r gwasanaeth sifil. Nid yw'r staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Gwnaed nifer o newidiadau yn sgil adolygiad o strwythur y Comisiwn ar lefel uwch. Penodwyd Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn, a hon yw'r swydd gyntaf ar lefel cyfarwyddwr lle mae'r gallu i weithio'n ddwyieithog yn hanfodol. Mae'r swydd Cyfarwyddwr TGCh, a ddaliwyd gan Dave Tosh, bellach yn Gyfarwyddwr Adnoddau i adlewyrchu'r cynnydd mewn cyfrifoldebau, gan fod nifer o wasanaethau cymorth (ystadau, diogelwch, llywodraethu, caffael ac adnoddau dynol) wedi'u hychwanegu at gylch gwaith presennol TGCh. Cytunwyd ar y swyddi cyfarwyddwyr hyn yn unol ag Offeryn Dirprwyo'r Comisiwn. Mae Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau.

Mae'r uwch-reolwyr y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol iddynt yn cael eu penodi am gyfnod penagored. Os terfynir eu cyflogaeth yn gynnar am unrhyw reswm ac eithrio camymddygiad neu ymddiswyddiad, bydd yr unigolyn yn cael iawndal, fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Enw	Teitl
Claire Clancy	Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad <i>Bu Claire Clancy yn bresennol ym mhob un o 5 cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, pob un o'r 14 cyfarfod o'r Comisiwn, a phob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau</i>
Adrian Crompton	Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad <i>Bu Adrian Crompton yn bresennol mewn 3 o 14 cyfarfod o'r Comisiwn.</i>
Dave Tosh	Cyfarwyddwr TGCh <i>tan 2 Rhagfyr 2014</i> , Penodwyd yn Gyfarwyddwr Adnoddau <i>o 3 Rhagfyr 2014</i> <i>Bu Dave Tosh yn bresennol ym mhob un o 5 cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a 9 o'r 14 cyfarfod o'r Comisiwn.</i>
Elisabeth Jones	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol <i>Bu Elisabeth Jones yn bresennol mewn un o'r 14 cyfarfod o'r Comisiwn.</i>
Steven O'Donoghue	Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad a Chyfarwyddwr Cyllid <i>tan 25 Ebrill 2014</i> <i>Bu Steven O'Donoghue yn bresennol yn 1 o 1 cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.</i>
Craig Stephenson	Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn <i>o 6 Mai 2014</i> <i>Bu Craig Stephenson yn bresennol ym mhob un o'r 14 cyfarfod o'r Comisiwn.</i>
Nicola Callow	Cyfarwyddwr Cyllid <i>o 26 Ebrill 2014</i> <i>Bu Nicola Callow yn bresennol ym mhob un o 5 cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a 4 o'r 14 cyfarfod o'r Comisiwn.</i>

Heblaw Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, nid yw'r cyfarwyddwyr yn mynd i bob un o gyfarfodydd y Comisiwn a'i Bwyllgorau. Mae'r cyfarwyddwyr yn bresennol mewn cyfarfodydd sy'n cyfateb i'w portffolio penodol hwy o gyfrifoldebau. Oni nodir yn wahanol, mae'r Cyfarwyddwyr yn dal penodiadau sy'n benagored.

Teithio a chynhaliaeth

Dyma'r hawliadau a wnaed gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, ac ar eu rhan, am dreuliau teithio a chynhaliaeth a threuliau busnes eraill yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf:

Enw	Costau teithio a chynhaliaeth a hawliwyd 2014-15 £	Costau teithio a chynhaliaeth a hawliwyd 2013-14 £
Claire Clancy	572	1,112
Adrian Crompton	179	3,550
Dave Tosh	7,434	279
Elisabeth Jones	935	1,514
Steven O'Donoghue	-	1,316
Craig Stephenson	1,499	-
Nicola Callow	211	-

Roedd y tabl hwn yn destun archwiliad. Mae rhagor o fanylion am y ffigurau hyn yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Mae'r cynnydd mewn costau teithio oherwydd y gost a rennir o deithio awyr yn ymwneud â gwasanaethau cynghori TG a ddarperir i gyrff seneddol dramor.

Cyfanswm tâl mewn ffigurau sengl

Enw	Cyflog (£'000)			Buddion pensiwn ¹ (i'r £1000 agosaf)			Cyfanswm (£'000)		
	2014-15	2013-14	2012-13	2014-15	2013-14	2012-13	2014-15	2013-14	2012-13
					Wedi'i ailddatgan	Wedi'i ailddatgan		Wedi'i ailddatgan	Wedi'i ailddatgan
Claire Clancy	145-150	140-145	140-145	37,000	-3,000 ³	61,000	180-185	140-145	205-210
Adrian Crompton ²	120-125	115-120	110-115	35,000	40,000	42,000	155-160	155-160	155-160
Dave Tosh	105-110	85-90	80-85	104,000	43,000	33,000	205-210	130-135	115-120
Elisabeth Jones	95-100	90-95	45-50	34,000	85,000	44,000	125-130	175-180	85-90
Steven O'Donoghue	5-10	70-75	65-70	16,000	16,000	21,000	20-25	85-90	90-95
Craig Stephenson	70-75			57,000			125-130		
Nicola Callow	60-65			43,000			105-110		

1 Mae gwerth y buddion pensiwn a gronwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) plws (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

2 Yn ystod 2014/15 ad-dalwyd am waith ar secondiad (£98,000).

3 Mae'r ffigur negyddol o ganlyniad i rewi cyflogau yn 2013-14.

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros, goramser, lwfansau recriwtio a chadw.

Roedd gwerth y buddion pensiwn ar gyfer 2012-13 a 2013-14 wedi'i nodi yn anghywir fel pensiwn cronedig y llynedd. Mae'r wybodaeth wedi'i hailddatgan yn gywir yn y tabl uchod. Mae'r newid, a nodir 'wedi'i ailddatgan', yn effeithio hefyd ar y golofn cyfanswm.

Nid yw Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad na'r Cyfarwyddwyr yn cael taliadau bonws na buddion mewn nwyddau.

Uwch-reolwyr – Buddion Pensiwn

Enw a theitl	Gwir gynnydd mewn pensiwn ¹	Cyfanswm y pensiwn cronodig ²	CETV ar 31 Mawrth 2015	CETV ar 31 Mawrth 2014	Gwir gynnydd mewn CETV
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<i>Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad</i>					
Claire Clancy	0-2.5 a chyfandaliad o 2.5-5	65-70 a chyfandaliad o 200-205	1,403	1,305	33
<i>Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad</i>					
Adrian Crompton	0-2.5 a chyfandaliad o 5-7.5	35-40 a chyfandaliad o 115-120	657	600	24
<i>Cyfarwyddwr Adnoddau'r Cynulliad</i>					
Dave Tosh	5.0-7.5	30-35	379	295	62
<i>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol</i>					
Elisabeth Jones	2.5-5.0	30-35	538	475	27
<i>Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad a enwebwyd yn Gyfarwyddwr Cyllid</i>					
Steven O'Donoghue	0-2.5	25-30	338	328	10
<i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn</i>					
Craig Stephenson	2-5.5 a chyfandaliad o 5-10	30-35 a chyfandaliad o 95-100	566	498	43
<i>Cyfarwyddwr Cyllid</i>					
Nicola Callow	0-2.5 a chyfandaliad o 5-10	10-15 a chyfandaliad o 40-45	213	173	28

¹Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn

²Cyfanswm y pensiwn cronodig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2015 a'r cyfandaliad cysylltiedig.

Roedd y tabl hwn yn destun archwiliad.

Gwerthoedd Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Dyma werth cyfalafol buddion y cynllun pensiwn a gronwyd gan aelod ar adeg benodol yn ôl asesiad yr actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r buddion a gronwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun datgelu.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronwyd i'r aelod oherwydd iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawllir buddion pensiwn.

Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y Comisiwn. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

Pensiynau

Darperir buddion pensiwn i staff y Cynulliad drwy drefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod yn aelod o un o bedwar cynllun buddion diffiniedig; naill ai cynllun cyflog terfynol (**classic**, **premium** neu **classic plus**); neu gynllun gyrfaf gyfan (**nuvos**). Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau'r buddion eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau **classic**, **premium**, **classic plus** a **nuvos** yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Gall yr aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â'u cyflogau ac maent rhwng 1.5% a 6.85% o enillion pensiynadwy ar gyfer cynllun **classic** a rhwng 3.5% ac 8.85% ar gyfer cynlluniau **premium**, **classic plus** a **nuvos**. Mae buddion yn y cynllun **classic** yn crynhoi ar gyfradd o 1/80 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal â hyn, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â'r tair blynedd cyntaf o bensiwn pan fydd rhywun yn ymddeol. Mae buddion yn y cynllun **premium** yn crynhoi ar gyfradd o 1/60 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i gynllun **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, cyfuniad yw'r cynllun **classic plus** gyda'r buddion sy'n gysylltiedig â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y gwneir yn y cynllun **classic** ac mae'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo fel y

gwneir yn y cynllun **premium**. Gyda chynllun **nuvos**, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod y cyfnod y bu'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), telir 2.3% o gyflog pensiynadwy aelod yn ystod blwyddyn y cynllun i'w gyfrif pensiwn a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a nodir yn Neddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai gan banel o ddarparwyr. Nid oes yn rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu os yw'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn aelodau cynlluniau **classic, premium a classic plus** yw 60, a 65 yw'r oed ar gyfer aelodau cynllun **nuvos**.

Bydd y trefniadau pensiwn newydd Cyfartaledd Gyrfa yn cael eu cyflwyno ar 1 Ebrill 2015, a bydd mwyafrif aelodau'r cynlluniau classic, premium, classic plus a nuvos yn ymuno â'r cynllun newydd.

Mae rhagor o fanylion am y cynllun newydd ar gael yn Civil Service Pensions : Y cynllun pensiwn newydd - alpha.

Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae'r modd yr ymdrinnir â rhwymedigaethau pensiwn a manylion y cynlluniau pensiwn perthnasol wedi'u nodi yn y Datganiad o Bolisiâu Cyfrifyddu yn y cyfrifon hyn. Mae buddion y cynllun pensiwn yn cael eu hamlinellu yn yr Adroddiad Taliadau ac yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Cyflogau staff y Comisiwn

Mae'r cysylltiad rhwng tâl y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf a thaliad canolrifol staff y Comisiwn i'w weld yn y tabl canlynol. Cyflog yw'r swm a enillwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ac mae'n cynnwys yr holl daliadau sy'n ddyledus. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol na Blwydd-daliad y Cyflogwr. Nid oes unrhyw fuddion mewn nwyddau na bonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn daladwy yn 2014-15 nac yn 2013-14.

	2014-15 Cyflog £	2013-14 Cyflog £
Band y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf	145,000-150,000	140,000-145,000
Cyfanswm taliad canolrifol	29,475	26,988
Cymhareb	5.0	5.3

Band cyflog y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yng Nghomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15 oedd £145,000 i £150,000 (£140,000-£145,000 yn 2013-14).

Roedd hyn yn 5.0 gwaith (5.3 yn 2013-2014) yn fwy na thâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £29,000 (£27,000 yn 2013-2014). Mae'r cynnydd yn y cyfanswm taliad canolrifol oherwydd bod staff proffesiynol ychwanegol wedi symud y canolrif i fand uwch.

Yn 2014-15, ac yn 2013-14, ni roddwyd unrhyw daliadau a oedd yn fwy na chyflog y cyfarwyddwr a oedd ar y cyflog uchaf. Roedd y taliadau yn amrywio o £15,000, a oedd yn sicrhau bod gweithwyr yn derbyn Cyflog Byw, i £150,000 (2013-14 wedi'i ailddatgan £15,000 i £145,000).

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiynau sydd gyfwerth ag arian parod

Nifer y staff

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, dyma nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn:

	31 Mawrth 2015	Ailddatganwyd 31 Mawrth 2014
Staff a gyflogwyd*	391.24	369.53
Ar secondiad	6.0	1.0
Achlysurol / Asiantaeth	25.12	19.35
Menywod*		
Cyfarwyddwyr	3	2
Staff	233	211
Cyfanswm	236	213
Dynion*		
Cyfarwyddwyr	3	3
Staff	207	191
Cyfanswm	210	194

**Mae'r staff a gyflogir uchod yn cael eu nodi fel cyfwerth ag amser llawn a bod y dadansoddiad yn ôl rhyw yn un gwirioneddol.*

Nid yw Cynghorwyr Annibynnol yn cael eu cynnwys yn y ffigurau cyfwerth ag amser llawn, mae gwybodaeth am eu presenoldeb mewn cyfarfodydd yn yr Adroddiad Taliadau.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Ein gweledigaeth yw bod yn sefydliad sy'n arwain y ffordd yn ein hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a pharchu hawliau dynol. Mae hyn yn wir yn ein capasiti fel cyflogwr ac fel sefydliad sy'n rhoi cymorth i Aelodau'r Cynulliad ac sy'n rhyngweithio â'r cyhoedd.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn llunio Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ar y camau a nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb 2012-16. Mae'r Adroddiad yn cynnwys gwaith y mae timau ar draws y Cynulliad wedi'i wneud i hybu cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i fodloni'r gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Un o'n llwyddiannau wrth weithredu'r cynllun yw bodloni'r hyn sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb yn ategu'r gwaith hwn i hyrwyddo cydraddoldeb, gwerth, amrywiaeth, a chanfod a dileu rhwystrau cydraddoldeb posibl o ran ein staff, Aelodau'r Cynulliad, eu staff ac aelodau o'r cyhoedd.

Mae'r prif lwyddiannau eleni yn cynnwys:

- Yn 2015, cyrhaeddodd y Cynulliad rif 4 ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, sy'n rhestru 100 cyflogwr gorau'r DU, a chafodd ei enwi yn Gyflogwr Gorau'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru am yr eildro'n olynol. Hefyd cawsom gydnabyddiaeth gan nifer o sefydliadau eraill megis Action on Hearing a'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, a chawsom ein cynnwys ymhlith y 30 Cyflogwr Gorau ar gyfer Teuluoedd sy'n Gweithio ac yn rhestr y Times o'r 50 Cyflogwr gorau i Fenywod yn 2014;
- Rydym hefyd wedi ennill cydnabyddiaeth allanol gan Action on Hearing, y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol a'r rhestr o Gyflogwyr Gorau ar gyfer Teuluoedd sy'n Gweithio.
- Penodwyd Cydgysylltydd Cynllun Gweithredu Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i fwrw ymlaen â'n hymrwymiad i gefnogi recriwtio, cadw a datblygu staff o blith pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- Mae'r gwelliannau i ystâd y Cynulliad wedi gwella hygyrchedd;
- Lanswyd hyfforddiant cydraddoldeb ar-lein ar gyfer yr Aelodau a'u staff, a chyflwynwyd hyfforddiant ar Gyfeillion Dementia, Hyder gydag Anabledd, a chefnogi staff lesbiaidd, hoyw a deurywiol.
- Cyflwynwyd system fwy ffurfiol o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu'n fwy cyson ar draws y sefydliad;
- Adolygiad o'n swyddogaethau cydraddoldeb a gynhaliwyd gan yr archwilydd mewnol a oedd yn cydnabod arferion da iawn ac yn tynnu sylw at rai meysydd i'w gwella;

Mae gwybodaeth fanylach ar gael yn Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2014-15.

Iechyd a diogelwch

Rydym yn buddsoddi yn iechyd, diogelwch a lles holl staff y Comisiwn, Aelodau'r Cynulliad a'u staff, y contractwyr a phawb sy'n ymweld ag ystâd y Cynulliad, ac rydym yn sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio'n statudol â'r ddeddfwriaeth bresennol.

Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd y strategaeth lles yn benodol ar gefnau iach a straen. Cynhaliwyd cyfres o raglenni hybu iechyd, gan gynnwys wythnos cefnau iach ac wythnos cydbwysedd bywyd a gwaith. Anogwyd y staff i gymryd rhan a rhoddwyd arweiniad iddynt ar y ffordd orau o ofalu am eu lles.

Data absenoldeb salwch

Y gyfradd absenoldeb gyffredinol oherwydd salwch am y flwyddyn oedd 7.26 diwrnod gwaith cyfartalog fesul person, sef 3.0% (5.48 diwrnod gwaith, 2.49% yn 2013-14) o'i gymharu â'r targed am y flwyddyn o saith diwrnod gwaith y person.

Er bod hyn yn well na chyfartaledd y sector cyhoeddus o 7.9 diwrnod, mae'r wybodaeth a gasglwyd gan Bartneriaid Busnes Adnoddau Dynol wedi rhoi gwell darlun inni o'r rhesymau am yr absenoldeb ac mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â'r materion hynny.

Digwyddiadau'n ymwneud â data personol

Yn 2014-15, ni fu unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol na cholli data personol lle'r oedd hi'n ofynnol rhoi gwybod yn swyddogol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Bu nifer o fân ddigwyddiadau o dorri'r rheolau ar ddata personol neu doriadau posibl yn fewnol a gafodd eu hymchwilio a'u rheoli yn unol â pholisi'r Comisiwn, a gwnaed argymhellion lle'r oedd hynny'n briodol. Gan fod y tebygolrwydd o niwed neu ofid i destun y data yn yr achosion hyn yn isel, barnwyd nad oedd angen cymryd camau pellach.

Rhwymedigaethau pensiwn

Mae buddion y cynllun pensiwn yn cael eu hamlinellu yn yr Adroddiad Taliadau ac yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Archwilydd

Mae Cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Adroddiad yr Archwiliad i'w weld yn y Cyfrifon Blynyddol ar dudalen 114.

Y gost y cytunwyd arni o archwilio'r datganiadau hyn yn allanol oedd £66,250 (£62,540 yn 2013-14). Yn ogystal, cafwyd cost o £3,636 (dim yn 2013-14) ar gyfer archwilio anstatudol ychwanegol yn 2014-15.

Datgelu gwybodaeth archwilio i Swyddfa Archwilio Cymru

Cyn belled ag y gwn:

- Nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein archwilydd yn ymwybodol ohoni; ac
- Rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sefydlu bod ein archwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Y cyfarwyddyd o ran cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon a geir rhwng tudalenau 120 a 164 yn unol â Chyfarwyddyd y Trysorlys a gyhoeddwyd o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi a cheir nodiadau esboniadol i gyd-fynd â hwy. Mae'r cyfrifon hyn yn nodi effaith ariannol penderfyniadau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol blaenorol.

Mae gwybodaeth am y Cynulliad a'r Comisiwn hefyd ar gael ar wefan y Cynulliad: www.cynulliad.cymru a www.assembly.wales.

Claire Clancy
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Dyddiad: 09 Gorffennaf 2015



Tudalen y pecyn 103

Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, drwy rinwedd Adran 138 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu wedi paratoi datganiad o gyfrifon yn unol â Chyfarwyddyd a gyhoeddir gan y Trysorlys a'r egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu sydd wedi'u nodi yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Paratwir y Cyfrifon Adnoddau ar sail cyfrifyddu cronadau ac maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn, yr alldro adnoddau net, yr adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni amcanion, y datganiad o wariant net cynhwysfawr, y datganiad o'r sefyllfa ariannol, llif arian a'r datganiad o'r newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr yn ystod y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'r Prif Weithredwr a'r Clerc wedi:

- cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys o ran cyfrifon;
- cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu gwybodaeth, ac wedi bod yn gyson o ran gweithredu polisiâu cyfrifyddu priodol;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a gofalus;
- nodi a yw'r safonau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw eithriadau a gaiff eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros gywirdeb a chysondeb cyllid y Comisiwn a thros gadw cofnod priodol, wedi'u nodi mewn memorandwm a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

Claire Clancy
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Dyddiad: 09 Gorffennaf 2015

Datganiad Llywodraethu 2014-15

Mae'r Datganiad hwn yn nodi'r sail y cafodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei sefydlu arno; y ffordd y caiff ei lywodraethu a'i reoli; a sut y mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud.

Rôl y Comisiwn

Cafodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei sefydlu fel corff corfforaethol o dan Adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ei brif rôl yw darparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen at ddibenion y Cynulliad, neu sicrhau bod y rhain yn cael eu darparu ar ei gyfer. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Comisiwn yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli ei faterion, hwyluso'r dull o arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, a rheoli risg.

Diben y fframwaith llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo a rheoli'r sefydliad a'r gweithgarwch sy'n ei wneud yn atebol i'r Cynulliad a phobl Cymru ac sy'n ei ymgysylltu â hwy. Mae'n galluogi'r Comisiwn i fonitro cyflawniad ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau costeffeithiol a phriodol.

Y fframwaith llywodraethu

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd, sy'n Gadeirydd arno, ynghyd â phedwar Aelod Cynulliad arall a benodir gan y Cynulliad. Y Comisiynwyr sy'n gyfrifol am lywodraethu'r sefydliad ac maent yn atebol i'r Cynulliad. Maent yn pennu nodau strategol y sefydliad, yn darparu'r arweinyddiaeth i'w rhoi ar waith ac yn goruchwyllo ac yn adrodd ar yr hyn a gyflawnir.

Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn yw Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad. Mae'n atebol i'r Comisiwn am gyflawni ei nodau strategol. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, hi sy'n atebol i'r Cynulliad am drefn ac ansawdd gwaith rheoli yng Nghomisiwn y Cynulliad, gan gynnwys ei ddefnydd o arian cyhoeddus a sut y mae'n gwarchod ei asedau. Cyflogeion y Comisiwn yw staff y Cynulliad.

Fel rhan o fframwaith llywodraethu'r sefydliad, mae gan y Comisiwn Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Ansawdd a Phwyllgor Taliadau. Mae Bwrdd Taliadau annibynnol yn pennu cyflogau a chymorth ariannol arall ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes

Mae'r Comisiwn yn cwrdd yn rheolaidd i roi cyfeiriad ac i oruchwyllo'r modd y cyflawnir strategaeth ac amcanion y Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi dirprwyo llawer o'i swyddogaethau rheoli o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr.

Caiff y gwaith o ddarparu gwasanaethau o fewn y Comisiwn ei reoli drwy strwythur sefydliadol o Gyfarwyddiaethau a meysydd gwasanaeth sy'n adrodd yn ôl i'r Prif Weithredwr. Mae'r Bwrdd Rheoli yn cynnwys y Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaethau sy'n cydgysylltu polisi a materion gweithredol. Mae'r Bwrdd Rheoli yn cyfarfod yn ffurfiol ac yn anffurfiol yn rheolaidd i adolygu a chydgyssylltu gweithgareddau. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd weithredu mewn modd corfforaethol er budd y Cynulliad cyfan.

Mae'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad, y Cyfarwyddwr Adnoddau, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Cyllid, yn rhoi cyfeiriad i fuddsoddiadau mewn gwelliannau pwysig ar draws y Comisiwn ac yn llywodraethu'r buddsoddiadau hynny.

Caiff y gwaith o reoli adnoddau ei wneud drwy system lywodraethu o awdurdodau dirprwyedig sy'n cynnwys cyllid, staffio a chyfrifoldebau adnoddau eraill, fel caffael. Mae dulliau adolygu ac adrodd sefydledig ar waith, wedi'u cydgyssylltu a'u cefnogi gan dimau cymorth canolog.

Mae prosesau ffurfiol ar gyfer darparu gwybodaeth i'r Comisiwn, y Bwrdd Rheoli, a'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau, i sicrhau eu bod yn cael eu darparu mewn modd amserol ac i safon a gytunwyd. Mae'n ofynnol i bapurau nodi cyd-destun y mater sy'n cael ei drafod, a chynnwys tystiolaeth berthnasol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r trefniant mewnol ar gyfer sicrhau ansawdd cyn cyflwyno papurau yn ychwanegu lefel arall o graffu ynghylch pa mor berthnasol yw'r wybodaeth, a beth yw ansawdd y wybodaeth honno.

Cynllunio a Mesur Perfformiad

Ar ddechrau pedwaredd flwyddyn y Pedwerydd Cynulliad cyfarfu Comisiynwyr y Cynulliad i drafod yr hyn a wnaed ers 2011 o ran cyflawni nodau strategol a blaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi, a phenderfynu ar yr hyn a ddylai ddigwydd nesaf. Cydnabu'r Comisiynwyr gynnydd yn yr holl feysydd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad a chyflwynwyd y blaenoriaethau ar gyfer gweddill y Cynulliad, gan gynnwys cryfhau ymwybyddiaeth o'r Cynulliad ar draws Cymru; datblygu a theilwra ein gwasanaethau i Aelodau; a chynllunio'n effeithiol ar gyfer y Pumed Cynulliad. Er i nodau strategol y Comisiwn, a'i flaenoriaethau ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi (y blaenoriaethau strategol) gael eu diweddarau, ni chawsant eu newid yn sylweddol. Cafodd canlyniadau trafodaethau'r Comisiwn eu hymgorffori yn ein cynllun strategol a'i gyflwyno i'r holl staff er mwyn iddynt gael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau gwasanaeth a'r amcanion perfformiad unigol.

Mae'r Comisiwn yn parhau i gyhoeddi **Dangosyddion Perfformiad Allweddol** i ddangos perfformiad corfforaethol ar draws pob maes gweithgarwch. Mae'r rhain wedi parhau i ddangos gwelliant ar gyfer bron pob dangosydd, a chafwyd darlun o berfformiad uchel, parhaus ar draws llawer o wasanaethau a gwelliant cyflym lle cafodd yr ymdrechion eu targedu. Mae'r Comisiynwyr a Phwyllgor Cyllid y Cynulliad o'r farn bod yr adroddiadau o gymorth ac yn ddefnyddiol. Er bod angen gwneud rhagor o waith ar wella'r broses ar gyfer casglu data sylfaenol i lunio adroddiadau, mae'r gyfres gyfredol o ddangosyddion yn ateb y diben ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn. Rydym yn bwriadu adolygu ac adnewyddu'r gyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y Pumed Cynulliad i adlewyrchu'r strategaeth gorfforaethol a gaiff ei sefydlu gan y Comisiwn newydd.

Adroddiad ar gynnydd a pherfformiad

Mae'r cynnydd ar gyflawni blaenoriaethau strategol, yn ogystal â meysydd a nodwyd i'w cryfhau yn natganiad 2013/14, wedi'i amlinellu isod.

Un o'r gweithgareddau allweddol oedd y gwaith ar gyflawni uchelgais y Comisiwn ar gyfer **Pwyllgorau o'r Radd Flaenaf**, gyda'r ffocws ar wneud timau integredig yn sail i gyflawni gwelliannau. Mae gwaith

yn parhau i ddeall dewisiadau'r Aelodau yn well i lywio'r blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae adborth yn dangos bod y gefnogaeth i waith pwyllgorau wedi gwella'n sylweddol yn y Cynulliad hwn. Mae'r cynnydd o ran gwelliannau a nodwyd yn yr adolygiad o gymorth pwyllgorau hefyd wedi creu mwy o ddyfnder ac ehangder o ran ymgysylltu â phobl Cymru, yn enwedig pobl ifanc.

Un ffocws allweddol ar gyfer cyflawni ein blaenoriaethau strategol yn y flwyddyn ddiwethaf oedd **trosglwyddo ein gwasanaethau TGCh** o ddarparwr allanol i drefniant mewnol, a gyflawnwyd yn llwyddiannus ym mis Gorffennaf 2014. Cafodd y trefniadau llywodraethu mewnol ac allanol ar gyfer y prosiect trawsnewid eu canmol gan KPMG, a bu'r gyllideb TGCh newydd yn destun craffu gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad. Yn ei adroddiad blynyddol, dywedodd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn fel a ganlyn: 'The Committee is encouraged by the Commission's increasing professionalism in managing key programmes and projects, and would highlight the ICT Transformation programme as an exemplar here'. Yn ogystal â sicrhau lefel uchel o arbedion gwerth am arian, mae'r newidiadau hefyd yn ein galluogi i fod yn fwy hyblyg wrth ymateb i anghenion TGCh yr Aelodau a'r staff.

Yn ystod y flwyddyn cafodd gwefannau'r Cynulliad eu huwchraddio neu eu hadnewyddu – symudwyd y brif wefan i lwyfan Sharepoint, a bydd hynny'n dod ag arbedion sylweddol o ran costau cynnal a chadw a lletya. Hefyd, lansiodd y gwasanaeth Senedd.tv newydd. Roedd y Cynulliad hefyd yn bartner arweiniol yn lansiad y parthau lefel uchaf .cymru a .wales. Rhoddwyd y cyfeiriadau newydd cynulliad.cymru / assembly.wales ar ein gwefan ac ar gyfeiriadau e-bost defnyddwyr.

Mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i wella gwytnwch ein systemau. Roedd y rheini'n cynnwys gosod cyflenwadau trydan newydd yn y Senedd nad oes modd tarfu arnyn nhw (UPS), symud i system wrth gefn newydd, symud systemau sy'n bwysig i fusnes y Cynulliad i serfwyr newydd, a chael gwared ag offer yr oedd ei oes wedi dod i ben. Trwy greu archif ddigidol o drafodion y Cynulliad, mae copi wrth gefn o'r prif raglenni o ansawdd darlledu am y tro cyntaf.

Mae'r Comisiwn wedi datblygu rhaglen fuddsoddi wedi ei blaenoriaethu dros y tymor hir ar gyfer **ystâd y Cynulliad**, a oruchwylir gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau. Cyflawnwyd rhaglen uchelgeisiol o waith i wella'r trefniadau diogelwch ac i wella profiadau ymwelwyr. Cwblhawyd y rhaglen fuddsoddi ar amser ac o fewn y gyllideb.

O fewn y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol, mae adnodd pwrpasol wedi'i sefydlu i ystyried materion sy'n ymwneud â **newid cyfansoddiadol** a'u goblygiadau ar gyfer y Comisiwn o ran capasiti, sofraniaeth a chadw pwerau. Mae gwaith y tîm hwn wedi canolbwyntio ar sicrhau bod newidiadau'r dyfodol yn diwallu anghenion y Cynulliad, codi ymwybyddiaeth o newid a'n parodrwydd i ymateb iddo. Mae'r tîm hefyd yn rheoli'r cymorth i'r **Bwrdd Taliadau**, sy'n trafod y pecyn llawn o dâl ar gyfer Aelodau'r Pumed Cynulliad. Rydym o'r farn bod y Bwrdd Taliadau yn rhoi sicrwydd annibynnol amhrisiadwy i'r Cynulliad, gan sicrhau priodolrwydd, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran defnyddio cyllid cyhoeddus.

Mae Tîm Caffael yn rheoli proses gaffael y Comisiwn ac yn rhoi cymorth yn achos contractau dros £25,000. Mae'r dull canolog hwn o weithredu yn galluogi'r Comisiwn i sicrhau arbedion sylweddol ar gaffael contractau. Heblaw hynny, mae Tîm Caffael y Comisiwn hefyd yn cynorthwyo meysydd gwasanaeth i gaffael a rheoli contractau hyd at £24,999. Mae'r Tîm Caffael wedi cyhoeddi canllawiau

caffael manwl ar sicrhau gwerth am arian, ac mae wedi cyhoeddi templed safonol ar gyfer cyfarfodydd rheoli contractau.

Sicrhawyd arbedion caffael o £557 yn 2014-15. Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd hyfforddiant ym maes caffael a rheoli contractau i wella dealltwriaeth o'r rheolau a'r strategaethau caffael. Mae adroddiad chwarterol, rhestr o'r contractau diweddaraf, templed adolygu contractau a'r arbedion caffael yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau er mwyn iddo allu blaengynllunio a gwneud penderfyniadau o ran contractau.

Cytunodd y Comisiwn ar gynllun gweithredu yn dilyn yr adolygiad o'i effeithiolrwydd gan Bennaeth Archwilio Mewnol y Cynulliad, a rhoddwyd y cynllun hwnnw ar waith.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod cynnydd wedi'i wneud ar draws pob maes a bod y Comisiwn yn parhau i weithredu fel 'bwrdd llywodraethu' sy'n cyflawni'n uchel.

Cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu

Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu cyfres o egwyddorion llywodraethu a darpariaethau cefnogol sy'n gyson â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU a'r Cod Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus. Cânt eu defnyddio i lywio gwaith y Comisiwn a'i staff. Mae Comisiwn y Cynulliad wedi cydymffurfio â'r egwyddorion hyn.

Nodi a rheoli risg

Mae'r system rheoli mewnol wedi ei seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i ganfod a blaenoriaethu risgiau a allai effeithio ar allu'r Comisiwn i gyflawni ei bolisiau a'i nodau a'i amcanion. Hefyd, ystyrir pa mor debygol yw'r risgiau hynny o gael eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a sut y gellir rheoli'r risgiau'n effeithlon, yn effeithiol ac mewn modd darbodus.

Y prif feysydd ffocws ar gyfer ein risgiau corfforaethol yn ystod y flwyddyn oedd ein parodrwydd ar gyfer newid y gwasanaethau TGCh, y gallu a'r adnoddau i gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol, a risgiau allweddol i'n henw. Yn ystod y flwyddyn, nododd Comisiwn y Cynulliad ddau risg newydd i'w cynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a oedd yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol a'r system ffôn. Fel yn achos pob risg gorfforaethol, enwebwyd perchnogion risg ar gyfer y risgiau hyn. Mae perchennog risg yn llunio adroddiad ynghylch pa mor ddigonol yw'r rheolaethau presennol, i ba raddau y derbynnir unrhyw fylchau ac unrhyw gamau gweithredu pellach sydd eu hangen i wella'r rheolaethau.

Yn ôl archwiliad mewnol o'n trefniadau rheoli risg, roedd y rheolaethau ar gyfer y Fframwaith Rheoli Risg yn 'Gryf'. Roedd rheoli risgiau'n ofalus yn allweddol i weithredu ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn llwyddiannus.

Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg drosolwg o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg a thrafododd risgiau corfforaethol penodol yn fwy manwl trwy gydol y flwyddyn.

Bydd nifer o heriau'n wynebu Comisiwn y Cynulliad yn ystod y ddwy flynedd nesaf, ynghyd â risgiau y bydd angen eu rheoli'n effeithiol. Mewn cyfnod o newid cyfansoddiadol sylweddol pellach, byddwn yn

canolbwyntio ar ddylanwadu ar y Bil Cymru Drafft newydd a sicrhau bod blaenoriaethau'r Llywydd ar gyfer diwygio'r sefydliad yn cael eu cyflawni. Ar yr un pryd, bydd angen i ni sicrhau bod y Cynulliad mewn sefyllfa dda ar gyfer cychwyn y pwerau ariannol newydd a ddaw i rym wrth weithredu Deddf Cymru 2014. 2016-17 fydd blwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad ac mae rhaglen o waith ar y gweill eisoes ar gyfer diddymu'r Cynulliad presennol a throsglwyddo i'r Cynulliad newydd. Gallai etholiad y DU ym mis Mai 2015, a'r rownd nesaf o wariant llywodraeth y DU, fod â goblygiadau ar gyfer ein cyllidebau a'n strategaeth yn y dyfodol. Mae penodi Comisiwn newydd ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016 hefyd yn debygol o arwain at gyfeiriad strategol newydd ar gyfer y Comisiwn. Yn fewnol, bydd prosiectau pwysig megis y newidiadau i Siambr y Senedd ac ystadau eraill, a gwaith TGCh.

Sicrwydd

Cyfarfu **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** Comisiwn y Cynulliad bum gwaith yn ystod y flwyddyn. Rôl gynghorol sydd gan y Pwyllgor, ac nid oes ganddo bwerau gweithredol. Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd ar adroddiadau archwilio mewnol ac allanol, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad, adroddiadau ar reoli risg, a'r trefniadau llywodraethu a rheoli mewnol. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau archwilio. Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd un cyfarfod estynedig lle bu'n trafod y cyd-destun strategol ar gyfer newid cyfansoddiadol, a gwahoddodd uwch-swyddog o Swyddfa'r Cabinet i drafod y rhaglen gymhleth a rheoli rhanddeiliaid.

Ar ôl proses o fapio sicrwydd, pennwyd ein Fframwaith Sicrwydd yn ffurfiol am y tro cyntaf i ychwanegu eglurder a dealltwriaeth pellach o ran sut yr ydym yn cael sicrwydd bod ein rheolaethau mewnol yn gadarn ac yn effeithiol. Trafodwyd y fframwaith hwn gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a barnwyd ei fod yn ardderchog ac yn enghraifft arbennig o dda. Rhoddodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg adborth gwerthfawr i Gomisiwn y Cynulliad. Maent wedi annog y swyddogion i adolygu'r fframwaith yn gyfnodol, i ddilysu'r trefniadau presennol a mynd i'r afael â'r bylchau presennol yn y sicrwydd.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn croesawu'r proffil cynyddol a gaiff Archwilio Mewnol ar draws y Comisiwn y Cynulliad. Maent yn parhau i fod yn fodlon ar y sicrwydd a roddir gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ac yn croesawu'r ffocws cliriach ar argymhellion y flwyddyn flaenorol a'r dull sy'n seiliedig ar risg a gaiff ei fabwysiadu gan Archwilio Mewnol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gwerthfawrogi'r protocol cydweithio ffurfiol rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, sy'n sail i'w perthynas waith gref. Mae hyn yn sicrhau eu bod, gyda'i gilydd, yn darparu gwasanaeth archwilio a sicrwydd cydgysylltiedig sydd â ffocws i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Rheolwyr Comisiwn Cynulliad.

Yn ôl Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol mae gan Gomisiwn y Cynulliad brosesau digonol ac effeithiol o reoli risg a llywodraethu i allu cyflawni ei amcanion.

Mae Comisiwn y Cynulliad hefyd yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau allanol o sicrwydd. Yn ystod y flwyddyn, mae KPMG, cyn Brif Swyddog Gwybodaeth Cymru, uwch-swyddog o'r DVLA a rhai o Gynghorwyr Annibynnol Comisiwn y Cynulliad wedi bod yn helpu i ddarparu sicrwydd a chefnogaeth i brosiectau Comisiwn y Cynulliad.

Mae canlyniadau'r sicrwydd allanol annibynnol hefyd yn bwysig i Gomisiwn y Cynulliad gan eu bod yn adlewyrchu'r diwylliant a'r amgylchedd y mae staff Comisiwn y Cynulliad yn gweithio ynddo. Mae Comisiwn y Cynulliad wedi ennill gwobr aur Buddsoddwyr mewn Pobl; cafodd ei enwi yn rhestr y Times o'r hanner cant o gyflogwyr gorau ar gyfer menywod; ac mae'n bedwerydd ym Mynegai Stonewall o Gydraddoldeb yn y Gweithle 2015.

Twyll

Bu achos o dwyll yn y Comisiwn lle llwyddodd troseddwr i dorri ein prosesau llywodraethu a'n rheolaethau. Canfuwyd y twyll gan ein Tîm Cyllid ym mis Mai 2014. Cysylltwyd ar unwaith â'r Heddlu a'r Gwasanaethau Diogelwch, y banc, Swyddfa Archwilio Cymru a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn. Hefyd, hysbyswyd y rhanddeiliaid allweddol, fel y nodir yng Nghynllun Ymateb i Dwyll y Comisiwn, a chafodd sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru wybod am y risgiau.

Mae'r twyll yn destun ymchwiliad troseddol sy'n ehangach nag achos y Comisiwn; rydym wedi bod yn gweithio gyda'r heddlu i erlyn y troseddwr. Nid oedd unrhyw gamarfer mewnol. Aethpwyd ati ar unwaith i roi sicrwydd bod y digwyddiad yn achos unigol. Cynhaliwyd adolygiad helaeth a dilyswyd yr holl newidiadau a oedd wedi'u gwneud i gyflenwyr. Roedd y rheini'n cwmpasu 75 o newidiadau cyflenwyr (sy'n gyfanswm o 96% o werth ariannol holl daliadau 2013-14). Roedd canlyniadau'r adolygiad hwn yn dangos bod y twyll yn achos unigol. Cafodd y gwaith ei adolygu gan Swyddfa Archwilio Cymru a gytunodd â'r casgliad hwn. Yn syth ar ôl y twyll, aethom ati i werthuso a chryfhau'r rheolaethau ar gyfer cofnodi a dilysu data cyflenwyr. Atgyfnerthwyd ein gwiriadau rheolaidd o fewn y broses bresennol ar gyfer newidiadau cyflenwyr er mwyn sicrhau uniondeb ein system daliadau ac i leihau'r risg o ffynonellau allanol. Mae unrhyw dwyll sy'n arwain at golli arian cyhoeddus yn annerbyniol, ond mae'r camau gweithredu a gymerwyd gennym ers inni ganfod y twyll wedi cadarnhau bod gennym reolaethau a threfniadau llywodraethu cadarn a bod ein prosesau yn addas at y diben. Mae'r symiau o dan sylw wedi cael eu datgelu yn llawn yn Nodyn 16 o Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon 2014-15. (£29,000 yn 2014-15; £71,000 yn 2013-14).

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi adnewyddu'r Cynllun Ymateb i Dwyll, a chymeradwywyd y cynllun newydd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Tachwedd 2014. Mae gwaith Archwilio Mewnol penodol ar reolaethau a phrosesau ariannol allweddol, er mwyn dilysu effeithiolrwydd y trefniadau newydd, yn rhan o Gynllun Archwilio Mewnol 2015-16.

Adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol

Canolbwynt yr adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu oedd proses hunan-adolygu a gwblhawyd gan y Bwrdd Rheoli ym mis Chwefror 2015. Roedd hyn yn ystyried canlyniadau'r ymarfer mapio sicrwydd ac roedd yn cynnwys sicrwydd am y canlynol:

- y cynnydd o ran y llwyddiannau allweddol;
- ymwybyddiaeth o egwyddorion, rheolau a gweithdrefnau llywodraethu, a chydymffurfio â hwy, ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu;
- rheoli risgiau;
- y cynnydd o ran y meysydd i'w gwella; a
- sut y mae'r broses o gyflawni amcanion y cynllun gwasanaeth wedi'i monitro.

Defnyddiwyd canlyniad yr adolygiad i lunio'r datganiad hwn, a chafodd ei drafod gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyn llofnodi'r datganiadau ariannol.

O ran y trefniadau llywodraethu, amlinellir isod y cynnydd o ran y meysydd i'w gwella a nodwyd yn natganiad 2013-14 neu yn ystod y flwyddyn.

Mae ethos gwelliant parhaus y Comisiwn wedi cael ei adlewyrchu'n gyson ym maes rheolaeth ariannol a pherfformiad. Mae gwelliannau pellach mewn adroddiadau a rhagolygon ariannol wedi rhoi hyblygrwydd i wneud y defnydd gorau o'r gyllideb sydd ar gael. Gosodwyd y dangosydd perfformiad ariannol allweddol unwaith eto ar darged heriol o gyflawni'r alldro o fewn 1% o'r gyllideb. Mae ffocws y Comisiwn ar ddarparu Gwerth am Arian yn parhau ac am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, rydym wedi rhagori ar ein targed arbedion ac wedi cynyddu'r cyfraniad o wariant gweithredu nad oedd yn wariant ar staff. Parheir i fod angen paratoi achosion busnes ar gyfer cynigion recriwtio, ac iddynt gael eu cymeradwyo ymlaen llaw cyn unrhyw weithgaredd recriwtio; bellach caiff y rhain eu hasesu a'u cymeradwyo gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau.

Mae rôl y **Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau**, sef y corff sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau strategol am adnoddau yn y Cynulliad, wedi'i hymestyn i gynnwys rheoli mentrau a phrosiectau newid mawr, ac mae ganddo rôl weithredol yn goruchwyllo'r adnoddau staffio, gan gynnwys cymeradwyo achosion busnes ar gyfer recriwtio. Mae hyn, ynghyd â'r gwelliannau o ran darparu gwybodaeth i'r Bwrdd, wedi cryfhau'r dull strategol o ddarparu adnoddau ar gyfer rhaglenni a phrosiectau.

Eleni, rydym wedi newid y broses ar gyfer rheoli'r cyllidebau buddsoddi ar gyfer y ddau wasanaeth sy'n gwario fwyaf - Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau, a TGCh. Fel rhan o'r newid cadwyd eu cyllidebau buddsoddi yn ganolog, ac mae'r ddau faes gwasanaeth wedi llunio cynlluniau buddsoddi strategol – 10 mlynedd ar gyfer Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau, a thair blynedd ar gyfer TGCh. Bu angen cymeradwyaeth y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau o achosion busnes unigol cyn y gellid rhyddhau cyllid ar gyfer buddsoddi. Mae hyn wedi caniatáu i'r Bwrdd flaenoriaethu'r gwariant yn fwy effeithiol ac i fod yn fwy hyblyg wrth ymateb i ofynion newydd, fel yr ymarfer cynllunio capasiti.

Nodwedd newydd arall yw ein bod, am y tro cyntaf, wedi cynnal ymarfer cynllunio capasiti ffurfiol yn rhannol mewn ymateb i'r cynnydd sylweddol a hysbys yn y rhaglen ddeddfwriaeth. Dangosodd yr ymarfer bod angen adnoddau ychwanegol i gefnogi'r gwaith o baratoi Biliau a'u harwain drwy'r Senedd, ac i gynorthwyo'r pwyllgorau i graffu'n effeithiol. Mae ffocws penodol wedi'i roi ar wella'r cymorth i Aelodau'r Cynulliad drwy ddarparu mwy o adnoddau ymchwil a chyfreithiol.

Er mwyn gallu blaengynllunio'n effeithiol ac adnabod y berthynas rhwng cynlluniau gwasanaeth, mae'r Bwrdd Rheoli wedi ymrwmo i fabwysiadu cylch blynyddol mwy strwythuredig o gynllunio busnes ac adolygiadau yn ystod y flwyddyn. Er mwyn rhoi gwell cymorth i'r gwaith o gynllunio adnoddau a chapasiti ar lefel strategol, bydd y broses flynyddol o gynllunio gwasanaethau bellach yn gysylltiedig â'r dull ffurfiol o gynllunio capasiti.

Rydym wedi gwneud rhagor o gynnydd tuag at gwblhau **Cynllun Parhad Busnes** Comisiwn y Cynulliad. Adolygwyd yr holl gynlluniau gwasanaeth yn ystod y flwyddyn; mae gwaith wedi'i wneud i ddatblygu cynllun ymateb i ddigwyddiadau mawr, a chwblhawyd ein ymarfer parhad busnes corfforaethol cyntaf ym mis Ebrill 2015.

Mae camau breision wedi'u gwneud o ran cyflawni gofynion y **Cynllun Ieithoedd Swyddogol**. Ar ôl ystyried yr adroddiad blynyddol ar gydymffurfio, cytunodd y Comisiynwyr bod cynnydd da wedi'i wneud drwy gydol y flwyddyn a chytunwyd ar y blaenoriaethau i ymgorffori arfer da ymhellach ar draws y sefydliad. Cyrhaeddwyd nifer o gerrig milltir arwyddocaol yn ystod y flwyddyn, fel lansiad Microsoft Translator, datblygu gwahanol ffyrdd o gefnogi Aelodau yn eu gwaith pwyllgor, hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer holl staff Comisiwn y Cynulliad a'r gwaith a wnaed gan gydgyssylltwyr y cynllun ieithoedd swyddogol ym mhob maes gwasanaeth.

Rydym wedi adolygu ac adnewyddu ein Cynllun Ymateb i Dwyll, yn unol â'r arferion gorau a bygythiadau sy'n esblygu, ac rydym wedi cryfhau ein rheolaethau er mwyn helpu i sicrhau uniondeb ein system daliadau ac i leihau risgiau o ffynonellau allanol.

Gwnaed cynnydd pellach eleni wrth atgyfnerthu'r trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn y Cynulliad. Mae'r cynnydd yn cynnwys datblygu fframwaith llywodraethu gwybodaeth, sy'n cynnwys dogfen gyffredinol sy'n nodi ymrwymiad y Cynulliad i reoli a diogelu gwybodaeth, a'i gyfrifoldebau yn hynny o beth, a chyfres o bolisiau ategol newydd.

Mewn adroddiad archwilio mewnol ym mis Gorffennaf 2014, cofnodwyd sgôr foddhaol, a soniwyd bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar godi ymwybyddiaeth ar draws y Cynulliad. Ailbwysleisiwyd y pwysigrwydd o lywodraethu gwybodaeth yn effeithiol, a'r cyfrifoldeb am hynny.

Nid oedd unrhyw achosion o drafferthion yn ymwneud â data personol na cholli data personol yn 2014-15 lle'r oedd hi'n ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cafodd nifer o fân ddigwyddiadau o dorri'r rheolau ar ddata personol neu doriadau posibl yn fewnol eu hymchwilio a'u rheoli yn unol â pholisi'r Comisiwn.

Meysydd Ffocws a Datblygu ar gyfer 2015-16

Gan ystyried canlyniadau'r gwaith archwilio a sicrwydd, a chan adeiladu ar y cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf, bydd y meysydd ffocws a datblygu ar gyfer 2015-16 yn cynnwys y canlynol:

- Parhad busnes – mae cryn gynnydd wedi'i wneud a bydd profion llawn yn cael eu cynnal.
- Llywodraethu gwybodaeth – cytunwyd ar Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth a chaiff ei weithredu a'i orfodi ar draws y meysydd gwasanaeth gan y Perchnogion Asedau Gwybodaeth.
- Rheoli prosiectau a rhaglenni, a gwireddu'r buddion – mae maint a chymhlethdod prosiectau wedi parhau i gynyddu ac rydym yn bwriadu cyflwyno fframwaith newydd y gall prosiectau weithredu a llwyddo o'i fewn, ond sydd hefyd yn rhoi rhyddid i Uwch-swyddogion Cyfrifol a Rheolwyr Prosiectau i gyflawni eu prosiectau yn y ffordd fwyaf effeithiol a chymesur.
- Cynllunio capasiti – rhoddwyd trefniadau newydd ar waith eleni a byddant yn cael eu hintegreiddio'n llawn â'r broses o gynllunio'r gyllideb a'r gwasanaethau yn y flwyddyn sydd i ddod.

Caiff cynllun yn nodi'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r meysydd hyn ei baratoi a chaiff adroddiad am y cynnydd ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Ansawdd Comisiwn y Cynulliad.

Datganiad

I grynhoi, rwy'n fodlon bod y gwendidau a nodwyd drwy ein prosesau sicrwydd wedi cael sylw, neu maent yn y broses o gael sylw. Rwyf hefyd yn fodlon bod y systemau a'r prosesau yn ein fframwaith llywodraethu wedi'u gweithredu a'u datblygu'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

Claire Clancy
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Dyddiad: 09 Gorffennaf 2015



Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad Cyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian, Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed gan Drysorlys EM o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer Archwilydd.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth o'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau materol berthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Comisiwn a pha un a ydynt wedi'u cymhwysu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y Comisiwn; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwysu at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau materol berthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n faterol berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n faterol berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau materol berthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar y datganiadau ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar 31 Mawrth 2015, a'r gofyniad arian parod net, ei alldro adnoddau net a'i gost gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac

- wedi’u paratoi’n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd sy’n faterol berthnasol, mae’r gwariant a’r incwm wedi’u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae’r trafodion ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy’n eu llywodraethu.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae’r rhan o’r Adroddiad Taliadau cydnabyddiaeth i’w harchwilio wedi’i pharatoi’n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ac
- mae’r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â’r datganiadau ariannol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i’w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid yw’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw’r datganiadau ariannol yn gyson â’r cofnodion a’r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a bennwyd gan Drysorlys EM o ran taliadau cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i’w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas,
Archwilydd Cyffredinol Cymru
15 Gorffennaf 2015

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio’r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio’n wreiddiol. Cyfieithiad o’r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw’r fersiwn hwn. Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Datganiad Cyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

a) Crynodeb o'r Alldro 2014–15

	2014-15 £'000						Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant/(gorwariant)	Alldro 2013-14 £'000	
	Cyllideb			Alldro					
Nodyn	Gwariant	Incwm	Cyfanswm	Gwariant	Incwm	Cyfanswm			
Adnoddau i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru	SOS 02	36,900	(400)	36,500	37,434	(223)	37,211	(711)	35,455
Adnoddau mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau	SOS 02	14,100		14,100	13,325		13,325	775	13,261
Gwariant a reolir yn flynyddol	SOS 02	1,200		1,200	932		932	268	1,054
		52,200	(400)	51,800	51,691	(223)	51,468	332	49,770

Ceir eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a'r alldro yn SOS 02.

b) Gofyniad arian parod net 2014-15

		2014-15			2013-14
		£'000			£'000
		Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant/(gorwari ant)			Alldro
	Nodyn	Cyllideb	Alldro		
Gofyniad arian parod net	SOS 04	46,450	45,804	646	45,408

Ceir eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a gymeradwywyd a'r alldro yn SOS 02 ac yn y Sylwebaeth Reoli.

c) Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

Mae'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru yn cynnwys llog banc a'r incwm dros ben a gafwyd yn ystod y flwyddyn. Yn 2014-15 nid oedd unrhyw incwm dros ben na llog wedi dod i law (£31,327.67 2013-14, yn cynrychioli'r incwm dros ben a dderbyniwyd).

Nodiadau ar gyfer y Cyfrifon Adnoddau (Datganiad Gyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru)

SOS 01.Datganiad ar y polisïau cyfrifyddu

Caiff cyllideb Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei hawdurdodi gan y Cynulliad drwy gynigion cyllideb ffurfiol. Mae'r cynigion hyn yn awdurdodi gwariant cyfalaf a refeniw y Comisiwn, yn ogystal ag incwm y ceir ei gadw a'r swm y gellir ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru. Paratowyd y Datganiadau a'r nodiadau ategol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2014-15 y Llywodraeth (FRM) a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

Confensiwn cyfrifyddu

Caiff y Datganiad o Gyflenwad a'r nodiadau cysylltiedig eu cyflwyno yn unol â rheolaeth cyllideb y Trysorlys ac Amcangyfrifon Cyflenwi.

Cymhariaeth gyda chyfrifon sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)

Caiff nifer o drafodion eu trin yn yr un ffordd mewn Cyfrifon Gwladol a chyfrifon sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, ond mae nifer o wahaniaethau.

Derbyniadau yn uwch na chytundeb Trysorlys Ei Mawrhydi

Mae hyn yn berthnasol lle mae Trysorlys Ei Mawrhydi wedi cytuno ar derfyn incwm y gellir ei gadw gan y Comisiwn, gydag unrhyw incwm dros ben yn cyfrif y tu allan i gyllidebau, ac o ganlyniad y tu allan i'r Datganiad o Gyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd cyfrifon seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn cofnodi'r holl incwm, waeth beth yw'r terfyn cyllidebol. Gall y sefyllfa hon godi yn y meysydd canlynol: (i) elw / colled wrth waredu asedau; (ii) cynhyrchu incwm sy'n uwch na setliadau Adolygiad o Wariant yr adran; a (iii) incwm a dderbyniwyd uwchben y cytundebau netting-off.

Darpariaethau

Nid yw'r ddarpariaeth a gydnabyddir yn y cyfrifon yn seiliedig ar IFRS yn cael eu cydnabod fel gwariant hyd nes y caiff y taliad gwirioneddol o arian parod (neu atebolrwydd cronïad) ei gydnabod. Caiff cysoniad ei ddarparu yn SOS 03

SOS 02.Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net 2014-15

	Alldro	Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd	Alldro o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd	Dadansoddiad o'r Gyllideb Ddiwygiedig	Alldro o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig	Alldro 2013-14
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<i>Gwariant Refeniw</i>						
Cyflogau staff a chostau cysylltiedig	17,664	17,380	(284)	17,380	(284)	15,770
Costau adeiladau a chyfleusterau	9,356	7,643	(1,713)	7,643	(1,713)	7,380
Costau TGCh	3,343	3,221	(122)	3,221	(122)	4,971
Costau eraill	1,568	1,237	(331)	3,073	1,505	1,319
Costau hyfforddi a datblygu	370	390	20	390	20	384
Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth	286	452	166	452	166	217
Costau teithio a chynhaliaeth staff	159	138	(21)	138	(21)	128
Costau eraill Adnoddau Dynol	119	103	(16)	103	(16)	113
Costau dibrisiant ac amorteiddiad	4,009	4,400	391	4,000	(9)	3,734
Gwariant refeniw gros	36,874	34,964	(1,910)	36,400	(474)	34,016
<i>Incwm refeniw</i>						
Gwerthiant – Siop y Cynulliad	(13)	(15)	(2)	(15)	(2)	(12)
Incwm rhentu adeiladau	(80)	(90)	(10)	(90)	(10)	(116)
Incwm amrywiol	(130)	(145)	(15)	(295)	(165)	(122)
Incwm refeniw gros wedi'i gymhwyso	(223)	(250)	(27)	(400)	(177)	(250)
GWARIANT REFENIW NET	36,651	34,714	(1,937)	36,000	(651)	33,766
GWARIANT CYFALAF Creu asedau sefydlog	560	1,786	1,226	500	(60)	1,689
ALLDRO ADNODDAU	37,211	36,500	(711)	36,500	(711)	35,455
Cyflogau a Lwfansau Aelodau a chostau cysylltiedig	13,325	14,100	775	14,100	775	13,261
ALLDRO ADNODDAU	50,536	50,600	64	50,600	64	48,716
Costau Cyllid Pensiwn yr Aelodau	932	750	(182)	1,200	268	1,054
Alldro Adnoddau Net	51,468	51,350	(118)	51,800	332	49,770

Dadansoddiad o alldro adnoddau net – nodiadau

Yr alldro adnoddau ar gyfer 2014-15 oedd £50.536 miliwn yn erbyn cyllideb o £50.598 miliwn, gan roi tanwariant o £64,000 (0.1%). Roedd hyn yn gadarn o fewn y targed o danwariant o lai nag 1% (<£501,000) ac yn adlewyrchu'r dull rhagweithiol ac effeithlon o reoli'r gyllideb.

Un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at reolaeth agos o'r fath ar y cyllid, oedd y defnydd o flaengynlluniau gwaith ar gyfer gwasanaethau sydd â dyraniadau mawr yn y gyllideb - yn bennaf Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau, a TGCh. Mae gan y ddau wasanaeth gylch gwaith mawr ac ymrwymadau cyllidebol parhaus a helaeth. Trwy weithio gyda'r gwasanaethau hyn i flaenoriaethu eu cynlluniau llwyddwyd i reoli gwariant yn hyblyg fel y gellid defnyddio'r adnodd yn y ffordd fwyaf priodol.

Yn sgil yr ymarfer Cynllunio Capasiti a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn i asesu'r adnoddau staff presennol o gymharu â'r pwysau gwaith presennol ac yn y dyfodol, nodwyd bod angen buddsoddi ymhellach yn y maes hwn. Cymeradwywyd amryw o swyddi newydd parhaol a dros dro yn ystod y flwyddyn i gefnogi gwaith y Comisiwn. Gwelir effaith ariannol y rhain fwyfwy yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf wrth i ni symud tuag at y Pumed Cynulliad ac yn sgil y cynnydd yn rolau a chyfrifoldebau'r Comisiwn.

Roedd tanwariant o £775,000 (5.8%) yng nghyllideb Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau. Defnyddiwyd y tanwariant ar gyfer cynnal a chadw'r ystâd, lle mae rhaglen dreigl gynhwysfawr ac eang o waith. Bu buddsoddiad hefyd mewn paratoi ar gyfer system ffôn newydd, uwchraddio'r system radio diogelwch, a chwblhau'r prosiect i wella'r system wresogi yn y Senedd.

Trwy newid o ddarparwr TGCh allanol i dîm mewnol llwyddwyd i ostwng costau gweithredol sylfaenol y gwasanaethau TGCh yn ystod 2014-15. Drwy'r gostyngiad hwn llwyddwyd i sicrhau £400,000 i'w ail-fuddsoddi yn y gwasanaeth i wella'r gwasanaethau. O ganlyniad mae gan y Comisiwn wasanaeth TGCh mewnol sy'n gadarn, yn addas at y diben ac yn gallu ymateb i newidiadau yn anghenion y Comisiwn mewn modd amserol ac effeithlon gan sicrhau gwerth am arian gwirioneddol ar gyfer y sefydliad.

Roedd y gwariant cyfalaf ar gyfer y flwyddyn yn is na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, yn bennaf oherwydd bod y gwariant ar TGCh wedi'i ailddosbarthu o gyfalaf i refeniw. Roedd hyn oherwydd y newid busnes sylweddol yn y gwasanaeth TGCh gyda'r symud llwyddiannus i wasanaeth a ddarperir yn fewnol.

Roedd yr incwm yn is na'r blynyddoedd blaenorol, yn bennaf oherwydd newid yn y modd yr ymdrinnir ag incwm o secondiadau. Mae'r Comisiwn yn parhau i roi cyfleoedd i staff gael profiad y tu allan i'r Comisiwn drwy secondiad neu drwy ddarparu arbenigedd i sefydliadau allanol. Dangosir yr incwm hwn bellach fel gostyngiad mewn gwariant staff.

Mae'r atebolrwydd am gostau Pensiwn yr Aelodau (£932,000) wedi'i dalu o'r £1.2 miliwn yn y gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Y gyllideb hon a neilltuir yn benodol ar gyfer y diben hwn gyda chostau sy'n codi o driniaeth cyfrifyddu a nodir yn Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19. Ni all y tanwariant o £0.268 miliwn sy'n codi o'r gyllideb hon gael ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall.

SOS 03. Cysoni'r alldro adnoddau â'r costau gweithredu net

	Nodyn	2014-15 £000	2013-14 £'000
Alldro Adnoddau Net	SOS 02	51,468	49,770
Gwariant cyfalaf	4 a 5	(560)	(1,689)
Taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru		645	624
Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru	SOS 06	-	(31)
Costau gweithredu net		51,553	48,674

Mae'r taliadau uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, sef £645,340 (£624,222 yn 2013-14) yn deillio o gostau cyflogau'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiynydd Safonau, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r cyflogau hyn yn cael eu talu gan y Comisiwn ond, gan eu bod yn daliadau uniongyrchol o'r Gronfa, nid ydynt yn cael eu cynnwys yn yr alldro adnoddau net.

SOS 04. Cysoni'r gofyniad arian parod net â'r (gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod

	31 Mawrth 2015 £'000	31 Mawrth 2014 £'000
Gofyniad arian parod net	(45,804)	(45,408)
O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol	46,450	45,850
Symiau sy'n ddyledus o Gronfa Gyfunol Cymru sydd heb eu defnyddio	(527)	(219)
Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol	(223)	(630)
Gostyngiad mewn arian parod	(104)	(407)

SOS 05.Cysoni'r adnoddau net â'r gofyniad arian parod

	Nodyn	Cyllideb £'000	Alldro £'000	Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant/(gorwari ant) £'000	Alldro 2013-14 £'000
Alldro Adnoddau Net	SOS 02	51,800	51,468	332	49,770
Addasiadau croniadol					
Eitemau nad ydynt yn arian parod	Gweler isod	(5,200)	(5,257)	57	(4,788)
Newidiadau mewn cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod		(150)	(407)	257	426
Gofyniad arian parod net		46,450	45,804	646	45,408

<i>Eitemau nad ydynt yn arian parod</i>	Nodyn	Cyllideb £'000	Alldro £'000	Alldro o'i gymharu â'r gyllideb 2014-15 £'000	Alldro 2013-14 £'000
Dibrisiant ac amorteiddiad a dadgydnabod	4 a 5	(4,000)	(4,325)	325	(3,734)
Cost Cyllid Pensiynau IAS 19 a newidiadau eraill mewn darpariaeth		(1,200)	(932)	(268)	(1,054)
		(5,200)	(5,257)	57	(4,788)

SOS 06.Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

	Cyllideb 2014-15 £'000	Alldro 2014-15 £'000	Alldro 2013-14 £'000
Incwm gweithredu y gellir ei gadw	400	223	281
Is-gyfanswm	400	223	281
Swm a gadwyd	400	223	250
Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru	-	-	31

Ni chafwyd unrhyw incwm gweithredu arall yn 2014-15 (dim yn 2013-14).

Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015

		2014-15	2013-14
	Nodyn	£'000	£'000
Costau gweinyddol			
Costau cyflogau'r Aelodau, deiliaid swyddi a staff	2a	23,604	21,715
Costau Eraill yr Aelodau	2b	8,030	7,940
Costau Cyllid Pensiwn yr Aelodau	10	932	1,054
Costau gweinyddol eraill	3	19,210	18,246
Costau gweinyddol gros		51,776	48,955
Incwm gweithredu	SOS 06	(223)	(281)
Costau gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015		51,553	48,674

Gwariant cynhwysfawr arall

Enillion net ar ailbriso Eiddo, Offer a Chyfarpar		-	(4,601)
Cyfanswm y gwariant cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015		51,553	44,073

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

Ar 31 Mawrth 2015

		31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2014
	Nodyn	£'000	£'000
Asedau anghyfredol:			
Eiddo, offer a chyfarpar	4	65,646	68,969
Asedau annirweddol	5	631	1,073
Cyfanswm yr asedau anghyfredol		66,277	70,042
Asedau Cyfredol			
Stoc	6	23	19
Symiau masnachol a symiau i'w derbyn	7	1,608	2,426
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod	8	119	223
Cyfanswm yr asedau cyfredol		1,750	2,668
Cyfanswm yr asedau		68,027	72,710
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnachol a symiau taladwy eraill	9	(4,012)	(4,520)
Darpariaethau	10	(37)	(36)
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol		(4,049)	(4,556)
Asedau anghyfredol ynghyd ag asedau cyfredol net		63,978	68,154
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Darpariaethau	10	(9,216)	(4,876)
Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol		(9,216)	(4,876)
Asedau heb gynnwys rhwymedigaethau		54,762	63,278

Ecwiti Trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill

Y gronfa gyffredinol	51,434	55,575
Y gronfa benswn wrth gefn	(9,147)	(4,772)
Y gronfa ailbrizio wrth gefn	12,475	12,475
	54,762	63,278

Claire Clancy
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Dyddiad: 09 Gorffennaf 2015

Datganiad Llif Arian

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015

		2014-15	2013-14
	Nodyn	£'000	£'000
Llif arian o weithgareddau gweithredu			
Costau gweithredu net	SOS 03	(51,553)	(48,674)
Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod:			
Dibrisiad, amorteiddiad ac amhariad	4 a 5	4,009	3,734
Gwaredu	4	316	-
(Cynnydd) mewn stoc	6	(4)	(3)
Gostyngiad/(cynnydd) mewn symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn	7	818	(919)
<i>Cynnydd yn y ddarpariaeth</i>	10	3	-
(Gostyngiad) mewn symiau masnachol a symiau taladwy eraill	9	(194)	(134)
<i>Heb gynnwys y newidiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr</i>		135	380
Defnyddio darpariaeth	10	(37)	(36)
Costau cyllid pensïynau	10	932	1,054
All-llif arian net o weithgareddau gweithredu		(45,575)	(44,598)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, offer a chyfarpar	4	(874)	(1,416)
Prynu asedau annirweddol	5	-	(17)
All-llif arian net o weithgareddau buddsoddi		(874)	(1,433)
Llif arian o weithgareddau cyllido			
O Gronfa Gyfunol Cymru (Cyflenwad)		45,923	45,630
O Gronfa Gyfunol Cymru (taliadau uniongyrchol)		645	624
Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru		(223)	(630)
Mewnlif arian net o weithgareddau cyllido		46,345	45,624
Gostyngiad net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod	SOS 04	(104)	(407)
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	8	223	630
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	8	119	223

Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015

	Nodyn	Y gronfa gyffredino l	Y gronfa ailbriso wrth gefn	Cronfa bensiw wrth gefn	Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn
		£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 31 Mawrth 2013		57,194	7,874	(5,051)	60,017
Newid yn y Gronfa Bensiwn wrth Gefn		-	-	-	-
Cost y Gronfa Bensiwn	10	-	-	1,333	1,333
Cyfanswm incwm a gwariant cydnabyddedig ar gyfer 2013-14		(48,674)	-	-	(48,674)
Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn	10	1,054	4,601	(1,054)	4,601
Cronfa Gyfunol Cymru		-	-	-	-
-Cyflenwad		45,850	-	-	45,850
-Taliadau uniongyrchol	SOS 03	624	-	-	624
Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru		(31)	-	-	(31)
-Cyflenwad	SOS 05	(442)	-	-	(442)
Balans ar 31 Mawrth 2014		55,575	12,475	(4,772)	63,278
Addasiad ar gyfer flwyddyn flaenorol Cyflenwad WCF		31	-	-	31
Cost y Gronfa Bensiwn	10	-	-	(3,443)	(3,443)
Cyfanswm incwm a gwariant cydnabyddedig ar gyfer 2014-15		(51,553)	-	-	(51,553)
Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn	10	932	-	(932)	-
Cronfa Gyfunol Cymru		-	-	-	-
-Cyflenwad	SOS 3	46,448	-	-	46,448
-Taliadau uniongyrchol		645	-	-	645
Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru		-	-	-	-
CFERs taladwy i'r Gronfa Gyfunol		-	-	-	-
-Cyflenwad	SOS 05	(644)	-	-	(644)
Balans ar 31 Mawrth 2015		51,434	12,475	(9,147)	54,762



Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon Adnoddau

01. Datganiad ar y polisiau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2014-15 (FReM) a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r polisiau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus.

Pan fo'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiwn er mwyn cyflwyno darlun cywir a theg. Cafodd polisiau cyfrifyddu'r Comisiwn eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon. Yn ogystal â'r datganiadau a baratowyd o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cynulliad Cenedlaethol yn paratoi dau ddatganiad cyflenwad ychwanegol.

Cwblhawyd adolygiad o bob safon a dehongliad newydd a gyhoeddwyd ac a ddaeth i rym yn 2014-15 gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) a'r Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) yn ystod y flwyddyn, a chanfuwyd nad effeithir ar Ddatganiadau Ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i ystyried asedau sefydlog a ailbrisiwyd yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Eiddo, Offer a Chyfarpar

Y lefel sylfaenol ar gyfer cyfalafu ased diriaethol yw £5,000 gan gynnwys TAW na ellir ei adennill.

Mae'r trothwy TG (a oedd gynt yn £5,000 ar gyfer gwerth cyfunol yr asedau) bellach yn £5,000 ar gyfer eitem unigol, gan gynnwys TAW na ellir ei adennill.

Y rheswm am newid y polisi yw bod y gwasanaethau TGCh bellach yn fewnol, gan achosi newid yn yr arferion gwaith. Mae'r gwasanaeth newydd yn gweithredu drwy ddarparu gwelliannau busnes parhaus yn hytrach na'r newidiadau mawr a welwyd yn flaenorol o dan y contract allanol. Cafodd eitemau a brynwyd fesul grŵp mewn blynyddoedd blaenorol eu dibrisio'n llawn yn ystod y flwyddyn y daethom allan o'r contract. Mae'r eitemau hyn wedi eu dadgydnabod.

Caiff tir ac adeiladau eu prasio gan gwmni proffesiynol bob tair blynedd o leiaf. Ni chaiff asedau diriaethol eraill eu hailbriso, ond cedwir hwy ar werth teg, gan na fyddai'r symiau dan sylw yn arwyddocaol, ym marn y Comisiwn.

Dibrisio asedau

Caiff eiddo, offer a chyfarpar eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau na phriodolir gwerth uwch i asedau na'r symiau y gellid eu hadennill. Os yw'r symiau hyn yn llai na gwerth llyfr net yr asedau, fe'i nodir yn gollod amhariad yn y Datganiad Gwariant Net.

Asedau sy'n cael eu hadeiladu

Caiff gwerth asedau sy'n cael eu hadeiladu ei nodi yn seiliedig ar gost hanesyddol gan yr ystyrir bod hyn yn cyfateb mewn modd derbyniol â gwerth teg. Pan ddechreuir defnyddio'r ased, fe'i trosglwyddir i'r categori priodol a chaiff ei gynnwys mewn adolygiadau ailbrisio ac amhariad dilynol.

Asedau anniriaethol

Caiff trwyddedau meddalwedd eu cyfalafu fel asedau sefydlog annirweddol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddisgwyliedig yr ased (3 neu 5 mlynedd).

Asedau a gafwyd yn rhodd

Caiff asedau a gafwyd yn rhodd eu cyfalafu ar sail eu gwerth cyfredol pan gânt eu rhoi ac fel arfer cânt eu hailbriso yn yr un modd ag asedau a brynwyd. Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei gredydu â gwerth y rhodd wreiddiol a'r ailbrisiadau dilynol. Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei gynnwys yn y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn unol â phenderfyniad Trysorlys Ei Mawrhydi o dan y Rhaglen Clear Line of Sight.

Dibrisiant

Nid yw tir rhydd-ddaliadol, asedau sy'n cael eu hadeiladu, dogfennau neu gofnodion hanesyddol na gwaith celf yn cael eu dibrisio. Cyfrifir dibrisiant ar gyfradd a fydd yn lleihau gwerth adeiladau ac asedau diriaethol eraill drwy randaliadau cyfartal dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Caiff asedau eu dadansoddi yn ôl eu helfennau perthnasol i adlewyrchu eu hoes economaidd amrywiol. Ni chânt eu dibrisio yn ystod y flwyddyn y cawsant eu caffael. Isod, rhestrir oes arferol asedau:

Ased	Oes ased
Adeiladau:	50 mlynedd neu gyfnod arall a bennir gan brisiwr cymwysedig (RICS).
Offer sefydlog:	10 mlynedd, neu gyfnod arall a bennir gan y cyflenwr pan gaiff ei brynu neu ei brisio.
Cyfarpar TGCh, clywedol a darlledu:	4-6 mlynedd
Seilwaith TGCh:	10 blynedd
Asedau annirweddol (meddalwedd):	3 neu 5 mlynedd
Cerbydau modur:	4 mlynedd
Asedau a gafwyd yn rhodd:	I'w hasesu ar ôl eu cael

Yr elfen ddibrisiant a wireddir o'r gronfa ailbriso wrth gefn

Bydd gwerth asedau ar ôl eu hailbriso yn destun dibrisiant. Gall elfen o'r dibrisiant ddod i law felly oherwydd cynnydd yn y prisiad, a byddai'n fwy na'r dibrisiant a fyddai'n cael ei gyfrifo o ddefnyddio cost hanesyddol yr asedau. Byddai'r swm dan sylw'n elw a wireddwyd ar y prisiad, a chaiff ei drosglwyddo o'r Gronfa Ailbriso Wrth Gefn i'r Gronfa Gyffredinol, os yw'n arwyddocaol.

Cydrannau Asedau

Caiff asedau eiddo eu hadolygu drwy'r prisiadau proffesiynol bob tair blynedd i gadarnhau a oes unrhyw ran o'r asedau sydd â bywyd defnyddiol sylweddol wahanol. Lle bo hyn yn wir, bydd yr ased yn cael ei rannu'n gydrannau a bydd y rhannau gwahanol yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol priodol.

Caiff asedau a brynwyd yn y cyfnod interim eu hadolygu gan y tîm Cyllid a Rheolwyr Asedau. Caiff Asedau TGCh eu 'grwpio' i TGCh, clyweledol a darlledu, Isadeiledd TGCh ac Asedau Anniriaethol, a chaiff y rhannau gwahanol eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol priodol.

Datganiad Gwariant Cynhwysfawr

Mae incwm a chostau gweithredu yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Comisiwn. Mae incwm yn cynnwys costau nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd yn seiliedig ar y gost lawn i gwsmeriaid allanol. Dangosir incwm a chostau heb gynnwys TAW os gellir ei adennill.

Stoc

Nodir y stoc, gan gynnwys nwyddau i'w hailwerthu, yn ôl y gost neu'r pris gwerthadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

Cyfnewid Arian Tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi i sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion dan sylw. Trosir imprestau arian cyfred tramor i sterling ar sail y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar y pryd.

Pensiynau

Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) - Mae staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn a staff sydd ar secondiad gyda'r Comisiwn yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr yw hwn ac felly ni all y Comisiwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiwyd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar ddiwedd mis Mawrth 2012 ar 17 Gorffennaf 2014.

Ceir y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Civil Superannuation (<http://www.civilservice.gov.uk/pensions>).

Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad (AMPS) - Sefydlwyd cynllun pensiwn i Aelodau'r Cynulliad yn wreiddiol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac mae'n parhau i fod mewn grym o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Cynllun buddion diffiniedig yw, ac mae'n gymwys i gyflogau'r Aelodau a

chyflog deiliaid swyddi. Telir cost pensiynau Aelodau'r Cynulliad drwy gyfrwng taliadau a gyfrifir ar sail gronnu, a chaiff y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol ei rhoi ar gyfrifon y Cynllun. Bydd unrhyw ddyledion yn y gronfa sy'n codi oherwydd diffyg o ran asedau yn cael eu talu drwy gynyddu'r swm y mae'r Comisiwn yn ei dalu. Wrth gyflwyno adroddiad ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun, mae'r Comisiwn wedi cadw at Safon Ryngwladol Cyfrifo 19. Yn unol ag IAS 19, mae gofyn i Ymddiriedolwyr y Cynllun gynnal dadansoddiad sensitifwydd ar gyfer pob rhagdybiaeth actwaraidd sylweddol ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ddangos sut yr effeithir ar rhwymedigaeth ddiffiniedig o ran buddiant gan newidiadau yn y rhagdybiaeth actwaraidd berthnasol ar y dyddiad hwnnw.

Mae'r AMPS yn paratoi ei Gyfrifon Blynnyddol ei hun, sydd ar wahân i Gyfrifon y Comisiwn, ac mae'r rhain i'w gweld ar wefan y Cynulliad.

Cynllun Pensiwn Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad – Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymu gynllun rhanddeiliaid grŵp gydag AVIVA ac mae'n gwneud cyfraniad misol o 10 y cant o'r cyflog gros ar gyfer staff cymorth. Hefyd, gall gweithwyr ddewis gwneud cyfraniad misol rheolaidd drwy aberthu rhan o'u cyflog. Mae'r Cynllun yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gofrestru awtomatig gan mai dyddiad cyflwyno'r cynllun oedd 1 Ionawr 2014.

Cost Les Weithredol

Caiff rhenti sy'n daladwy o dan les weithredol eu cynnwys yn y datganiad o wariant cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

Treth ar Werth

Caiff y Comisiwn ei drin fel un o Gyrrff y Goron at ddibenion Deddf Treth ar Werth 1994 a, chan hynny, at ddibenion Adran 41 o'r Ddeddf honno (cymhwyso i'r Goron), caiff ei drin fel un o adrannau'r llywodraeth, ac mae wedi'i eithrio rhag TAW yng nghyswllt darparu nwyddau a gwasanaethau'r Cynulliad. Codir TAW ar y Comisiwn yn ôl y gyfradd safonol yng nghyswllt ei weithgareddau masnachol, fel siop y Cynulliad.

Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a balansau cyfredol yn y banc a Citibank, y gellir eu trosi'n hawdd yn symiau penodol o arian parod ac nid oes risg sylweddol y bydd eu gwerth yn newid.

Buddion i weithwyr

Mae cyflogau, taliadau a chost yr holl fuddion sy'n ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â gwyliau blynnyddol nad ydynt yn cael eu hawlio, yn cael eu cydnabod yn ystod cyfnod gwasanaeth staff.

Cyflwyno adroddiadau

Rydym wedi adolygu ein hadroddiadau rheoli ac rydym yn fodlon nad oes gennym, o dan ofynion IFRS 8, unrhyw ddatgeliadau ychwanegol i'w gwneud.

Darpariaethau

Er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol mae angen gwneud amrywiaeth o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y modd y cymhwysir polisiau cyfrifyddu a'r symiau a nodir. Rydym yn cydnabod darpariaeth yn llawn yn y flwyddyn y bu'r digwyddiad. Mae pob amcangyfrif a dyfarniad o'r fath yn cael eu hadolygu yn barhaus a chaiff unrhyw ddiwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ynddo ac mewn unrhyw gyfnod yr effeithir arnynt yn y dyfodol. Y meysydd mwyaf arwyddocaol o amcangyfrifon a dyfarniadau allweddol yw:

- Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad Mae manylion am y rhagdybiaethau actiwaraidd yn Nodyn 02.A ac yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer y cynllun pensiwn.
- Mae'r darpariaethau ar gyfer talu iawndal i staff yn seiliedig ar ragamcanion o'r taliadau pensiwn a ddisgwylir yn y dyfodol. Rydym yn defnyddio'r gyfradd ddisgownt berthnasol fel y'i pennir gan Drysorlys EM.
- Darpariaeth ddadfeilio yw'r asesiad o'r gost debygol o gywiro dadfeilio o dan delerau les Tŷ Hywel. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr adeilad a brydlesir ganddo yn cael ei gadw i'r fath safon fel nad oes angen gwneud darpariaeth ar gyfer dadfeilio, gan ystyried yr ychydig o waith cynnal a chadw a'r adolygiad blynyddol a chytuno â'r flaenraglen waith 10 mlynedd.

02. A - Nifer yr Aelodau a staff a chostau cysylltiedig

Mae costau staff yn cynnwys:

	Staff	Aelodau a deiliaid swyddi	Cyfanswm 2014-15	Cyfanswm 2013-14
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyflogau				
Staff, Aelodau a deiliaid swyddi	13,753	4,430	18,183	16,703
Staff ar secondiad	278	-	278	162
Costau nawdd cymdeithasol				
Staff, Aelodau a deiliaid swyddi	1,106	482	1,588	1,485
Costau pensiwn eraill				
Staff, Aelodau a deiliaid swyddi	2,649	1,028	3,677	3,365
Is-gyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff	17,786	5,940	23,726	21,715
Namyn yr adenillion am y secondiadau allanol	(122)	-	(122)	-
Cyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff	17,664	5,940	23,604	21,715
Caiff yr holl gostau staff eu codi yn erbyn costau gweinyddol				

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru, fel y noda'r Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn. Caiff y symiau a delir i Weinidogion Cymru eu datgelu yng nghyfrifon adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru. Ar 31 Mawrth 2015, roedd 60 Aelod Cynulliad mewn swydd. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 25 Deiliad Swydd (ar wahân i'r Gweinidogion), un Prif Weinidog, siath o Weinidogion Cymru, pedwar Ddirprwy Weinidog ac un Cwnsler Cyffredinol; caiff newidiadau oherwydd ailstrwythuro'r Cabinet yn ystod y flwyddyn eu datgelu yng nghyfrifon adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod etholedig (gweler yr Adroddiad Taliadau am ragor o fanylion). Rhoddir tâl o £12,420 y flwyddyn i bob Comisiynydd ers 1 Ebrill 2011.

Mae'r holl uwch-reolwyr a'r holl staff yn cael eu cyflogi gan y Comisiwn. Dyma nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch-reolwyr):

Math o staff	2014-15	Wedi'i ailddatgan 2013-14
Staff parhaol	383.17	357.21
Staff ar secondiad	3.5	.50
Staff dros dro / achlysurol	21.48	15.63
Penodiadau am dymor penodol	-	-
Cyfanswm	408.15	373.34

Mae'r cynnydd yn nifer y staff yn bennaf oherwydd y darperir gwasanaethau TG yn fewnol

Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Cynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac felly ni all y Comisiwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol.

Penodwyd Adran Actiwari'r Llywodraeth yn Actiwari'r Cynllun i gynnal prisiad actiwaraid o'r Cynllun ar 31 Mawrth 2012. Cafodd y prisiad ei wneud yn unol â Chyfarwyddydau Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2014. Mae'r Cyfarwyddydau yn ei gwneud yn ofynnol i'r PCSPS presennol a'r cynllun newydd a gyflwynir ar gyfer y gweithlu gwasanaeth sifil ar 1 Ebrill 2015 i gael eu hystyried gyda'i gilydd. Mae canlyniadau'r prisiad yn pennu cyfradd cyfraniad y cyflogwr sy'n daladwy am y cyfnod o bedair blynedd o 1 Ebrill 2015 (y cyfnod gweithredu) a'r cap ar gostau cyflogwyr. Mae'r ddau wedi eu cynnwys mewn rheoliadau. Mae canlyniadau allweddol y prisiad fel a ganlyn:

20.9% Cyfradd cyfraniad y cyflogwr sy'n daladwy am y cyfnod gweithredu

18.5% Cap ar gostau cyflogwyr

Cyfanswm rhwymedigaethau'r cynllun o £132.7 biliwn ac asedau tybiannol o £127.3 biliwn, gan roi diffyg gwasanaeth blaenorol tybiannol o £5.5 biliwn.

Yn ystod 2014-15, roedd £2.641 miliwn o gyfraniadau cyflogwr (£2.313 miliwn yn 2013-14) yn daladwy i'r PCSPS ar sail un o bedair cyfradd yn yr amrediad rhwng 16.7% a 24.3% o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwari'r cynllun yn adolygu'r cyfraniadau cyflogwr bob pedair blynedd ar ôl prisiad llawn o'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu'r buddion wrth iddynt gronni, yn hytrach na phryd y telir y costau, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol.

Ers 30 Gorffennaf 2007 caiff cyflogeion newydd ymuno â naill ai Nuvos neu gynllun partneriaeth. Cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig cyfartaledd gyrfa yw Nuvos; cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig yw'r cynllun partneriaeth. Mae pensiwn partneriaeth yn bensiwn cyfranddeiliaid; gall gweithwyr ddewis peidio â chyfrannu oherwydd bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sy'n gysylltiedig ag oedran. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £7,469 (£7,965 2013-14) i

ddarparwyr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn dibynnu ar oedran yr aelod o staff ac maent yn amrywio o 3% i 12.5% o dâl pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn talu swm sy'n cyfateb i gyfraniadau'r cyflogai hyd at 3% o dâl pensiynadwy. Yn ogystal â hyn, roedd cyfraniadau'r cyflogwr o £469 (£494 yn 2013-14), neu 0.8% o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu cost buddion ar ffurf cyfandaliad yn y dyfodol os bydd y cyflogeion hyn yn marw mewn gwasanaeth neu'n ymddeol oherwydd salwch. Pan baratowyd y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, roedd cyfraniadau o £500 (£708 yn 2013-14) yn ddyledus i ddarparwyr pensiwn partneriaeth. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalau bryd hynny.

Ni wnaeth neb ymddeol oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn, ac nid oedd unrhyw rwymedigaethau pensiwn cronedig ychwanegol yn ystod y flwyddyn.

Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad

Mae cynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn darparu buddion yn seiliedig ar dâl pensiynadwy terfynol. Mae asedau'r cynllun yn cael eu cadw ar wahân i asedau Comisiwn y Cynulliad a phenodir Rheolwr Buddsoddi i'w rheoli. Cynhaliwyd prisiad actiwaraid llawn ar 1 Ebrill 2014 gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Mae'r cynllun yn cael ei ariannu ac mae cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn ddigyfnewid ar 23.8% yn dilyn y prisiad. Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae manylion y cyflogau a'r lwfansau yn nogfen Penderfyniad y Bwrdd a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013 a mis Awst 2014.

Yn ystod 2014-15 mae'r Bwrdd wedi parhau â'i waith ar yr adolygiad o bensiwn Aelodau'r Cynulliad, a chynhaliwyd dau ymgynghoriad arall, ym mis Ebrill 2014 a mis Gorffennaf 2014. Er bod angen cymeradwyo'r manylion yn ffurfiol, bydd y cynllun newydd yn gynllun cyfartaledd gyrfa gyda chyfradd Groniadau o 1/50fed ac oed pensiwn sy'n gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Y cyfraddau cyfrannu a awgrymir, er nad ydynt yn derfynol, yw cyfradd cyfraniad aelodau o 11%, sef cynnydd o 1% o gymharu â'r cynllun cyflog terfynol presennol, a chyfradd cyfraniad y cyflogwr o 16.6%, gostyngiad o 7.2%.

Dyma'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

	Nodyn	31 Mawrth 2015 £'000	31 Mawrth 2014 £'000
Gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun		(38,176)	(30,258)
Gwerth teg asedau'r cynllun		29,029	25,486
Rhwymedigaeth net		(9,147)	(4,772)
Swm yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol			
Rhwymedigaethau		(9,147)	(4,772)
Rhwymedigaeth net	10	(9,147)	(4,772)

Dadansoddiad o'r swm a drosglwyddwyd i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

	2014-15	2013-14
	£'000	£'000
Cost gyfredol y gwasanaeth	1,710	1,802
Llog ar rwymedigaeth pensiwn	1,343	1,281
Llog ar asedau'r cynllun	(1,142)	(1,046)
	<u>1,911</u>	<u>2,037</u>

Dyrannwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn:

Costau pensiwn eraill	979	983
Costau cyllid pensiynau	932	1,054
	<u>1,911</u>	<u>2,037</u>

Dadansoddiad o'r swm a gydnabyddir yn y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr (SCITE)

	2014-15	2013-14
	£'000	£'000
Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun	1,478	(282)
Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn	1,306	720
Newidiadau mewn tybiaethau	(6,227)	895
(Colledion)/enillion actiwaraidd net a gydnabyddir yn SCITE	<u>(3,443)</u>	<u>1,333</u>

Newidiadau yng ngwerth y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn

	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2014
	£'000	£'000
Rhwymedigaethau ar 1 Ebrill	30,258	29,011
Cost bresennol y gwasanaeth (heb gynnwys cyfraniadau'r Aelodau)	1,710	1,802
Cyfraniadau'r Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn)	431	424
Costau gwasanaeth a roddwyd		
Buddion a dalwyd yn ystod y flwyddyn	(488)	(645)
Llog ar rwymedigaeth pensiwn	1,343	1,281
Enillion/(colledion) actiwaraid	4,921	(1,615)
Rhwymedigaethau ar 31 Mawrth	38,175	30,258

Newidiadau mewn asedau yn ystod y flwyddyn

	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2014
	£'000	£'000
Asedau ar 1 Ebrill	25,486	23,960
Llog ar asedau'r cynllun	1,142	1,046
Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun	1,478	(282)
Cyfraniadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	979	983
Cyfraniadau gan yr Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn)	431	424
Buddion a dalwyd a threuliau	(488)	(645)
Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau'r cyfrifon ar 31 Mawrth	29,028	25,486

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyfrannu £955,793 at Gynllun Pensiwn yr Aelodau yn ystod 2015-16.

Dyma brif gategoriâu asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun:

	2014-15	2013-14
Ecwitiau	46.33%	45.01%
Buddsoddiadau amgen	22.44%	21.17%
Llog Sefydlog ac Arian Parod	31.23%	33.82%

Nid yw asedau'r cynllun yn cynnwys unrhyw eiddo yn uniongyrchol nac yn uniongyrchol. Mae asedau'r cynllun yn cynnwys, yn anuniongyrchol drwy fuddsoddi mewn cronfeydd cyfunol, giltiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a chanddynt werth teg o £2,817,702 yn 2014-15 (£2,277,471 yn 2013-14).

Mae'r gyfradd enillion a ddisgwylir yn achos ecwitiau 3.5% y flwyddyn yn uwch na'r elw ar giltiau ar ddyddiad cyflwyno'r adroddiad hwn. Y gyfradd enillion a ddisgwylir yn achos bondiau yw'r elw sy'n gysylltiedig ag ad-dalu'r bondiau y mae'r cynllun yn eu dal (yn anuniongyrchol) ar ddyddiad cyflwyno'r adroddiad hwn. Defnyddir yr amcangyfrif gorau o'r enillion arian parod hirdymor i nodi'r gyfradd enillion a ddisgwylir yn achos arian parod, gan gymryd y bydd cyfraddau llog yn cyd-fynd â'r enillion sydd ar gael o giltiau.

Y gwir enillion o asedau'r cynllun yn 2014-15 oedd £2.619 miliwn (£0.761 miliwn yn 2013-14).

Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2014
Cyfradd y gostyngiad	3.3%	4.4%
Cynnydd mewn cyflogau yn y dyfodol	-0.9%	-0.1%
Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol	1.1%	1.9%
Hyd oes ddisgwyliedig ar ôl 65 oed (blynyddoedd)		
Dynion	25.5	25.0
Menywod	27.5	26.2

Y prif dybiaethau ariannol yw'r cyfraddau go iawn sy'n uwch na'r cynnydd yn y pensiwn a thwf enillion. Mae marwolaeth pensiynwyr yn rhagdybiaeth ddemograffig allweddol. Amlinellir isod yr effaith ddangosol ar gyfanswm y rhwymedigaeth ar 31 Mawrth 2015 o ran y newidiadau yn y rhagdybiaethau hyn.

Sensitifwydd i'r prif ragdybiaethau

Pe byddai cyfradd dybiedig yr elw sy'n uwch na'r enillion yn newid ½% y flwyddyn, byddai cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraid yn newid tua 2%, a byddai newid o tua £0.8 miliwn yng nghyfanswm y rhwymedigaethau.

Pe byddai cyfradd dybiedig yr elw sy'n uwch na'r enillion yn newid ½%, byddai cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraid yn newid tua 10%, a byddai newid o tua £3.8 miliwn yng nghyfanswm y rhwymedigaethau.

Os rhagdybir bod yr hirhoedledd ar ôl ymddeol yn fwy o ddwy flynedd, byddai hyn yn cynyddu cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraid tua 6% a byddai'n cynyddu cyfanswm y rhwymedigaethau tua £2.3 miliwn.

Y symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol:

	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2013	31 Mawrth 2012	31 Mawrth 2011
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rhwymedigaeth buddion diffiniedig	38,176	30,258	29,011	23,984	21,095
Asedau'r cynllun	29,029	25,486	23,960	20,298	18,785
Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun	(9,147)	(4,772)	(5,051)	(3,686)	(2,310)
Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn	1,307	720	1,125	(436)	617
Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun	1,477	(282)	1,524	(497)	618

Mae rhagor o wybodaeth am Gynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad ar gael yn adroddiad blynyddol a chyfrifon y cynllun am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015.

02. B - Costau eraill yr Aelodau

Mae Costau Eraill yr Aelodau, sef £8.030 miliwn (£7.940 miliwn yn 2013-14), yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys:

	2014-15	2013-14
	£'000	£'000
Costau Swyddfa	791	766
Costau ychwanegol	218	243
Cyfanswm Staff yr Aelodau	6,768	6,681
Costau teithio	253	250
Cyfanswm costau eraill yr Aelodau	8,030	7,940

Mae costau staff yn cynnwys cyfanswm 3 taliad diswyddo o £22,000

02. C - Y Comisiynydd Safonau

Yn unol â thelerau Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, y Comisiwn sy'n talu cyflog y Comisiynydd ac unrhyw gostau cysylltiedig y mae'n eu hysgwyddo. Y Comisiwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyflogau a'r lwfansau y cytunwyd arnynt yn y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â phenodi'r Comisiynydd, ac mae unrhyw rwmedigaethau rhesymol a ysgwyddir wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau, yn cael eu rhoi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

Ar 9 Tachwedd 2010, penodwyd Gerard Elias QC yn Gomisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am Gerard Elias QC a'i waith ar gael yn <http://comisiynyddsafonaucymru.org/>

Yn ystod 2014-15, cafwyd cyfanswm costau o £21,985 (£21,244 yn 2013-14) mewn perthynas â gwaith y Comisiynydd.

- Cafodd 241 awr â chost o £18,984 (232.75 awr â chost o £18,424 yn 2013-14) am waith y Comisiynydd ar gyfer 2014-15 eu rhoi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.
- 91.5 awr â chost o £3,001 (88 awr â chost o £2,820 2013-14) o ran costau staff i gynorthwyo'r Comisiynydd.

03. Costau Gweinyddol Eraill

Mae'r costau gweinyddol eraill gwerth £19.210 miliwn (£18.246 miliwn yn 2013-14) yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr yn cynnwys:

	2014-15	2013-14
	£'000	£'000
<i>Costau adeiladau a chyfleusterau</i>		
Lesau – Adeiladau	2,830	2,839
Cynnal a chadw*	3,579	1,934
Ardrethi*	1,236	716
Diogelwch	574	573
Cyfleustodau	524	507
Arlwyo	328	306
Lesau - llungopiwyd	132	134
Parcio	102	103
Dodrefn a gosodiadau	51	268
<i>Costau TGCh</i>		
Gwasanaethau TGCh ar gontract allanol*	704	2,404
Darlledu	637	578
Ffôn	382	265
Costau trwyddedu a chynnal a chadw	730	520
Prosiectau TG	549	795
Gwefan	86	117
Prynu defnyddiau traul TGCh	255	292
<i>Costau eraill</i>		
Treuliau gweinyddol eraill*	625	202
Cyfieithu	242	276
Argraffu, deunydd ysgrifennu a thâl postio	217	242
Cyngor Arbenigol ac Yswiriant	132	130
Cyhoeddiadau	99	102
Cyfrifyddu a Gwasanaeth Ariannol	27	77
Archwilio	89	128
Cynghorwyr Pwyllgorau	80	117
Lletygarwch	57	45

	2014-15	2013-14
	£'000	£'000
<i>Costau hyfforddi a datblygu</i>	370	384
<i>Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth</i>	286	217
<i>Costau teithio a chynhaliaeth staff</i>	159	128
<i>Costau eraill Adnoddau Dynol</i>	119	113
<i>Dibrisiant, amorteiddiad a thaliadau amhariad</i>	4,009	3,734
	19,210	18,246

Y gost y cytunwyd arni o archwilio'r datganiadau hyn yn allanol oedd £66,250 (£62,540 yn 2013-14) Yn ogystal, cafwyd cost o £3,636 (dim yn 2013-14) ar gyfer archwilio anstatudol ychwanegol yn 2014-15. Gweddillion y gwariant ar archwilio oedd taliadau Archwilio Mewnol.

*Mae esboniad pellach o'r symudiadau rhwng 2014-15 a 2013-14 yn SOS 02. Mae dadansoddiad o'r alldro adnoddau net ar dudalen 124.

04. Eiddo, offer a chyfarpar

	Tir ac adeiladau	Technoleg gwybodaeth	Dodrefn a gosodiadau*	Cerbydau	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	2014-15 £'000 Cyfanswm
Cost neu brisiant						
Ar 1 Ebrill 2014	63,140	13,636	1,876	80	798	79,530
Ychwanegwyd	116	106	71	-	267	560
Ailddosbarthwyd	208	370	185	-	(763)	-
Dadgydnabod	-	(427)	(458)	-	(35)	(920)
Ar 31 Mawrth 2015	63,464	13,685	1,674	80	267	79,170
Dibrisiant						
Ar 1 Ebrill 2014	-	(9,490)	(991)	(80)	-	(10,561)
Costau yn ystod y flwyddyn	(1,657)	(1,784)	(126)	-	-	(3,567)
Nam	-	-	-	-	-	-
Dadgydnabod	-	427	177	-	-	604
Ar 31 Mawrth 2015	(1,657)	(10,847)	(940)	(80)	-	(13,524)
Gwerth llyfr net ar						
31 Mawrth 2015	61,807	2,838	734	-	267	65,646
Gwerth llyfr net ar						
1 Ebrill 2014	63,140	4,146	885	-	798	68,969

* Mae dodrefn a gosodiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y byrlysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

DS Gibbon FRICS o GVA Grimley International Property Advisers a ailbrisiodd y tir a'r adeiladau hyn ddiwethaf, yn ôl eu gwerth ar 31 Mawrth 2014. Cafodd y Senedd a'r Pierhead eu hailbriso ar gost adnewyddu dibrisiedig fel procsi ar gyfer y gwerth cyfredol.

Mae'r tâl dadgydnabod o £427,000 yn 2014-15 yn deillio o wasanaethau TGCh ar ôl cwblhau'r broses o newid o gwmni allanol i wasanaeth mewnol, a gwall o ran dosbarthu dodrefn a gosodiadau lle cafodd £281,000 o'r gwerth llyfr net ei godi ar dreuliau gweinyddiol eraill wrth gywiro'r sefyllfa Nodyn 03.

	Tir ac adeiladau	Technoleg gwybodaeth	Dodrefn a gosodiadau*	Cerbydau	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	2013-14 £'000 Cyfanswm
Cost neu brisiant						
Ar 1 Ebrill 2013	71,345	12,852	1,483	80	364	86,124
Ychwanegwyd	-	581	293	-	798	1,672
Aiddosbarthwyd	-	203	100	-	(364)	(61)
Gwerthwyd	-	-	-	-	-	-
Ailbrisiwyd	(8,205)	-	-	-	-	(8,205)
Ar 31 Mawrth 2014	63,140	13,636	1,876	80	798	79,530
Dibrisiant						
Ar 1 Ebrill 2013	(11,172)	(7,908)	(899)	(80)	-	(20,059)
Costau yn ystod y flwyddyn	(1,634)	(1,582)	(92)	-	-	(3,308)
Nam	-	-	-	-	-	-
Gwerthwyd	-	-	-	-	-	-
Ailbrisiwyd	12,806	-	-	-	-	12,806
Ar 31 Mawrth 2014	0	(9,490)	(991)	(80)	-	(10,561)
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014	63,140	4,146	885	-	798	68,969
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2013	60,173	4,944	584	-	364	66,065

05. Asedau annirweddol

Mae'r asedau annirweddol yn cynnwys meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd ar gyfer y prif systemau a ddefnyddir gan y Comisiwn:

	Meddalwedd	2015 Cyfanswm £'000
Cost neu brisiant		
Ar 1 Ebrill 2014	2,367	2,367
Ychwanegwyd	-	-
Aiddosbarthwyd	-	-
Ar 31 Mawrth 2015	2,367	2,367
Amorteiddiad		
Ar 1 Ebrill 2014	(1,294)	(1,294)
Costau yn ystod y flwyddyn	(442)	(442)
Ar 31 Mawrth 2015	(1,736)	(1,736)
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2015	631	631
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2014	1,073	1,073

	Meddalwedd	2014 Cyfanswm £'000
Cost neu brisiant		
Ar 1 Ebrill 2013	2,289	2,289
Ychwanegwyd	17	17
Aiddosbarthwyd	61	61
Gwerthwyd	-	-
Ailbrisiad	-	-
Ar 31 Mawrth 2014	2,367	2,367
Amorteiddiad		
Ar 1 Ebrill 2013	(868)	(868)
Costau yn ystod y flwyddyn	(426)	(426)
Ar 31 Mawrth 2014	(1,294)	(1,294)
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014	1,073	1,073
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2013	1,421	1,421

06. Stoc

	31 Mawrth 2015 £'000	31 Mawrth 2014 £'000
Stoc Siop y Comisiwn	23	19

07. Symiau masnachol i'w derbyn; asedau ariannol ac asedau eraill

	31 Mawrth 2015 £'000	31 Mawrth 2014 £'000
Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn:		
Symiau masnachol i'w derbyn	40	743
Symiau eraill i'w derbyn	10	7
Rhagdaliadau	1,246	1,200
TAW y gellir ei hadennill	312	476
	1,608	2,426

Nid oedd unrhyw symiau'n ddyledus gan ddyledwyr ar ôl mwy na blwyddyn.

08. Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

	31 Mawrth 2015 £'000	31 Mawrth 2014 £'000
Balans ar 1 Ebrill	223	630
Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	(104)	(407)
Balans ar 31 Mawrth	119	223
Balansau ar 31 Mawrth a oedd yn cael eu cadw gan:		
Citibank	95	50
Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw	24	173
Balans ar 31 Mawrth	119	223

09. Symiau masnachol taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	31 Mawrth 2015 £'000	31 Mawrth 2014 £'000
Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn		
TAW	20	12
Trethi eraill a nawdd cymdeithasol	622	600
Symiau masnachol taladwy	590	464
Symiau taladwy eraill	-	-
Croniadau	2,661	3,190
Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru	119	254
	4,012	4,520

Nid oedd unrhyw symiau'n ddyledus gan greydwyr ar ôl mwy na blwyddyn.

10. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

O dan Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19, caiff rhwymedigaeth o £9.147 miliwn ei chydabod ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn Nodyn 2.

	Cynllun pensiwn yr Aelodau £'000	Darpariaeth ar gyfer tâl digolledu i staff £'000	2014-15 Cyfanswm £'000	2013-14 Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Ebrill	4,772	140	4,912	5,224
(Gostyngiad)/Cynnydd	4,375*	3	4,378	(276)
Symiau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	-	(37)	(37)	(36)
Balans ar 31 Mawrth	9,147	106	9,253	4,912

*Mae hyn yn cynnwys cost ariannol y pensiwn o £.932 miliwn (£1.054 miliwn yn 2013-14) a'r golled actiwaraid net o £3,443 miliwn (£1.333 miliwn yn 2013-14). Mae rhagor o wybodaeth yn Nodyn 2a.

O gyfanswm y ddarpariaeth o £9.253 miliwn (£4.912 miliwn yn 2013-14), disgwylir i iawndal o £0.037 miliwn gael ei dalu o fewn blwyddyn.

11. Ymrwymadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymadau cyfalaf o dan contract ar 31 Mawrth 2015 (dim ar 31 Mawrth 2014).

12. Ymrwymïadau o dan lesau

(a) Lesau gweithredol

Yn y tabl isod, nodir yr ymrwymïadau o dan lesau gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn ar ôl y cyfnod ariannol hwn, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod yr achosir y taliadau.

	Wedi'i ailddatgan	
	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2014
	£'000	£'000
Mae'r rhwymedigaethau o dan lesau gweithredol yn cynnwys:		
Dim hwyrach na blwyddyn	2,794	2,794
Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	11,127	11,161
Yn hwyrach na phum mlynedd	33,188	35,880
	47,109	49,835
Eraill – car, argraffwyr a chopiwyr:		
Dim hwyrach na blwyddyn	89	92
Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	158	17
	247	109

Mae'r Comisiwn yn cael incwm mewn cysylltiad â phrydlesi gweithredol Tir ac adeiladau. Caiff yr incwm hwn ei ddatgelu fel Incwm Rhentu Llety o fewn SOS 2.

Mae'r Lesau ar 31 Mawrth 2014 wedi'u hailddatgan o ganlyniad i ofyniad newydd y Trysorlys i ddadansoddi'r wybodaeth yn ôl y costau yr eir iddynt yn y cyfnod yn hytrach na'r cyfnod daw'r les i ben.

(b) Lesau ariannol

Nid oes unrhyw rwymedigaethau o dan lesau ariannol.

13. Ymrwymïadau ariannol eraill

Yn hanesyddol, mae dau o gontractau'r Comisiwn wedi bod yn gontractau na ellir eu diddymu. Contractau yw'r rhain a fyddai'n peri bod angen talu ffi pe baent yn cael eu canslo mewn modd nad yw'n cyd-fynd â'u telerau. Felly, ystyrir bod gan y Comisiwn ymrwymïad ariannol mewn perthynas â'r math hwn o gontract. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd hysbysiad ffurfiol ynghylch dod â'r contract cymorth TGCh i ben. Mae'r contract sy'n weddill bellach yn cael ei gynnwys o dan Nodyn 12 Ymrwymïadau o dan brydlesi.

Rhwymedigaethau o dan gontractau na ellir eu diddymu:	2014-15	2013-14
	£'000	£'000
Yn dod i ben cyn pen blwyddyn	-	840
Yn dod i ben ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	-	10
Yn dod i ben wedi hynny	-	-
	-	850

Mae gan y Comisiwn gontractau eraill sy'n cyfeirio at derfynu contractau'n gynnar ond nid oes taliadau wedi'u pennu ar gyfer hynny. Byddai'r Comisiwn yn mynd yn groes i gontract pe bai'n ei derfynu'n gynnar, a gallai'r contractwr hawlio iawndal am yr elw y byddai wedi'i ennill pe bai'r contract wedi parhau am y cyfnod llawn. Gan fod y ffigur hwn yn amrywio ar gyfer pob contract, nid yw'r contractau hyn wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn.

14. Offerynnau Ariannol

Nid yw'r Comisiwn yn cyhoeddi nac yn masnachu mewn offerynnau ariannol fel rhoi benthyciadau ac nid yw wedi benthycu arian gan neb arall. Mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru am ei ofynion arian parod ac, felly, nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd, nid oes ganddo adneuo arwyddocaol, ac mae'r holl asedau a'r rhwymedigaethau perthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg arian cyfred.

15. Rhwymedigaethau amodol

Mae gan Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad hawliau cytundebol i swm sy'n cyfateb i 10% o'u cyflog blynyddol gros gael ei gyfrannu tuag at bensiwn, ond nid ydynt i gyd wedi arfer yr hawl hwn. Mae'r rhwymedigaeth yn parhau am chwe blynedd wedi i'w cyflogaeth ddod i ben, ac fe'i hamcangyfrifir fel a ganlyn:

Cyfraniadau pensiwn ar gyfer Staff Cymorth yr Aelodau sydd:	Swm a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2015 £'000	Swm a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2014 £'000	Swm a dalwyd yn 2014-15 £'000	Sylwadau
Yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd ond nad ydynt yn cyfrannu at gynllun pensiwn	2	2	-	Annhebygol iawn
Wedi gadael swydd heb ymuno â chynllun pensiwn erioed	49	54	-	Annhebygol iawn

Nid yw'r Comisiwn wedi ymgymryd ag unrhyw rwymedigaethau amodol mesuradwy nac anfesuradwy drwy roi gwarant, indemniad neu lythyr cysuro.

16. Colledion a thaliadau arbennig

Dyma nifer a gwerth y colledion a'r taliadau arbennig a wnaed yn ystod 2014-15:

(a)Datganiad Colledion	2014-15		2013-14	
	Nifer yr achosion	Gwerth £ '000	Nifer yr achosion	Gwerth £ '000
Cyfanswm	31	32	16	72
Taliadau ofer a cholledion mewn effaith	30	3	13	1
Colledion tâl, lwfansau a buddion blwydd-daliadau	-	-	2	-
Colledion Storffeydd Atebol - (i'w gael yn y Datganiad Llywodraethu)	1	29	1	71

(b)Taliadau arbennig	2014-15		2013-14	
	Nifer yr achosion	Gwerth £ '000	Nifer yr achosion	Gwerth £ '000
Cyfanswm	3	40	6	1
Iawndal	3	40	6	1

Mae taliadau iawndal yn cynnwys cyfanswm 2 daliadau diswyddo o £19k.

17. Teithio a Chynhaliaeth gan Gyfarwyddwyr

Dyma'r hawliadau a wnaed gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, ac ar eu rhan, am dreuliau teithio a chynhaliaeth a threuliau busnes eraill yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf:

	Claire Clancy <i>Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad</i>		Adrian Crompton <i>Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad</i>		Dave Tosh <i>Cyfarwyddwr Adnoddau</i>		Elisabeth Jones <i>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol</i>		Steven O'Donoghue <i>Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad gyda chyfrifoldebau Cyfarwyddwr Cyllid (tan 25 Ebrill 2014)</i>		Craig Stephenson <i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn (o 6 Mai 2014)</i>	Nicola Callow <i>Cyfarwyddwr Cyllid (o 26 Ebrill 2014)</i>
	2014-15	2013-14	2014-15	2013-14	2014-15	2013-14	2014-15	2013-14	2014-15	2013-14	2014-15	2014-15
	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£
Milltiroedd mewn car		21		-		-	29	59		-		-
Tacsi/ Llogi car / costau cysylltiedig	95	24		-	45	-	108	54		-	167	-
Teithio awyr / costau cysylltiedig	265	371		3,091	5,943	227	243	541		89	418	-
Trafnidiaeth gyhoeddus		171	179	144	409	-	305	403		478	201	-
Llety	212	468		-	826	52	191	307		279	524	-
Cynhaliaeth / treuliau		57		315	211	-	59	150		470	189	211
Cyfanswm	572	1,112	179	3,550	7,434 ¹	279	935	1,514		1,316	1,499	211

1. Mae'r cynnydd mewn costau teithio oherwydd y gost a rennir o deithio awyr yn ymwneud â gwasanaethau cynghori TG a ddarperir i gyrff seneddol dramor.

18. Trafodion â phartion cysylltiedig

Mae'r Comisiwn yn ymgymryd â nifer o drafodion gyda Llywodraeth Cymru ac adrannau eraill y llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Yn ogystal â hyn, ceir trafodion rheolaidd rhyngddo a Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad, gweler nodyn 2. Yn ôl Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n ofynnol i'r Cynulliad, ar sail cynnig gan y Comisiwn, ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn yr Aelodau.

Gall y Cynulliad roi cyfarwyddyd arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn at ddibenion arfer swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad, neu yng nghyswllt hynny.

Nid yw'r Comisiwn wedi cael unrhyw drafodion perthnasol uniongyrchol â Chomisiynwyr, uwch-reolwyr nac unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd nac ag unrhyw sefydliad lle mae gan Gomisiynwyr, uwch-reolwyr neu unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd swydd sy'n eu galluogi i reoli neu ddylanwadu ar benderfyniadau. Mae'r Dirprwy Lywydd, David Melding, a Peter Black, un o'r Comisiynwyr, hefyd yn ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad.

At ddibenion tryloywder, cofnodir y mân daliadau a ganlyn:

- Talwyd £ 4,368.42 (£274.50 2013-14) i Ddinas a Sir Abertawe am wasanaethau a roddwyd ee casglu gwastraff ac ardrethi. Mae Peter Black yn gynghorydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Talwyd £6,000.00 (£11,876.40 2013-14) i Brifysgol Abertawe am drwyddedau cymorth Rhwydwaith Fideo Cymru. Mae Peter Black yn aelod o Lys Llywodraethwyr Prifysgol Abertawe

Sefydlwyd Bwrdd Taliadau annibynnol gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010. Y Bwrdd Taliadau sy'n pennu cyflogau a lwfansau holl Aelodau a deiliaid swyddi'r Cynulliad. Caiff Aelodau'r Cynulliad gyflogi aelodau o'r teulu fel eu staff cymorth, fodd bynnag, caniateir hyn y unig pan na fydd yr Aelod Cynulliad yn chwarae unrhyw ran yn y broses ddethol deg ac agored, a gaiff ei chynnal gan staff y Comisiwn ar eu rhan.

Y Comisiwn sy'n penderfynu ar y polisiâu ar gyflogau ac amodau staff y Comisiwn. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran cyflogi aelodau o deuluoedd y Comisiynwyr neu'r uwch-reolwyr i weithio i'r Comisiwn.

Mae Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau.

Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau'r Cynulliad ar gael yn www.cynulliad.cymru a www.assembly.wales.



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



2014
2015

ADRODDIAD A
CHYFRIFON BLYNYDDOL

sportwales
chwaraeoncymsu



CYNGOR CHWARAEON CYMRU AC YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU

1 EBRILL 2014 – 31 MAWRTH 2015

ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys yr Adroddiad Strategol sy'n cynnwys yr Adroddiad Cynaliadwyedd, ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi mabwysiadu'r Safonau Cofnodion Ariannol Rhyngwladol.

Mae Chwaraeon Cymru yn Ymddiriedolai i Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.

HANES A CHEFNDIR STATUDOL

Sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru (sy'n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnachu, Chwaraeon Cymru) gan Siarter Brenhinol dyddiedig 4 Chwefror 1972, gyda'r amcanion o "feithrin gwybodaeth am chwaraeon a hamdden gorfforol a'r arfer o gymryd rhan ynddynt ymhlith y cyhoedd yng Nghymru a darparu cyfleusterau ar gyfer hynny". Fe'i cyllidir drwy gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru a thrwy incwm a gynhyrchir o'i weithgareddau. Paratwir y Datganiadau Cyfrifon hyn yn unol ag Erthygl 15 o'r Siarter Brenhinol ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) ar ffurf a benderfynir gan Lywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth Trysorlys EM.

Mae copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd yn swyddfa Chwaraeon Cymru yng Ngherddi Sophia yng Nghaerdydd.

Cyfansoddwyd Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar 16 Mai 1972 ac mae wedi cofrestru fel elusen gyda'r Comisiynwyr Elusennau yng Nghymru a Lloegr, gyda'r amcanion elusennol canlynol:

1. gwarchod a diogelu iechyd corfforol a meddyliol y gymuned drwy hamdden gorfforol (gan gynnwys chwaraeon) ac addysg yng nghyswllt hynny;
2. darparu cyfleusterau ar gyfer hamdden gorfforol (gan gynnwys chwaraeon) a fydd ar gael i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol.

Y BWRDD

Yn ystod 2014/15, roedd Chwaraeon Cymru yn cynnwys yr aelodau bwrdd canlynol:

Yr Athro L McAllister **	(Cadeirydd Ailbenodwyd 01.02.2013)
Mrs Adele Baumgardt	(Is Gadeirydd Penodwyd 01.09.2012)
Yr Athro John Baylis *	(Ailbenodwyd 01.04.2015)
Mr Simon Pirotte	(Ailbenodwyd 01.04.2015)
Mr Andrew Morgan	(Ymddeolodd 31.08.2014)
Mr Richard Cuthbertson *	(Ymddeolodd 30.11.2014)
Mr Martin J Warren */**	(Ymddeolodd 31.03.2015)
Mr Paul Thorburn	(Ymddeolodd 31.03.2015)
Mr Alan Watkin *	(Ymddeolodd 31.03.2015)
Ms Julia Longville	(Penodwyd 01.09.2012)
Ms Johanna Lloyd*	(Penodwyd 01.09.2012)
Mr Peter King*	(Penodwyd 01.09.2012)
Amanda Bennett*	(Penodwyd 01.09.2014)
Andrew Lycett*	(Penodwyd 01.09.2014)
Richard Parks	(Penodwyd 01.09.2014)
Samar Wafa	(Penodwyd 01.09.2014)
Ms S Powell	(Prif Weithredwr)

* Aelod o'r Pwyllgor Archwilio

** Aelod o'r Pwyllgor Tâl

SWYDDFA GOFRESTREDIG

Gerddi Sophia
Caerdydd
Cymru
CF11 9SW

DATGAN BUDDIANNAU

Mae holl Aelodau ac Uwch Staff Chwaraeon Cymru wedi llenwi ffurflen yn manylu ar unrhyw fuddiannau sydd ganddynt mewn Sefydliadau sy'n darparu, neu'n ceisio darparu, gwasanaethau masnachol i Chwaraeon Cymru ar gyfer 2014/15. Mae'r wybodaeth a ddarperir, sy'n galw am ddatgeliad yn unol â Safon Gyfrifo Ryngwladol 24, yn cael ei datgelu yn Nodyn 19 y cyfrifon hyn.

NEWID ARWEINYDD

Mae 2014/15 wedi bod yn flwyddyn o newid yn Chwaraeon Cymru ac yn y sector chwaraeon ehangach yng Nghymru. Yn fewnol, mae'r sefydliad wedi penodi Prif Weithredwr newydd ac mae newidiadau pellach yn digwydd ar lefel weithredol. Mae'r tîm arwain newydd yn cynnig persbectif newydd a dull newydd o weithredu, a fydd yn galluogi'r sefydliad i symud ymlaen i'r lefel nesaf. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Prif Weithredwr wedi datgan pedwar congraen ei strategaeth tymor hir ar gyfer y sefydliad, o dan "Cynlluniau ar gyfer Cyfnodau'r Dyfodol".

ADRODDIAD STRATEGOL

Mae ein pwrpas fel asiantaeth datblygu chwaraeon ac eirioli yng Nghymru yn ddeublyg: ysbrydoli mwy o bobl i fod, ac i barhau i fod, yn egniol am oes; a rhoi hwb i berfformiad ein hathletwyr, ein timau a'n hyfforddwy'r elitaidd. Mae hyn wedi'i gynnwys yn ein dyhead ar gyfer 'Creu cenedl o bencampwyr' a 'Phob plentyn wedi gwirioni ar chwaraeon am oes'.

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn cyflawni'r amcanion hyn ac mae ganddo rôl mewn dod â phartneriaid a phobl at ei gilydd; awdurdodau lleol, cyrff rheoli chwaraeon, cymunedau, hyfforddwy'r, oedolion, pobl ifanc, plant a'r genedl gyfan er mwyn cefnogi, cymryd rhan a rhagori mewn chwaraeon. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio tuag at sicrhau cydraddoldeb yn ein holl swyddogaethau, gan groesawu ysbryd o ddeddfwriaeth cydraddoldeb a dileu unrhyw ffurf ar wahaniaethu annheg.

DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

Dangosir ein perfformiad yn erbyn ein mesurau allweddol yn y tabl isod:

	Cofrestriadau'r Ddraig	Presenoldeb 5x60	Amlledd 5x60 20	Pob sesiwn nofio am bob 1000 o boblogaeth	Cyfraddau dysgu nofio yn 11 oed	Nifer yr Hyfforddwy'r a'r Swyddogion gweithredol	Aelodaeth Oedolion – Dynion	Aelodaeth Oedolion – Merched	Aelodaeth lau o Glybiau – Bechgyn	Aelodaeth lau o Glybiau – Genethod	Nifer y clybiau
Targed 2013-14	250,066	1,202,128	25,654	1,690	78%	50,281	295,028	52,665	158,098	51,909	5,840
Gwirioneddol 2013-14	229,687	1,351,530	22,234	1,456	74%	48,169	258,092	48,548	152,612	57,240	5,431
Targed 2013-14	241,201	1,312,960	27,624	1,609	78%	57,701	271,576	56,966	162,399	68,017	5,366
Gwirioneddol 2014-15	274,969	1,541,304	24,641	1,445	73%	33,871	262,474	54,181	129,898	46,463	3,775
Targed 2015-16	284,963	1,365,085	24,529	1,558	80%	54,946	273,281	52,140	159,932	67,489	5,588

Mae'r tueddiadau presennol yn y byd chwaraeon yng Nghymru'n gadarnhaol i raddau helaeth – mae'r aelodaeth o glybiau'n cynyddu ac mae rhaglenni chwaraeon ysgol yn fwy poblogaidd ac yn cael presenoldeb gwell nag erioed o'r blaen. Yr hyn y mae'r tueddiadau cadarnhaol yma'n ei ddweud wrthym yw bod ein rhaglenni a'n dull strategol

cyffredinol o weithredu'n sicrhau gwir ganlyniadau ac yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl Cymru. Rydym yn ymwybodol nad ydym wedi cyrraedd nifer o'r targedau yn y tabl uchod eto; fodd bynnag, nid yw hyn yn ein digalonni. Mewn gwirionedd, adlewyrchiad ydyw o'n "huchelgais afresymol" ar gyfer gweithredu.

TROSOLWG

Mae ein Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru'n parhau i gael effaith ar waith ein partneriaid, gan ysbrydoli gwell dyheadau ar gyfer twf mewn chwaraeon ac ymgysylltu â phobl yn lleol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae sector chwaraeon Cymru wedi denu mwy o bobl i wirfoddoli, wedi creu ffordd newydd o feddwl am strwythurau effeithiol i alluogi pobl i elwa o fwy o gyfleoedd hamdden a chystadleuol, ac wedi ysbrydoli cenedl gyfan diolch i'n tîm mwyaf llwyddiannus erioed yng Ngemau'r Gymanwlad.

Mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau bod pawb yn gallu elwa o gymryd rhan mewn chwaraeon. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi dechrau gwneud cynnydd tuag at fynd i'r afael â'r bylchau mewn cymryd rhan rydym yn eu gweld ymhlith

merched a genethod, y rhai o leiafrifoedd ethnig, pobl sy'n byw ag anabledd a'r rhai sy'n byw mewn tlodi. Canfu ein Harolwg ar Oedolion Egniol bod mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn mwynhau chwaraeon ond eto mae grwpiau o hyd sy'n llai tebygol nag eraill o gymryd rhan. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fod yn egniol yn gorfforol.

Mae 2015 yn flwyddyn o gyfle, blwyddyn o gynnydd. Mae'n rhaid i ni edrych tuag at lwyddiannau yn y dyfodol ac ar adeiladu ar lewyrch 2014. Ni fydd Chwaraeon Cymru'n gorffwys ar ei rwyfau nac yn derbyn bod 2014 yn benllanw i chwaraeon: 2015 yw'r flwyddyn pryd bydd rhaid i ni adeiladu ar y sylfeini cadarn hyn a chreu mwy fyth o lwyddiant.

EIN NODAU CORFFORAETHOL

Yn flynyddol, mae Chwaraeon Cymru yn adolygu'r cynnydd yn erbyn ein hamcanion ac yn datgan nodau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol chwaraeon yng Nghymru, a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni ac i ddiogelu'r dyfodol hwn, wedi'u datgan yn ein cynllun busnes, sydd i'w canfod ar ein gwefan .

Mae ein Nodau Corfforaethol Allweddol yn ystod 2014/15, a'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn eu herbyn, wedi'u rhestru isod:

NOD	CANLYNIAD
<p>Chwaraeon Cymunedol</p> <p>Creu gweithredu mwy cadarnhaol fyth wedi'i dargedu at grwpiau a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli. Os ydym am wireddu'r dyhead o gael pob plentyn wedi gwirioni ar chwaraeon, mae angen y targedu hwn, yn enwedig gan fod y dangosydd 'wedi gwirioni ar chwaraeon' wedi codi o 27% i 40% .</p> <p>Mae'r ail bwynt sy'n gysylltiedig â chwaraeon cymunedol yn seiliedig ar greu 'llwybrau chwaraeon' ledled Cymru ar gyfer isafswm o 10 o chwaraeon. Yma bydd pob agwedd ar lwybr chwaraeon yn glir a gyda nodau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol, fel bod y nod o fod wedi gwirioni ar chwaraeon yn fwy tebygol o gael ei wireddu ac athletwyr sydd â thalent yn fwy tebygol o godi i lefelau elitaidd. Yn olaf, mae'n rhaid pennu a chreu consensws gyda'r sector yn seiliedig ar nod beiddgar a chyffrous ar gyfer chwaraeon cymunedol, fel y dangosydd 'wedi gwirioni ar chwaraeon' yn codi tuag at 75%.</p>	<p>Lansiwyd ail rownd ein buddsoddiad loteri Galw Am Weithredu yn llwyddiannus. Targedwyd grwpiau a dangynrychiolir, gan arwain at 11 dyfarniad i gyd yn gwneud cyfanswm o £2.4 miliwn. Roedd yr ystod amrywiol o brosiectau'n cynnwys y Girl Guides, Breeze Cycling ac Amser Newid Cymru (iechyd meddwl). Hefyd mae'r rownd gyntaf o brosiectau wedi bod yn dod i ddiwedd eu cyllid, gyda chynlluniau yn eu lle ar gyfer gwerthuso eu heffaith.</p> <p>Rydym wedi parhau i weithio ar ein mesur a'n canlyniadau tymor hir, ochr yn ochr â datblygu ein dull o weithredu o ran buddsoddi mewn chwaraeon cymunedol yng Nghymru.</p> <p>Mae 10 camp wedi datblygu cynlluniau llwybr chwaraeon cyflawn.</p>
<p>Chwaraeon Ysgol</p> <p>Mae'r her gyntaf yn ymwneud â phrofiad 'cwricwlaidd' person ifanc i greu plant 'llythrennog yn gorfforol'. Bydd ymdrechion yn cael eu gwneud yma i ddylanwadu ymhellach ar bolisiau ac arferion addysg yn yr 'ystafell ddosbarth' fel bod ein pobl ifanc yn cael profiad hynod gadarnhaol.</p> <p>Dylai'r profiad da hwn fod mor gyffrous fel bod pobl ifanc eisiau dal ati yn 'allgyrsiol' mewn gweithgareddau ar ôl ysgol (fel Campau'r Ddraig a 5x60) ac ymhellach fyth gyda chysylltiadau da â llwybrau i'r gymuned (clybiau).</p>	<p>Roedd yr adolygiad o'r cwricwlwm yng Nghymru'n gyfle i Chwaraeon Cymru gyflwyno ei achos dros fwy o ffocws ar lythrennedd corfforol. Cyflawnwyd hyn drwy gyfarfodydd gyda phensaer yr adolygiad, yr Athro Graham Donaldson. Nawr rydym yn aros penderfyniad y Gweinidog ar gyfeiriad y symud ar gyfer y cwricwlwm yn y dyfodol, ond mae ffocws clir ar feithrin disgyblion iach ac egniol.</p> <p>Adolygydd ein buddsoddiad mewn chwaraeon ysgol ac rydym wedi cyflwyno cyfres o argymhellion ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol. Bydd y rhain yn rhan o'r model chwaraeon cymunedol newydd.</p> <p>Mae fframwaith llythrennedd corfforol drafft wedi cael ei ddatblygu, gan ystyried y cyfeiriad newydd ar gyfer y cwricwlwm, a gynigir gan Adolygiad Donaldson.</p>

NOD	CANLYNIAD
<p>Iechyd</p> <p>Mae ein gweledigaeth ar gyfer pob plentyn yng Nghymru wedi gwirioni ar chwaraeon am oes yn gyfle arwyddocaol i helpu i leddfu baich salwch diangen sy'n wynebu'r GIG. Mae Chwaraeon Cymru yn benderfynol o chwarae ei ran mewn helpu i ddylanwadu ar ddyfodol iachach a mwy cynaliadwy ar gyfer pobl Cymru.</p> <p>Byddwn yn chwarae ein rhan mewn helpu i newid ymddygiad oherwydd mae dal ati i dalu am drin salwch sy'n deillio o bobl yn gwneud dewisiadau dinistriol ynghylch eu ffordd o fyw yn gwbl anghynaliadwy. Yr her yw i sefydliadau chwaraeon a'r GIG ddod o hyd i ffyrdd ystyrlon o gydweithio'n llawer gwell nag yn y gorffennol. Mae'n rhaid i'r gwaith partneriaeth hwn anelu'n benodol at esbonio i bobl y cyfrifoldeb sydd ganddynt dros greu amodau ar gyfer iechyd yn eu bywydau eu hunain, ac mai un ffordd bleserus o wneud hyn yw drwy gymryd mwy o ran mewn chwaraeon ac ymarfer.</p>	<p>Mae cynnydd cadarnhaol wedi cael ei wneud o ran datblygu perthynas ar lefel uchel gydag Iechyd, drwy lofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda Chonffederasiwn y GIG.</p> <p>Rydym wedi ceisio cynyddu ein cyswllt a'n perthnasoedd â'r maes iechyd, er mwyn datblygu prosiectau ar y cyd yn 2015/16 a rhannu cyfleoedd yn fwy effeithiol, i gyfathrebu'r effaith gadarnhaol y gall bod yn egniol yn gorfforol drwy chwaraeon ei chael.</p>
<p>Sefydliadau Perfformiad Uchel</p> <p>Mae'r cynllun busnes yn gyfres o ddarnau ategol o waith i wneud y tri dull gweithredu uchod yn fwy effeithiol. Bydd partneriaid yn cael eu herio ynghylch pa mor effeithiol yw eu systemau a'u strwythurau hwy (ee llywodraethu ac arwain cadarn). Bydd cynigion yn cael eu gwneud ar gyfer model arall o gyflwyno chwaraeon cymunedol yn effeithiol. Bydd ansawdd a nifer y gweithlu i roi'r blaenoriaethau hyn ar waith yn parhau'n faes gwaith pwysig sy'n gwella'n gyson.</p> <p>Yn olaf, fel sefydliad, bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i geisio bod yn sefydliad 'perfformiad uchel' ei hun, fel bod yr adnoddau sy'n cael eu neilltuo ar gyfer chwaraeon yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon. Ymhlith gwaith arall, bydd Chwaraeon Cymru yn cynyddu lefelau ymgysylltu'r staff, yn cyrraedd safonau rhagorol am ei ganolfannau cenedlaethol ac yn gwella ei ddeallusrwydd busnes drwy well gwerthuso a dadansoddi. Mae elfen 'gwasanaethau cwsmeriaid' gwaith Chwaraeon Cymru yn cynnwys sawl agwedd ac mae angen mwy o waith cydlynu yn y cyswllt hwn.</p>	<p>Rydym wedi gwneud cynnydd da gyda datblygu model amgen ar gyfer darparu chwaraeon cymunedol effeithiol. Mae'r achos strategol wedi cael ei ddadlau a'i gymeradwyo gan Fwrdd y Prosiect ac mae achos busnes amlinellol wedi cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Chwaraeon Cymru ym mis Mai 2015. Bydd Chwaraeon Cymru yn lansio ei fframwaith arwain a llywodraethu ym mis Ebrill 2015. Mae Cyrff Rheoli Chwaraeon niferus wedi addo eu cefnogaeth i'r digwyddiad hwn eisoes.</p> <p>Cadwyd gradd dda ar gyfer Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru gydag 85% o argymhellion y Cynllun Gwella Gwasanaethau wedi'u cwblhau. Cynyddodd yr adborth am foddhad cyffredinol o 4.41 i 4.52 yn ystod 2013/14 (4 = Da, 5 = Rhagorol).</p> <p>Canlyniad da gyda lefelau ymgysylltu staff ledled y sefydliad yn codi o 67% yn 2013/14 i 75% yn 2014/15.</p>
<p>Chwaraeon Elitaidd</p> <p>Bydd rhaid i Gymru ddatblygu ymhellach fel datblygwr talent o safon byd, gan ddysgu oddi wrth Gemau Cymanwlad Glasgow i sicrhau bod llwybrau elitaidd yn addas i bwrpas ar gyfer Rio. Yn ail, bydd rhaid hybu a hyrwyddo delwedd 'Tîm Cymru' ymhellach.</p>	<p>Enillodd Tîm Cymru fwy o fedalau nag erioed o'r blaen, sef casgliad o 36, un yn fwy na'r targed uchaf a osodwyd o 35. Roedd cyfanswm y medalau ar y diwedd yn golygu bod Cymru yn rhif un fel cenedl aml-chwaraeon yn y Gymanwlad, o ystyried poblogaeth pob gwlad, uwch ben gwledydd fel Seland Newydd, Awstralia, Canada, India a'r gwledydd cartref eraill. Roedd rhoi blaenoriaeth i chwaraeon ac athletwyr a fyddai'n ennill medalau (tacteg yn y Strategaeth Chwaraeon Elitaidd) yn ffactor allweddol er mwyn cyrraedd y nod.</p> <p>Mae'r Strategaeth Chwaraeon Elitaidd wedi cael ei hadolygu'n annibynnol ac mae'r argymhellion naill ai'n cael eu gweithredu neu eu cynllunio.</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr holl asiantaethau partner o dan deitl y Grŵp Cynghori Strategol ar Berfformiad Uchel ac mae'r V-MOST pwysig a sefydlwyd o ganlyniad yn cael ei weithredu yn awr, gyda'r cydlynu'n cael ei ddarparu drwy gyfrwng adnodd penodol yn UK Sport.</p>

ADOLYGU'R FLWYDDYN

Does dim amheuaeth bod 2014 wedi bod yn flwyddyn wych i chwaraeon yng Nghymru. Dyma'r flwyddyn pryd cafwyd stori fwyaf Cymru o ran llwyddiant mewn chwaraeon. Blwyddyn o dorri recordiau ac o gasglu mwy o fedalau nag erioed o'r blaen, ac o edrych ar lwyddiant fel norm yn hytrach nag eithriad.

Dychwelodd Tîm Cymru o Glasgow gyda 36 o fedalau, mwy nag erioed o'r blaen, a sicrhodd athletwyr fel Frankie Jones, Jazz Carlin, Natalie Powell a Geraint Thomas bod Cymru'n disgleirio ar lwyfan y byd. Cyflawnodd nifer o athletwyr eu gorau personol neu buont yn cystadlu mewn gemau mawr am y tro cyntaf, gan greu atgofion am chwaraeon a fydd yn aros yn y cof am hir iawn. Coronwyd y tîm yn Dîm y Flwyddyn yng Ngwobrau Chwaraeon Blynyddol Cymru i goroni blwyddyn ryfeddol i Dîm Cymru.

Ar ôl Glasgow, cynhaliwyd adolygiad llawn o'n rhaglen chwaraeon elitaidd a bydd adolygiad wedi'i ddiweddarau o chwaraeon elitaidd yn cael ei gyhoeddi'n fuan, gan sicrhau ein bod yn camu ymlaen ar lwyfan y byd.

Yn dilyn canlyniadau rhagorol Arolwg Chwaraeon Ysgol 2013, yn 2014 aethom ati i ddatgelu bod pobl Cymru'n croesawu chwaraeon mewn ffordd gwbl newydd. Roedd ein Harolwg ar Oedolion Egniol yn dangos twf sylweddol mewn cymryd rhan, gyda nifer yr oedolion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol deirgwaith neu fwy yr wythnos ar eu lefelau uchaf erioed. Dangosodd y ffigurau naid fawr o 29% yn 2008 i 39% yn 2012 - sef cyfanswm anhygoel o 262,000 yn rhagor o bobl yn mwynhau manteision niferus chwaraeon.

Ond wrth gwrs mae'n rhaid i ni wneud llawer mwy. Unwaith eto dangosodd yr arolwg y grwpiau sy'n llai tebygol o gymryd rhan yn rheolaidd. Yn 2014 dechreuwyd gwneud cynnydd tuag at fynd i'r afael â'r bylchau ystyfnig mewn cymryd rhan rydym yn eu gweld ymhlith merched a genethod, y rhai o gefndiroedd o leiafrifoedd ethnig, pobl sy'n byw ag anabledd a'r rhai sy'n byw mewn tldi.

Rydym yn falch o fod yn gweithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd a Chomisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent i sefydlu Menter Dyfodol Positif Casnewydd, rhaglen o gynnwys yn gymdeithasol sy'n seiliedig ar chwaraeon a gweithgarwch. Y nod yw creu cymunedau mwy cynhwysol a diogel drwy feithrin diwylliant o barch, cynyddu gwirfoddoli ymhlith ieuenctid a darparu mynediad at wasanaethau o safon i bobl ifanc yn eu cymunedau.

Hefyd dathlodd ffigurau allweddol yng nghymuned chwaraeon Cymru gam mawr ymlaen at wneud chwaraeon yn groesawus, yn ddiogel ac yn rhydd o unrhyw wahaniaethu wrth i siarter gael ei lansio gennym i annog cydraddoldeb i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LHDT). Mae'r siarter wedi cael ei ddrafftio gan Rwydwaith Chwaraeon LHDT Cymru a sefydlwyd gan Chwaraeon Cymru, wrth i ymchwil gael ei gynnal mewn partneriaeth â Stonewall Cymru er mwyn ceisio deall yn well brofiadau chwaraeon y cymunedau LHDT yng Nghymru. Mae'r siarter yn ymrwymiad symbolaidd mawr i gydraddoldeb LHDT yng Nghymru ac anogwyd ysgolion, clybiau a chyrff rheoli cenedlaethol ledled Cymru i'w lofnodi.

Mae ein gwaith gyda'r sector iechyd yn ystod y 12 mis diwethaf wedi arwain at sicrhau pwyslais cynyddol ar chwaraeon; nid yw bellach yn elfen neis i'w chael, ond yn gwbl hanfodol i ddyfodol iechyd ein cenedl. Yn y byd chwaraeon mae gennym ni 'bresgripsiwn' gwirioneddol i leddfu'r pwysau difrifol sydd ar ein gwasanaeth iechyd. Dyma pam ein bod wedi ymuno â Chonffederasiwn y GIG yng Nghymru i lofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth i greu Cymru iachach a mwy cyfartal. Nid yw chwaraeon ac iechyd wedi dod at ei gilydd fel hyn o'r blaen ac mae'n digwydd ar amser pan mae gofal iechyd darbodus ar frig yr agenda, gan annog pobl Cymru i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Eisoes ceir enghreifftiau rhagorol o bartneriaethau ffyniannus fel Chwaraeon Anabledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a aeth ati gyda'i gilydd i ddarparu opsiynau gwell i fwy o bobl gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Rydym wedi llwyddo i sicrhau rhagor o gyllid ar gyfer y Rhaglen Llythrennedd Corfforol i Ysgolion. Mae'r rhaglen yn cyd-fynd â rhaglen Her Ysgolion Cymru, gan weithio gydag ysgolion yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru er mwyn gwella safonau. Mae Fframwaith Llythrennedd Corfforol drafft wedi cael ei ddatblygu ac, ar hyn o bryd, mae'n cael ei dreialu fel rhan o'r Rhaglen Llythrennedd Corfforol i Ysgolion.

Mae canlyniadau ein harolwg ar chwaraeon ysgol yn dweud wrthym fod pobl ifanc yn fwy tebygol o fod wedi gwirioni ar chwaraeon os ydynt yn mwynhau eu gweithgareddau a hefyd yn meddu ar hyder a gallu i gymryd rhan. Dyma ein ffocws ni drwy lythrennedd corfforol. Mae ein gwaith presennol gyda'n partneriaid yn sicrhau'r cyfleoedd cymunedol gorau posib, sy'n cael eu cyflwyno gan weithlu priodol ac yn diwallu anghenion pob person ifanc. Mae casgliad cynhwysfawr o adnoddau cyfathrebu wedi cael eu datblygu i gefnogi'r agenda hon. Bydd cydweithredu â phartneriaid newydd a phartneriaid sy'n bodoli eisoes ar yr agenda hon yn flaenoriaeth i Chwaraeon Cymru yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Mae'n weledigaeth gennym o hyd i gael pob plentyn wedi gwirioni ar chwaraeon a nawr mae gennym bartneriaethau i gefnogi hyn a nod cyffredin i'w gyflawni.

CANLYNIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN

Roedd cyfanswm gwariant cynhwysfawr Chwaraeon Cymru ar ôl trethiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 yn £27,419,000 (2013/14 £26,909,000). Roedd y symudiad net ar y gronfa gyffredinol ar gyfer y flwyddyn, ar ôl y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn orwariant o £992,000 (2013/14 gorwariant o £57,000). Sicrhawyd y gostyngiad o £992,000 ar ôl codi dibrisiant o £506,000 (2013/14 £519,000) ac i raddau helaeth, roedd yn unol â'r disgwyliadau.

Mae canlyniadau'r Ymddiriedolaeth wedi'u cyfuno yn y datganiadau ariannol hyn.

Cynlluniau ar gyfer Cyfnodau yn y Dyfodol

Rydym wedi pennu ein gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn ein cynllun busnes, sydd ar ein gwefan ers Ebrill 1af 2015.

Bydd sefydlu cynllun strategol pum mlynedd newydd ar gyfer 2015-20 yn elfen ganolog er mwyn pennu cyfeiriad cyffredinol Chwaraeon Cymru yn y dyfodol a darparu mwy o eglurder a ffocws ar gyfer cyflawni a chanlyniadau. Seilir y strategaeth ar bedair elfen allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i weithredu mewn ffordd gadarn, effeithlon, cynaliadwy a llwyddiannus yn yr amgylchedd heriol rydym yn gweithio ynddo nawr. Y nod strategol yw sbarduno cyflawni i lefel uwch fyth a chreu newid mawr llwyddiannus a gydnabyddir yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Ar adeg o gyfyngiadau ariannol ar y sector cyhoeddus, mae gan Chwaraeon Cymru gyfrifoldeb i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer twf, a gweithredu'n gyflym ac yn bendant er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer sector chwaraeon llwyddiannus.

Yn ystod cyfnod ein Cynllun Corfforaethol 2013-2016, bydd y canlyniadau allweddol canlynol yn cael eu mesur:

- Canran y bobl ifanc ym mlynnyddoedd ysgol 3-11 sy'n cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos mewn lleoliad allgyrsiol a/neu glwb;
- Canran y bobl ifanc ym mlynnyddoedd ysgol 3-11 sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon mewn clwb;
- Canran yr oedolion ifanc 16-24 oed sydd wedi cymryd rhan deirgwaith yr wythnos ar gyfartaledd yn ystod y pedair wythnos blaenorol;
- Canran yr oedolion 15+ oed a wirfoddolodd yn ystod y 12 mis diwethaf.

Gellir adrodd yn ôl ar fesurau canlyniadau poblogaeth bob dwy flynedd.

MATERION AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A CHYMUNEDOL

Materion Cymdeithasol a Chymunedol

Mae ein gwaith yn cael ei arwain gan sawl dogfen allweddol: y Rhaglen Lywodraethu; Creu Cymru Egniol, y cynllun gweithredu strategol pum mlynedd i gyflwyno Dringo'n Uwch; a'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Adlewyrchir y Rhaglen Lywodraethu yn Llythyr Gorchwyl y Gweinidog i Chwaraeon Cymru.

Ein gweledigaeth ar gyfer chwaraeon cymunedol yw "pob plentyn wedi gwirioni ar chwaraeon am oes". Mae hyn wir yn golygu pob plentyn. Ymhlith canlyniadau cadarnhaol iawn yn nhw y cyfranogiad chwaraeon ar gyfer oedolion a phlant, rydym yn parhau i weld anghydraddoldeb annerbyniol. Mae ein Harolwg ar Oedolion Egniol a chanlyniadau'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol wedi dangos hynny i ni. Mae bechgyn a dynion yn cymryd rhan mewn mwy o chwaraeon na merched a genethod ac mae'r rhai o gefndiroedd llai cyfoethog, cymunedau DLIE neu gydag anabledd yn llai tebygol o gymryd rhan.

Cynaliadwyedd

Mae Chwaraeon Cymru'n mynd ati i sefydlu polisiau a mentrau sy'n ceisio lleihau effaith ei weithrediadau ar yr amgylchedd. Y llynedd, ystyriodd y bwrdd a'r uwch dîm rheoli gamau gweithredu ychwanegol y gallai Chwaraeon Cymru eu rhoi ar waith er mwyn lliniaru mwy ar effaith ei waith ar yr amgylchedd. Arweiniodd hyn at Strategaeth Amgylcheddol Gorfforaethol, a gymeradwywyd gan y bwrdd. Yn ychwanegol at y camau arwyddocaol sydd wedi'u cymryd, gosododd Chwaraeon Cymru nod iddo'i hun o ragori ar dargedau Llywodraeth Cymru. Y prif nod oedd gostyngiad blynyddol o 3% mewn allyriadau carbon gan ddefnyddio 2013/14 fel sylfaen, i gael ei fesur ar sail tair blynedd yn barhaus.

Ar gyfer 2014/15, mae ffactor trawsnewid allyriadau carbon Defra ar gyfer trydan wedi cynyddu. Felly, er bod y defnydd o drydan wedi gostwng, mae'r allyriadau carbon wedi cynyddu flwyddyn ar flwyddyn. Gwelwyd gostyngiad mawr mewn defnydd o ynni (trydan, nwy ac olew nwy) yn sgil gaeaf cynhesach a hefyd defnydd ehangach o oleuadau a weithredir gan symudiad, ac yn sgil newid y goleuadau fflworoleuol yr oedd eu hoes wedi dod i ben am oleuadau LED mwy effeithlon.

Y rheswm dros y cynnydd mewn gwastraff yw'r gwastraff adeiladu yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru oherwydd prosiectau adnewyddu.

Mae Chwaraeon Cymru yn parhau â'i ymgyrch i sicrhau atebion technolegol i helpu i leihau allyriadau a gwastraff pan fo hynny'n bosib. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau cynadleddau fideo a gwell atebion TGCh personol, fel sgriniau deuol i leihau argraffu. Mae hyn yn dechrau cael effaith ar ymddygiad y staff ac rydym yn disgwyl gweld y manteision yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae Plas Menai'n parhau i ddefnyddio'r system amgylcheddol a weithredwyd y llynedd ac yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn defnyddio'r data mae'n eu darparu i wneud newidiadau wedi'u targedu i leihau defnydd o ynni. Hefyd, mae'r Ganolfan Genedlaethol yng Nghaerdydd yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb o gynhyrchu adnewyddadwy ar y safle yng Ngerddi Sophia.

Cafodd Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru ei gradd isaf am Berfformiad Ynni yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â gradd llawer is na'r radd nodweddiadol am y math o adeilad. Yn ystod y flwyddyn, prynwyd tryc trydan ar gyfer ei ddefnyddio ar y tiroedd, fel nad oes raid defnyddio'r tractor ar gyfer tasgau llai.

CYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL

Mae'r tablau canlynol yn cynnwys data holl swyddfeydd Chwaraeon Cymru a'r costau cysylltiedig.


Gwastraff		2014/15	2013/14	2012/13
Heb fod yn ariannol (tunelli)	Cyfanswm KG	86,726	55,772	55,186

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr		2014/15	2013/14	2012/13
Co2	Cyfanswm allyriadau crynswth (Co2)	1,410,020	1,378,098	1,570,227
	Cyfanswm allyriadau net (Co2)	1,410,020	1,378,098	1,570,227
	Allyriadau crynswth, sgôp 1 (uniongyrchol)	584,525	604,730	762,727
	Allyriadau crynswth, sgôp 2 (anuniongyrchol)	825,495	773,368	807,500
Defnydd o ynni kWh	Trydan (heb fod yn adnewyddadwy)	1,670,163	1,736,033	1,812,652
	Trydan (adnewyddadwy)	0	0	0
	Nwy	1,160,585	1,242,870	1,256,517
	Olew Nwy	1,359,122	1,383,543	1,707,263
Dangosyddion Ariannol (£)	Gwariant - ynni	292,920	293,911	357,171


Defnydd o adnoddau y mae pen draw iddynt	Dŵr	2014/15	2013/14	2012/13
Heb fod yn ariannol (M3)	Cyflenwyd	13,383	13,087	12,720
	Tynnwyd	2,251	2,251	2,613
Dangosyddion Ariannol (£)	Costau cyflenwi dŵr	33,300	32,370	34,737

Teithio		2014/15	2013/14	2012/13
Co2	Rheilffordd	8,189	7,432	12,494
	Awyr	18,029	25,480	3,758
	Cwch	0	43	0
	Car (taksi/bws ac ati)	536	136	1,431
	Defnydd o gar personol	42,256	55,198	55,213
	Cyfanswm	69,010	88,289	72,896
Cost	Rheilffordd	28,461	25,795	20,286
	Awyr	9,537	9,607	3,282
	Cwch	0	331	0
	Car (taksi/bws ac ati)	3,155	1,741	2,051
	Defnydd o gar personol	64,158	83,209	81,416
	Cyfanswm	105,310	120,683	107,035
Milltiroedd	Rheilffordd	108,025	94,927	134,214
	Awyr	41,338	51,150	12,916
	Cwch	0	200	0
	Car (taksi/bws ac ati)	2,483	623	883
	Defnydd o gar personol	142,573	184,909	180,925
	Cyfanswm	294,419	331,809	328,938

Allyriadau CO2



Dangosyddion Ariannol



Cadwraeth a Bioamrywiaeth

Mae Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Caerdydd, wedi'i lleoli mewn gardd restredig Gradd 2 ac mae gan y coed i gyd Orchmynion Cadw Coed ac fe'u rheolir yn unol â'r gorchmynion hyn.

Mae'r Ganolfan Genedlaethol ym Mhlas Menai'n cynnal cyrsiau addysg amgylcheddol forol ar Afon Menai, mae wedi plannu ac yn rheoli coetir ac mae blychau adar wedi cael eu lleoli o amgylch y safle.

Caffael Cynaliadwy a'r Dyfodol

Mae polisi caffael Chwaraeon Cymru yn datgan ei bod yn ofynnol i'r holl ddyfarniadau Caffael sy'n fwy na £10,000 gael eu dyfarnu ar y sail eu bod yn cynnig "cyfuniad optimwm o gostau bywyd cyfan a manteision i fodloni gofynion Chwaraeon Cymru". Mae costau bywyd cyfan yn ystyried nid dim ond y pris prynu, ond hefyd yn ystyried cost barhaus perchnogaeth, cynnal a chadw a defnyddio gwasanaethau.

Byddwn yn parhau i weithio er mwyn ymgorffori polisiau cynaliadwy yn ein gweithrediadau. Yn benodol, rydym yn ymwybodol o effaith amgylcheddol ehangach ein gwaith a byddwn yn ymchwilio i ffyrdd o ddylanwadu'n gadarnhaol ar hyn.

SWYDDOG CYFRIFO:

S Powell
29 Mehefin 2015

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

ADNODDAU DYNOL

Mae gan Chwaraeon Cymru ystod helaeth o bolisiau sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol ac mae'n anelu at sicrhau cynnal a chymell. Adolygir y polisiau hyn yn rheolaidd gan gynnwys y staff drwy gytundeb cydnabod gydag Undeb y PCS. Mae'r holl bolisiau'n cael eu gwirio o ran cydraddoldeb cyn cael eu gweithredu. Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i bolisi o gyfle cyfartal yn ei arferion cyflogaeth. Yn benodol, mae Chwaraeon Cymru yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw ddarpar gyflogai neu gyflogai presennol yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, statws priodasol neu fel rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Hefyd byddwn yn cadw at y 'Safon Cydraddoldeb ar gyfer Chwaraeon' a'r cynlluniau 'Positif am Anabledd'.

BUDDSODDI YN EIN POBL

Mae gan Chwaraeon Cymru statws "Buddsoddwyr mewn Pobl" ac mae ei bolisiau adnoddau dynol yn adlewyrchu arfer gorau fel rhan o'i ymrwymadau fel sefydliad dysgu.

DATA ABSENOLDEB SALWCH

Mae data salwch cyflogeion y sefydliad cyfan ar gyfer 2014/15 (2013/2014) fel a ganlyn:

CYFANSWM Y DYDDIAU A GOLLWYD	CYFANSWM Y CYFLOGEION (CYFWERTH AG AMSER LLAWN)	CYFANSWM Y DYDDIAU O SALWCH A GOLLWYD Y PEN
935.50 (870.00)	150.32 (148.89)	6.22 (5.84)

CYNLLUN PENSIWN

Mae cyflogeion Chwaraeon Cymru yn aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa). Mae'r Gronfa'n gynllun buddiannau pendant sy'n darparu buddiannau'n seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol ac mae ei hasedau'n cael eu cadw ar wahân i rai Chwaraeon Cymru. Bydd unrhyw bensiwn a gronnwyd cyn mis Ebrill 2008 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/80fed gyda chyfandaliad o deirgwaith y pensiwn. Caiff pensiwn sydd wedi cronni o 1 Ebrill 2008 ymlaen ei gyfrif ar gyfradd o 1/60ain a cheir opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae cyfraniadau cyflogeion a staff maniwal yn cael eu pennu ar 5.5% i 7.5% yn seiliedig ar ystod cyflog. Ers mis Ebrill 2014, mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi newid o gynllun pensiwn terfynol i gynllun Enillion Ailwerthuso Cyfartaledd Gyrfa. Cyfrifir y pensiwn sydd wedi'i gronni ers 1 Ebrill 2014 ar gyfradd o 1/49ain, gydag opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae cyfraniadau cyflogeion a staff maniwal yn cael eu pennu ar 5.5% i 10.5% yn seiliedig ar ystod cyflog. Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 1.6 a nodyn 17 y datganiadau ariannol.

DIGWYDDIADAU CYSYLLTIEDIG Â DATA PERSONOL

Mae gan Chwaraeon Cymru fesurau rheoli a pholisiau yn eu lle i sicrhau integriti'r data. Mae ei systemau Technoleg Gwybodaeth yn sicrhau mesurau llym o ran rheoli diogelwch ffisegol data. Cyn belled ag y gwyddom ni, ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu.

CANFOD A RHEOLI RISG

Ceir manylion am Reoli Risg yn adran Rheoli Risg y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ar dudalen 19.

POLISI TALU CYFLENWYR A'R PERFFORMIAD A GYFLAWNWYD

O dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Deddf Llog 1998), ac yn unol â'r Cod Ymarfer Talu Gwell (sydd ar gael yn www.payontime.co.uk), mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru

dalufonebau cyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyr.

Nod Chwaraeon Cymru yw talu 100% o'i anfonebau, gan gynnwys yr anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch, unwaith y mae'r anghydfod wedi cael ei setlo, yn unol â'r telerau hyn. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015, talodd Chwaraeon Cymru 100% (2013/14 100%) o'i holl anfonebau gan gadw at ei bolisi talu. Ni chodwyd unrhyw log yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i daliadau hwyr.

OFFERYNNAU ARIANNOL

Ceir manylion yr offerynnau ariannol yn nodyn 1.11 y datganiadau ariannol.

TÂL ARCHWILWYR

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n goruchwylio natur a swm y gwaith heb fod yn waith archwilio a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru, ein harchwilwyr allanol. Yn ystod 2014/15, ni wnaed unrhyw waith heb fod yn waith archwilio gan ein harchwilwyr. Datgelir y ffi archwilio yn nodyn 7 yn y datganiadau ariannol.

Datganiad ar Ddatgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol

1. Cyn belled ag y gŵyr y Swyddog Cyfrifo, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, ac
2. Mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cymryd pob cam angenrheidiol er mwyn sicrhau ei bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac er mwyn sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

SWYDDOG CYFRIFO:

S Powell
29 Mehefin 2015

ADRODDIAD TÂL

Yn unol â Phennod 5 o'r Llawlyfr Cofnodion Ariannol, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru ddatgelu'r canlynol mewn perthynas â thâl yn ystod y flwyddyn am Aelodau'r Cyngor a'r Uwch Staff sydd â chyfrifoldeb am reoli adrannau llunio polisiau. Mae canllawiau'r Trysorlys yn datgan ei bod yn ofynnol i ddatganiadau ariannol ddatgelu gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau Aelodau ac Uwch Staff Chwaraeon Cymru.

POLISI TÂL

Telir i'r Cadeirydd, yr Is Gadeirydd ac aelodau Chwaraeon Cymru yn unol â pholisi "Tâl a chostau Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff Llywodraethu a Noddir gan y Cynulliad a Chyrff y GIG" Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor Tâl, sy'n cynnwys Cadeirydd Chwaraeon Cymru, yr Is Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, a gefnogir gan Reolwr Adnoddau Dynol Chwaraeon Cymru, yn cyfarfod i gytuno ar ddyfarniad tâl blynyddol ar gyfer y staff i gyd, drwy gyfrwng proses cylch cyflog Llywodraeth Cymru. Hefyd mae gan swydd y Prif Weithredwr ystod cyflog gysylltiedig yn awr, a benderfynir gan Lywodraeth Cymru.

CONTRACTAU GWASANAETH

Cyflogir Uwch Staff Chwaraeon Cymru ar delerau ac amodau sy'n eithaf tebyg i delerau ac amodau Llywodraeth Cymru.

Penodir Aelodau Chwaraeon Cymru gan Weinidogion Cymru ar gontract tair blynedd ac efallai y byddant yn cael eu hailbenodi am gyfnod o dair blynedd arall. Telir cyfradd ddyddiol o £337 i'r Cadeirydd ac mae'n cael contract i weithio deuddydd yr wythnos. Telir cyfradd ddyddiol o £311 i'r Is Gadeirydd ac mae'n cael contract i weithio diwrnod yr wythnos.

CYFNOD RHYBUDD

Mae gan y Prif Weithredwr hawl i rybudd o bedwar mis gan Chwaraeon Cymru os terfynir y contract ac mae gan weddill yr Uwch Staff hawl i rybudd o dri mis o derfynu'r contract.

CYFLOG Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

CYFLOG

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog crynswth, lwfansau a bonws perfformiad, os yn berthnasol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Prif Weithredwr gyflog crynswth o £89,483, (2013/14 £79,170). Ni roddwyd taliadau bonws i'r Prif Weithredwr nac i unrhyw aelod arall o staff yn ystod y flwyddyn (2013/14 £Dim).

Mae cyfran o gostau cyflog yr Uwch Reolwyr yn cael ei neilltuo i'r loteri.

MANTEISION MEWN NWYDDAU NEU GYNNYRCH

Nid oes unrhyw fanteision mewn nwyddau neu gynnyrch.

Ceir rhagor o fanylion am dâl a buddiannau pensiwn y Cadeirydd, yr Is Gadeirydd, y Prif Weithredwr a'r uwch gyfarwyddwyr eraill yn nodyn 6(d) y datganiadau ariannol. Mae'r wybodaeth hon wedi'i harchwilio.

SWYDDOG CYFRIFO:

S Powell
29 Mehefin 2015

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR A'R PRIF WEITHREDWR

O dan y Siarter Brenhinol, dyddiedig 4 Chwefror 1972, mae'n ofynnol i Gyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddatganiadau o gyfrifon ar ffurf ac ar sail a benderfynir gan Lywodraeth Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail gronol ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno darlun cywir a theg o gyflwr materion Chwaraeon Cymru ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys ei incwm a'i wariant a'r newidiadau mewn ecwiti a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth ac, yn arbennig, cyflawni'r canlynol:

- cadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiau cyfrifo addas ar sail gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a gadwyd at safonau cyfrifo priodol, a datgelu ac egluro unrhyw wro sylfaenol yn y datganiadau ariannol; a
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd yr endid yn parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Gweinidogion Cymru wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo Chwaraeon Cymru. Mae ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodolrwydd a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau Chwaraeon Cymru, wedi'u datgan ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifo a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

SWYDDOG CYFRIFO:

S Powell
29 Mehefin 2015

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2014/2015

CYFLWYNIAD

Mae'r Datganiad Llywodraethu'n dwyn at ei gilydd i un lle bob datgeliad am faterion perthnasol i lywodraethu sefydliad, risg a rheolaeth. Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf i'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu sy'n amlinellu sut rwyf wedi defnyddio fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn.

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf wedi adolygu Cod Llywodraethu Corfforaethol 2012 ac yn credu bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio'n llawn ag elfennau perthnasol y cod mewn perthynas â'i swyddogaethau Trysorlys a Loteri.

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Y Bwrdd

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn gyfrifol am lywodraethu Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Rôl y Bwrdd yw ei fodloni ei hun bod strwythur llywodraethu priodol yn ei le a chraffu ar berfformiad y pwyllgor gweithredol a gwaith y sefydliad yn cyflawni Gweledigaeth Chwaraeon Cymru.

Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn cynnwys Cadeirydd, Is Gadeirydd a hyd at ddeuddeg aelod arall ac fe'u penodir i gyd gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o drawsdiriad eang o wahanol broffesiynau ac aelodau sydd ag arbenigedd a phrofiad perthnasol i chwaraeon cymunedol ac elitaidd.

Gwelir y presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio yn y tabl isod.

Aelod o'r Bwrdd	Cyfarfod Bwrdd (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd)	Y Pwyllgor Archwilio (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd)
Yr Athro L McAllister (Cadeirydd)	5	Amherthnasol
Adele Baumgardt (Is Gadeirydd)	5	Amherthnasol
Amanda Bennett**	3	2
Martin J Warren	5	4
John Baylis	5	3
Richard Cuthbertson*	4	1
Andrew Morgan*	0	Amherthnasol
Simon Pirote	4	Amherthnasol
Paul Thorburn	4	Amherthnasol
Alan Watkin	4	3
Julia Longville	5	Amherthnasol
Andrew Lycett**	3	3
Johanna Lloyd	5	1
Peter King*	5	1
Richard Parks**	2	Amherthnasol
Samar Wafa**	3	Amherthnasol
(Aelodau allanol – Pwyllgor Archwilio yn unig)		
Sandy Blair	Amherthnasol	3
Louise Casella	Amherthnasol	3
Canran Gyffredinol y Gyfradd Bresenoldeb	91%	71%

*wedi ymddeol yn ystod y flwyddyn

**wedi dechrau yn 2014

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau a chael y sicrwydd sy'n ofynnol bod arferion llywodraethu da yn eu lle, mae'r Bwrdd wedi cytuno i'r strwythur llywodraethu canlynol:

- Dau bwyllgor parhaol; Y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Tâl
- Tri is-grŵp a dau grŵp cynghori wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd (rhestrir isod).
- Y Tîm Rheoli Gweithredol a'r strwythur staffio

Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio i'w gefnogi gyda chyflawni ei gyfrifoldebau o ran risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu, drwy gyfrwng y canlynol:

- Adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r prosesau, y mesurau rheoli, yr archwiliadau a'r mesurau eraill cyfredol o ran diwallu anghenion sicrwydd y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo;
- Adolygu dibynadwyedd ac integriti'r sicrwydd a ddarperir gan y weithrediaeth a'r archwilwyr mewnol ac allanol;
- Cyflwyno barn ar ba mor dda mae'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo'n cael eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau a chyflawni eu rhwymedigaethau atebolrwydd (yn enwedig o ran Cofnodion Ariannol).

Roedd y Pwyllgor Archwilio'n cynnwys chwe aelod Bwrdd a hyd at ddau aelod allanol annibynnol. Cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cyfradd bresenoldeb gyffredinol yr aelodau yn 71%.

Yn ystod y flwyddyn, roedd meysydd ffocws y pwyllgor yn cynnwys (ond nid oeddent yn gyfyngedig i) y canlynol:

- gweithredu ac effeithiolrwydd y fframwaith adolygu rheoli risg;
- adroddiadau archwilio mewnol yn rhoi sylw i feysydd busnes penodol ac adroddiad yr archwiliad mewnol blynyddol;
- yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol a'u fformat;
- arsylwadau a wnaed gan archwiliad allanol, yn enwedig y llythyr rheoli blynyddol;
- cydymffurfiaeth â'r Ddogfen Fframwaith a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chydymffurfiaeth â Datganiad y Loteri o Ofynion Ariannol;
- dogfen y Fframwaith Llywodraethu;
- y risgiau a'r mesurau rheoli perthnasol i ddyfarniadau grant;
- rheolaeth risg weithredol y ddwy Ganolfan Genedlaethol;
- y risgiau penodol cysylltiedig â chefnogi chwaraeon elitaidd ac athletwyr sy'n perfformio ar lefel uchel;
- y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.

Derbyniodd y Bwrdd gofnodion y Pwyllgor Archwilio ym mhob cyfarfod ac mae'n cael cyngor y Cadeirydd Archwilio mewn perthynas ag unrhyw faterion arwyddocaol. Hefyd mae'r Cadeirydd Archwilio'n cyflwyno adroddiad blynyddol ffurfiol ar waith y pwyllgor i'r Bwrdd.

Mae'r systemau TG yn sicrhau bod rheolau llym mewn grym parthed diogelwch ffisegol data. Yn 2014/15, nid oedd unrhyw faterion risg gwybodaeth nac unrhyw wendidau rheoli arwyddocaol i adrodd yn ôl yn eu cylch ac roedd y Pwyllgor Archwilio'n fodlon bod lefel y risg yn dderbyniol ac yn cael ei rheoli mewn ffordd briodol.

Y Pwyllgor Tâl

Yn ystod y flwyddyn, adolygodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Tâl ddyfarniad tâl blynyddol y Prif Weithredwr. Cymeradwywyd y dyfarniad gan Lywodraeth Cymru.

Is-grwpiau a Grwpiau gorchwyl a gorffen

Penodir grwpiau gorchwyl a gorffen gan y Bwrdd yn ôl yr angen. Mae'r grwpiau'n cynnwys aelodau'r Bwrdd a benodir gan y Cadeirydd a hefyd aelodau annibynnol weithiau. Fe'u cefnogir gan swyddogion Chwaraeon Cymru. Eu pwrpas yw darparu help a chynghor ychwanegol i'r Bwrdd oddi mewn i themâu penodol ac maent yn cyfarfod ar sail ad-hoc.

Yn ystod 2014/15, roedd y grwpiau gorchwyl a gorffen canlynol yn weithredol:

- Adolygiad Plas Menai;
- Cydraddoldeb;
- Ffocws 2014 (ar gyfer Gemau Cymanwlad 2014);
- Rheoli Perfformiad;
- Pontio (i oruchwyllo'r gwaith o recriwtio Cyfarwyddwyr newydd);
- Sefydliad Perfformiad Uchel;
- Cymunedol;
- Elitaidd.

Penodir aelod o'r Bwrdd, sydd hefyd yn aelod o bob grŵp gorchwyl a gorffen, i adrodd yn ôl ar lafar yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

Yr Uwch Dîm Rheoli Gweithredol

Mae'r Uwch Dîm Rheoli Gweithredol, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn atebol i'r Bwrdd am ddatblygu a gweithredu strategaethau a pholisïau ac adrodd yn ôl arnynt.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd, bob pythefnos fel rheol, i drafod a chytuno ar faterion corfforaethol. Mae'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes yn cael ei gofnodi a'i fonitro'n chwarterol.

Bu newidiadau sylweddol yn aelodaeth y weithrediaeth yn ystod y flwyddyn. Mae nifer o swyddi'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol wedi dod yn wag neu wedi newid.

Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgor

Yn unol ag arferion gorau a chan gadw at yr argymhellion ar gyfer Rheoli Arian Cyhoeddus, mae adolygiad o effeithiolrwydd wedi cael ei gynnal yn ystod 2014/15; gweithredwyd ar argymhellion yr adolygiad. O ganlyniad, gwnaed nifer o benodiadau newydd i'r Bwrdd ac nid yw rhai penodiadau wedi cael eu hadnewyddu.

Mae'r Bwrdd yn fodlon ag ansawdd a maint y wybodaeth a dderbyniwyd er mwyn iddo allu gwneud penderfyniadau doeth.

RHEOLI RISG

Pwrpas y system o reolaeth fewnol

Pwrpas y system o reolaeth fewnol yw rheoli a chyfyngu ar risg ond ni all fyth ei dileu. Felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, y mae'n gallu ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus o ganfod a rhoi blaenoriaeth i'r risgiau o ran cyflawni polisiau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hyn gael eu gwireddu, a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn Chwaraeon Cymru drwy gydol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blyneddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys. Yn olaf, mae'r system o reolaeth fewnol yn darparu sicrwydd rhesymol bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio â chyfarwyddiadau ariannol y Loteri a bod prosesau digonol yn eu lle ar gyfer canfod gwrthdaro rhwng buddiannau a lleihau colledion o ran grantiau Loteri.

Y gallu i ddelio â risg

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn bersonol gyfrifol am sicrhau bod gan Gyngor Chwaraeon Cymru broses rheoli risg effeithiol yn ei lle. Goruchwylir y broses hon gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio. Fel sefydliad, rydym yn monitro pob risg allweddol drwy ddefnydd priodol o'r Gofrestr Risg. Rydym wedi cofnodi Polisi Rheoli Risg sy'n cynnwys diffiniadau perthnasol i reoli risg a hefyd mae'r polisi'n datgan sut rydym yn canfod, yn dadansoddi ac yn rheoli risg.

Mae risgiau corfforaethol, a'r mesurau rheoli a weithredir i'w lliniaru, yn cael eu neilltuo i reolwr neu gyfarwyddwr corfforaethol priodol a'u rheoli ganddo, neu, mewn rhai achosion, gan y Swyddog Cyfrifo. Mae risgiau gweithredu, yn enwedig y rhai yn y ddwy ganolfan genedlaethol, yn gyfrifoldeb y rheolwyr perthnasol, ac efallai y bydd y gwaith o reoli risg o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i'w hiswyddogion.

Canfyddir risgiau newydd gan swyddogion Chwaraeon Cymru, adran graffu'r Pwyllgor Archwilio neu'r Bwrdd ei hun. Ar ôl canfod risg newydd, mae'n cael ei gosod ar y Gofrestr Risg, ei hasesu, ei sgorio a'i neilltuo i sylw cyfarwyddwr corfforaethol a / neu reolwr.

Y fframwaith risg a rheoli

Mae rheoli risg wedi'i ymgorffori yn strwythurau rheoli Chwaraeon Cymru. Mae mwyafrif y risgiau busnes, ariannol a chyflwyno gwasanaeth yn deillio o nodau trefniannol ac o broses cynllunio busnes Chwaraeon Cymru.

Mae'r Gofrestr Risg yn ateb electronig sydd ar gael i reolwyr perthnasol drwy gyfrwng porthol ar-lein. Mae gwaith y Gofrestr wedi cael ei archwilio'n fewnol a'i gyflwyno i'r pwyllgor archwilio. Mae'r Gofrestr Risg yn cofnodi risgiau corfforaethol sylweddol, gan gynnwys risgiau i wybodaeth, asesiad cyffredinol o effaith debygol a thebygolrwydd, mesurau rheoli a, lle bo angen, rhestr o fesurau gweithredu yn y dyfodol. Adolygir y Gofrestr Risg yn rheolaidd gan y rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio. Hefyd mae'r rheolwyr yn rhoi cyflwyniad yn eu tro i'r Pwyllgor Archwilio ar eu meysydd risg penodol a sut maent yn rheoli neu'n lliniaru'r risgiau hynny.

Monitro Grantiau

Mae mwyafrif cyllid Chwaraeon Cymru'n cael ei wario drwy ddyfarnu grantiau. Dyfernir grantiau ar sail meini prawf buddsoddi clir ar gyfer allbynnau a chanlyniadau chwaraeon allweddol. Mae Chwaraeon Cymru yn cymryd camau priodol i fonitro'r defnydd o ddyfarniadau o'r fath drwy ofyn am adroddiadau ffurfiol gan y rhai sy'n eu derbyn, yn ogystal â thrafod yn barhaus â phartneriaid allweddol er mwyn casglu gwybodaeth anffurfiol. Hefyd, ceir meini prawf cysoni penodol ac os yw'r gwariant yn amrywio o lefel y grant sydd wedi'i ddyfarnu, mae Chwaraeon Cymru yn ymarfer ei hawl i ofyn am symiau o'r fath yn eu hôl.

Risgiau Allweddol

Mae risgiau i weithgareddau strategol a gweithredol allweddol yn cael eu datgan, eu gwerthuso a'u hystyried gan yr Uwch Dîm Rheoli a gweithredir i'w lliniaru. Adolygir y risgiau a'r camau gweithredu i reoli risgiau yn rheolaidd. Dylanwedir yn sylweddol ar y rhaglen archwilio fewnol gan y risgiau a gofnodir ar y gofrestr risg ac, os yw hynny'n briodol, mae'r archwilwyr yn cyflwyno argymhellion i roi sylw i unrhyw risg neu ganfod rhai newydd. Bydd y Pwyllgor Archwilio'n adolygu'r argymhellion hyn ac yn gweithredu fel sy'n briodol.

O edrych ymlaen, mae nifer o risgiau allweddol wedi cael eu datgan gan Chwaraeon Cymru yn y dyfodol agos:

Mae'r rhain yn ymwneud â gweithredu ac ehangu system Rheoli Grantiau ar-lein newydd ac effaith newid arfaethedig i'r strwythur rheoli. Er hynny, y risg strategol fwyaf arwyddocaol fydd effaith y toriadau parhaus ar wariant cyhoeddus, a hefyd cost ariannol gynyddol bodloni taliadau diffyg pensiwn. Dyma'r bygythiad mwyaf i gyflawni amcanion Chwaraeon Cymru.

Mae gan Chwaraeon Cymru agwedd gall a deallus at gymryd risg yn gyffredinol, er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau. Os oes risg sylweddol yn codi, bydd Chwaraeon Cymru'n gweithredu'n effeithiol i'w rheoli ac yn ei gostwng i lefel ddiogel. Mae'r Weithrediaeth a'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen am arloesi ymhellach ac yn gynt yn y dyfodol ac, i'r diben hwn, rydym yn edrych ar wahanol fecanweithiau a phartneriaid cyflawni. Bydd hyn yn creu risgiau newydd a gwahanol ac yn gallu cynyddu lefel y risg y mae Chwaraeon Cymru yn ei chymryd. Felly, efallai y bydd dyhead Risg Chwaraeon Cymru yn codi, ond dim ond oddi mewn i amgylchedd risg wedi'i reoli.

Mae'r Archwilwyr Mewnol wedi rhoi sicrwydd cymedrol i Chwaraeon Cymru ac ni chafodd unrhyw rai o ganfyddiadau'r archwiliad eu categoreiddio fel risg "uchel" neu "uchel iawn". Yn ystod y flwyddyn, canfu nifer o adroddiadau archwilio mewnol gyfleoedd i wella'r systemau rheoli. Roedd yr archwilwyr mewnol yn "fodlon bod camau gweithredu priodol wedi'u datgan gan y rheolwyr i ddelio â'r materion sy'n codi".

Rheolaeth Fewnol

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisiau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru. Hefyd, mae gennyf gyfrifoldeb personol am ddiogelu elw'r Loteri Genedlaethol a ddsberthir i Chwaraeon Cymru ac asedau Chwaraeon Cymru, yn unol â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo i mi wrth Reoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Goruchwylir hyn gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio. Yn sail i'm hadolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol mae gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol a'r cyflwyniadau staff i bwyllgor archwilio Chwaraeon Cymru, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol. Rwyf yn bwriadu rhoi sylw i wendidau a sicrhau gwelliant parhaus y systemau sydd yn eu lle.

Darparwyd gwasanaeth archwilio mewnol Chwaraeon Cymru yn ystod 2014/15 gan KTS Owens Thomas Ltd, a weithredodd yn unol â'r safonau a ddiffiniwyd yn y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd fel rhan o archwiliadau mewnol, i ddarparu barn flynyddol annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol ac asesu risg Chwaraeon Cymru, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Gan fod KTS Owens wedi bod yn archwilwyr mewnol Chwaraeon Cymru ers dros 10 mlynedd, cynhaliwyd ymarfer tendro i gydymffurfio yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad i'r broses dendro, bydd gwasanaethau archwilio mewnol Chwaraeon Cymru o 2015/16 ymlaen yn cael eu darparu gan Deloitte.

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio'n llunio Adroddiad Blynyddol ar ei waith i Fwrdd Chwaraeon Cymru.

Datblygiadau Parhaus

Er bod system gref o reolaeth fewnol yn ei lle, ceir bob amser feysydd a fydd yn elwa o weithredu gwelliannau. Yn ystod 2013/14, adroddwyd gennym fod adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal o Gymdeithas Focsio Amatur Cymru, yn sgil codi materion yn fewnol ac yn allanol. Canfu'r adolygiad nifer o wendidau rheoli ac arferion gwaith gwael. Gweithredodd Chwaraeon Cymru ar unwaith ac yn briodol, er mwyn gwarchod arian cyhoeddus, ac ymatebodd y sefydliad yn gadarnhaol i'r pryderon a fynegwyd. Yn ystod 2014/15, ac fel amod ar unrhyw arian grant pellach, rydym wedi parhau i weithio'n agos â'r Corff Rheoli er mwyn monitro ei gynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed. Yn sgil y broses, aeth Chwaraeon Cymru ati i adolygu'r system reoli sydd ar waith mewn perthynas â'n Cyrff Rheoli Cenedlaethol yn gyffredinol. Yn ystod 2014/15, mae camau ychwanegol wedi cael eu rhoi ar waith i gryfhau ymhellach y mesurau rheoli sydd yn eu lle, i reoli'r risg gynhenid mewn buddsoddi arian cyhoeddus mewn sefydliadau trydydd parti. Byddwn yn adolygu hyn yn gyson yn ystod 2015/16.

Derbyniwyd strategaeth risg wedi'i diweddarau gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2015. Disgrifiodd gyfrifoldebau perthnasol y Bwrdd (cyfrifol am y Strategaeth a'r Dyhead Risg) a'r Weithrediaeth (trefniadau rheoli). O hyn ymlaen, bydd y Bwrdd yn derbyn y gofrestr risg gorfforaethol yn rheolaidd ac yn adolygu'r dyhead risg yn flynyddol.

Yn ystod 2015/16, bydd system rheoli grantiau ar-lein newydd yn mynd yn weithredol gennym, i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Bydd yn galluogi i ni gofnodi gwybodaeth llawer cyfoethocach am ein buddsoddiadau a gwneud penderfyniadau doethach yn y dyfodol.

Mae Chwaraeon Cymru wedi cynnal adolygiad o'i drefniadau rheoli a llywodraethu ar gyfer prosiectau arbennig. Canlyniad yr adolygiad yw cryfhau atebolrwydd, y rheolaeth ar adnoddau a'r adrodd yn ôl.

O ddechrau cylch 2016/17, bydd y cynllunio a'r cyllidebu'n cael ei wneud ar sail tymor hwy i gyd-fynd â'r cynllun strategol, gan felly sicrhau strategaeth ariannol sy'n gweithio'n well ochr yn ochr â gweledigaeth a chenhadaeth Chwaraeon Cymru.

Fel rhan o'r dull cynllunio tymor hwy yma, bydd disgwyl i reolwyr ddarparu crynodeb strategol o'u cyllid, ei effeithiolrwydd a sut mae'n cyd-fynd ag amcanion a nodau strategol y sefydliad.

SWYDDOG CYFRIFO:

S Powell
29 Mehefin 2015

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 yn unol â'r cytundeb y darparwyd ar ei gyfer o dan baragraff 18(3) Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiadau o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad Cyfnerthedig o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr, y Datganiad Cyfnerthedig o Lif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol cyfnerthedig hyn o dan y polisiau cyfrifo sydd wedi'u datgan ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl, a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth wedi'i harchwilio.

Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo a'r Archwilydd

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, mae'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl a'r datganiadau ariannol, yn unol â'r Siarter Brenhinol, Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i gael ei harchwilio, yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn datgan ei bod yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad ar y datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys sicrhau tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol, sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatganiadau sylfaenol, boed yn cael eu hachosi gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisiau cyfrifo'n briodol i amgylchiadau Cyngor Chwaraeon Cymru ac wedi cael eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n briodol; rhesymolrwydd yr amcangyfrifon cyfrifo arwyddocaol a wnaed gan Gyngor Chwaraeon Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Hefyd, mae'n ofynnol i mi sicrhau digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Hefyd, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol a heb fod yn ariannol yn yr Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr, i ganfod anghysonderau sylfaenol â'r datganiadau ariannol sydd wedi'u harchwilio ac i ganfod unrhyw wybodaeth sy'n sylfaenol anghywir yn ôl pob tebyg, neu'n sylfaenol anghyson â'r wybodaeth a gefais wrth i mi fynd ati i gynnal yr archwiliad. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylfaenol, rwyf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar Ddatganiadau Ariannol

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn cyflwyno darlun cywir a theg o gyflwr materion Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2015 ac o'i wariant net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben; ac
- maent wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob cyswllt sylfaenol, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan yn yr Adroddiad Tâl sydd i gael ei harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno yng nghyswllt y materion canlynol, y mae'n rhaid i mi adrodd arnynt i chi os yw'r canlynol, yn fy marn i, yn wir:

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM;
- nid oes cofnodion cyfrifo priodol wedi cael eu cadw;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo;
- nid yw'r wybodaeth y manylwyd arni gan Drysorlys EM ynghylch tâl a thrafodion eraill wedi'i datgelu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas	Swyddfa Archwilio Cymru
Archwilydd Cyffredinol Cymru	24 Heol y Gadeirlan
Gorffennaf 2015	Caerdydd
	CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifo a'r Bwrdd yw cynnal a chadw gwefan Chwaraeon Cymru a gwarchod ei hintegriti. Nid yw gwaith yr archwilydwr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilydwr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd o bosib i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno i ddechrau ar y wefan.

DATGANIAD O WARIANT NET CYNHWYSFAWR AR GYFER CYNGOR CHWARAEON CYMRU AC YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2015

	Nodyn	2014/2015	2013/2014
		£000	£000
GWARIANT			
Gwariant Grant	5	19,456	19,359
Costau Staff	6	5,189	5,167
Gwariant Arall	7	4,322	3,804
Dibrisiant: asedau sy'n eiddo	9	506	519
		<u>29,473</u>	<u>28,849</u>
INCWM			
Incwm o Weithgareddau	3	(2,344)	(2,533)
Incwm Arall	3	(11)	(63)
		<u>(2,355)</u>	<u>(2,596)</u>
Gwariant Net		27,118	26,253
Cost Cyllid Pensiwn (Gwarged) ar Waredu Eiddo, Peiriannau ac Offer Llog Derbyniadwy	8	316 (13) (2)	662 (4) (2)
		<u>301</u>	<u>656</u>
Gwariant Net ar ôl llog a chyn trethiant		27,419	26,909
Trethiant Taladwy		-	-
Gwariant Net ar ôl Trethiant		<u>27,419</u>	<u>26,909</u>
Gwariant Cynhwysfawr Arall			
(Enillion)/colledion net ar ailbrisió Eiddo, Peiriannau ac Offer		36	(1,110)
Pensiwn colledion/(enillion) actwaraidd		1,471	(6,884)
Cyfanswm y Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben		<u>28,926</u>	<u>18,915</u>

GWEITHREDIADAU SY'N PARHAU

Ni sefydlwyd unrhyw weithgareddau newydd yn ystod y flwyddyn gyfredol na'r flwyddyn flaenorol, ac ni ddaethpwyd ag unrhyw weithgareddau i ben.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 30 i 56 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Roedd y Gwariant Net ar ôl Trethiant ar gyfer y flwyddyn ariannol ac y gellid ei briodoli i weithgareddau Chwaraeon Cymru yn £27,419,000 (2013/2014 £26,909,000).

DATGANIAD O SEFYLLFA ARIANNOL CYNGOR CHWARAEON CYMRU

AR 31 MAWRTH 2015

	Nodyn	Ar 31 Mawrth 2015 £000	Ar 31 Mawrth 2014 £000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, peiriannau ac offer	9(a)	356	259
Cyfanswm yr asedau anghyfredol		<u>356</u>	<u>259</u>
Asedau cyfredol			
Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill	10	2,036	3,313
Arian parod a chyfwerth ag arian parod		<u>1,209</u>	<u>1,097</u>
Cyfanswm yr asedau cyfredol		3,245	4,410
Cyfanswm yr asedau		<u>3,601</u>	<u>4,669</u>
Atebolrwydd cyfredol			
Masnach ac elfennau taladwy eraill	11	(639)	(463)
Croniadau grant	12	(26)	(21)
Darpariaeth – diswyddo cyflogeion	18	(67)	-
Cyfanswm yr atebolrwydd cyfredol		<u>(732)</u>	<u>(484)</u>
Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net		<u>2,869</u>	<u>4,185</u>
Atebolrwydd anghyfredol			
Masnach ac elfennau taladwy eraill dyledus mewn mwy na blwyddyn	11	(62)	-
Atebolrwydd Pensiwn	17	<u>(9,371)</u>	<u>(7,908)</u>
Cyfanswm yr atebolrwydd anghyfredol		<u>(9,433)</u>	<u>(7,908)</u>
Asedau llai atebolrwydd		<u>(6,564)</u>	<u>(3,723)</u>
Ecwiti trethdalwyr			
Cronfa gyffredinol		2,807	4,185
Cronfa bensiwn wrth gefn		<u>(9,371)</u>	<u>(7,908)</u>
Cronfa ailbrizio wrth gefn		-	-
		<u>(6,564)</u>	<u>(3,723)</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 30 i 56 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Pwyllgor Archwilio ar 26/06/2015 a chawsant eu llofnodi ar ei ran gan;

SWYDDOG CYFRIFO:

S Powell
(Prif Weithredwr)
29 Mehefin 2015

DATGANIAD CYFNERTHEDIG O SEFYLLFA ARIANNOL CYNGOR CHWARAEON CYMRU AC YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU AR 31 MAWRTH 2015

	Nodyn	Ar 31 Mawrth 2015 £000	Ar 31 Mawrth 2014 £000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, peiriannau ac offer	9(b)	19,206	19,192
Cyfanswm yr asedau anghyfredol		19,206	19,192
Asedau cyfredol			
Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill	10	2,036	3,313
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	14	1,214	1,101
Cyfanswm yr asedau cyfredol		3,250	4,414
Cyfanswm yr asedau		22,456	23,606
Atebolrwydd cyfredol			
Masnach ac elfennau taladwy eraill	11	(639)	(463)
Croniadau grant	12	(26)	(21)
Darpariaeth – diswyddo cyflogeion	18	(67)	-
Cyfanswm yr atebolrwydd cyfredol		(732)	(484)
Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net		21,724	23,122
Atebolrwydd anghyfredol			
Masnach ac elfennau taladwy eraill mewn mwy na blwyddyn	11	(62)	-
Atebolrwydd Pensiwn	17	(9,371)	(7,908)
Cyfanswm yr atebolrwydd anghyfredol		(9,433)	(7,908)
Asedau llai atebolrwydd		12,291	15,214
Ecwiti trethdalwyr			
Cronfa gyffredinol		13,538	14,530
Cronfa bensiwn wrth gefn		(9,371)	(7,908)
Cronfa ailbrizio wrth gefn		8,124	8,592
		12,291	15,214

Mae'r nodiadau ar dudalennau 30 i 56 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Pwyllgor Archwilio ar 26/06/2015 a chawsant eu llofnodi ar ei ran gan;

SWYDDOG CYFRIFO:

S Powell
(Prif Weithredwr)

DATGANIAD CYFNERTHEDIG O LIF ARIAN CYNGOR CHWARAEON CYMRU AC YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU
AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2015

Llif arian o weithgareddau gweithredu	Nodyn	2014/2015 £000	2013/2014 £000
Diffyg Net ar ôl llog		(27,419)	(26,909)
(Gwarged) ar waredu eiddo, peiriannau ac offer	8	(13)	(4)
Dibrisiant eiddo, peiriannau ac offer	9(b)	506	519
Gostyngiad mewn elfennau masnach derbyniadwy eraill	10	1,277	788
Cynnydd mewn masnach ac elfennau taladwy	11	238	82
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn croniadau grant	12	5	(6)
Llog a dderbyniwyd	13	(2)	(2)
Costau pensiwn	17	(8)	16
Cynnydd/(Gostyngiad) yn y ddarpariaeth ar gyfer diswyddiadau	18	67	(109)
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu		<u>(25,349)</u>	<u>(25,625)</u>
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau ac offer	13	(543)	(348)
Llog a dderbyniwyd	13	2	2
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		<u>(541)</u>	<u>(346)</u>
Llif arian o weithgareddau cyllido			
Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau cyllido		(25,890)	(25,971)
Llog a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru	13	26,003	26,413
Cynnydd Net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod		<u>113</u>	<u>442</u>
Cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y cyfnod			
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod		1,101	659
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod	14	1,214	1,101
		<u>113</u>	<u>442</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 30 i 56 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**DATGANIAD CYFNERTHEDIG O NEWIDIADAU I ECWITI
TRETHDALWYR AR GYFER CYNGOR CHWARAEON CYMRU AC
YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU AR GYFER
Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2015**

	Cronfa Ailbriso Wrth Gefn £000	Cronfa Gyffredinol £000	Cronfa Bensiwn Wrth Gefn £000	Cyfanswm £000
Balans ar 1 Ebrill 2014	8,592	14,530	(7,908)	15,214
Gwariant Net ar ôl llog a chyn treth	-	(27,419)	-	(27,419)
Cyllid a dderbyniwyd	-	26,003	-	26,003
Ailbriso asedau sefydlog diriaethol	(36)	-	-	(36)
Costau pensiwn	-	(8)	8	-
Trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol	(432)	432	-	-
Colled actwaraidd	-	-	(1,471)	(1,471)
Cyllid ar 31 Mawrth 2015	8,124	13,538	(9,371)	12,291

Y cyllid yng nghyfrifon anghyfnertedig Chwaraeon Cymru ei hun ar 31 Mawrth 2015 oedd (£6,564,000), (31 Mawrth 2014 (£3,723,000)), gyda £18,855,000 (2013/14 £18,937,000) yn cael ei briodoli i Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 30 i 56 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**DATGANIAD CYFNERTHEDIG O NEWIDIADAU I ECWITI
TRETHDALWYR AR GYFER CYNGOR CHWARAEON CYMRU AC
YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU AR GYFER
Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2014**

	Cronfa Ailbriso Wrth Gefn £000	Cronfa Gyffredinol £000	Cronfa Bensiwn Wrth Gefn £000	Cyfanswm £000
Balans ar 1 Ebrill 2013	7,905	14,587	(14,776)	7,716
Gwariant Net ar ôl llog a chyn treth	-	(26,909)	-	(26,909)
Cyllid a dderbyniwyd	-	26,413	-	26,413
Ailbriso asedau sefydlog diriaethol	1,110	-	-	1,110
Costau pensiwn	-	16	(16)	-
Trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol	(423)	423	-	-
Enillion actwaraidd	-	-	6,884	6,884
Cyllid ar 31 Mawrth 2014	8,592	14,530	(7,908)	15,214

Mae'r nodiadau ar dudalennau 30 i 56 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

CYNGOR CHWARAEON CYMRU AC YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU NODIADAU AR Y CYFRIFON AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2015

1. DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFO

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth 2012-13 (Llawlyfr seiliedig ar IFRS) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisiau cyfrifo yn y Llawlyfr yn defnyddio'r Safonau Cofnodion Ariannol Rhynglwadol, fel yr addaswyd neu a ddehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, mae'r polisi cyfrifo sydd fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Chwaraeon Cymru at bwrpas cyflwyno darlun cywir a theg wedi cael ei ddewis. Disgrifir y polisiau penodol sydd wedi'u mabwysiadu gan Chwaraeon Cymru isod. Mae'r rhain wedi cael eu defnyddio'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn sylfaenol i'r cyfrifon. Paratowyd cyfrifon Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar sail wahanol, i gadw at y Datganiad o Arfer a Argymhellir a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr yn 2005. Barn Chwaraeon Cymru am ddefnyddio sail wahanol yw nad yw unrhyw wahaniaethau'n debygol o fod yn rhai sylfaenol.

1.1 Sail y cyfrifo

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gyfrif am ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer.

1.2 Cyllid

Mae Chwaraeon Cymru yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyllido'i wariant cyfalaf a refeniw sy'n ychwanegol at ei incwm. Credydir y cyllid yn uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol. Hefyd, mae Chwaraeon Cymru yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i weithredu Cynllun Gweithredu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ysgolion a Gweithgarwch Corfforol, a gredydir hefyd yn uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol. Mae'r incwm gweithredu arall yn cynnwys incwm o ffioedd, nawdd a rhai gweithgareddau masnachu a gyfyd.

Mae Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru, corff elusennol sy'n eiddo i Chwaraeon Cymru yn llwyr, yn derbyn grantiau gan Chwaraeon Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf ar eiddo, peiriannau ac offer perthnasol i dir ac adeiladau.

Hefyd, mae gan yr Ymddiriedolaeth offer a cherbydau a brynwyd cyn mis Ebrill 2006. Ers mis Ebrill 2006, dim ond yng nghyfrifon Chwaraeon Cymru mae'r gwariant cyfalaf ar offer a cherbydau wedi'i gynnwys. Mae'r elw wrth i'r Ymddiriedolaeth werthu eiddo, peiriannau ac offer yn cael ei ildio i Chwaraeon Cymru.

1.3 Eiddo, Peiriannau ac Offer

Mae tir rhydd-ddaliadaeth wedi'i gynnwys yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol ar sail gwerth y farchnad agored, a'r adeiladau ar gost cyfnewid wedi dibrisio, i adlewyrchu natur arbenigol yr adeiladau. Sicrheir prisiad proffesiynol bob blwyddyn. Nid yw'r tir prydles o dan y brydles weithredu wedi'i gynnwys yn natganiad o sefyllfa ariannol Chwaraeon Cymru.

Mae offer a cherbydau'n gynnwysedig yn y datganiad o sefyllfa ariannol ar sail cost hanesyddol llai darpariaeth ar gyfer dibrisiant. Ym marn Chwaraeon Cymru, nid oes unrhyw wahaniaeth sylfaenol rhwng gwerthoedd llyfr net cost hanesyddol a chyfredol yr asedau hyn. Y trothwy ar gyfer cyfalafu asedau yw £5,000 ar gyfer Chwaraeon Cymru a £5,000 ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

1.4 Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth ar yr holl eiddo, peiriannau ac offer, gan ystyried amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol a'r gwerthoedd gweddillol a ragdybir. Mae oes yr ased at y pwrpas hwn fel a ganlyn ar gyfartaledd:

Eiddo rhydd-ddaliadaeth	35 mlynedd
Eiddo prydles	35-50 mlynedd
Offer - cyfrifiaduron	3 blynedd
Arall	3 - 10 mlynedd
Cerbydau	5 mlynedd

Polisi Chwaraeon Cymru yw dibrisio asedau o'r mis ar ôl eu prynu.

1.5 Stocrestri

Mae gan Chwaraeon Cymru stocrestr ar gyfer dyrannu fel rhan o'i weithgareddau grant ac adlewyrchwyd y costau cysylltiedig yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae ganddo stocrestr ar gyfer ailwerthu, nad ystyrir yn sylfaenol. Nid yw'r stocrestr ar gyfer ailwerthu wedi cael ei chydnabod fel ased yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol: mae costau'r asedau hyn wedi cael eu cydnabod fel Gwariant Arall yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

1.6 Pensiynau

Neilltuir y cyfraniadau i gynlluniau pensiwn Chwaraeon Cymru i'r Cyfrif Gwariant Net er mwyn lledaenu cost pensiynau dros oes waith y cyflogeion gyda Chwaraeon Cymru. Yn unol ag IAS 19, cyfrifir y ffi i'r Cyfrif Gwariant Net ar sail costau gwasanaeth a chyllid pensiwn a gyfrifir gan yr actwari. Adlewyrchir cyfran Chwaraeon Cymru o asedau ac atebolrwydd y gronfa bensiwn fel atebolrwydd pensiwn net yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Rhennir unrhyw asedau neu atebolrwydd pensiwn rhwng Chwaraeon Cymru a'r Loteri ar sail y gyfradd neilltuo hanesyddol o gostau staff, yn unol â'r amser mae'r staff yn ei dreulio'n rhoi gweithgareddau'r Loteri ar waith.

1.7 Trethiant

Codir Treth Ar Werth anadferadwy ar gyfrifon Chwaraeon Cymru mewn perthynas â gwariant trethadwy ar weithgareddau anfasnachol. Cyfrifir Treth Gorfforaeth y DU ar gyfradd o 20% (20% 2014) o'r llog sy'n cronni ar incwm buddsoddi Chwaraeon Cymru, ond nid ar log yr Ymddiriedolaeth.

1.8 Grantiau taladwy

Gellir rhoi cymorth ariannol ar ffurf grantiau i hyrwyddo amcanion Chwaraeon Cymru. Cynigir grantiau ar y sail o lunio ymrwymiad ariannol yn seiliedig ar gyfnod y prosiect. Yn aml iawn, nid yw'r cyfnodau hyn yn cyd-fynd â chyfnod cyfrifo Chwaraeon Cymru. Cyfrifir am yr holl wariant grant ar sail dyddiad dechrau a dyddiad gorffen y prosiect a chymerir yn ganiataol bod y gwariant yn cael ei wneud yn gytbwys yn ystod oes y prosiect. Ceir rhagor o wybodaeth yn nodyn 1.10, Defnyddio amcangyfrifon a phenderfyniadau.

1.9 Cyfuno

Mae cyfrifon Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru, corff elusennol sy'n eiddo i Chwaraeon Cymru yn llwyr, wedi cael eu cyfuno yn y cyfrifon hyn. Adroddir ar weithgareddau Dosbarthu'r Loteri Chwaraeon Cymru o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993, fel y'i diwygiwyd, mewn cyfrif ar wahân nad oes raid ei gyfuno â'r cyfrifon hyn.

1.10 Defnyddio amcangyfrifon a phenderfyniadau

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn golygu bod rhaid i Chwaraeon Cymru wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y defnydd o bolisiau a'r symiau yr adroddir amdanynt. Adolygir amcangyfrifon a phenderfyniadau'n barhaus. Cydnabyddir y diwygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifo yn ystod y cyfnod pryd diwygir yr amcangyfrif ac mewn unrhyw gyfnod a effeithir yn y dyfodol.

Ceir gwybodaeth am feysydd amcangyfrif a phenderfyniadau allweddol arwyddocaol wrth ddefnyddio polisiau cyfrifo sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol yn y nodiadau canlynol hyn:-

Nodyn 6 – Mae costau'r staff yn cael eu neilltuo i'r Loteri yn unol â'r amser maent yn ei dreulio'n cyflawni gweithgareddau'r Loteri. Os yw'r staff yn cael eu datgan fel staff sy'n cael eu cyflogi 100% at bwrpas y Loteri, mae eu costau'n cael eu neilltuo'n llawn.

Nodyn 9(b) – Mae tir yn cael ei brisio yn unol â gwerth y farchnad ac adeiladau ar sail cost cyfnewid wedi dibrisio. Gwneir y prisiadau hyn gan briswyr allanol, yn unol â llawlyfr gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig. Gwneir nifer o ragdybiaethau allweddol yn ystod y broses hon.

Nodyn 12 – Cyfrifir cronladau a rhagdaliadau grant ar sail dyddiadau dechrau a gorffen y prosiect, fel y nodir yn nodyn 1.8.

Nodyn 17 – Mae'r mesur o gyfraniadau buddiannau pendant yn dibynnu ar ddewis rhagdybiaethau penodol sy'n cynnwys y gyfradd ostyngiad, y gyfradd chwyddiant, twf cyflog, cyfradd y cynnydd mewn pensiynau gohiriedig a'r adenillion disgwylidig ar asedau cynlluniau.

1.11 Offerynnau Ariannol

Gan fod gofynion ariannol Chwaraeon Cymru yn cael eu bodloni'n bennaf drwy Gymorth Grant a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl fwy cyfyngedig mewn creu a rheoli risg na fyddai'n berthnasol i gorff heb fod yn y sector cyhoeddus. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnydd disgwylidig Chwaraeon Cymru, ac felly nid yw Chwaraeon Cymru yn wynebu llawer o risg o ran credyd, hylifedd na marchnad.

1.12 Nam

Adolygir gwerth asedau Chwaraeon Cymru ar bob dyddiad adrodd yn ôl, i weld a oes unrhyw arwydd o nam. Os ceir arwydd o'r fath, amcangyfrifir swm adferadwy'r asedau. Swm adferadwy ased yw swm uchaf ei bris gwerthu net a'i werth mewn defnydd.

1.13 Darpariaethau – Diswyddo Cyflogeion

Gwneir darpariaeth i ddarparu ar gyfer atebolrwydd sy'n debygol o ddigwydd oherwydd digwyddiad neu benderfyniad a wneir yn ystod blwyddyn ariannol, ond bod ansicrwydd ynghylch y swm a/neu'r dyddiad pryd bydd yn codi. Dangosir newid i'r ddarpariaeth ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Pan fydd yr atebolrwydd gwirioneddol yn digwydd, mae'n cael ei roi yn erbyn y ddarpariaeth a wnaed yn flaenorol.

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi cymeradwyo ymarfer ailstrwythuro pellach ac, o ganlyniad, collir nifer o swyddi. Roedd y balans ar y ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2015 yn cydnabod amcangyfrif o'r gost o ddiswyddo yn ystod 2014/5 (ond a delir yn 2015/16). Roedd cynllun manwl yn ei le ar ddyddiad y datganiadau ariannol ac, yn gyson â Safon Gyfrifo Ryngwladol 19, Buddiannau Cyflogeion, mae darpariaeth wedi'i sefydlu ar gyfer y costau cysylltiedig ar 31 Mawrth 2015. Mae'r rhain wedi cael eu cyfrif yn unol â pholisi Chwaraeon Cymru, y manylir arno yn Llawlyfr y Staff. Ceir rhagor o wybodaeth yn Nodyn 18


Ni wnaed unrhyw ddarpariaethau ychwanegol yn ystod 2014/15.

2. DADANSODDI'R GWARIANT CYNHWYSFAWR NET

Mae IFRS 8 yn dweud ei bod yn ofynnol datgan segmentau gweithredu ar sail adroddiadau mewnol ar yr elfennau yn Chwaraeon Cymru a adolygir yn rheolaidd gan y Bwrdd er mwyn neilltuo adnoddau i'r segment ac asesu ei berfformiad.

Mae fformat blaenorol Chwaraeon Cymru wedi cael ei newid am ddadansoddiad manylach sy'n dangos y gwariant a ddyrennir mewn manylder.

		Cyfanswm 2014/2015 £000	Cyfanswm 2013/2014 £000
Y Canolfannau Cenedlaethol			
Refeniw	Nodyn 3	(2,317)	(2,505)
Gwariant Arall	Nodyn 7	1,718	1,475
Cyfraniad Gweithredu Net		<u>(599)</u>	<u>(1,030)</u>
Grantiau			
Incwm Grantiau Datblygu Chwaraeon	Nodyn 3	(27)	(28)
Gwariant Grant	Nodyn 5	19,456	19,359
Cost Gweithredu Net		<u>19,429</u>	<u>19,331</u>
Datblygu Chwaraeon a Chorfforaethol			
Incwm Arall	Nodyn 3	(11)	(63)
Gwariant Arall	Nodyn 7	2,604	2,329
Cost Gweithredu Net		<u>2,593</u>	<u>2,266</u>
Costau Staff	Nodyn 6	<u>5,189</u>	<u>5,167</u>
Gwariant Cynhwysfawr Net cyn Costau Eraill		<u>26,612</u>	<u>25,734</u>
Costau Eraill			
Eiddo, Peiriannau ac Offer a Phensiynau		2,314	(6,819)
Cost Gweithredu Net		<u>2,314</u>	<u>(6,819)</u>
Cyfanswm y Gwariant Net Cynhwysfawr		<u>28,926</u>	<u>18,915</u>

2. DADANSODDI'R GWARIANT CYNHWYSFAWR NET - PARHAD**3. INCWM**

	2014/2015 £000	2013/2014 £000
Incwm o weithgareddau:		
Grantiau Datblygu Chwaraeon:		
Arall	27	28
	<hr/> 27	<hr/> 28
Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol	2,317	2,505
	<hr/> 2,344	<hr/> 2,533
Incwm gweithredu arall:		
Adfer grantiau	-	35
Grant EMS	-	20
Incwm arall	11	8
	<hr/> 11	<hr/> 63
Cyfanswm yr Incwm	<hr/> 2,355	<hr/> 2,596

4. GRANTIAU DERBYNIADWY GAN Y LLYWODRAETH

	2014/2015 £000	£2013/2014 £000
Trosglwyddwyd i'r gronfa gyffredinol	<u>26,003</u>	<u>26,413</u>
5. GWARIANT GRANT		
	2014/2015 £000	2013/2014 £000
Perfformiad a Rhagoriaeth AGChY / RhLICy Rhanbarthau	8,096 1,658 <u>9,702</u> <u>19,456</u>	7,088 2,383 <u>9,888</u> <u>19,359</u>
Y Sector Cyhoeddus Y Sector Preifat	12,182 <u>7,274</u> <u>19,456</u>	12,224 <u>7,135</u> <u>19,359</u>
6. COSTAU STAFF		
(a)	2014/2015	2013/2014
Parhaol:	£000	£000
Cyflogau a Thâl	5,240	5,178
Darpariaeth ar gyfer diswyddiadau	67	-
Costau Nawdd Cymdeithasol	383	397
Costau Pensiwn eraill	1,439	1,946
Staff Asiantaeth a Chyfarwyddo	181	250
	<u>7,310</u>	<u>7,771</u>
Addasiadau IAS19	<u>(420)</u> 6,890	<u>(840)</u> 6,931
Llai: Neilltuwyd i SPORTLOT	<u>(1,701)</u> <u>5,189</u>	<u>(1,764)</u> <u>5,167</u>

Mae'r costau Pensiwn eraill yn cynnwys cyfraniad cyfandaliad o £500,000 tuag at yr atebolrwydd pensiwn net (2014/15 £1,075,000). O ganlyniad i'r newid i'r polisi cyfrifo a nodwyd uchod, neilltuir cyfraniad cyfandaliad o 77% i Chwaraeon Cymru a 23% i'r Loteri. Mae'r dyraniad yn rhan o'r llinell 'Neilltuwyd i SPORTLOT'.

Mae IAS19 Buddiannau Cyflogion yn datgan ei bod yn ofynnol i ffigur a gyfrifir yn actwaraidd (cost gwasanaeth cyfredol a gorffennol) gael ei nodi yn y Datganiad o Incwm

Net Cynhwysfawr. Ar gyfer 2014/15, y gost oedd £980,000 (gan gynnwys cost gwasanaeth yn y gorffennol) ac mae'n cymryd lle costau pensiwn y cyflogwr yn y Datganiad. Roedd cyfraniad y cyflogwr yn £1,400,000, felly roedd yr effaith net yn £(420,000) i gostau staff. Gan fod cost y gwasanaeth ar hyn o bryd yn nodyn syniadol, mae hwn yn cael ei newid yn ôl yn y Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr fel mai dim ond cost cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a dynnir o falans y Gronfa Gyffredinol.

(b) Roedd nifer y cyflogeion parhaol ar gyfartaledd (ac eithrio aelodau cyflogedig y Cyngor) yn ystod y flwyddyn, ar sail cyfwerth ag amser llawn, yn cynnwys y canlynol:

	2014/2015 Nifer	2013/2014 Nifer
Cyfanswm	150.3	148.9

Oherwydd natur eu rôl, nid oedd posib i ni ddarparu nifer y staff asiantaeth a chyfarwyddo ar sail cyfwerth ag amser llawn.

Polisi Treth ar gyfer y Rhai a Benodir Oddi ar y Gyflogres

Ar 31 Mawrth 2015, ceid 2 drefniant a oedd wedi bodoli am flwyddyn. Mae Chwaraeon Cymru'n fodlon bod sicrwydd wedi'i geisio i gadarnhau bod unigolion wedi gwneud trefniadau priodol i dalu treth. Nid oes yr un unigolyn yn aelod o'r Bwrdd nac yn uwch swyddog gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol.

(c) Cynlluniau iawndal – pecynnau ymadael

Band cost y pecyn ymadael	Nifer y diswyddiadau	
	2014-15	2013-14
< £10,000	0	0
£10,000 - £25,000	0	0
£25,000 - £50,000	1	1
£50,000 - £100,000	1	1
£100,000 - £150,000	0	0
Cyfanswm y pecynnau ymadael	2	2
Cyfanswm costau adnoddau (£)	98,000	109,000

Talwyd costau diswyddo ac ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Cyfrifir am y costau ymadael yn llawn yn y flwyddyn ymadael. Os yw

Chwaraeon Cymru wedi cytuno i ymddeoliad cynnar, telir y costau ychwanegol gan Chwaraeon Cymru ac nid cynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

(d) Hawliau Cyflog a Phensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am dâl a llog pensiwn Uwch Reolwyr Chwaraeon Cymru. Ceir manylion

am ddyddiadau dechrau/gadael yn y tabl Buddiannau Pensiwn ar dudalen 40.

Tâl (yn dibynnu ar archwiliad)

Enw	Teitl	% a Neilltuwyd i'r Loteri	Cyflog £000	Budd Pensiwn	Cyfanswm 000
		2014/15 (2013/14)	2014/15 (2013/14)	2014/15 (2013/14)	2014/15 (2013/14)
Yr Athro Laura McAllister	Cadeirydd	50% (50%)	35 – 40 (35 – 40)	- -	35 – 40 (35 – 40)
Mrs Adele Baumgardt	Is Gadeirydd	50% (50%)	10 – 15 (10 – 15)	- -	10 – 15 (10 – 15)
Ms Sarah Powell *	Prif Weithredwr	25% (25%)	85 – 90 (75 – 80)	67,588 (119,126)	155 - 160 (195 – 200)
Dr Huw Jones	Prif Weithredwr	0% (25%)	- (35 – 40)	- (0)	- (0 – 5)
Mr Roy Payne	Cyfarwyddwr Corfforaethol	0% (50%)	- (25 – 30)	- (7,840)	- (35 -40)
Mr Jonathan Davies	Cyfarwyddwr Corfforaethol	50% (50%)	55 – 60 (5 -10)	17,904 (2,497)	70 - 75 (10 – 15)
Mr Mark Frost***	Cyfarwyddwr Corfforaethol	25% (25%)	15 – 20 (55 – 60)	2,343 (14,120)	20 - 25 (70 – 75)
Ms Sian Thomas	Cyfarwyddwr Corfforaethol	0% (20%)	- (0 – 5)	- (0)	- (0 – 5)
Mr Graham Williams****	Cyfarwyddwr Corfforaethol	25% (25%)	50 – 55 (45 – 50)	36,265 -	85 – 90 -
Mr Peter Curran	Cyfarwyddwr Corfforaethol	25% (0%)	5 – 10 -	0 -	5 - 10 -
Mr Randal Hemingway	Cyfarwyddwr Corfforaethol	25% (25%)	25 – 30 (50 – 55)	8,933 (14,479)	35 - 40 (65 – 70)
Mr Alan Williams**	Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai	0% (0%)	55 – 60 (55 – 60)	0 (13,264)	55 - 60 (65 - 70)
Mr Malcolm Zapple	Rheolwr Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru	0% (0%)	55 – 60 (55 – 60)	10,147 (13,378)	65 - 70 (70 – 75)
Mr David Roberts	Aelod o'r Cyngor	0% (50%)	- (5 – 10)	- -	- (5 – 10)

Enw	Teitl	% a Neilltuwyd i'r Loteri	Cyflog £000	Budd Pensiwn	Cyfanswm 000
Mr Martin J Warren	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	- -	5 - 10 (5 - 10)
Yr Athro John Baylis	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	- -	5 - 10 (5 - 10)
Mr Richard Cuthbertson	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	0 - 5 (5 - 10)	- -	0 - 5 (5 - 10)
Mr Andrew Morgan	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	0 - 5 (5 - 10)	- -	0 - 5 (5 - 10)
Mr Simon Pirotte	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	- -	5 - 10 (5 - 10)
Mr Paul Thorburn	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	- -	5 - 10 (5 - 10)
Mr Alan Watkin	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	- -	5 - 10 (5 - 10)
Ms Johanna Lloyd	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	- -	5 - 10 (5 - 10)
Ms Janet Kingston	Aelod o'r Cyngor	0% (50%)	- (0 - 5)	- -	- (0 - 5)
Ms Julia Longville	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	- -	5 - 10 (5 - 10)
Mr Peter King	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	- -	5 - 10 (5 - 10)
Ms Amanda Bennett	Aelod o'r Cyngor	50% (0%)	0 - 5 -	- -	0 - 5 -
Ms Samar Wafa	Aelod o'r Cyngor	50% (0%)	0 - 5 -	- -	0 - 5 -
Mr Andrew Lycett	Aelod o'r Cyngor	50% (0%)	0 - 5 -	- -	0 - 5 -
Mr Richard Parks	Aelod o'r Cyngor	50% (0%)	0 - 5 -	- -	0 - 5 -

Mae unrhyw Ffigurau Budd Pensiwn negyddol a oedd yn codi yn 2013/2014 wedi cael eu hailddatgan yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

*Yn ystod 2013/2014, roedd Sarah Powell yn y swyddi canlynol:

Dyddiadau:	Teitl y Swydd:	Cyflog Cyfwerth Ag Amser Llawn
1af Ebrill – 4ydd Gorffennaf	Cyfarwyddwr Corfforaethol	£56,576
5ed Gorffennaf – 30ain Medi	Prif Weithredwr Dros Dro	£83,200
1af Hydref – 31ain Mawrth	Prif Weithredwr	£88,400

Mae'r Adroddiad Tâl yn datgan yn awr bod rhaid i Ffigur Cyfanswm Sengl ar gyfer Tâl gael ei ddangos. Mae'r tabl uchod yn debyg i'r un a ddefnyddid yn flaenorol ac mae'n dal i ddangos y cyflog a delir mewn bandiau. Caiff y ffigur budd pensiwn sy'n cyfrannu at y ffigur cyfanswm sengl ei gyfrif mewn ffordd newydd, fel a ganlyn:

(gwir gynnydd mewn pensiwn* x 20) + (gwir gynnydd mewn cyfandaliad*) – (cyfraniadau gan y cyflogai)

*ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd/gostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Nid yw'r ffigur budd pensiwn yn swm sydd wedi cael ei dalu i'r cyflogai gan Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae'n fudd yn y dyfodol i'r cyflogai a dylanwedir arno gan sawl ffactor gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, newidiadau mewn cyflog ac unrhyw gyfraniadau ychwanegol a wneir gan y cyflogai.

** Yn ystod 2014/2015 gwnaed taliad o £37,119 tuag at y straen ar y gronfa bensiwn o ganlyniad i ymddeoliad cynnar Alan Williams, Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Genedlaethol Plas Menai.

*** Yn ystod 2014/15 gwnaed taliad i Mark Frost a gymerodd ddiswyddiad gwirfoddol. Derbyniodd daliad iawndal o £50-55,000.

**** Yn ystod 2013/2014 cyflogwyd Graham Williams fel Rheolwr Rhanbarthol Chwaraeon Cymru ac fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro ar 1af Medi 2014.

Cymhareb Tâl Canolrifol

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd yn ôl ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl mwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad.

	2014 /15	2013 /14
Band Cyfanswm Tâl y Cyfarwyddwr sy'n cael y Tâl Mwyaf (£ '000)	90 – 95	85 – 90
Cyfanswm Tâl Canolrifol	25,750	25,750
Cymhareb	3.6	3.4

Cafodd y gymhareb ei chyfrif gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

1. Dim ond cyflogau'r staff a delir drwy'r gyflogres sydd wedi cael eu defnyddio (ac eithrio staff asiantaeth, gan nad ydynt yn sylfaenol),
2. Nid yw'r ffigurau wedi cael eu haddasu i adlewyrchu unrhyw gyfran i gyfrifon y Loteri h.y. mae'r costau'n adlewyrchu'r holl staff a gyflogir gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac a brosesir drwy'r gyflogres.

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog ond yn eithrio taliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

Roedd cynnydd yn y gymhareb ganolrifol o 0.2. Mae cyfanswm tâl y Prif Weithredwr wedi cynyddu £2,600 ac mae cyfanswm y tâl canolrifol wedi aros yn gymharol.

Buddiannau Pensiwn (yn dibynnu ar archwiliad)

Enw	Gwir gynnydd mewn Pensiwn (a chyfandaliad) yn 65 oed ar gyfer 2014/15	Cyfanswm y pensiwn wedi cronni yn 65 oed ar 31 Mawrth 2015	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2015	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2014	Gwir Gynnydd/ (Gostyngiad) Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn y Flwyddyn
	£000	£000	£000	£000	£000
Ms Sarah Powell Prif Weithredwr	2.5 – 5.0 (2.5 – 5.0)	20 – 25 (35 – 40)	263	215	39
Mr Randal Hemingway Cyfarwyddwr Corfforaethol (tan 08.10.2014)	0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	0 – 5 (0 – 5)	13	9	2
Mr Peter Curran Cyfarwyddwr Corfforaethol (o 05.01.2015)	0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	- -	- -	- -	- -
Mr Alan Williams Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai	0.0 – 2.5 (-0.0 – 2.5)	20 – 25 (45 – 50)	479	447	27
Mr Malcolm Zapple Rheolwr Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru	0.0 – 2.5 (-0.0 – 2.5)	20 – 25 (45 – 50)	393	369	19
Mr Mark Frost Cyfarwyddwr Corfforaethol (tan 20.08.2014)	0.0 – 2.5 (-0.0 – 2.5)	10 – 15 (20 – 25)	201	191	8
Mr Jonathan Davies Cyfarwyddwr Corfforaethol (o 27.01.2014)	0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	0 – 5 (0 – 5)	12	2	5
Mr Graham Williams Cyfarwyddwr Corfforaethol	0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	15 – 20 (30 – 35)	237	204	28

Nid yw'r rhai sydd wedi gadael yn ystod 2013/2014 wedi cael eu cynnwys yn y tabl uchod:

Siân Thomas - dyddiad gadael 10fed Mai 2013

Huw Jones – dyddiad gadael 30ain Medi 2013

Roy Payne – dyddiad gadael 10fed Ionawr 2014

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalaf buddiannau'r gronfa pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd yn actwaraidd. Y buddiannau a brisir yw'r buddiannau sydd wedi'u cronni gan yr aelodau ac unrhyw pensiwn wrth gefn i gymar sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'r Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan mae aelodau'n gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau sydd wedi cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddiannau sydd wedi cronni gan yr unigolyn o ganlyniad i aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch, y mae datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn Chwaraeon Cymru. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i brynu

buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod oddi mewn i'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Fframwaith Actwariau ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosib mewn buddiannau o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes Gyfan, a all fod yn ddyledus pan dynnir buddiannau pensiwn o'r cynllun.

Gwir Gynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn sydd wedi cronni oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredinol ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

7. GWARIANT ARALL

	2014/2015 £000	2013/2014 £000
Ffioedd Archwilydd - Gwasanaethau Archwilio	23	26
Ffioedd Archwilydd - Cyfrifon yr Ymddiriedolaeth	3	3
Costau teithio, cynhaliaeth a lletygarwch y canlynol:		
Aelodau	24	27
Staff y pencadlys	30	33
Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol	2	5
Datblygu Chwaraeon	110	120
Gwasanaethau cefnogi canolog	698	714
Marchnata a chyfathrebu	787	658
Ymchwil	824	622
Llog taladwy i Lywodraeth Cymru	2	2
Gwariant Arall:		
Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol	1,716	1,470
Datblygu Chwaraeon	102	127
Symudiad yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus	1	(3)
	4,322	3,804

8. GWAREDU EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

	2014/2015 £000	2013/2014 £000
Gwerth llyfr crynswth	149	724
Dibrisiant cronol	(143)	(722)
Gwerth llyfr net	6	2
Elw o werthu	19	6
Gwarged ar werthu'r ased	13	4

9. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

(a) Y Cyngor:	Offer £000	Cerbydau £000	TGCh £000	Cyfanswm £000
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2014	416	128	211	755
Ychwanegiadau	145	31	-	176
Gwaredu	(46)	(8)	-	(54)
Ar 31 Mawrth 2015	515	151	211	877
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2014	(232)	(79)	(185)	(496)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	(46)	(17)	(10)	(73)
Gwaredu	40	8	-	48
Ar 31 Mawrth 2015	(238)	(88)	(195)	(521)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2015	277	63	16	356
Gwerth Llyfr Net ar 1 Ebrill 2014	184	49	26	259

	Offer £000	Cerbydau £000	TGCh £000	Cyfanswm £000
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2013	409	122	255	786
Ychwanegiadau	49	14	12	75
Gwaredu	(42)	(8)	(56)	(106)
Ar 31 Mawrth 2014	416	128	211	755
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2015	(217)	(72)	(215)	(504)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	(55)	(15)	(26)	(96)
Gwaredu	40	8	56	104
Ar 31 Mawrth 2014	(232)	(79)	(185)	(496)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2014	184	49	26	259
Gwerth Llyfr Net ar 1 Ebrill 2013	192	50	40	282

(b) Cyfnerthedig:	Tir ac Adeiladau Rhydd- ddaliadaeth Plas Menai £000	Adeiladau Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru £000	Offer £000	Cerbydau £000	TGCh £000	Cyfanswm £000
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2013	5,185	12,775	1,795	150	334	20,239
Ychwanegiadau	49	228	49	16	12	354
Gwaredu	-	-	(593)	(8)	(123)	(724)
Ailbrisió	26	662	-	-	-	688
Ar 31 Mawrth 2014	5,260	13,665	1,251	158	223	20,557
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2013	-	-	(1,596)	(100)	(294)	(1,990)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	(145)	(277)	(55)	(15)	(27)	(519)
Gwaredu	-	-	591	8	123	722
Ailbrisió	145	277	-	-	-	422
Ar 31 Mawrth 2014	-	-	(1,060)	(107)	(198)	(1,365)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2014	5,260	13,665	191	51	25	19,192
Gwerth Llyfr Net ar 1 Ebrill 2013	5,185	12,775	199	50	40	18,249
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2014	5,260	13,665	1,251	158	223	20,557
Ychwanegiadau	41	345	145	31	-	562
Gwaredu	-	-	(121)	(27)	-	(148)
Ailbrisió	973	(1,441)	-	-	-	(468)
Ar 31 Mawrth 2015	6,274	12,569	1,275	162	223	20,503
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2014	-	-	(1,060)	(107)	(198)	(1,365)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	(174)	(258)	(46)	(18)	(10)	(506)
Gwaredu	-	-	115	27	-	142
Ailbrisió	174	258	-	-	-	432
Ar 31 Mawrth 2015	-	-	(991)	(98)	(208)	(1,297)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2015	6,274	12,569	284	64	15	19,206
Gwerth Llyfr Net ar 1 Ebrill 2014	5,260	13,665	191	51	25	19,192

Fel rhan o dir ac adeiladau Rhydd-ddaliadaeth Plas Menai, ceir tir a brisiwyd yn £175,000 (2013/14 £175,000). Cafodd y tir a'r adeiladau sy'n cael eu dal gan Ymddiriedolaeth CChC eu prisió'n annibynnol ar 31 Mawrth 2015 yn £18,843,000 gan Feistri Cooke ac Arkwright, Syrfewyr Siartredig, yn unol â llawlyfr gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'r prisiad hwn yn eithrio tir yn Athrofa Chwaraeon Cymru, sydd ar brydles. Mae taliadau prydles o

£3,071 y flwyddyn yn cael eu talu am Ganolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru. Mae pum deg tri o flynyddoedd yn weddill ar y brydles naw deg naw mlynedd bresennol, sy'n cyfateb i ymrwymiad cyffredinol o £162,763. Mae prisiad adeiladau Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru wedi gostwng oherwydd newid i'r dechneg amcangyfrif a ddefnyddir gan y Syrfewyr wrth benderfynu ar gost ailadeiladu'r adeilad.

**10. MASNACH AC ELFENNAU DERBYNIADWY
ERAILL (DYLEDUS O FEWN BLWYDDYN)**

	Ar 31 Mawrth 2015 £000	Ar 31 Mawrth 2014 £000
Masnach derbyniadwy	117	156
SPORTLOT	595	763
TAW	86	35
Rhagdaliadau ac incwm a gronnwyd	234	215
Rhagdaliad grant	941	2,080
Grant ad-daladwy	66	67
Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus	(3)	(3)
	<u>2,036</u>	<u>3,313</u>

	Ar 31 Mawrth 2015 £000	Ar 31 Mawrth 2014 £000
Balans rhyng-lywodraeth		
Balans gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog	681	798
Balans gydag awdurdodau lleol	538	380
	<u>1,219</u>	<u>1,178</u>
Balans gyda chyrff allanol i'r llywodraeth	817	2,135
	<u>2,036</u>	<u>3,313</u>

11. MASNACH TALADWY AC ATEBOLRWYDD ARALL

Y Cyngor a Chyfnertedig:	Ar 31 Mawrth 2015 £000	Ar 31 Mawrth 2014 £000
Masnach taladwy	64	10
Croniadau	398	201
Incwm gohiriedig	239	158
	<u>701</u>	<u>463</u>

	2014/2015 £000	2013/2014 £000
Symiau'n ddyledus yn ystod Blwyddyn Ariannol 2015/16	639	463
Symiau'n ddyledus yn ystod Blwyddyn Ariannol 2016/17	62	
Balans ar 31 Mawrth 2015	<u>701</u>	<u>463</u>

	Ar 31 Mawrth 2015 £000	Ar 31 Mawrth 2014 £000
Balans rhyng-lywodraeth		
Balans gyda chyrrff eraill y llywodraeth ganolog	114	-
Balans gydag awdurdodau lleol	<u>-</u>	<u>-</u>
	114	-
Balans gyda chyrrff allanol i'r llywodraeth	<u>587</u>	<u>463</u>
	<u>701</u>	<u>463</u>

12. CRONIADAU GRANT

Cyngor a Chyfnertedig:	Ar 31 Mawrth 2015 £000	Ar 31 Mawrth 2014 £000
Croniadau Grant	<u>26</u>	<u>21</u>

13. LLIF ARIAN CRYNSWTH

	2014/2015 £000	2013/2014 £000
Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi Llog a dderbyniwyd	<u>2</u>	<u>2</u>
Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol Taliadau i brynu eiddo, peiriannau ac offer	(562)	(354)
Derbyniadau o werthu eiddo, peiriannau ac offer	<u>19</u>	<u>6</u>
	(543)	(348)
Llif Arian o Weithgareddau Cyllido Cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (nodyn 4)	<u>26,003</u>	<u>26,413</u>

14. ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

	2014/2015 £000	2013/2014 £000
Balans ar 1 Ebrill	1,101	659
Newid net y balansau mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod	<u>113</u>	<u>442</u>
Balans ar 31 Mawrth	<u>1,214</u>	<u>1,101</u>
Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu cadw mewn: Banciau masnachol ac arian mewn llaw	1,214	1,101
Balans ar 31 Mawrth	<u>1,214</u>	<u>1,101</u>

15. YMRWYMIADAU CYFALAF YN Y CANOLFANNAU CHWARAEON CENEDLAETHOL

	31 Mawrth 2015 £000	31 Mawrth 2014 £000
Contractiwyd ond heb dalu	<u>59</u>	<u>-</u>

16. ATEBOLRWYDD WRTH GEFN

Nid oedd unrhyw atebolrwydd wrth gefn yn sefyll ar ddiwedd y flwyddyn.

17. BUDDIANNAU I GYFLOGEION

Mae'r datgeliadau pensiwn canlynol wedi cael eu paratoi yn unol ag IAS19 'Buddiannau cyflogeion'.

Mae cyflogeion Chwaraeon Cymru yn aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, sy'n rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r gronfa'n darparu buddiannau pendant sy'n seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol yr aelodau.

Mae'r data pensiwn yn y datgeliad hwn wedi cael eu darparu gan actwari annibynnol Chwaraeon Cymru, AON Hewitt. Mae'r prisiad IAS19 a ddarparwyd gan yr actwari ar gyfer Chwaraeon Cymru yn ei gyfanrwydd; ni chafwyd prisiadau ar wahân ar gyfer datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol y Loteri ac felly mae'r data isod yn cael eu datgelu fel data crynswth.

Mae diffyg y gronfa bensiwn a hefyd y cofnodion cysylltiedig sy'n effeithio ar y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr wedi cael eu dyrannu rhwng datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol y Loteri ar gymhareb sy'n seiliedig ar ddyrannu hanesyddol ar gostau staff i gyfrif y Loteri. Ar gyfer 2014/15, mae hwn yn 23% i Gyfrifon y Loteri a 77% i Gyfrifon Cyngor Chwaraeon Cymru.

Mae Chwaraeon Cymru wedi gwneud cyfanswm o £1,400,000 (2013/14 £1,930,000) o gyfraniad pensiwn yn 2014/15. Fe'i dadansoddir fel a ganlyn:

- Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr o £826,000 sy'n cynrychioli 20.2% o gyflog pensiynadwy (2013/14 £778,000 21.5%); a chyfraniadau uwch mewn perthynas â chost ymddeol yn gynnar £74,000 (2013/14 £77,000)
- Cyfraniad Cyfandaliad o £500,000 (23% wedi'i dalu gan y Loteri), (2013/14 £1,075,000 a 23% wedi'i dalu gan y Loteri)

Cyfradd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o 2014/15 ymlaen fydd 20.2%. Pennwyd y ganran hon o ganlyniad i'r prisiad bob tair blynedd diwethaf o'r cynllun, a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2013. Mae adroddiad yr actwari wedi cael ei baratoi yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd GN9 a gyhoeddwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actwariau, sy'n gyfredol ar y dyddiad prisio, i'r graddau ei fod yn berthnasol i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae Chwaraeon Cymru yn disgwyl cyfrannu £1,090,000 at y gronfa yn 2015/16. Yn ychwanegol, efallai y bydd angen cyfraniadau "straen ar gronfa" hefyd, yn ogystal â chyfraniad ychwanegol tuag at ddiffyg pensiwn o £460,000.

Yr atebolrwydd pensiwn net ar gyfer cyfrifon cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2015 yw £9,371,000 (2013/14 £7,908,000).

Prif Ragdybiaethau Ariannol

	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2013
Cyfradd Gostyngiad	3.2	4.3	4.6
Chwyddiant - CPI	1.8	2.4	2.8
Cyfradd y cynnydd i bensiynau mewn taliadau	1.8	2.4	2.8
Cyfradd y cynnydd i bensiynau gohiriedig	1.8	2.4	2.8
Cyfradd y cynnydd cyffredinol mewn cyflogau	1.8	3.4	4.7
Rhagdybiaethau marwoldeb:			
Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 65 oed ar y dyddiad cyfrifo)			
- Dynion	23.8	23.7	24.0
- Merched	26.7	26.6	26.8
Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 45 oed ar y dyddiad cyfrifo)			
- Dynion	25.8	25.7	25.7
- Merched	29.0	28.9	28.8

Mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio dull bloc adeiladu o weithio wrth benderfynu ar gyfradd yr adenillion ar asedau Cronfa. Astudir y marchnadoedd hanesyddol a chymerir yn ganiataol bod yr asedau mwyaf anwadal yn creu adenillion uwch, yn gyson ag egwyddorion marchnad

cyfalaf a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r gyfradd gyffredinol ddisgwyliedig o adenillion ar asedau'n deillio o gydgrynhoir gyfradd ddisgwyliedig o adenillion ar gyfer pob dosbarth o asedau dros ddyraniad gwirioneddol ar gyfer y Gronfa ar 31 Mawrth 2015.

Dadansoddiad o symudiadau'r gwarged (diffyg) yn ystod y flwyddyn

	31 Mawrth 2015 £M	31 Mawrth 2014 £M
Gwerth teg asedau'r gronfa	30.40	26.37
Gwerth presennol yr atebolrwydd	(42.57)	(36.64)
(Diffyg) yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	(12.17)	(10.27)

Dadansoddi'r swm perthnasol i Gostau Gweithredu

	31 Mawrth 2015 £M	31 Mawrth 2014 £M
Cost gwasanaeth cyfredol	30.40	26.37
Gwerth presennol yr atebolrwydd	(42.57)	(36.64)
(Diffyg) yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	(12.17)	(10.27)

Ailfesur symiau cydnabyddedig mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall

	31 Mawrth 2015 £M	31 Mawrth 2014 £M
Adenillion ar asedau cynllun mwy na'r hyn a gydnabyddir yn y llog net	(2.29)	(1.50)
Colledion/(enillion) actwaraidd oherwydd y newid i ragdybiaethau ariannol	4.43	(3.38)
Colledion/(enillion) actwaraidd oherwydd y newid i ragdybiaethau demograffig	0.00	(1.78)
(Enillion) actwaraidd oherwydd profiad atebolrwydd	(0.23)	(2.28)
Cyfanswm y swm cydnabyddedig mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall	1.91	(8.94)
Cyfanswm y swm cydnabyddedig	3.30	(6.99)

Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth buddiannau pendant yn ystod y cyfnod cyfrifo

	31 Mawrth 2015 £M	31 Mawrth 2014 £M
Rhwymedigaeth buddiannau pendant agoriadol	36.64	41.67
Cost gyfredol y gwasanaeth	0.90	1.09
Cost llog ar rwymedigaeth pensiwn pendant	1.56	1.90
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	0.29	0.27
(Enillion)/colledion actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau ariannol	4.43	(3.38)
(Enillion)/colledion actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau demograffig	0.00	(1.78)
(Enillion) actwaraidd ar atebolrwydd - profiad	(0.23)	(2.28)
Buddiannau net a dalwyd	(1.10)	(0.85)
Cost y gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiad)	0.08	0.00
Rhwymedigaeth buddiannau pendant wrth gloi	42.57	36.64

Newidiadau i werth teg yr asedau yn ystod y flwyddyn

	31 Mawrth 2015 £M	31 Mawrth 2014 £M
Gwerth teg agoriadol yr asedau	26.37	22.48
Incwm llog ar asedau	1.15	1.04
Ailfesur enillion ar asedau	2.29	1.50
Cyfraniadau gan y cyflogwr	1.40	1.93
Cyfraniadau gan y cyfranogwyr	0.29	0.27
Buddiannau net a dalwyd	(1.10)	(0.85)
Gwerth teg yr asedau wrth gloi	30.40	26.37

Adenillion gwirioneddol ar asedau

	31 Mawrth 2015 £M	31 Mawrth 2014 £M
Adenillion disgwylidig ar asedau	1.15	1.04
Enillion actwaraidd ar asedau	2.29	1.50
Adenillion gwirioneddol ar asedau	3.44	2.54

Hanes gwerthoedd yr asedau, gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau pendant a diffyg

	31 Mawrth 2015 £M	31 Mawrth 2014 £M	31 Mawrth 2013 £M	31 Mawrth 2012 £M	31 Mawrth 2011 £M
Gwerth teg yr asedau	30.40	26.37	22.48	19.22	18.32
Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau pendant	(42.57)	(36.64)	(41.67)	(36.41)	(31.32)
(Diffyg)	(12.17)	(10.27)	(19.19)	(17.19)	(13.00)

18. DARPARIAETH – DISWYDDIADAU CYFLOGEION A BAICH PENSIWN

	Diswyddiadau cyflogeion £000	Cyfanswm £000
Balans ar 1 Ebrill 2014	0	0
Symudiad yn y ddarpariaeth	67	67
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	-	-
Balans ar 31 Mawrth 2015	<u>67</u>	<u>67</u>

Dadansoddiad o amseriad disgwylidig y llif arian

	Diswyddiadau cyflogeion a baich pensiwn £000	Cyfanswm £000
Dim hwyrach na blwyddyn	67	67
Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	0	0
Hwyrach na phum mlynedd	0	0
Balans ar 31 Mawrth 2015	<u>67</u>	<u>67</u>

Diswyddiadau Cyflogeion a Baich Pensiwn

Ym mis Mawrth 2014/15 mae'r ddarpariaeth sydd wedi'i rhoi i'r naill ochr ar gyfer diswyddo cyflogeion. Ni wnaed unrhyw ddarpariaethau ychwanegol yn ystod 2014/15.

19. TRAFODION PARTI CYSYLLTIEDIG

Mae Chwaraeon Cymru yn Gorff Cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru fel parti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd Chwaraeon Cymru gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Mae swyddogaeth dosbarthu'r Loteri Chwaraeon Cymru yn cael ei hystyried fel parti cysylltiedig hefyd. Yn ystod y flwyddyn, bu trafodion ariannol sylweddol rhwng Chwaraeon Cymru a'r sefydliadau y mae'r aelodau bwrdd a'r uwch reolwyr canlynol wedi datgan diddordeb ynddynt.

Mae'r golofn taliadau'n cynnwys yr holl daliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymrwymadau cyfredol, ymrwymadau a dalwyd ymlaen llaw a gwariant heb fod yn grantiau. Mae'r golofn derfynol ar gyfer taliadau grant a ymrwymwyd ond sydd heb eu gwneud eto (nid yw'n cynnwys unrhyw symiau heb fod yn grantiau).

Panel Aelodau	Corff	Taliadau yn ystod y Flwyddyn £000	Natur y cyswllt	Taliad Grant a Ymrwymwyd
A Williams Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai	Cymdeithas Hwyllo Cymru	126	Aelod a merched yn hyfforddi/un yn ffisiotherapydd	-
	Y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol (RYA)	14	Aelod a merched yn hyfforddi/un yn ffisiotherapydd	-
	Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon	4	Aelod o'r Grŵp Cyngori	-
	Sports Coach UK	25	Aelod	-
	Cymdeithas Ganŵio Cymru	134	Aelod	-
	Funky Starfish	1	Gwraig a Merch yn rhedeg busnes	-
M Frost Cyfarwyddwr Corfforaethol	Clwb Criced Morgannwg	10	Aelod	-
	Cyngor Sir Caerdydd	819	Gwraig yn Gyflogai	-
S Powell Prif Weithredwr	Undeb Hoci Cymru	443	Aelod	-

Panel Aelodau	Corff	Taliadau yn ystod y Flwyddyn £000	Natur y cyswllt	Taliad Grant a Ymrwymwyd
J Lloyd Aelod o'r Cyngor	Cymdeithas Bêl Rwyd Cymru	270	Mam yn Gyflogai	-
	CBS Rhondda Cynon Taf	1,460	Chwaer yn Gyflogai	-
	Undeb Badminton Cymru	112	Chwaer yn darparu hyfforddiant	-
	Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	37	Tad yn Gyflogai	-
	Undeb Rygbi Cymru Cyf.	925	Tad yn Swyddog Gemau i Undeb Rygbi Cymru	-
	Prifysgol De Cymru	2	Aelod o'r Bwrdd Ymgynghorol	-
J Longville Aelod o'r Cyngor	Cyngor Sir Penfro	573	Ymgynghorydd gyda Chonsortia AG a Chwaraeon Ysgol y Gorllewin	-
	Cyngor Sir Powys	489	Fel uchod	-
	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd a Phort Talbot	448	Fel uchod	-
	Dinas a Sir Abertawe	629	Fel uchod	-
	Cyngor Sir Ceredigion	273	Fel uchod	-
	Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	37	Uwch Ddarlithydd	-
	Cymdeithas Bêl Rwyd Cymru	270	Aelod	-
	Gymnasteg Cymru	455	Mentor	-
	Athletau Cymru	518	Mab yn athletwr gydag Athletau Cymru	-

Panel Aelodau	Corff	Taliadau yn ystod y Flwyddyn £000	Natur y cyswllt	Taliad Grant a Ymrwymwyd
P King Aelod o'r Cyngor	Y Gynghair Chwaraeon a Hamdden	420	Cyfarwyddwr	-
Yr Athro L McAllister Cadeirydd	Pêl Droed yn y Gymuned	75	Aelod Bwrdd	-
	Cymdeithas Bêl Droed Cymru	1	Aelod Bwrdd	-
	Y Sefydliad Materion Cymreig	2	Aelod Bwrdd	-
	Cyngor Chwaraeon y DU Stonewall Equality Ltd	3	Aelod Bwrdd	-
M J Warren Aelod o'r Cyngor	Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	37	Cyfarwyddwr Cyllid (tan 2013)	-
Yr Athro J Baylis Aelod o'r Cyngor	Prifysgol Cymru, Abertawe	66	Athro Emeritws	-
	Prifysgol Caerdydd	1	Merch yn Gyflogai	-
S Pirotte Aelod o'r Cyngor	Colegau Cymru	4	Aelod Bwrdd	-
A Watkin Aelod o'r Cyngor	Undeb Hoci Cymru	443	Cadeirydd	-
R Parks Aelod o'r Cyngor	Prifysgol De Cymru	2	Darlithydd Anrhydeddus	-
S Wafa Aelod o'r Cyngor	Cyngor Sir Caerdydd	819	Cyn Hyfforddwr a Theulu'n Gyflogai	-
A Bennett Aelod o'r Cyngor	Y Gynghair Chwaraeon a Hamdden	420	Cynghorydd Llywodraethu	-

Tâl yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Cyngor

Ystyrir yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Cyngor fel Cyfarwyddwyr a datgelir eu tâl yn Nodyn 6 (d) ar dudalennau 37 i 38.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifo a'r Bwrdd yw cynnal a chadw gwefan Chwaraeon Cymru a gwarchod ei hintegriti. Nid yw gwaith yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn

20. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD YN ÔL

Awdurdodwyd y cyfrifon hyn ar gyfer eu cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifo ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Nid oedd unrhyw ddiwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yn ôl.

unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd o bosib i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno i ddechrau ar y wefan.

CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI CYNGOR CHWARAEON CYMRU

1 EBRILL 2014 – 31 MAWRTH 2015

ADRODDIAD BLYNYDDOL

RHAGAIR

Hanes a Chefnidir Statudol

Enwebodd Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd) Gyngor Chwaraeon Cymru fel y corff cyfrifol am ddsbarthu'r cyllid a gynhyrchir gan y loteri i chwaraeon yng Nghymru. Mae dyletswyddau Chwaraeon Cymru wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau Loteri'n cael eu gweithredu yn unol â'r cyfarwyddiadau cyfrifo a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn unol ag Adran 26(1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a'r Datganiad o Ofynion Ariannol a gyhoeddwyd o dan Adran 26(3) o'r Ddeddf.

RHEOLAETH

Rheolir a gweinyddir swyddogaeth y Loteri drwy Gyngor Chwaraeon Cymru (sy'n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnachu, Chwaraeon Cymru) a'r panelau a sefydlwyd gan Chwaraeon Cymru er mwyn helpu gyda dosbarthu cyllid y Loteri i achosion da yng Nghymru.

Yn ystod 2014/15, roedd Chwaraeon Cymru yn cynnwys yr aelodau bwrdd canlynol:

Yr Athro L McAllister *	(Cadeirydd Ailbenodwyd 01.02.2013)
Mrs Adele Baumgardt	(Is Gadeirydd Penodwyd 01.09.2012)
Yr Athro John Baylis*	(Ailbenodwyd 01.04.2015)
Mr Simon Pirotte	(Ailbenodwyd 01.04.2015)
Mr Andrew Morgan	(Ymddeolodd 31.08.2014)
Mr Richard Cuthbertson *	(Ymddeolodd 30.11.2014)
Mr Martin J Warren */**	(Ymddeolodd 31.03.2015)
Mr Paul Thorburn	(Ymddeolodd 31.03.2015)
Mr Alan Watkin*	(Ymddeolodd 31.03.2015)
Ms Julia Longville	(Penodwyd 01.09.2012)
Ms Johanna Lloyd	(Penodwyd 01.09.2012)
Mr Peter King	(Penodwyd 01.09.2012)
Amanda Bennett*	(Penodwyd 01.09.2014)
Andrew Lycett*	(Penodwyd 01.09.2014)
Richard Parks	(Penodwyd 01.09.2014)
Samar Wafa	(Penodwyd 01.09.2014)
Ms S Powell	(Prif Weithredwr)

* Aelod o'r Pwyllgor Archwilio

** Aelod o'r Pwyllgor Tâl

SWYDDFA GOFRESTREDIG

Gerddi Sophia
Caerdydd
Cymru
CF11 9SW

ADRODDIAD STRATEGOL 2014/15

Mae ein pwrpas fel asiantaeth datblygu chwaraeon ac eirioli yng Nghymru yn ddeublyg: ysbrydoli mwy o bobl i fod ac i barhau i fod yn egniol am oes; a rhoi hwb i berfformiad ein hathletwyr, ein timau a'n hyfforddwyr elitaidd. Mae hyn wedi'i gynnwys yn ein dyhead ar gyfer 'Creu Cenedl o Bencampwyr' a 'Phob plentyn wedi gwirioni ar chwaraeon am oes'.

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn cyflawni'r amcanion hyn ac mae ganddo rôl mewn dod â phartneriaid a phobl at ei gilydd; awdurdodau lleol, cyrff rheoli chwaraeon, cymunedau, hyfforddwyr, oedolion, pobl ifanc, plant a'r genedl gyfan er mwyn cefnogi, cymryd rhan a rhagori mewn chwaraeon. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio tuag at sicrhau cydraddoldeb yn ein holl swyddogaethau, gan groesawu ysbryd o ddeddfwriaeth cydraddoldeb a dileu unrhyw ffurf ar wahaniaethu annheg.

CYLLID Y LOTERI AC YCHWANEGOLRWYDD

Mae'n ofynnol i holl ddosbarthwyr y Loteri adrodd ar eu polisiau a'u harferion.

Mae cyllid y Loteri'n wahanol i gyllid y Llywodraeth ac ni ddylai gymryd lle gwariant y Trysorlys. Os yw hynny'n briodol, gall ategu cyllid, rhaglenni a pholisiau'r Llywodraeth a chyllid, rhaglenni a pholisiau eraill.

Wrth i ni asesu ceisiadau am arian, rydym yn sicrhau bod ychwanegolrwydd yn cael ei ystyried. Rydym yn gweithio'n agos â sefydliadau blaengar er mwyn sicrhau bod ein rhaglenni cyllido'n ychwanegu gwerth at gyllid y Llywodraeth a chyllid arall, ond heb gymryd ei le.

Adolygu Gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Yn ystod 2014/15, dosbarthodd Chwaraeon Cymru ddyfarniadau o dan nifer o raglenni grant a gyllidir gan y Loteri.

Grantiau Cyfalaf

Cynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan a gwella perfformiadau mewn chwaraeon a hamdden gorfforol yw prif nod y gronfa yn ei gweithgareddau. Cyflwynodd Chwaraeon Cymru ei gynlluniau ar gyfer dosbarthu arian y loteri i brosiectau cyfalaf fis Medi 1994. Defnyddir proses ymgeisio dau gam ar gyfer pob cais cyfalaf. Mae cam cyntaf y cais yn galluogi i'r ffocws gwreiddiol fod ar y manteision ychwanegol i chwaraeon ac ar yr amcanion, y nodau a'r rheolaeth arfaethedig sy'n berthnasol i'r prosiect. Mae'r ymgeiswyr yn ceisio cymeradwyaeth dros dro i'w cynllun cyn buddsoddi fel y bo angen er mwyn cyflwyno'r cais llawn, sef ail gam y broses.

Dyfarwyd cyfanswm o £3,756,000 (2013/14 £4,811,000) o grantiau cyfalaf yn ystod y flwyddyn. Bu gostyngiad yn y swm a ddarperir yn y cyfrifon ar gyfer cytundebau wedi'u harwyddo parthed grantiau cyfalaf o £914,000 yn ystod 2014/15 (2013/14 cynnydd wedi'i ailddatgan o £525,000).

Grantiau Refeniw

Roedd cyfanswm y taliadau grantiau refeniw a wnaed yn ystod y flwyddyn yn £8,658,000 (2013/14 £8,719,000). Bu gostyngiad yn y swm a ddarperir yn y cyfrifon ar gyfer cytundebau wedi'u harwyddo parthed grantiau refeniw o £701,000 yn 2014/15 (2013/14 gostyngiad wedi'i ailddatgan o £3,171,000).

SYMUDIADAU YM MALANS Y LOTERI HYD AT 31 MAWRTH 2015

Mae'r tabl canlynol yn dangos y symudiadau ar bob balans sy'n cael ei ddal yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn ystod y flwyddyn:

Balans ar 1 Ebrill 2014	Colled Heb ei Gwireddu	Incwm a Dderbyniwyd (Net)	Arian o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	Balans ar 31 Mawrth 2015
(£000)	(£000)	(£000)	(£000)	(£000)
16,098	-	17,637	(14,350)	19,385

Mae'r tabl yn dangos cynnydd yn y balans sy'n cael ei ddal o £3.287 miliwn, o gymharu â chynnydd o £0.511 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

Mae datganiad y sefyllfa ariannol ar gyfer 2014/15 yn dangos ffigur o £15,670,000 (2013/14 ailddatganwyd £11,255,000) ar gyfer cyfanswm yr asedau net.

CANLYNIADAU ARIANNOL

Cyflwynir canlyniadau Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr. Roedd cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dod i £4,415,000 (cyfanswm o £4,073,000 o incwm cynhwysfawr wedi'i ailddatgan yn 2013/14). Trosglwyddwyd y swm yma i'r cronfeydd cadw.

Mae'r tabl isod yn dangos data o rai o'n data allbwn allweddol.

Dangosyddion Perfformiad 2014-2015

	Allbwn 2014/15	Allbwn 2013/14
Nifer yr athletwyr sy'n symud ar hyd llwybr Chwaraeon Cymru ac ar lwybr athletwyr y DU	20	26
Cyfran yr Athletwyr o Gymru ar lwybr athletwyr y DU	6.5	6.00
Nifer yr aelodau o'r clybiau sy'n perthyn i Gyrrff Rheoli Cenedlaethol a gefnogir gan Chwaraeon Cymru	591,523	555,745
Nifer yr oriau o ddefnydd gan Gyrrff Rheoli Cenedlaethol yn y Ganolfan Genedlaethol	27,651	28,186

ADOLYGU'R FLWYDDYN

Does dim amheuaeth bod 2014 wedi bod yn flwyddyn wych i chwaraeon yng Nghymru. Dyma'r flwyddyn pryd cafwyd stori fwyaf Cymru am lwyddiant mewn chwaraeon. Blwyddyn o dorri recordiau ac o gasglu mwy o fedalau nag erioed o'r blaen, ac o edrych ar lwyddiant fel norm yn hytrach nag eithriad.

Dychwelodd Tîm Cymru o Glasgow gyda 36 o fedalau, mwy nag erioed o'r blaen, a sicrhodd athletwyr fel Frankie Jones, Jazz Carlin, Natalie Powell a Geraint Thomas bod Cymru'n disgleirio ar lwyfan y byd. Cyflawnodd nifer o athletwyr eu gorau personol neu buont yn cystadlu mewn gemau mawr am y tro cyntaf, gan greu atgofion am chwaraeon a fydd yn aros yn y cof am hir iawn. Coronwyd y tîm yn Dîm y Flwyddyn yng Ngwobrau Chwaraeon Blynyddol Cymru i goroni blwyddyn ryfeddol i Dîm Cymru.

Ar ôl Glasgow, cynhaliwyd adolygiad llawn o'n rhaglen chwaraeon elitaidd a bydd adolygiad wedi'i ddiweddarau o chwaraeon elitaidd yn cael ei gyhoeddi'n fuan, gan sicrhau ein bod yn camu ymlaen ar lwyfan y byd.

Roedd ein Harolwg ar Oedolion Egniol yn tynnu sylw at y grwpiau sy'n llai tebygol o gymryd rhan yn rheolaidd. Yn 2014, dechreuwyd mynd i'r afael â'r bylchau ystyfnig mewn cyfranogiad rydym yn eu gweld ymhlith merched a genethod, y rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, y rhai sy'n byw ag anabledd a'r rhai sy'n byw mewn tldi. Cyhoeddwyd ein menter Galw Am Weithredu, buddsoddiad o £3m mewn lleihau'r bylchau mewn cymryd rhan rydym yn eu gweld mewn chwaraeon. Cawsom 145 o geisiadau a chyhoeddwyd enwau'r prosiectau llwyddiannus ym mis Mawrth 2015.

Ein gweledigaeth ni o hyd yw cael pob plentyn i wirioni ar chwaraeon am oes a nawr mae gennym bartneriaethau i gefnogi hyn, a phwrpas cyffredin i'w gyflawni.

Cynlluniau ar gyfer Cyfnodau yn y Dyfodol

Rydym wedi pennu ein gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn ein cynllun busnes, sydd ar ein gwefan*. Am y tro cyntaf, rydym wedi pennu sut mae nod oddi mewn i'r flwyddyn yn cyfrannu at elfen ehangach i'w chyflawni, neu elfen am sawl blwyddyn.

Bydd sefydlu cynllun strategol pum mlynedd newydd ar gyfer 2015-20 yn elfen ganolog i bennu cyfeiriad cyffredinol Chwaraeon Cymru yn y dyfodol a darparu mwy o eglurder a ffocws ar gyfer cyflawni a chanlyniadau. Seilir y strategaeth ar bedair elfen allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i weithredu mewn ffordd gadarn, effeithlon, cynaliadwy a llwyddiannus yn yr amgylchedd heriol rydym yn ei wynebu nawr. Y nod strategol yw sbarduno cyflawni i lefel uwch fyth a chreu newid mawr llwyddiannus a gydnabyddir yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Ar adeg o gyfyngiadau ariannol ar y sector cyhoeddus, mae gan Chwaraeon Cymru gyfrifoldeb i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer twf, a gweithredu'n gyflym ac yn bendant er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer sector chwaraeon llwyddiannus.

Yn ystod cyfnod ein Cynllun Corfforaethol, sef 2013-2016, mesurir y canlyniadau allweddol canlynol:

- Canran y bobl ifanc ym mlynnyddoedd ysgol 3-11 sy'n cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos mewn sefyllfa allgyrsiol a/neu glwb;
- Canran y bobl ifanc ym mlynnyddoedd ysgol 3-11 sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon mewn clwb;
- Canran yr oedolion ifanc 16-24 oed sy'n cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos ar gyfartaledd yn ystod y pedair wythnos blaenorol;
- Canran yr oedolion 15+ oed a wirfoddolodd yn ystod y 12 mis diwethaf;

Gellir adrodd yn ôl ar fesurau canlyniadau poblogaeth bob dwy flynedd.

*www.sportwales.org.uk/media/1481695/sport_wales_business_plan_2014-15.pdf

CYNALIADWYEDD

Mae Chwaraeon Cymru'n mynd ati i sefydlu polisiau a mentrau sy'n ceisio lleihau effaith ei weithrediadau ar yr amgylchedd. Y llynedd, ystyriodd y bwrdd a'r uwch dîm rheoli gamau gweithredu ychwanegol y gallai Chwaraeon Cymru eu rhoi ar waith er mwyn lliniaru mwy ar effaith ei waith ar yr amgylchedd. Arweiniodd hyn at Strategaeth Amgylcheddol Gorfforaethol, a gymeradwywyd gan y bwrdd. Yn ychwanegol at y camau arwyddocaol sydd wedi'u cymryd, gosododd Chwaraeon Cymru nod iddo'i hun o ragori ar dargedau Llywodraeth Cymru. Y prif nod oedd gostyngiad blynyddol o 3% mewn allyriadau carbon gan ddefnyddio 2013/14 fel sylfaen, i gael ei fesur ar sail tair blynedd yn barhaus.

Ar gyfer 2014/15, mae ffactor trawsnewid allyriadau carbon Defra ar gyfer trydan wedi cynyddu. Felly, er bod y defnydd o drydan wedi gostwng, mae'r allyriadau carbon wedi cynyddu flwyddyn ar flwyddyn. Gwelwyd gostyngiad mawr mewn defnydd o ynni (trydan, nwy ac olew nwy) yn sgil gaeaf cynhesach a hefyd defnydd ehangach o oleuadau a weithredir gan symudiad a newid y goleuadau fflworoleuol yr oedd eu hoes wedi dod i ben am oleuadau LED mwy effeithlon.

Y rheswm dros y cynnydd mewn gwastraff yw'r gwastraff adeiladu yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru oherwydd prosiectau adnewyddu.

Mae Chwaraeon Cymru yn parhau â'i ymgyrch i sicrhau atebion technolegol i helpu i leihau allyriadau a gwastraff pan fo hynny'n bosib. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau cynadleddau fideo a gwell atebion TGCh personol, fel sgriniau deuol i leihau argraffu. Mae hyn yn dechrau cael effaith ar ymddygiad y staff ac rydym yn disgwyl gweld y manteision yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae Plas Menai'n parhau i ddefnyddio'r system amgylcheddol a weithredwyd y llynedd ac yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn defnyddio'r data mae'n eu darparu i wneud newidiadau wedi'u targedu i leihau defnydd o ynni. Hefyd, mae'r Ganolfan Genedlaethol yng Nghaerdydd yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb o gynhyrchu adnewyddadwy ar y safle yng Ngerddi Sophia.

Cafodd Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru ei gradd isaf am Berfformiad Ynni yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â gradd llawer is na'r radd nodweddiadol am y math o adeilad. Yn ystod y flwyddyn, prynwyd tryc trydan ar gyfer ei ddefnyddio ar y tiroedd, fel nad oes raid defnyddio'r tractor ar gyfer tasgau llai.

Ceir manylion llawn, gan gynnwys tablau o ddata swyddfeydd Chwaraeon Cymru a'r gost gysylltiedig, yn y datganiadau ariannol cyfnerthedig ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.

www.sportwales.org.uk/about-us/about-sport-wales/key-publications.aspx

**MATERION
CYMDEITHASOL A CHYMUNEDOL**

Mae ein gwaith yn cael ei arwain gan sawl dogfen allweddol: y Rhaglen Lywodraethu; Creu Cymru Egnïol, y cynllun gweithredu strategol pum mlynedd i gyflwyno Dringo'n Uwch; a'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Adlewyrchir y Rhaglen Lywodraethu yn Llythyr Gorchwyl y Gweinidog i Chwaraeon Cymru.

Ein gweledigaeth ar gyfer chwaraeon cymunedol yw "pob plentyn wedi gwirioni ar chwaraeon am oes". Mae hyn wir yn golygu pob plentyn. Ymhlith canlyniadau cadarnhaol iawn yn nhwf y cyfranogiad chwaraeon ar gyfer oedolion a phlant, rydym yn parhau i weld anghydraddoldeb annerbyniol.

Mae ein Harolwg ar Oedolion Egnïol a chanlyniadau'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol wedi dangos hynny i ni. Mae bechgyn a dynion yn cymryd rhan mewn mwy o chwaraeon na merched a genethod ac mae'r rhai o gefndiroedd llai cyfoethog, cymunedau DLIE neu gydag anabledd yn llai tebygol o gymryd rhan.

SWYDDOG CYFRIFO:

S Powell
29 Mehefin 2015

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

DATGAN BUDDIANNAU

Mae holl Aelodau ac Uwch Staff Chwaraeon Cymru wedi llenwi ffurflen yn manylu ar unrhyw fudd sydd ganddynt mewn Sefydliadau sy'n darparu, neu'n ceisio darparu, gwasanaethau masnachol i Chwaraeon Cymru ar gyfer 2014/15. Mae'r wybodaeth a ddarperir sy'n galw am ddatgeliad yn unol â Safon Cyfrifo Rhyngwladol 24 yn cael ei datgelu yn Nodyn 15 y cyfrifon hyn.

DIGWYDDIADAU CYSYLLTIEDIG Â DATA PERSONOL

Mae gan Chwaraeon Cymru fesurau rheoli a pholisïau yn eu lle i sicrhau integriti'r data. Mae ei systemau'n sicrhau mesurau llym o ran rheoli diogelwch ffisegol data. Cyn belled ag y gwyddom ni, ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu.

CANFOD A RHEOLI RISG

Ceir manylion ar Reoli Risg yn adran Rheoli Risg y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar dudalen 19.

POLISI TALU CYFLENWYR A'R PERFFORMIAD A GYFLAWNWYD

O dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Deddf Llog) 1998, ac yn unol â'r Cod Ymarfer Talu Gwell (sydd ar gael yn www.payontime.co.uk), mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru dalu anfonebau cyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Nod Chwaraeon Cymru yw talu 100% o'i anfonebau, gan gynnwys yr anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch, unwaith y mae'r anghydfod wedi cael ei setlo, yn unol â'r telerau hyn. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 talodd Chwaraeon Cymru 100% (2013/14 100%) o'i holl anfonebau gan gadw at ei bolisi talu. Ni chodwyd unrhyw log yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i daliadau hwyr.

OFFERYNNAU ARIANNOL

Ceir manylion yr offerynnau ariannol yn nodyn 1.10 a nodyn 14 y datganiadau ariannol.

ADNODDAU DYNOL

Mae gan Chwaraeon Cymru ystod helaeth o bolisïau sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol ac mae'n anelu at sicrhau cynnal a chymell. Adolygir y polisïau hyn yn rheolaidd gan gynnwys y staff drwy gytundeb cydnabod gydag Undeb y PCS. Mae'r holl bolisïau'n cael eu gwirio o ran cydraddoldeb cyn cael eu gweithredu. Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i bolisi o gyfle cyfartal yn ei arferion cyflogaeth. Yn benodol, mae Chwaraeon Cymru yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw ddarpar gyflogai neu gyflogai presennol yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws priodasol neu fel rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Hefyd byddwn yn cadw at y 'Safon Cydraddoldeb ar gyfer Chwaraeon' a'r cynlluniau 'Positif am Anabledd'.

Buddsoddi yn Ein Pobl

Mae gan Chwaraeon Cymru statws “Buddsoddwyr mewn Pobl” ac mae ei bolisiâu adnoddau dynol yn adlewyrchu arfer gorau fel rhan o’i ymrwymïadau fel sefydliad dysgu.

DATA ABSENOLDEB SALWCH

Mae data salwch cyflogeion y sefydliad cyfan ar gyfer 2014/15 (2013/2014) fel a ganlyn:

Cyfanswm y Dyddiau a Gollwyd	Cyfanswm y Cyflogeion (Cyferth ag Amser Llawn)	Cyfanswm y Dyddiau o Salwch a Gollwyd y Pen
935.50 (870.00)	150.32 (148.89)	6.22 (5.84)

TÂL ARCHWILWYR

Yn ystod 2014/15, ni wnaed unrhyw waith heb fod yn waith archwilio gan ein harchwilydd allanol, y Rheolwr na’r Archwilydd Cyffredinol. Datgelir y ffi archwilio yn nodyn 8 yn y datganiadau ariannol.

CYNLLUN PENSIWN

Mae cyflogeion Chwaraeon Cymru yn aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa). Mae’r Gronfa’n gynllun buddiannau pendant sy’n darparu buddiannau’n seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol, ac mae ei hasedau’n cael eu cadw ar wahân i rai Chwaraeon Cymru. Bydd unrhyw bensiwn a gaiff ei gronni cyn mis Ebrill 2008 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/80fed gyda chyfandaliad o deirgwaith y pensiwn. Caiff pensiwn sydd wedi cronni o 1 Ebrill 2008 ymlaen ei gyfrif ar gyfradd o 1/60ain a cheir opsiwn i gymryd chyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae cyfraniadau cyflogeion a staff maniwial yn cael eu pennu ar 5.5% i 7.5% yn seiliedig ar ystod cyflog. Ers mis Ebrill 2014, mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi newid o gynllun pensiwn terfynol i gynllun Enillion Ailwerthuso Cyfartaledd Gyrfa. Cyfrifir pensiwn sydd wedi’i

gronni ers 1 Ebrill 2014 ar gyfradd o 1/49ain gydag opsiwn i gymryd chyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae cyfraniadau cyflogeion a staff maniwial yn cael eu pennu ar 5.5% i 10.5% yn seiliedig ar ystod cyflog. Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 1.5 a nodyn 16 y datganiadau ariannol.

Datganiad ar Ddatgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol

1. Cyn belled ag y gŵyr y Swyddog Cyfrifo, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw’r archwilydd yn ymwybodol ohoni, ac
2. Mae’r Swyddog Cyfrifo wedi cymryd pob cam angenrheidiol er mwyn sicrhau ei bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac er mwyn sefydlu bod yr archwilydd yn ymwybodol o’r wybodaeth honno.

SWYDDOG CYFRIFO:

S Powell
29 Mehefin 2015

ADRODDIAD TÂL

Yn unol â Phennod 5 o'r Llawlyfr Cofnodion Ariannol, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru ddatgelu'r canlynol mewn perthynas â thâl yn ystod y flwyddyn am Aelodau'r Cyngor a'r Uwch Staff sydd â chyfrifoldeb am reoli adrannau llunio polisiau. Mae canllawiau'r Trysorlys yn datgan ei bod yn ofynnol i ddatganiadau ariannol ddatgelu gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau Aelodau ac Uwch Staff Chwaraeon Cymru.

Polisi Tâl

Telir i'r Cadeirydd, yr Is Gadeirydd ac aelodau Chwaraeon Cymru yn unol â pholisi "Tâl a chostau Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff Llywodraethu a Noddir gan y Cynulliad a Chyrff y GIG" Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor Tâl, sy'n cynnwys Cadeirydd Chwaraeon Cymru, yr Is Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, a gefnogir gan Reolwr Adnoddau Dynol Chwaraeon Cymru, yn cyfarfod i gytuno ar ddyfarniad tâl blynyddol ar gyfer y staff i gyd, drwy gyfrwng proses cylch cyflog Llywodraeth Cymru. Hefyd mae gan swydd y Prif Weithredwr ystod cyflog gysylltiedig yn awr, a benderfynir gan Lywodraeth Cymru.

Contractau Gwasanaeth

Cyflogir Uwch Staff Chwaraeon Cymru ar delerau ac amodau sy'n eithaf tebyg i delerau ac amodau Llywodraeth Cymru.

Penodir Aelodau Chwaraeon Cymru gan Weinidogion Cymru ar gontract tair blynedd ac efallai y byddant yn cael eu hailbenodi am gyfnod o dair blynedd arall. Telir cyfradd ddyddiol o £337 i'r Cadeirydd ac mae'n cael contract i

weithio deuddydd yr wythnos. Telir cyfradd ddyddiol o £311 i'r Is Gadeirydd ac mae'n cael contract i weithio diwrnod yr wythnos.

Mae Aelodau eraill y Cyngor yn cael cyfradd ddyddiol o £282 ac yn cael contract i weithio deuddydd y mis.

Cyfnod Rhybudd

Mae gan y Prif Weithredwr hawl i rybudd o bedwar mis gan Chwaraeon Cymru os terfynir y contract ac mae gan weddill yr Uwch Staff hawl i rybudd o dri mis o derfynu'r contract.

Cyflog

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog crynswth, lwfansau a bonws perfformiad, os yn berthnasol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Prif Weithredwr gyflog crynswth o £89,483, (2013/14 £79,170). Ni wnaed taliadau bonws i'r Prif Weithredwr nac i unrhyw aelod arall o staff yn ystod y flwyddyn (2013/14 £Dim).

Mae cyfran o gostau cyflog yr Uwch Reolwyr yn cael ei neilltuo i'r loteri. Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 1.6 y datganiadau ariannol.

Manteision mewn nwyddau neu gynnyrch

Nid oes unrhyw fanteision mewn nwyddau neu gynnyrch.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am dâl a llog pensiwn Uwch Reolwyr Chwaraeon Cymru. Ceir manylion am y dyddiadau dechrau/gadael yn y tabl Buddiannau Pensiwn yn ail ran yr adroddiad tâl.

Cyfanswm Tâl Unigol (yn amodol ar archwiliad)

Enw	Teitl	% Wedi'i Neilltuo i'r Loteri	Cyflog £000	Budd Pensiwn	Cyfanswm 000
		2014/15 (2013/14)	2014/15 (2013/14)	2014/15 (2013/14)	2014/15 (2013/14)
Yr Athro Laura McAllister	Cadeirydd	50% (50%)	35 - 40 (35 - 40)	- -	35 - 40 (35 - 40)
Mrs Adele Baumgardt	Is Gadeirydd	50% (50%)	10 - 15 (10 - 15)	- -	10 - 15 (10 - 15)
Ms Sarah Powell *	Prif Weithredwr	25% (25%)	85 - 90 (75 - 80)	67,588 (119,126)	155 - 160 (195 - 200)
Dr Huw Jones	Prif Weithredwr	0% (25%)	- (35 - 40)	- (0)	- (0 - 5)
Mr Roy Payne	Cyfarwyddwr Corfforaethol	0% (50%)	- (25 - 30)	- (7,840)	- (35 - 40)
Mr Jonathan Davies	Cyfarwyddwr Corfforaethol	50% (50%)	55 - 60 (5 - 10)	17,904 (2,497)	70 - 75 (10 - 15)
Mr Mark Frost***	Cyfarwyddwr Corfforaethol	25% (25%)	15 - 20 (55 - 60)	2,343 (14,120)	20 - 25 (70 - 75)
Ms Sian Thomas	Cyfarwyddwr Corfforaethol	0% (20%)	- (0 - 5)	- (0)	- (0 - 5)
Mr Graham Williams****	Cyfarwyddwr Corfforaethol	25% (25%)	50 - 55 (45 - 50)	36,265 -	85 - 90 -
Mr Peter Curran	Cyfarwyddwr Corfforaethol	25% (0%)	5 - 10 -	0 -	5 - 10 -
Mr Randal Hemingway	Cyfarwyddwr Corfforaethol	25% (25%)	25 - 30 (50 - 55)	8,933 (14,479)	35 - 40 (65 - 70)
Mr Alan Williams**	Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai	0% (0%)	55 - 60 (55 - 60)	0 (13,264)	55 - 60 (65 - 70)
Mr Malcolm Zapple	Rheolwr Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru	0% (0%)	55 - 60 (55 - 60)	10,147 (13,378)	65 - 70 (70 - 75)
Mr David Roberts	Aelod o'r Cyngor	0% (50%)	- (5 - 10)	- -	- (5 - 10)

Enw	Teitl	% Wedi'i Neilltuo i'r Loteri	Cyflog £000	Budd Pensiwn	Cyfanswm 000
Mr Martin J Warren	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	- -	5 - 10 (5 - 10)
Yr Athro John Baylis	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	- -	5 - 10 (5 - 10)
Mr Richard Cuthbertson	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	0 - 5 (5 - 10)	- -	0 - 5 (5 - 10)
Mr Andrew Morgan	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	0 - 5 (5 - 10)	- -	0 - 5 (5 - 10)
Mr Simon Pirotte	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	- -	5 - 10 (5 - 10)
Mr Paul Thorburn	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	- -	5 - 10 (5 - 10)
Mr Alan Watkin	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	- -	5 - 10 (5 - 10)
Ms Johanna Lloyd	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	- -	5 - 10 (5 - 10)
Ms Janet Kingston	Aelod o'r Cyngor	0% (50%)	- (0 - 5)	- -	- (0 - 5)
Ms Julia Longville	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	- -	5 - 10 (5 - 10)
Mr Peter King	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	- -	5 - 10 (5 - 10)
Ms Amanda Bennett	Aelod o'r Cyngor	50% (0%)	0 - 5 -	- -	0 - 5 -
Ms Samar Wafa	Aelod o'r Cyngor	50% (0%)	0 - 5 -	- -	0 - 5 -
Mr Andrew Lycett	Aelod o'r Cyngor	50% (0%)	0 - 5 -	- -	0 - 5 -
Mr Richard Parks	Aelod o'r Cyngor	50% (0%)	0 - 5 -	- -	0 - 5 -

Mae unrhyw Ffigurau Budd Pensiwn negyddol a oedd yn codi yn 2013/2014 wedi cael eu hailddatgan yn unol â

chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

*Yn ystod 2013/2014, roedd Sarah Powell yn y swyddi canlynol:

Dyddiadau:	Teitl y Swydd:	Cyflog Cyfwerth Ag Amser Llawn
1af Ebrill – 4ydd Gorffennaf	Cyfarwyddwr Corfforaethol	£56,576
5ed Gorffennaf – 30ain Medi	Prif Weithredwr Dros Dro	£83,200
1af Hydref – 31ain Mawrth	Prif Weithredwr	£88,400

Mae'r Adroddiad Tâl yn datgan yn awr bod rhaid i Ffigur Cyfanswm Sengl ar gyfer Tâl gael ei ddangos. Mae'r tabl uchod yn debyg i'r un a ddefnyddid yn flaenorol ac mae'n dal i ddangos y cyflog a delir mewn bandiau. Caiff y ffigur budd pensiwn sy'n cyfrannu at y ffigur cyfanswm sengl ei gyfrif mewn ffordd newydd, fel a ganlyn:

(gwir gynnydd mewn pensiwn* x 20) + (gwir gynnydd mewn cyfandaliad*) – (cyfraniadau gan y cyflogai)

*ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd/gostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Nid yw'r ffigur budd pensiwn yn swm sydd wedi cael ei dalu i'r cyflogai gan Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae'n fudd yn y dyfodol i'r cyflogai a dylanwedir arno gan sawl ffactor gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, newidiadau mewn cyflog ac unrhyw gyfraniadau ychwanegol a wneir gan y cyflogai.

** Yn ystod 2014/2015 gwnaed taliad o £37,119 tuag at y straen ar y gronfa pensiwn o ganlyniad i ymddeoliad cynnar Alan Williams, Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Genedlaethol Plas Menai.

*** Yn ystod 2014/15 gwnaed taliad i Mark Frost a gymerodd ddiswyddiad gwirfoddol. Derbyniodd daliad iawndal o £50-55,000.

**** Yn ystod 2013/2014 cyflogwyd Graham Williams fel Rheolwr Rhanbarthol Chwaraeon Cymru ac fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro ar 1af Medi 2014.

Cymhareb Tâl Canolrifol

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd yn ôl ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl mwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad.

	2014 / 15	2013 / 14
Band Cyfanswm Tâl y Cyfarwyddwr sy'n cael y Tâl Mwyaf (£ '000)	90 - 95	85 - 90
Cyfanswm Tâl Canolrifol	25,750	25,750
Cymhareb	3.6	3.4

Cafodd y gymhareb ei chyfrif gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

1. Dim ond cyflogau'r staff a delir drwy'r gyflogres sydd wedi cael eu defnyddio (gan eithrio staff asiantaeth, gan nad ydynt yn sylfaenol),
2. Nid yw'r ffigurau wedi cael eu haddasu i adlewyrchu unrhyw gyfran i gyfrifon y Loteri h.y. mae'r costau'n adlewyrchu'r holl staff a gyflogir gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac a brosesir drwy'r gyflogres.

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog a lwfansau ond yn eithrio taliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

Roedd cynnydd yn y gymhareb ganolrifol o 0.2. Mae cyfanswm tâl y Prif Weithredwr wedi cynyddu £2,600 ac mae cyfanswm y tâl canolrifol wedi aros yn gymharol.

Buddiannau Pensiwn (yn amodol ar archwiliad)

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalaf buddiannau'r gronfa pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd yn actwaraidd. Y buddiannau a brisir yw'r buddiannau sydd wedi'u cronni gan yr aelodau ac unrhyw pensiwn wrth gefn i gymar sy'n daladwy o'r

cynllun. Mae'r Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan mae aelodau'n gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau sydd wedi cronni yn eu cynllun blaenorol.

Enw	Gwir gynnydd mewn Pensiwn (a chyfandaliad) yn 65 oed ar gyfer 2014/15	Cyfanswm y pensiwn wedi cronni (a chyfandaliad) yn 65 oed ar 31 Mawrth 2015	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2015	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2014	Gwir Gynnydd/ (Gostyngiad) Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn y Flwyddyn
	£000	£000	£000	£000	£000
Ms Sarah Powell Prif Weithredwr	2.5 – 5.0 (2.5 – 5.0)	20 – 25 (35 – 40)	263	215	39
Mr Randal Hemingway Cyfarwyddwr Corfforaethol (hyd at 08.10.2014)	0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	0 – 5 (0 – 5)	13	9	2
Mr Peter Curran Cyfarwyddwr Corfforaethol (o 05.01.2015)	0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	- -	- -	- -	- -
Mr Alan Williams Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai	0.0 – 2.5 (-0.0 – 2.5)	20 – 25 (45 – 50)	479	447	27
Mr Malcolm Zapple Rheolwr Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru	0.0 – 2.5 (-0.0 – 2.5)	20 – 25 (45 – 50)	393	369	19
Mr Mark Frost Cyfarwyddwr Corfforaethol (hyd at 20.08.2014)	0.0 – 2.5 (-0.0 – 2.5)	10 – 15 (20 – 25)	201	191	8
Mr Jonathan Davies Cyfarwyddwr Corfforaethol (o 27.01.2014)	0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	0 – 5 (0 – 5)	12	2	5
Mr Graham Williams Cyfarwyddwr Corfforaethol	0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	15 – 20 (30 – 35)	237	204	28

Nid yw'r rhai sydd wedi gadael yn ystod 2013/2014 wedi cael eu cynnwys yn y tabl uchod:

Sian Thomas – dyddiad gadael 10fed Mai 2013

Huw Jones – dyddiad gadael 30ain Medi 2013

Roy Payne – dyddiad gadael 10fed Ionawr 2014

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddiannau sydd wedi cronni gan yr unigolyn o ganlyniad i aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch, y mae datgeliad yn berthnasol iddi. Mae'r ffigur yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn Chwaraeon Cymru.

Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod oddi mewn i'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Fframwaith Actwariau ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosib mewn buddiannau o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes Gyfan, a all fod yn ddyledus pan dynnir buddiannau pensiwn o'r cynllun.

Gwir Gynnydd/(Gostyngiad) mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn sydd wedi cronni oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredinol ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Ceir rhagor o wybodaeth yn nodyn 16.

SWYDDOG CYFRIFO:

S Powell
29 Mehefin 2015

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU CYNGOR CHWARAEON CYMRU A'R PRIF WEITHREDWR

O dan Adran 35 (2) - (3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993, mae'n ofynnol i Gyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer y cyfnod ariannol ar ffurf ac ar sail a benderfynir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail gronol ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno darlun cywir a theg o weithgareddau Dosbarthu Loteri Chwaraeon Cymru ar ddiwedd y flwyddyn, ac o'i incwm a'i wariant a'r newidiadau mewn ecwiti a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifo a'r Gyngor gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cofnodion Ariannol Trysorlys EM ac, yn arbennig, cyflawni'r canlynol:

- Cadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiau cyfrifo addas ar sail gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Datgan a gadwyd at safonau cyfrifo priodol, fel y nodir yn Llawlyfr Cofnodion Ariannol Trysorlys EM, a datgelu ac egluro unrhyw wro sylfaenol yn y datganiadau ariannol; a
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd y gronfa'n parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo Chwaraeon Cymru. Mae ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo ar gyfer gweithgareddau dosbarthu'r Loteri, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodolrwydd a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Chwaraeon Cymru, wedi'u datgan ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

SWYDDOG CYFRIFO:

S Powell

29 Mehefin 2015

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2014/2015

Cyflwyniad

Mae'r Datganiad Llywodraethu'n dwyn at ei gilydd i un lle bob datgeliad am faterion perthnasol i lywodraethu sefydliad, risg a rheolaeth. Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf i'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu sy'n amlinellu sut rwyf wedi defnyddio fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn.

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf wedi adolygu Cod Llywodraethu Corfforaethol 2012 ac yn credu bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio'n llawn ag elfennau perthnasol y cod mewn perthynas â'i swyddogaethau Trysorlys a Loteri.

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Y Bwrdd

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn gyfrifol am lywodraethu Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Rôl y Bwrdd yw ei fodloni ei hun bod strwythur llywodraethu priodol yn ei lle a chraffu ar berfformiad y pwyllgor gweithredol a gwaith y sefydliad yn cyflawni Gweledigaeth Chwaraeon Cymru.

Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn cynnwys Cadeirydd, Is Gadeirydd a hyd at ddeuddeg aelod arall ac fe'u penodwyd i gyd gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfansoddiad y bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o drawsdoriaid eang o wahanol chwaraeon ac aelodau sydd ag arbenigedd a phrofiad perthnasol i chwaraeon cymunedol ac elitaidd.

Gwelir y presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio yn y tabl isod.

Aelod o'r Bwrdd	Cyfarfod Bwrdd (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd)	Y Pwyllgor Archwilio (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd)
Yr Athro L McAllister (Cadeirydd)	5	Amherthnasol
Adele Baumgardt (Is Gadeirydd)	5	Amherthnasol
Amanda Bennett**	3	2
Martin J Warren	5	4
John Baylis	5	3
Richard Cuthbertson*	4	1
Andrew Morgan*	0	Amherthnasol
Simon Pirotte	4	Amherthnasol
Paul Thorburn	4	Amherthnasol
Alan Watkin	4	3
Julia Longville	5	Amherthnasol
Andrew Lycett**	3	3
Johanna Lloyd	5	1
Peter King*	5	1
Richard Parks**	2	Amherthnasol
Samar Wafa**	3	Amherthnasol
(Aelodau allanol - Pwyllgor Archwilio yn unig)		
Sandy Blair	Amherthnasol	3
Louise Casella	Amherthnasol	3
Overall Percentage Attendance rate	91%	71%

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau a chael y sicrwydd sy'n ofynnol bod arferion llywodraethu da yn eu lle, mae'r Bwrdd wedi cytuno i'r strwythur llywodraethu canlynol:

- Dau bwyllgor parhaol; Y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Tâl
- Tri is-grŵp a dau grŵp cynghori wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd (rhestrir isod).
- Y Tîm Rheoli Gweithredol a'r strwythur staffio

Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio i'w gefnogi gyda chyflawni ei gyfrifoldebau o ran risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu, drwy gyfrwng y canlynol:

- Adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r prosesau, y mesurau rheoli, yr archwiliadau a'r mesurau eraill cyfredol o ran diwallu anghenion sicrwydd y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo, a'r dull o'u gweithredu;
- Adolygu dibynadwyedd ac integriti'r sicrwydd a ddarperir gan y weithrediaeth a'r archwilwyr mewnol ac allanol;
- Cyflwyno barn ar ba mor dda mae'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo'n cael eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau a chyflawni eu rhwymedigaethau atebolrwydd (yn enwedig o ran Cofnodion Ariannol).

Roedd y Pwyllgor Archwilio'n cynnwys chwe Aelod Bwrdd a hyd at ddau aelod allanol annibynnol. Cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cyfradd bresenoldeb gyffredinol yr aelodau yn 71%.

Yn ystod y flwyddyn, roedd meysydd ffocws y pwyllgor yn cynnwys (ond nid oeddent yn gyfyngedig i) y canlynol:

- gweithredu ac effeithiolrwydd y fframwaith adolygu rheoli risg;
- adroddiadau archwilio mewnol yn rhoi sylw i feysydd busnes penodol ac adroddiad yr archwiliad mewnol blynyddol;
- yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol a'u fformat;
- arsylwadau a wnaed gan archwiliad allanol, yn enwedig y llythyr rheoli blynyddol a'r Adroddiad Sicrwydd Ychwanegol;
- cydymffurfiaeth â'r Ddogfen Fframwaith a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chydymffurfiaeth â Datganiad y Loteri o Ofynion Ariannol;
- dogfen y Fframwaith Llywodraethu;
- y risgiau a'r mesurau rheoli perthnasol i ddyfarniadau grant;
- rheolaeth risg weithredol y ddwy Ganolfan Genedlaethol;
- y risgiau penodol cysylltiedig â chefnogi chwaraeon elitaidd ac athletwyr sy'n perfformio ar lefel uchel;
- y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch

Derbyniodd y Bwrdd gofnodion y Pwyllgor Archwilio ym mhob cyfarfod ac mae'n cael cyngor y Cadeirydd Archwilio mewn perthynas ag unrhyw faterion arwyddocaol. Hefyd mae'r Cadeirydd Archwilio'n cyflwyno adroddiad blynyddol ffurfiol ar waith y pwyllgor i'r Bwrdd hefyd.

Mae'r systemau TG yn sicrhau bod rheolau llym mewn grym parthed diogelwch ffisegol data. Yn 2014/15, nid oedd unrhyw faterion risg gwybodaeth nac unrhyw wendidau rheoli arwyddocaol i adrodd yn ôl yn eu cylch ac roedd y Pwyllgor Archwilio'n fodlon bod lefel y risg yn dderbyniol ac yn cael ei rheoli mewn ffordd briodol.

Y Pwyllgor Tâl

Yn ystod y flwyddyn, adolygodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Tâl ddyfarniad tâl blynyddol y Prif Weithredwr. Cymeradwywyd y dyfarniad gan Lywodraeth Cymru.

Is-grwpiau a Grwpiau gorchwyl a gorffen

Penodir grwpiau gorchwyl a gorffen gan y Bwrdd yn ôl yr angen. Mae'r grwpiau'n cynnwys aelodau'r Bwrdd a benodwyd gan y Cadeirydd a hefyd aelodau annibynnol weithiau. Fe'u cefnogir gan swyddogion Chwaraeon Cymru. Eu pwrpas yw darparu help a chynghor ychwanegol i'r Bwrdd oddi mewn i themâu penodol ac maent yn cyfarfod ar sail ad-hoc.

Yn ystod 2014/15, roedd y grwpiau gorchwyl a gorffen canlynol yn weithredol:

- Adolygiad Plas Menai;
- Cydraddoldeb;
- Ffocws 2014 (ar gyfer Gemau Cymanwlad 2014);
- Rheoli Perfformiad;
- Pontio (i oruchwylio'r gwaith o recriwtio Cyfarwyddwyr newydd);
- Sefydliad Perfformiad Uchel;
- Cymunedol;
- Elitaidd.

Penodir aelod o'r Bwrdd, sydd hefyd yn aelod o bob grŵp gorchwyl a gorffen, i adrodd yn ôl ar lafar yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

Yr Uwch Dîm Rheoli Gweithredol

Mae'r Uwch Dîm Rheoli Gweithredol, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn atebol i'r Bwrdd am ddatblygu a gweithredu strategaethau a pholisïau ac adrodd yn ôl arnynt.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd, bob pythefnos fel rheol, i drafod a chytuno ar faterion corfforaethol. Mae'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes yn cael ei gofnodi a'i fonitro'n chwarterol.

Bu newidiadau sylweddol yn aelodaeth y weithrediaeth yn ystod y flwyddyn. Mae nifer o swyddi'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol wedi dod yn wag neu wedi newid.

Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgor

Yn unol ag arferion gorau a chan gadw at yr argymhellion ar gyfer Rheoli Arian Cyhoeddus, mae adolygiad o effeithiolrwydd wedi cael ei gynnal yn ystod 2014/15; gweithredwyd ar argymhellion yr adolygiad. O ganlyniad, gwnaed nifer o benodiadau newydd i'r Bwrdd ac nid yw rhai penodiadau wedi cael eu hadnewyddu.

Mae'r Bwrdd yn fodlon ag ansawdd a maint y wybodaeth a dderbyniwyd er mwyn iddo allu gwneud penderfyniadau doeth.

RHEOLI RISG

Pwrpas y system o reolaeth fewnol

Pwrpas y system o reolaeth fewnol yw rheoli a chyfyngu ar risg ond ni all fyth ei dileu. Felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, y mae'n gallu ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus o ganfod a rhoi blaenoriaeth i'r risgiau o ran cyflawni polisiau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hyn gael eu gwireddu, a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn Chwaraeon Cymru drwy gydol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys. Yn olaf, mae'r system o reolaeth fewnol yn darparu sicrwydd rhesymol bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio â chyfarwyddiadau ariannol y Loteri a bod prosesau digonol yn eu lle ar gyfer canfod gwrthdaro rhwng buddiannau a lleihau colledion o ran grantiau Loteri.

Y gallu i ddelio â risg

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn bersonol gyfrifol am sicrhau bod gan Gyngor Chwaraeon Cymru broses rheoli risg effeithiol yn ei lle. Goruchwylir y broses hon gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio. Fel sefydliad, rydym yn monitro pob risg allweddol drwy ddefnydd priodol o'r Gofrestr Risg. Rydym wedi cofnodi Polisi Rheoli Risg sy'n cynnwys diffiniadau perthnasol i reoli risg a hefyd mae'r polisi'n datgan sut rydym yn canfod, yn dadansoddi ac yn rheoli risg.

Mae risgiau corfforaethol, a'r mesurau rheoli a weithredir i'w lliniaru, yn cael eu neilltuo i a'u rheoli gan y rheolwr priodol, y cyfarwyddwr corfforaethol neu, mewn rhai achosion, gan y Swyddog Cyfrifo. Mae risgiau gweithredu, yn enwedig y rhai yn y ddwy ganolfan genedlaethol, yn gyfrifoldeb y rheolwyr perthnasol, ac efallai y bydd y gwaith o reoli risg o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i'w his-swyddogion.

Canfyddir risgiau newydd gan swyddogion Chwaraeon Cymru, adran graffu'r Pwyllgor Archwilio neu'r Bwrdd ei hun. Ar ôl canfod risg newydd, mae'n cael ei gosod ar y Gofrestr Risg, ei hasesu, ei sgorio a'i neilltuo i sylw cyfarwyddwr corfforaethol a / neu reolwr.

Y fframwaith risg a rheoli

Mae rheoli risg wedi'i ymgorffori yn strwythurau rheoli Chwaraeon Cymru. Mae mwyafrif y risgiau busnes, ariannol a chyflwyno gwasanaeth yn deillio o nodau trefniannol ac o broses cynllunio busnes Chwaraeon Cymru.

Mae'r Gofrestr Risg yn ateb electronig sydd ar gael i reolwyr perthnasol drwy gyfrwng porthol ar-lein. Mae gwaith y Gofrestr wedi cael ei archwilio'n fewnol a'i gyflwyno i'r pwyllgor archwilio. Mae'r Gofrestr Risg yn cofnodi risgiau corfforaethol sylweddol, gan gynnwys risgiau i wybodaeth, asesiad cyffredinol o effaith debygol a thebygolrwydd, mesurau rheoli a, lle bo angen, rhestr o fesurau gweithredu yn y dyfodol. Adolygir y Gofrestr Risg yn rheolaidd gan y rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio. Hefyd mae'r rheolwyr yn cyflwyno yn eu tro i'r Pwyllgor Archwilio ar eu meysydd risg penodol a sut maent yn rheoli neu'n lliniaru'r risgiau hynny.

Monitro Grantiau

Mae mwyafrif cyllid Chwaraeon Cymru'n cael ei wario drwy ddyfarnu grantiau. Dyfernir grantiau ar sail meini prawf buddsoddi clir ar gyfer allbynnau a chanlyniadau chwaraeon allweddol. Mae Chwaraeon Cymru yn cymryd camau priodol i fonitro'r defnydd o ddyfarniadau o'r fath drwy ofyn am adroddiadau ffurfiol gan y rhai sy'n eu derbyn, yn ogystal â thrafod yn barhaus â phartneriaid allweddol er mwyn casglu gwybodaeth anffurfiol. Hefyd, ceir meini prawf cysoni penodol ac os yw'r gwariant yn amrywio o lefel y grant sydd wedi'i ddyfarnu, mae Chwaraeon Cymru yn ymarfer ei hawl i hawlio symiau o'r fath yn eu hôl.

Risgiau Allweddol

Mae risgiau i weithgareddau strategol a gweithredol allweddol yn cael eu datgan, eu gwerthuso a'u hystyried gan yr Uwch Dîm Rheoli a gweithredir i'w lliniaru. Adolygir y risgiau a'r camau gweithredu i reoli risgiau yn rheolaidd. Dylanwedir yn sylweddol ar y rhaglen archwilio fewnol gan y risgiau a gofnodir ar y gofrestr risg ac, os yw hynny'n briodol, mae'r archwilwyr yn cyflwyno argymhellion i roi sylw i unrhyw risg neu'n nodi rhai newydd. Bydd y Pwyllgor Archwilio'n adolygu'r argymhellion hyn ac yn gweithredu fel sy'n briodol.

O edrych ymlaen, mae nifer o risgiau allweddol wedi cael eu datgan gan Chwaraeon Cymru yn y dyfodol agos:

Mae'r rhain yn ymwneud â gweithredu ac ehangu system Rheoli Grantiau ar-lein newydd ac effaith newid arfaethedig i'r strwythur rheoli. Er hynny, y risg strategol fwyaf arwyddocaol fydd effaith y toriadau parhaus ar wariant cyhoeddus, a hefyd cost ariannol gynyddol bodloni taliadau diffyg pensiwn. Dyma'r bygythiad mwyaf i gyflawni amcanion Chwaraeon Cymru.

Mae gan Chwaraeon Cymru agwedd gall a deallus at gymryd risg yn gyffredinol, er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau. Os oes risg sylweddol yn codi, bydd Chwaraeon Cymru'n

gweithredu'n effeithiol i'w rheoli ac yn ei gostwng i lefel ddiogel. Mae'r Weithrediaeth a'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen am arloesi ymhellach ac yn gynt yn y dyfodol ac, i'r diben hwn, rydym yn edrych ar wahanol fecanweithiau a phartneriaid cyflawni. Bydd hyn yn creu risgiau newydd a gwahanol ac yn gallu cynyddu lefel y risg y mae Chwaraeon Cymru yn ei chymryd. Felly, efallai y bydd dyhead Risg Chwaraeon Cymru yn codi, ond dim ond oddi mewn i amgylchedd risg wedi'i reoli.

Mae'r Archwilwyr Mewnol wedi rhoi sicrwydd cymedrol i Chwaraeon Cymru ac ni chafodd unrhyw rai o ganfyddiadau'r archwiliad eu dosbarthu fel risg "uchel" neu "uchel iawn". Yn ystod y flwyddyn, canfu nifer o adroddiadau archwilio mewnol gyfleoedd i wella'r systemau rheoli. Roedd yr archwilwyr mewnol yn "fodlon bod camau gweithredu priodol wedi'u datgan gan y rheolwyr i ddelio â'r materion sy'n codi".

Rheolaeth Fewnol

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru. Hefyd, mae gennyf gyfrifoldeb personol am ddiogelu elw'r Loteri Genedlaethol a ddsberthir i Chwaraeon Cymru ac asedau Chwaraeon Cymru, yn unol â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo i mi wrth Reoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Goruchwylir hyn gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio. Yn sail i'm hadolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol mae gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol a'r cyflwyniadau staff i bwyllgor archwilio Chwaraeon Cymru, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol. Rwyf yn bwriadu rhoi sylw i wendidau a sicrhau gwelliant parhaus y systemau sydd yn eu lle.

Darparwyd gwasanaeth archwilio mewnol Chwaraeon Cymru yn ystod 2014/15 gan KTS Owens Thomas Ltd, a weithredodd yn unol â'r safonau a ddiffiniwyd yn y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd fel rhan o archwiliadau mewnol, i ddarparu barn flynyddol annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol ac asesu risg Chwaraeon Cymru, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Gan fod KTS Owens wedi bod yn archwilyr mewnol Chwaraeon Cymru ers dros 10 mlynedd, cynhaliwyd ymarfer tendro i gydymffurfio yn ystod y flynyddyn. O ganlyniad i'r broses dendro, bydd gwasanaethau archwilio mewnol Chwaraeon Cymru o 2015/16 ymlaen yn cael eu darparu gan Deloitte.

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio'n llunio Adroddiad Blynyddol ar ei waith i Fwrdd Chwaraeon Cymru.

Datblygiadau Parhaus

Er bod system gref o reolaeth fewnol yn ei lle, ceir bob amser feysydd a fydd yn elwa o weithredu gwelliannau. Yn ystod 2013/14, adroddwyd gennym fod adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal o Gymdeithas Focsio Amatur Cymru, yn sgil codi materion yn fewnol ac yn allanol. Canfu'r adolygiad nifer o wendidau rheoli ac arferion gwaith gwael. Gweithredodd Chwaraeon Cymru ar unwaith ac yn briodol, er mwyn gwarchod arian cyhoeddus, ac ymatebodd y sefydliad yn gadarnhaol i'r pryderon a fynegwyd. Yn ystod 2014/15, ac fel amod ar unrhyw arian grant pellach, rydym wedi parhau i weithio'n agos â'r Corff Rheoli er mwyn monitro ei gynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed. Yn sgil y broses, aeth Chwaraeon Cymru ati i adolygu'r system reoli sydd ar waith mewn perthynas â'n Cyrff Rheoli Cenedlaethol yn gyffredinol. Yn ystod 2014/15, mae camau ychwanegol wedi cael eu rhoi ar waith i gryfhau ymhellach y

mesurau rheoli sydd yn eu lle, i reoli'r risg gynhenid mewn buddsoddi arian cyhoeddus mewn sefydliadau trydydd parti. Byddwn yn adolygu hyn yn gyson yn ystod 2015/16. Derbyniwyd strategaeth risg wedi'i diweddarau gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2015. Disgrifiodd gyfrifoldebau perthnasol y Bwrdd (cyfrifol am y Strategaeth a'r Dyhead Risg) a'r Weithrediaeth (trefniadau rheoli). O hyn ymlaen, bydd y Bwrdd yn derbyn y gofrestr risg gorfforaethol yn rheolaidd ac yn adolygu'r dyhead risg yn flynyddol.

Yn ystod 2015/16, bydd system rheoli grantiau ar-lein newydd yn mynd yn weithredol gennym, i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Bydd yn galluogi i ni gofnodi gwybodaeth llawer cyfoethocach am ein buddsoddiadau a gwneud penderfyniadau doethach yn y dyfodol.

Mae Chwaraeon Cymru wedi cynnal adolygiad o'i drefniadau rheoli a llywodraethu ar gyfer prosiectau arbennig. Canlyniad yr adolygiad yw cryfhau atebolrwydd, y rheolaeth ar adnoddau a'r adrodd yn ôl.

O ddechrau cylch 2016/17, bydd y cynllunio a'r cyllidebu'n cael ei wneud ar sail tymor hwy i gyd-fynd â'r cynllun strategol, gan felly sicrhau strategaeth ariannol sy'n gweithio'n well ochr yn ochr â gweledigaeth a chenhadaeth Chwaraeon Cymru.

Fel rhan o'r dull cynllunio tymor hwy yma, bydd disgwyl i reolwyr ddarparu crynodeb strategol o'u cyllid, ei effeithiolrwydd a sut mae'n cyd-fynd ag amcanion a nodau strategol y sefydliad.

SWYDDOG CYFRIFO:

S Powell
29 Mehefin 2015

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I'R TAI SENEDDOL AC I AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Incwm Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, y Llif Arian, y Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifo sydd wedi'u datgan ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl, a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth wedi'i harchwilio.

Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Cyngor Chwaraeon Cymru a'r Prif Weithredwr, mae Cyngor Chwaraeon Cymru a'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifo, yn gyfrifol am barato'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd yn ôl ar y datganiadau ariannol, yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993. Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn datgan ei bod yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio i Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad ar y datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys sicrhau tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol, sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatganiadau sylfaenol, boed yn cael eu hachosi gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisiau cyfrifo'n briodol i amgylchiadau Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru ac wedi cael eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n briodol; rhesymolrwydd yr amcangyfrifon cyfrifo arwyddocaol a wnaed gan Gyngor Chwaraeon Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Hefyd, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol a heb fod yn ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol, i ganfod anghysonderau sylfaenol â'r datganiadau ariannol sydd wedi'u harchwilio. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylfaenol, rwyf yn ystyried y goblygiadau i'm tystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi sicrhau digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob cyswllt sylfaenol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn cyflwyno darlun cywir a theg o gyflwr materion Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2015 ac o'r incwm net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoï'n briodol, yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd oddi tani.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan yn yr Adroddiad Tâl sydd i gael ei harchwilio wedi cael ei pharatoï'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol, a wnaed o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993; ac
- mae'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi yn yr Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Syr Amyas C E Morse
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

**Materion yr wyf yn adrodd arnynt
drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno yng nghyswllt y materion canlynol, y mae'n rhaid i mi adrodd arnynt i chi os yw'r canlynol, yn fy marn i, yn wir:

- nid oes cofnodion cyfrifo digonol wedi cael eu cadw ac nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn o ganghennau na fu fy staff yn ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i gael ei harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Dyddiad**Gorffennaf 2015**

**CYNGOR CHWARAEON CYMRU – CYFRIF DOSBARTHU’R LOTERI
DATGANIAD O INCWM NET CYNHWYSFAWR AR GYFER
Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2015**

	Nodiadau	2014/2015 £000	2013/2014 £000
Gwariant			
Ymrwymiau grant a wnaed yn ystod y flwyddyn	3	10,892	10,938
Llai ymrwymiau a ddaeth i ben neu a ddiddymwyd	3	(93)	(54)
Costau staff	7	1,701	1,764
Dibrisiant: asedau sy'n eiddo	9	33	29
Costau Gweithredu Eraill	8	415	382
Cyfanswm Gwariant		12,948	13,059
Incwm Crynswth			
Elw o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol		(17,592)	(15,229)
Enillion buddsoddi o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol		(71)	(70)
Adfer grantiau		(58)	(61)
Incwm Arall	8	(174)	(174)
Cyfanswm Incwm		(17,895)	(15,534)
Incwm Net o weithgareddau		(4,947)	(2,475)
Incwm/Gwariant Cynhwysfawr Arall			
Colled/(Enillion) ar ailwerthuso buddsoddiadau Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol		-	261
Cost Cyllid Pensiwn		94	198
Colled/(Enillion) Actwaraidd ar Bensiwn	16	439	(2,056)
		533	(1,597)
Incwm Net cyn llog a threthiant		(4,414)	(4,072)
Llog derbyniadwy		(1)	(2)
Incwm net cyn trethiant		(4,415)	(4,074)
Trethiant Taladwy	6	-	1
Incwm net ar ôl trethiant		(4,415)	(4,073)
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015		(4,415)	(4,073)
Balans ar 1 Ebrill		(11,255)	(7,182)
Balans ar 31 Mawrth		(15,670)	(11,255)

Mae ffigurau'r flwyddyn flaenorol wedi cael eu hailddatgan oherwydd newid i'r polisi cyfrifo, fel y dangosir yn Nodyn 1.12

Mae'r nodiadau ar dudalennau 85 i 105 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae'r holl enillion a'r colledion cydnabyddedig wedi cael eu cyfrif ar sail y gost hanesyddol ac wedi'u hadlewyrchu yn y datganiad uchod. Mae'r holl weithgareddau'n parhau heb brynu na gwaredu eitemau.

CYNGOR CHWARAEON CYMRU – CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI DATGANIAD O SEFYLLFA ARIANNOL

	Nodiadau	31 Mawrth 2015 £000 Ailddatganwyd	31 Mawrth 2014 £000	1 Ebrill 2013 £000 Ailddatganwyd
Asedau Anghyfredol				
Eiddo, peiriannau ac offer	9	153	135	116
Asedau Cyfredol				
Masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill	10	158	197	68
Buddsoddiadau - balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol		19,385	16,098	15,587
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	12	376	588	1,482
Cyfanswm yr Asedau Cyfredol		<u>19,919</u>	<u>16,883</u>	<u>17,137</u>
Cyfanswm yr Asedau		<u>20,072</u>	<u>17,018</u>	<u>17,253</u>
Atebolrwydd Cyfredol				
Croniadau grant	3	(751)	(2,334)	(5,129)
Atebolrwydd cyfredol arall	11	(614)	(797)	(407)
Cyfanswm yr Atebolrwydd Cyfredol		<u>(1,365)</u>	<u>(3,131)</u>	<u>(5,536)</u>
Asedau Anghyfredol ac Asedau Cyfredol Net		<u>18,707</u>	<u>13,887</u>	<u>11,717</u>
Atebolrwydd Anghyfredol				
Croniadau grant	3	(238)	(270)	(121)
Atebolrwydd Pensiwn		(2,799)	(2,362)	(4,414)
		<u>(3,037)</u>	<u>(2,632)</u>	<u>(4,535)</u>
Asedau llai Atebolrwydd		<u>15,670</u>	<u>11,255</u>	<u>7,182</u>
Cronfeydd:				
Cronfa Incwm a Gwariant		18,469	13,617	11,596
Cronfa Pensiwn		(2,799)	(2,362)	(4,414)
		<u>15,670</u>	<u>11,255</u>	<u>7,182</u>

Mae ffigurau 2013 a 2014 wedi cael eu hailddatgan oherwydd newid i'r polisi cyfrifo, fel y dangosir yn Nodyn 1.12

Mae'r nodiadau ar dudalennau 85 i 105 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Pwyllgor Archwilio a'u llofnodi ar ei ran gan:

SWYDDOG CYFRIFO:

S Powell
29 Mehefin 2015

CYNGOR CHWARAEON CYMRU - CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI
DATGANIAD O LIF ARIAN AR GYFER Y FLWYDDYN
 A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2015

	Nodiadau	2014/2015 £000	2013/2014 £000 Ailddatganwyd
Llif arian o weithgareddau gweithredu			
Cynnydd mewn cyllid ar gyfer y flwyddyn		4,41	4,072
Gostyngiad mewn dyledwyr		13	8
(Gostyngiad) mewn credydwyr (Cynnydd) yn y balans yng Nghronfa		(1,798)	(2,256)
Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol		(3,287)	(511)
Dibrisiant offer a pheiriannau	9	33	29
Cost Pensiwn	16	437	(2,052)
Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu		<u>(188)</u>	<u>(710)</u>
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		1	2
Llif arian o weithgareddau cyllido			
Prynu eiddo, peiriannau ac offer	9	(51)	(48)
Benthyciadau	10	-	(143)
Ad-daliadau benthyciadau		26	6
Trethiant			
Treth gorfforaeth a dalwyd		-	(1)
Arian net (all-lif) ar gyfer y flwyddyn	12	<u>(212)</u>	<u>(894)</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 85 i 105 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

DATGANIAD O NEWIDIADAU I ECWITI TRETHDALWYR AR GYFER CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI CYNGOR CHWARAEON CYMRU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2015

	Balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol £000	Balans yn CChC £000	Cronfa Pensiwn £000	Cyfanswm £000
Balans ar 1 Ebrill 2013	15,587	(3,175)	(4,414)	7,998
Ailddatgan Balans Agoriadol CChC	-	(816)	-	(816)
Balans wedi'i Ailddatgan ar 1 Ebrill 2013	15,587	(3,991)	(4,414)	7,182
Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr 2013/14				
Incwm o'r Loteri Genedlaethol	15,229	-	-	15,229
Tynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn gan				
Chwaraeon Cymru	(14,500)	14,500	-	-
Adenillion buddsoddi	70	2	-	72
Incwm Gweithredu Arall	-	174	-	174
Adfer grantiau	-	61	-	61
Gwariant yn ystod y flwyddyn	(27)	(13,227)	-	(13,254)
Colli ar ailbriso	(261)	-	-	(261)
Cost Pensiwn	-	-	2,052	2,052
Balans wedi'i Ailddatgan ar 31 Mawrth 2014	16,098	(2,481)	(2,362)	11,255
Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr 2014/15				
Incwm o'r Loteri Genedlaethol	17,592	-	-	17,592
Tynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn gan				
Chwaraeon Cymru	(14,350)	14,350	-	-
Adenillion buddsoddi	71	1	-	72
Incwm Gweithredu Arall	-	174	-	174
Adfer grantiau	-	58	-	58
Gwariant yn ystod y flwyddyn	(26)	(13,018)	-	(13,044)
Cost Pensiwn	-	-	(437)	(437)
Balans ar 31 Mawrth 2015	19,385	(916)	(2,799)	15,670

Mae ffigurau 2013 a 2014 wedi cael eu hailddatgan oherwydd newid i'r polisi cyfrifo, fel y dangosir yn Nodyn 1.12

Mae'r nodiadau ar dudalennau 85 i 105 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

CYNGOR CHWARAEON CYMRU – CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI NODIADAU AR Y CYFRIFON AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2015

1. POLISIÂU CYFRIFO

1.1 Sail y Cyfrifo

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd drwy brisio Eiddo, Peiriannau ac Offer drwy gyfeirio at gostau cyfredol, yn unol â'r cyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd y Trysorlys, yn unol ag Adran 35 o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd). Gellir cael copi o'r cyfrifon ar gais drwy ysgrifennu at Gyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru), Gerddi Sophia, Caerdydd, CF11 9SW. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ac yn cael eu paratoi yn unol â'r IFRS a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo Rhyngwladol, cyn belled ag y mae'r gofynion hyn yn briodol.

Mae cyfrifon ar wahân wedi cael eu paratoi ar gyfer gweithgareddau a gyllidir gan gymorth grant, yn unol â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Nid yw'n ofynnol i'r cyfrif hwn gael ei gyfuno â chyfrifon Chwaraeon Cymru.

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol. Mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru roi cyfrif am ymrwymïadau grant tymor hir sy'n dod yn ddyledus i'w talu yn y cyfnodau cyfrifo dilynol, a gyllidir gan elw'r loteri yn y dyfodol.

1.2 Incwm o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Cyllidir gweithgareddau dosbarthu swyddogaeth Loteri Chwaraeon Cymru gan elw a neilltuir gan y Loteri Genedlaethol. Cedwir yr elw hwn mewn cronfa a weinyddir gan yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac mae ar gael i'w dynnu i lawr i gyfrif banc Loteri Chwaraeon Cymru pan fo angen.

Mae'r balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn parhau o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er hynny, dangosir cyfran y balans o'r fath y gellir ei briodoli i Chwaraeon Cymru yn y cyfrifon yn unol â gwerth y farchnad ac, ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, mae wedi cael ei ardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel balans sydd ar gael ar gyfer ei ddosbarthu gan Chwaraeon Cymru yng nghyswllt ymrwymïadau cyfredol ac yn y dyfodol.

Nid yw'r balans ar 31 Mawrth 2015 yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol wedi'i archwilio gan fod archwiliad y Gronfa'n anghyflawn. Bydd unrhyw addasiad a fydd yn codi o'r archwiliad yn cael ei adlewyrchu yng nghyfrifon 2015/16 ac nid oes disgwyl iddo fod yn sylweddol. Addaswyd balans agoriadol y gronfa ar gyfer 2013/14 ar gyfer colled afrealistig a oedd yn gwneud cyfanswm o £261,000, 2014/15 £Dim

1.3 Eiddo, Peiriannau ac Offer

Mae Chwaraeon Cymru yn cyfalafu unrhyw eiddo, peiriannau ac offer gwerth mwy na £500 a ddefnyddir ar gyfer gweinyddu swyddogaeth y Loteri yn unig a chynhwysir yr offer yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol ar sail cost hanesyddol llai darpariaeth ar gyfer dibrisiant. Ym marn Chwaraeon Cymru, nid oes unrhyw wahaniaeth sylfaenol rhwng y gost hanesyddol a gwerth llyfr net cost gyfredol yr asedau hyn.

1.4 Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth ar yr holl eiddo, peiriannau ac offer, gan ystyried amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol a'r gwerthoedd gweddillol a ragdybir. Mae oes yr ased at y pwrpas hwn fel a ganlyn ar gyfartaledd:

Offer – Cyfrifiaduron	3 blynedd
Offer - Eraill	3 - 10 mlynedd

Polisi Chwaraeon Cymru yw dibrisio asedau o'r mis ar ôl eu prynu.

1.5 Costau Pensiwn

Neilltuir y cyfraniadau i'r cynlluniau pensiwn i'r Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr, er mwyn lledaenu cost y pensiynau dros oes waith y cyflogeion gyda Chwaraeon Cymru.

Neilltuir unrhyw asedau neu atebolrwydd pensiwn rhwng y Loteri a Chwaraeon Cymru yn seiliedig ar gyfradd hanesyddol y neilltuo ar gostau staff, gweler 1.6.1. Neilltuir taliadau diffyg y gronfa pensiwn ar sail yr un gyfran a'r dyraniad diffyg pensiwn i gyfrif y Loteri.

1.6 Dyrannu Costau

Cyfrifir dyraniadau costau'r staff a'r costau anuniongyrchol a drosglwyddir o Chwaraeon Cymru i gyfrif y Loteri ar y sail a ganlyn:

1.6.1

Mae costau'r staff yn cael eu neilltuo i'r Loteri yn unol â'r amser maent yn ei dreulio'n cyflawni gweithgareddau'r Loteri. Os yw'r staff yn cael eu datgan fel staff sy'n cael eu cyflogi 100% at bwrpas y Loteri, mae eu costau'n cael eu neilltuo'n llawn. Os yw staff yn gweithio, neu'n darparu gwasanaeth i gynlluniau loteri a thrysorlys, mae eu costau'n cael eu neilltuo'n unol â'r amser a dreulir ar waith y Loteri.

1.6.2

Mae costau heb fod yn gostau staff yn cael eu neilltuo naill ai ar sail yr arwynebedd llawr a ddefnyddir gan staff y Loteri neu, os nad oes data arwynebedd llawr ar gael neu os nad yw'n cael ei ystyried yn briodol, dyrennir costau'n seiliedig ar gyfanswm amser staff y Loteri, a fynegir fel canran o gyfanswm amser y staff.

1.6.3

Neilltuir tâl a chostau teithio Aelodau'r Cyngor ar sail 50/50.

1.7 Polisi ar gyfer Croniadau Grant

Mae dyfarniadau grant yn cael eu cyfrif fel gwariant yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr a hyd nes eu bod yn cael eu talu, fel cronladau grant yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol os ydynt yn bodloni'r diffiniad o atebolrwydd.

Nid yw dyfarniadau grant y penderfynwyd yn eu cylch yn ffurfiol ac nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o atebolrwydd yn cael eu cynnwys yn y gwariant ar y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr nac fel cronlad yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Er hynny, maent yn cael eu datgelu fel atebolrwydd grant wrth gefn yn y Nodiadau ar gyfer y Cyfrifon.

1.8 Incwm arall

Yn berthnasol i incwm a gynhyrchir gan UK Sport at ddefnydd asedau a chyfleusterau Chwaraeon Cymru.

1.9 Defnydd o Amcangyfrifon a Phenderfyniadau

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn golygu bod rhaid i Chwaraeon Cymru wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y defnydd o bolisiau a'r symiau yr adroddir amdanynt. Adolygir amcangyfrifon a phenderfyniadau'n barhaus. Cydnabyddir y diwygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifo yn ystod y cyfnod pryd diwygir yr amcangyfrif ac mewn unrhyw gyfnod a effeithir yn y dyfodol.

Ceir gwybodaeth am feysydd amcangyfrif a phenderfyniadau allweddol arwyddocaol wrth ddefnyddio polisiau cyfrifo sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol yn y nodiadau canlynol:-

Nodyn 1.6.1 Mae costau staff yn cael eu neilltuo i'r Loteri yn unol â'r amser maent yn ei dreulio yn cyflawni gweithgareddau'r Loteri, gweler nodyn 1.6.1 am ragor o fanylion.

1.10 Offerynnau Ariannol

1.10.1 Asedau Ariannol

Nid yw masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill yn dwyn unrhyw log ac maent yn cael eu datgan ar sail

eu gwerth nominal, sy'n cael ei leihau yn unol â lwfansau priodol ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifol. Mae arian parod a chyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, blaendal tymor byr a buddsoddiadau tymor byr eraill hynod hylifol y gellir eu trosglwyddo'n rhwydd i swm penodol o arian parod ac sy'n amodol ar risg anarwyddocaol o newidiadau mewn gwerth.

1.10.2 Atebolrwydd Ariannol

Nid yw Taliadau Masnach ac atebolrwydd cyfredol arall yn dwyn llog ac maent yn cael eu datgan yn unol â'u gwerth nominal.

1.10.3 Benthyciadau

Cydnabyddir benthyciadau derbyniadwy nad ydynt yn dwyn llog ar sail gwerth teg i ddechrau, llai y costau trafod y gellir eu priodoli. Ar ôl y gydnabyddiaeth gychwynnol, mae benthyciadau nad ydynt yn dwyn llog yn cael eu datgan ar gost wedi'i amorteiddio, gydag unrhyw wahaniaethau rhwng cost a gwerth adfer yn cael eu cydnabod yn y datganiad incwm dros gyfnod y benthyciadau ar gyfradd log effeithiol o 3.5%.

1.11 Adroddiad segmentu

Mae cofnodion rheoli Chwaraeon Cymru ar gyfer y Loteri'n darparu gwybodaeth berthnasol i ddsbarthu grantiau'r Loteri. Mae Chwaraeon Cymru o'r farn nad yw gofynion datgelu IFRS 8 Segmentau Gweithredu yn berthnasol i'r Cyfrifon Dosbarthu Loteri hyn.

1.12 Addasiadau Cyfnod Blaenorol

Ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyhoeddi Cyfarwyddyd Adolygedig Cyfrifon y Loteri ym mis Rhagfyr 2014, mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi diwygio ei bolisi cyfrifo mewn perthynas â sut mae ymrwymadau grant yn cael eu cydnabod yn natganiadau ariannol Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru.

Mae'r cyfarwyddyd adolygedig wedi cael ei roi ar waith gyda'r datganiadau ariannol yn 2014/15 ac mae'r grantiau sy'n cael eu gwneud yn awr yn cael eu cyfrif ar sail gronol. Yn flaenorol, roedd y rhain yn cael eu cyfrif pan wnaed cynnig cadarn o ddyfarniad ac wedi i hwnnw gael ei dderbyn. Cofnodir dyfarniadau grant fel gwariant yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr ac, nes caiff ei dalu, fel cronriad grant yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, os yw'n bodloni'r diffiniad o atebolrwydd.

O ganlyniad i'r newid hwn i'r polisi cyfrifo, ac yn unol ag IAS 8, mae angen addasiad cyfnod blaenorol. Mae cronfeydd agoriadol Cyfrif Dosbarthu'r Loteri ar 1 Ebrill 2013 ac 1 Ebrill 2014 wedi cael eu hailddatgan, yn ogystal â gwariant 2013/14. Dangosir datgeliad effaith y newid hwn yn nodyn 17 y datganiadau ariannol.

Nid yw dyfarniadau grant y gwnaed penderfyniad ffurfiol yn eu cylch nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o fod angen cronriad wedi'u cynnwys yng ngwariant y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr nac yn narpariaeth y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Er hynny maent yn cael eu datgelu fel atebolrwydd grant wrth gefn yn y Nodiadau i'r Cyfrifon.

	2014/2015	2013/2014
	£000	£000
Rhaglen		
Elite Cymru	2,626	2,652
Coach Cymru	1,585	1,701
Perfformiad Cenedlaethol	850	736
Hyfforddiant Cenedlaethol	868	970
Chwaraeon Anabledd	590	498
Y Gist Gymunedol	1,907	1,947
Datblygu Talent	232	215
	<u>8,658</u>	<u>8,719</u>

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnwys swm o £64,251 (2013/14 £64,286) a dalwyd yng nghyswllt costau gweinyddu'r awdurdodau lleol, sy'n gweinyddu'r cynllun grantiau ar lefel leol.

3. CRONIADAU GRANT

	Cyfalaf £000	Refeniw £000	2014/2015 Cyfanswm £000	2013/2014 Cyfanswm £000 Ailddatganwyd
Balans 1 Ebrill	1,764	840	2,604	5,250
Cynigion grant a fodlonwyd yn ystod y flwyddyn	(3,756)	(8,658)	(12,414)	(13,530)
Cynigion grant heb eu derbyn	(82)	(11)	(93)	(54)
Cynigion grant a wnaed yn ystod y flwyddyn	2,924	7,968	10,892	10,938
Symudiad yn ystod y flwyddyn	(914)	(701)	(1,615)	(2,646)
Balans croniadau ar 31 Mawrth	850	139	989	2,604
Dadansoddwyd fel:				
Symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	612	139	751	2,334
Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl blwyddyn	238	-	238	270

Dadansoddiad o amseriad disgwylidig y llif arian

	2014/2015 £000	2013/2014 £000 Ailddatganwyd
Symiau'n ddyledus yn ystod Blwyddyn Ariannol 2014/15	-	2,334
Symiau'n ddyledus yn ystod Blwyddyn Ariannol 2015/16	751	78
Symiau'n ddyledus yn ystod Blwyddyn Ariannol 2016/17	238	192
Balans ar 31 Mawrth 2015	989	2,604

	2014/2015 £000	2013/2014 £000 Ailddatganwyd
Balans rhyng-lywodraeth		
Balans gyda chyrrff eraill y llywodraeth ganolog	-	-
Balans gydag awdurdodau lleol	75	235
	75	235
Balans gyda chyrrff allanol i'r llywodraeth	914	2,369
	989	2,604

Mae ffigurau'r flwyddyn flaenorol wedi cael eu hailddatgan 1.12 a Nodyn 17.
oherwydd newid yn y polisi cyfrifo, fel y dangosir yn Nodyn

Croniadau Grant (parhad)

Bydd Chwaraeon Cymru'n trin dyfarniadau grant fel gwariant ac os nad ydynt wedi'u talu, fel croniad, os oes rhwymedigaeth adeiladol i wneud taliad. Daw dyfarniadau grant sy'n rhydd o unrhyw amodau arbennig ar grant yn rhwymedigaeth adeiladol pan mae'r cynnig ffurfiol o grant wedi cael ei anfon at dderbynnwyd y grant.

Daw cynigion grant sydd ag amodau arbennig yn rhwymedigaeth adeiladol pan mae'r ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r amodau arbennig yn y contract. Ni fydd dyfarniadau y penderfynwyd yn eu cylch ond sydd ag amodau grant heb eu cyflawni'n arwain at rwymedigaeth adeiladol ac ni fydd yn arwain at groniad grant. Yn hytrach, bydd dyfarniadau o'r fath yn cael eu datgelu drwy gyfrwng nodyn fel atebolrwydd grant wrth gefn.

Bydd dyfarniadau grant yn cael eu trin fel cynnig ffurfiol ar ôl i'r derbynnwyd gael hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol ar ffurf "llythyr cynnig". Ni fydd cyfathrebu ar lafar neu'n anffurfiol gan staff, nad yw'n rhwymo Chwaraeon Cymru mewn unrhyw ffordd, yn cael ei drin fel cynnig ffurfiol o grant.

Ni fydd Chwaraeon Cymru yn ystyried unrhyw rai o'r amodau canlynol fel amodau o dan ei reolaeth:

- Y gofyniad i sicrhau caniatâd cynllunio neu unrhyw gymeradwyaeth reoleiddio arall;
- Y gofyniad i sicrhau arian cyfatebol o ffynonellau eraill;
- Amod cyffredinol perthnasol i argaeledd arian y loteri.

ATEBOLRWYDD GRANT WRTH GEFN

	2014/2015 £000	2013/2014 £000
Atebolrwydd Grant	3,218	201
	<u>3,218</u>	<u>201</u>

5. YMRWYMIADAU CYFALAF

Ar 31 Mawrth 2015, nid oedd gan Gyfrif y Loteri unrhyw ymrwymadau cytundebol ar gyfer cyfalaf ac Eiddo, Peiriannau ac Offer (2013/2014 Dim).

6. TRETHIANT TALADWY

	2014/2015 £000	2013/2014 £000
Treth daladwy ar log a dderbyniwyd ar gyfradd o 20% (2013/2014 20%)	-	1

7. NIFER Y STAFF A'R COSTAU CYSYLLTIEDIG

Mae ffigurau costau'r staff a ddangosir yn y Cyfrif Gwariant Net yn ddyraniad o'r costau a achoswyd gan Chwaraeon Cymru ac maent yn seiliedig ar y canlynol:

	Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn cysylltiedig ar gyfartaledd		2014/2015 £000	2013/2014 £000
	2014/15	2013/14		
Costau cyflog crynswth				
Cadeirydd L McAllister (gweler y nodyn isod*)			18	18
Prif Weithredwr H Jones	0.25	0.25	-	-
Prif Weithredwr S Powell	0.25	0.25	22	20
Staff Eraill	38.91	36.84	1,661	1,716
Cyflogau			1,355	1,373
Costau Nawdd Cymdeithasol			100	107
Costau Pensiwn eraill				
Addasiadau IAS19			(97)	(193)
			<u>1,701</u>	<u>1,764</u>

Mae'r costau Pensiwn eraill yn cynnwys cyfraniad cyfandaliad o £115,000 tuag at atebolrwydd pensiwn net (2013/14 £247,250).

Mae IAS19 Buddiannau Cyflogeion yn datgan ei bod yn ofynnol i ffigur a gyfrifir yn actwaraidd (cost gwasanaeth cyfredol a gorffennol) gael ei nodi yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr. Ar gyfer 2014/15, y gost oedd £225,000 ac mae'n cymryd lle costau pensiwn y cyflogwr yn y Datganiad. Felly roedd yr effaith net yn £97,000 i gostau staff ar ôl tynnu cyfraniad y cyflogwr. Gan fod y gost gwasanaeth ar

hyn o bryd yn nodyn syniadol, mae hwn yn cael ei newid yn ôl yn y Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr fel mai dim ond cost cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a dynnir o falans y Loteri.

Mae'r costau diswyddo ar gyfer y flwyddyn wedi cael eu talu'n llawn o gyfrifon Cyngor Chwaraeon Cymru ac maent yn cael eu hadlewyrchu ynddynt. Nid oes costau diswyddo wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn.

Dadansoddir costau'r staff ymhellach, fel a ganlyn:

	2014/2015 £000	2013/2014 £000
Gweinyddu	869	928
Cefnogaeth Gwyddoniaeth Chwaraeon i Athletwyr	<u>832</u>	<u>836</u>
	<u>1,701</u>	<u>1,764</u>

* Mae nifer y staff a gyflogir ar gyfartaledd i gyd yn staff contract parhaol.

Penodir y Cadeirydd i weithio deuddydd yr wythnos ac mae'n treulio 50 y cant o'r amser hwnnw ar weithgareddau'r loteri.

8. COSTAU GWEITHREDU ERAILL AC INCWM ARALL

COSTAU	2014/2015 £000	2013/2014 £000
Costau Uniongyrchol	158	151
Llety	33	34
Ffi Archwilio	19	19
Ailgodi tâl am Wasanaethau Chwaraeon Cymru	205	178
	<u>415</u>	<u>382</u>

INCWM	2014/2015 £000	2013/2014 £000
Grant UK Sport	174	174
	<u>174</u>	<u>174</u>

9. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

	Offer £000	Cyfanswm £000
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2013	212	212
Ychwanegiadau	48	48
Gwaredu	-	-
Ar 31 Mawrth 2014	<u>260</u>	<u>260</u>
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2013	(96)	(96)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	(29)	(29)
Gwaredu	-	-
Ar 31 Mawrth 2014	<u>(125)</u>	<u>(125)</u>
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2014	<u>135</u>	<u>135</u>
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2013	<u>116</u>	<u>116</u>

9. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER (PARHAD)

	Offer £000	Cyfanswm £000
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2014	260	260
Ychwanegiadau	51	51
Gwaredu	-	-
Ar 31 Mawrth 2015	<u>311</u>	<u>311</u>
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2014	(125)	(125)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	(33)	(33)
Gwaredu	-	-
Ar 31 Mawrth 2015	<u>(158)</u>	<u>(158)</u>
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2014	<u>135</u>	<u>135</u>
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2015	<u>153</u>	<u>153</u>

10. MASNACH DERBYNIADWY AC ASEDAU CYFREDOL ERAILL

	31 Mawrth 2015 £000	31 Mawrth 2016 £000
Dyledus o fewn blwyddyn Eitemau derbyniadwy eraill	<u>47</u>	<u>60</u>
Dyledus o fewn mwy na blwyddyn Eitemau derbyniadwy eraill a rhagdaliadau	<u>111</u>	<u>137</u>
Cyfanswm	<u>158</u>	<u>197</u>

Yn gynwysedig yn yr eitemau derbyniadwy eraill mae £143,000 (2013/2014 £169,000) yng nghyswllt benthyciad cyfalaf heb log a wnaed dros gyfnod o 10 mlynedd.

	31 Mawrth 2015 £000	31 Mawrth 2014 £000
Balans rhyng-lywodraeth		
Balans gyda chyrrff eraill y llywodraeth ganolog	-	-
Balans gydag awdurdodau lleol	15	26
	<hr/> 15	<hr/> 26
Balans gyda chyrrff allanol i'r llywodraeth	143	171
	<hr/> 158	<hr/> 197

Roedd y grantiau ad-daladwy wedi codi am nifer o resymau, gan gynnwys tanwariant yn erbyn symiau a ddyfarnwyd

a methiannau'r derbynyddion i gydymffurfio'n llawn ag amodau'r grant.

11. MASNACH TALADWY AC ATEBOLRWYDD CYFREDOL ARALL

	31 Mawrth 2015 £000	31 Mawrth 2014 £000
Chwaraeon Cymru	595	763
Croniadau	19	34
	<hr/> 614	<hr/> 797

	31 Mawrth 2015 £000	31 Mawrth 2014 £000
Balans rhyng-lywodraeth		
Balans gyda chyrrff eraill y llywodraeth ganolog	595	763
Balans gydag awdurdodau lleol	-	-
	<hr/> 595	<hr/> 763
Balans gyda chyrrff allanol i'r llywodraeth	19	34
	<hr/> 614	<hr/> 797

12. DADANSODDI NEWIDIADAU MEWN ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

	1 Ebrill 2014 £000	Llif Arian £000	31 Mawrth 2015 £000
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	588	(212)	376

13. ATEBOLRWYDD WRTH GEFN

Ac eithrio atebolrwydd grant wrth gefn, a ddatgelwyd yn Nodyn 4, nid oedd unrhyw atebolrwydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2014 a 31 Mawrth 2015 oedd angen ei ddatgelu.

14. OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae Safon Cofnodion Ariannol Rhyngwladol 7 : Offerynnau Ariannol yn dweud ei bod yn ofynnol datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau y mae swyddogaeth Loteri Chwaraeon Cymru'n eu hwynebu wrth ymgymryd â'i rôl.

Risgiau Hylifedd

Yn 2014/15, deilliodd £17,592,000 neu 98.3% o'r incwm o'r Loteri Genedlaethol (2013/14: £15,229,000 neu 98.0%). O'r incwm a oedd yn weddill, deilliodd £71,000 neu 0.4% o'r adenillion buddsoddi o'r balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, (2013/14 £70,000 neu 0.5%), a £232,000 neu 1.3% o log banc ac incwm amrywiol (2013/14: £237,000 neu 1.1%). Nid yw Chwaraeon Cymru yn ystyried bod ei Gronfa Loteri yn wynebu unrhyw risg hylifedd sylweddol ac mae'n fodlon bod y balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol a'r elw a ragwelir yn y dyfodol o'r Loteri yn ddigonol i fodloni ei ymrwymadau caled.

Risgiau Cyfraddau Llog

Buddsoddir asedau ariannol y Loteri yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, sy'n buddsoddi mewn band cul o asedau risg isel, fel bondiau'r llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan Chwaraeon Cymru unrhyw reolaeth dros fuddsoddi Cyllid yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Cedwir y balansau arian parod a dynnir i lawr o'r Gronfa, i dalu'r ymrwymadau grant a'r costau gweithredu, mewn cyfrif banc cyfradd amrywiol mynediad ar unwaith. Rhoddodd y cyfrif hwn gyfradd llog o 0.50% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn (2013/14 0.50%). Roedd balans yr arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn £376,000 (2013/14: £588,000). Nid yw Chwaraeon Cymru yn ystyried bod ei swyddogaeth Loteri yn wynebu risg sylweddol o ran cyfraddau llog. Wedi'i gynnwys gyda'r eitemau derbyniadwy (nodyn 10) mae £143,000 (2013/14 £169,000) sy'n ymwneud â benthyciad di-log. Pe bai llog wedi cael ei godi ar gyfradd y trysorlys o 3.5%, yna byddai ffi o £5,005 (2013/14 3.5% £5,915) wedi cael ei chodi fel llog yn y cyfrifon hyn.

Risg Arian Tramor

Nid yw swyddogaeth Loteri Chwaraeon Cymru yn wynebu unrhyw risg o ran arian tramor.

15. TRAFODION PARTI CYSYLLTIEDIG

Cyllidir gweithrediadau Loteri Chwaraeon Cymru gan Gronfa'r Loteri Genedlaethol drwy gyfrwng yr Adran ar gyfer Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Adran yn cael ei hystyried fel parti cysylltiedig. Hefyd, talodd y Loteri grantiau

yn ystod y flwyddyn i nifer o sefydliadau y bu i'r aelodau a'r uwch staff ddatgan diddordeb ynddynt ac sy'n cael eu hystyried yn sylfaenol.

Aelod o'r Panel	Corff	Taliadau yn ystod y Flwyddyn £000	Natur y cyswllt	Taliad Grant a Ymrwymwyd
A Williams Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai	Cymdeithas Hwyllo Cymru	216	Hyfforddwr ac aelod o'r Gymdeithas Hwyllo Frenhinol Ei ferched yn hyfforddi / un yn gweithio i'r RYA	-
A Williams Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai	Clwb Hwyllo'r Felinheli	2	Aelod o Glwb Hwyllo'r Felinheli Ei ferched a'i wraig yn aelodau hefyd	-
A Williams Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai	Y Bartneriaeth Awyr Agored	30	Aelod o Bwyllgor Gweithredol Partneriaeth Awyr Agored Gogledd Cymru	105
A Williams Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai	Cymdeithas Ganwio Cymru	227	Aelod - Canwio Cymru	4
M Frost Cyfarwyddwr Corfforaethol	Cyngor Dinas Caerdydd	166	Ei wraig yn gweithio i Cyngor Dinas Caerdydd	55
S Powell Prif Weithredwr	Undeb Hoci Cymru	302	Aelod yn tanysgrifio o Undeb Hoci Cymru	-
J Lloyd Aelod o'r Cyngor	Cymdeithas Bêl Rwyd Cymru	183	Mam yn gyflogai i Gymdeithas Bêl Rwyd Cymru	-
J Lloyd Aelod o'r Cyngor	CBS Rhondda Cynon Taf	349	Chwaer yn gyflogai i CBS Rhondda Cynon Taf	-

Aelod o'r Panel	Corff	Taliadau yn ystod y Flwyddyn £000	Natur y cyswllt	Taliad Grant a Ymrwymwyd
J Lloyd Aelod o'r Cyngor	Badminton Cymru	102	Chwaer yn hyfforddi gyda Badminton Cymru	-
J Lloyd Aelod o'r Cyngor	Undeb Rygbi Cymru	91	Tad yn swyddog gemau i Undeb Rygbi Cymru	-
J Lloyd Aelod o'r Cyngor	Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	-	Tad yn Gyfarwyddwr Perfformiad Rygbi Merched y Brifysgol	129
J Longville Aelod o'r Cyngor	Cyngor Sir Penfro	29	Ymgynghorydd gyda Chonsortia AG a Chwaraeon Ysgol y Gorllewin	-
J Longville Aelod o'r Cyngor	Cyngor Sir Powys	8	Ymgynghorydd gyda Chonsortia AG a Chwaraeon Ysgol y Gorllewin	-
J Longville Aelod o'r Cyngor	Cyngor Sir Castell-nedd a Phort Talbot	33	Ymgynghorydd gyda Chonsortia AG a Chwaraeon Ysgol y Gorllewin	-
J Longville Aelod o'r Cyngor	Dinas a Sir Abertawe	18	Ymgynghorydd gyda Chonsortia AG a Chwaraeon Ysgol y Gorllewin	77
J Longville Aelod o'r Cyngor	Cyngor Sir Ceredigion	16	Ymgynghorydd gyda Chonsortia AG a Chwaraeon Ysgol y Gorllewin	-
J Longville Aelod o'r Cyngor	Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	-	Prif Ddarlithydd yn y Brifysgol	129
J Longville Aelod o'r Cyngor	Cymdeithas Bêl Rwyd Cymru	183	Aelod o Bêl Rwyd Cymru	-
J Longville Aelod o'r Cyngor	Gymnasteg Cymru Cyf.	522	Mentor i Hyfforddwr Perfformiad Uchel	-
J Longville Aelod o'r Cyngor	Cymdeithas Athletau Cymru	571	Mab yn aelod	-
Yr Athro L McAllister Cadeirydd	Pêl Droed yn y Gymuned Cymdeithas Bêl Droed Cymru Cyf	85	Cyfarwyddwr Bwrdd ac Ymddiriedolai Ymddiriedolaeth Bêl Droed Cymru	-
Yr Athro L McAllister Cadeirydd	UK Sport	(174)	Aelod o'r Bwrdd	-

Aelod o'r Panel	Corff	Taliadau yn ystod y Flwyddyn £000	Natur y cyswllt	Taliad Grant a Ymrwymwyd
M J Warren Aelod o'r Cyngor	Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	-	Cyn Gyfarwyddwr Cyllid yn y Brifysgol	129
Yr Athro J Baylis Aelod o'r Cyngor	Prifysgol Cymru Abertawe	-	Athro Emeritws	30
S Pirotte Aelod o'r Cyngor	Colegau Cymru	104	Aelod Bwrdd o Colegau Cymru	-
S Pirotte Aelod o'r Cyngor	Coleg Powys	4	Cyn Brif Weithredwr	-
A Watkin Aelod o'r Cyngor	Undeb Hoci Cymru	302	Cadeirydd Hoci Cymru (Gogledd Cymru)	-
A Watkin Aelod o'r Cyngor	Tennis Cymru	89	Aelod Bwrdd Tennis Cymru	-
A Watkin Aelod o'r Cyngor	Coleg Llandrillo	15	Ei wraig yn Bennaeth Cynorthwyol Grŵp Colegau Llandrillo/ Menai	10
A Lycett	Cartrefi Rhondda Cynon Taf Cyf	30	Prif Weithredwr Grŵp Cartrefi Rhondda Cynon Taf	-
S Wafa	Cyngor Dinas Caerdydd	166	Cyn Hyfforddwr	55

Tâl yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Cyngor
Ystyrir yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Cyngor fel
Cyfarwyddwyr a datgelir eu tâl yn yr Adroddiadau Tâl
ar dudalennau 65 i 68.

16. PENSIYNAU

Mae'r datgeliadau pensiwn canlynol wedi cael eu paratoi yn unol ag IAS19 'Buddiannau cyflogeion'.

Mae'r data pensiwn yn y datgeliad hwn wedi cael eu darparu gan actwari annibynnol Chwaraeon Cymru, AON Hewitt. Mae'r prisiad IAS19 a ddarparwyd gan yr actwari ar gyfer Chwaraeon Cymru yn ei gyfanrwydd; ni chafwyd prisiadau ar wahân ar gyfer datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol y loteri ac felly mae'r data isod yn cael eu datgelu fel data crynswth.

Mae diffyg y gronfa bensiwn a hefyd y cofnodion cysylltiedig sy'n effeithio ar y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr wedi cael eu dyrannu rhwng datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol y loteri ar gymhareb sy'n seiliedig ar ddyrannu hanesyddol ar gostau staff i gyfrif y Loteri yn unol â nodyn 1.5. Ar gyfer 2014/15, mae hwn yn 23% i Gyfrifon y Loteri a 77% i Gyfrifon Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru.

Mae Chwaraeon Cymru wedi gwneud cyfanswm o £1,400,000 (2013/14 £1,930,000) o gyfraniad pensiwn yn 2014/15. Fe'i dadansoddir fel a ganlyn:

- Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr o £826,000 sy'n cynrychioli 20.2% o gyflog pensiwnadwy (2013/14 £778,000 21.5%); a chyfraniadau uwch mewn perthynas â chost ymddeol yn gynnar £74,000 (2013/14 £77,000)
- Cyfraniad Cyfandaliad o £500,000 (23% wedi'i dalu gan y Loteri), (2013/14 £1,075,000 a 23% wedi'i dalu gan y Loteri)

Cyfradd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o 2014/15 fydd 20.2%. Pennwyd y ganran hon o ganlyniad i'r prisiad bob tair blynedd diwethaf o'r cynllun, a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2013. Mae Chwaraeon Cymru'n disgwyl cyfrannu £1,090,000 at y gronfa yn 2015/16. Yn ychwanegol, efallai y bydd angen cyfraniadau "straen ar gronfa" hefyd, yn ogystal â chyfraniad ychwanegol tuag at ddiffyg pensiwn o £460,000.

Yr atebolrwydd pensiwn net ar gyfer cyfrif y Loteri ar 31 Mawrth 2015 yw £2,799,000 (2013/14 £2,362,000).

Prif Ragdybiaethau Ariannol

	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2013
Cyfradd Gostyngiad	3.2	4.3	4.6
Chwyddiant - CPI	1.8	2.4	2.8
Cyfradd y cynnydd i bensiynau mewn taliadau	1.8	2.4	2.8
Cyfradd y cynnydd i bensiynau gohiriedig	1.8	2.4	2.8
Cyfradd y cynnydd cyffredinol mewn cyflogau	1.8	3.4	4.7
Rhagdybiaethau marwoldeb:			
Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 65 oed ar y dyddiad cyfrifo)			
- Dynion	23.8	23.7	24.0
- Merched	26.7	26.6	26.8
Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 45 oed ar y dyddiad cyfrifo)			
- Dynion	25.8	25.7	25.7
- Merched	29.0	28.9	28.8

Mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio dull bloc adeiladu o weithio wrth benderfynu ar gyfradd yr adenillion ar asedau Cronfa. Astudir y marchnadoedd hanesyddol a chymerir yn ganiataol bod yr asedau mwyaf anwadal yn creu adenillion uwch, yn gyson ag egwyddorion marchnad

cyfalaf a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r gyfradd gyffredinol ddisgwyliedig o adenillion ar asedau'n deillio o gydgrynhoi'r gyfradd ddisgwyliedig o adenillion ar gyfer pob dosbarth o asedau dros ddyraniad gwirioneddol ar gyfer y Gronfa ar 31 Mawrth 2015.

Dadansoddiad o symudiadau'r gwarged (diffyg) yn ystod y flwyddyn

	31 Mawrth 2015 £M	31 Mawrth 2014 £M
Gwerth teg asedau'r gronfa	30.40	26.37
Gwerth presennol yr atebolrwydd	(42.57)	(36.64)
(Diffyg) yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	(12.17)	(10.27)

Dadansoddiad o'r swm a godwyd mewn perthynas â Chostau Gweithredu

	31 Mawrth 2015 £M	31 Mawrth 2014 £M
Cost gyfredol y gwasanaeth	0.90	1.09
Cost y gwasanaeth yn y gorffennol	0.08	0.00
Cost llog	0.41	0.86
Cost gydnabyddedig	1.39	1.95

Ailfesur symiau Cydnabyddedig mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall

	31 Mawrth 2015 £M	31 Mawrth 2014 £M
Adenillion ar asedau cynllun mwy na'r hyn a gydnabyddir yn y llog net	(2.29)	(1.50)
Colledion/(enillion) actwaraidd oherwydd y newid i ragdybiaethau ariannol	4.43	(3.38)
Colledion/(enillion) actwaraidd oherwydd y newid i ragdybiaethau demograffig	0.00	(1.78)
(Enillion) actwaraidd oherwydd profiad atebolrwydd	(0.23)	(2.28)
Cyfanswm y swm cydnabyddedig mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall	1.91	(8.94)
Cyfanswm y swm cydnabyddedig	3.30	(6.99)

Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth buddiannau pendant yn ystod y cyfnod cyfrifo

	31 Mawrth 2015 £M	31 Mawrth 2014 £M
Rhwymedigaeth buddiannau pendant agoriadol	36.64	41.67
Cost gyfredol y gwasanaeth	0.90	1.09
Cost llog ar rwymedigaeth pensiwn pendant	1.56	1.90
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	0.29	0.27
(Enillion)/colledion actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau ariannol	4.43	(3.38)
(Enillion)/colledion actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau demograffig	0.00	(1.78)
(Enillion) actwaraidd ar atebolrwydd - profiad	(0.23)	(2.28)
Buddiannau net a dalwyd	(1.10)	(0.85)
Cost y gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiad)	0.08	0.00
Rhwymedigaeth buddiannau pendant wrth gloi	42.57	36.64

Newidiadau i werth teg yr asedau yn ystod y flwyddyn

	31 Mawrth 2015 £M	31 Mawrth 2014 £M
Gwerth teg agoriadol yr asedau	26.37	22.48
Incwm llog ar asedau	1.15	1.04
Ailfesur enillion ar asedau	2.29	1.50
Cyfraniadau gan y cyflogwr	1.40	1.93
Cyfraniadau gan y cyfranogwyr	0.29	0.27
Buddiannau net a dalwyd	(1.10)	(0.85)
Gwerth teg yr asedau wrth gloi	30.40	26.37

Adenillion gwirioneddol ar asedau

	31 Mawrth 2015 £M	31 Mawrth 2014 £M
Adenillion disgwylidig ar asedau	1.15	1.04
Enillion actwaraidd ar asedau	2.29	1.50
Adenillion gwirioneddol ar asedau	3.44	2.54

Hanes gwerthoedd yr asedau, gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau pendant a diffyg

Enw	31 Mawrth 2015 £M	31 Mawrth 2014 £M	31 Mawrth 2013 £M	31 Mawrth 2012 £M	31 Mawrth 2011 £M
Gwerth teg yr asedau	30.40	26.37	22.48	19.22	18.32
Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau pendant	(42.57)	(36.64)	(41.67)	(36.41)	(31.32)
(Diffyg)	(12.17)	(10.27)	(19.19)	(17.19)	(13.00)

17. ADDASIADAU CYFNOD BLAENOROL

Yn hanesyddol, cydnabuwyd darpariaethau grant pan oedd cynnig pendant o grant o elw'r Loteri Genedlaethol wedi'i wneud gan Chwaraeon Cymru a'i dderbyn yn ysgrifenedig gan dderbynnydd y grant. Ar ôl y cyfarwyddyd newid cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Rhagfyr 2014, mae dyfarniadau grant yn cael eu cyfrif fel gwariant yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr ac, nes eu bod yn cael eu talu, fel croniad grant yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol os ydynt yn bodloni'r diffiniad sy'n galw am groniad yn unol â safon gyfrifo ryngwladol IAS 37.

Gan mai newid yn y polisi cyfrifo yw hwn, dywed IAS 8 ei bod yn ofynnol gweithredu'r newid gyda ffigurau cymharol 2013/14 ac mae'r nodyn hwn yn datgelu'r effaith ar y trafodion a'r balansau a adroddwyd yn flaenorol ar gyfer 2013/14. Mae'r newid yn effeithio ar (i) falans y cronfeydd cadw ar 1 Ebrill 2013, (ii) balans y cronfeydd cadw ar 1 Ebrill 2014 a (iii) Cyfanswm y Gwariant Net Cynhwysfawr yr adroddwyd arno ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14.

(i) Cysoni'r cronfeydd cadw agoriadol a ailddatganwyd ar 1 Ebrill 2013 â'r cronfeydd cadw agoriadol a nodwyd ar 1 Ebrill 2013 (ar gyfer pob datganiad ariannol y Loteri a archwiliwyd yn 2014/15)

	Balansau yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol £000	Balansau yn CChC £000	Cronfa Bensiwn Wrth Gefn £000	Cyfanswm £000
Cronfeydd Cadw a nodwyd yng nghyfrifon wedi'u harchwilio 2012/13 (ar 1 Ebrill 2013)	15,587	(3,175)	(4,414)	7,998
Effaith cydnabod croniad grant	-	(816)	-	(816)
Cronfeydd Cadw Wedi'u Hailddatgan ar 1 Ebrill 2013	15,587	(3,991)	(4,414)	7,182

(ii) Cysoni'r cronfeydd cadw agoriadol a ailddatganwyd ar 1 Ebrill 2014 â'r cronfeydd cadw agoriadol a nodwyd ar 1 Ebrill 2014 (ar gyfer pob datganiad ariannol y Loteri a archwiliwyd yn 2013/14)

Mae'r datgeliad hwn yn dangos effaith addasiad y cyfnod blaenorol ar y cronfeydd cadw agoriadol a nodwyd yn natganiadau ariannol 2014/15. Mae'n ystyried y symudiadau IAS37 yn ystod y flwyddyn, sy'n berthnasol yn awr i gyfrifon ariannol y Loteri yng ngoleuni newid mewn cydnabyddiaeth o ran pryd ddylid darparu ar gyfer dyfarniad grant.

	Balansau yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol £000	Balansau yn CChC £000	Cronfa Bensiwn Wrth Gefn £000	Cyfanswm £000
Cronfeydd Cadw a nodwyd yng nghyfrifon wedi'u harchwilio 2013/14 (ar 1 Ebrill 2014)	16,098	(2,007)	(2,362)	11,729
Effaith symudiadau IAS37 yn ystod y flwyddyn: Effaith cydnabod croniad grant	-	(475)		(475)
	-	-		
Cronfeydd Cadw Wedi'u Hailddatgan ar 1 Ebrill 2014	16,098	(2,482)	(2,362)	11,254

(iii) Cysoni Cyfanswm yr Incwm Net Cynhwysfawr a ailddatganwyd ar 31 Mawrth 2014 â Chyfanswm yr Incwm Net Cynhwysfawr a nodwyd (ar gyfer pob datganiad ariannol y Loteri a archwiliwyd yn 2013/14)

Mae'r datgeliad hwn yn dangos effaith addasiad y cyfnod blaenorol ar Gyfanswm yr Incwm Net Cynhwysfawr a nodwyd yng nghyfrifon 2013/14 wedi'u harchwilio. Mae Cyfanswm yr Incwm Net Cynhwysfawr yn cael ei ailddatgan i adlewyrchu bod dyfarniadau grant, o 2014/15 ymlaen, yn cael eu cyfrif fel gwariant yn y Datganiad o Incwm Net

Cynhwysfawr ac, nes eu bod wedi'u talu, fel cronid grant yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol os yw'r cynnig ffurfiol o grant wedi cael ei anfon at dderbynnydd y grant, ar yr amod nad oes unrhyw amodau arbennig ar y grant yn rhan o'r llythyr.

Yn hanesyddol, roedd ymrwymadau grant yn cael eu cydnabod fel arwydd bod cynnig cadarn o grant o elw'r Loteri Genedlaethol wedi'i wneud gan Chwaraeon Cymru a'i dderbyn yn ysgrifenedig gan dderbynnydd y grant.

Mae ffioedd 2013/14 a neilltuir i'r Loteri wedi gostwng cyfanswm y ffigur incwm net a nodwyd yn flaenorol.

	Cyfanswm £000
Cyfanswm yr Incwm Net Cynhwysfawr a nodwyd yn flaenorol (ar 31 Mawrth 2014)	3,731
Cynnydd Croniadau Grant (yn cael eu trin fel atebolrwydd wrth gefn yn flaenorol)	(474)
Gostyngiad yng ngwariant 2013-14 yn cael ei gydnabod yn 2012-13 nawr	816
Cyfanswm Incwm Net Cynhwysfawr wedi'i ailddatgan ar 31 Mawrth 2014	4,073

19. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD YN ÔL

Awdurdodwyd y cyfrifon hyn ar gyfer eu cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifo ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd yn Ôl.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifo a'r Bwrdd yw cynnal a chadw gwefan Chwaraeon Cymru a gwarchod ei hintegriti. Nid yw gwaith yr archwilydwr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilydwr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd o bosib i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno i ddechrau ar y wefan.

YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU**Cyfeirnod a Gwybodaeth Weinyddol**

Rhif yr elusen:	524477
Prif Swyddfa:	Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru Gerddi Sophia, Caerdydd CF11 9SW
Archwilwyr:	Archwilydd Cyffredinol Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd.

Ymddiriedolwyr a Swyddog Cyfrifo

Mae gan y sefydliad un Ymddiriedolwr Corfforaethol, sef Cyngor Chwaraeon Cymru. Ni dderbyniodd unrhyw dâl am ei wasanaeth yn ystod y flwyddyn (2013/14, £DIM).

Mae'r elusen yn ystyried yr Ymddiriedolwr, Cyngor Chwaraeon Cymru, fel y prif barti rheoli a'r rhiant gwmni. Nodir y cyfeiriad ar gyfer sicrhau copïau o ddatganiadau ariannol cyfnerthedig y rhiant gwmni uchod.

Adroddiad yr ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2015

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol yr elusen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2015. Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r polisiau cyfrifo yn nodyn 1 y cyfrifon ac maent yn cydymffurfio â gweithred ymddiriedolaeth yr elusen, Deddf Elusennau 2011 a'r Datganiad o Arferion a Argymhellir: Cyfrifo ac Adrodd yn Ôl gan Elusennau a gyhoeddwyd yn 2005.

Strwythurau, Llywodraethu a Rheoli**Dogfen Lywodraethu**

Cyfansoddwyd Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru, o dan Weithred Ymddiriedolaeth, ar 16 Mai 1972 gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

Penodi Ymddiriedolwyr

Mae'r Weithred Ymddiriedolaeth yn datgan "bydd yr Ymddiriedolwyr yn golygu Cyngor Chwaraeon Cymru".

Cyflwyno a Hyfforddi Ymddiriedolwyr

Darperir cyflwyniad a hyfforddiant drwy gyfrwng prosesau croesawu a hyfforddi Cyngor Chwaraeon Cymru.

Trefniadaeth

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi dirprwyo pŵer i is-bwyllgor a swyddogaeth yr is-bwyllor hwnnw yw ymarfer swyddogaethau'r Ymddiriedolaeth. Mae'r is-bwyllgor yn cynnwys dau aelod o Gymdeithas Chwaraeon Cymru ac o leiaf dwy ran o dair o aelodau Cyngor Chwaraeon Cymru.

Hefyd mae Prif Weithredwr Cyngor Chwaraeon Cymru yn gweithredu fel Swyddog Cyfrifo'r Ymddiriedolaeth, ond nid yw'n cael tâl am hynny gan yr Ymddiriedolaeth. Cyflawnir holl swyddogaethau gweinyddol yr Ymddiriedolaeth, fel mynychu cyfarfodydd, paratoi papurau a'r cyfrifon terfynol, gan gyflogeion Cyngor Chwaraeon Cymru heb unrhyw gost i'r Ymddiriedolaeth.

Ceir manylion cyfansoddiad Bwrdd Cyngor Chwaraeon Cymru a'r Uwch Dîm Rheoli Gweithredol yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer 2014/15. Ceir copïau o wefan Cyngor Chwaraeon Cymru www.chwaraeoncymru.org.uk neu o'i swyddfa gofrestredig:

Gerddi Sophia
Caerdydd
Cymru
CF11 9SW

Partion Cysylltiedig

Cyngor Chwaraeon Cymru yw Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Mae'r unig drafodion parti cysylltiedig sydd wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn yn ymwneud â pherthynas yr Ymddiriedolaeth â Chyngor Chwaraeon Cymru. Manylir ar y trafodion hyn yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Datganiad Llif Arian a Nodyn 7.

Rheoli Risg

Mae proses rheoli risg Cyngor Chwaraeon Cymru yn cynnwys Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru hefyd ac mae'r Datganiad Llywodraethu llawn i'w weld yn y cyfrifon cyfnerthedig.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2014/15, y prif ffactorau a oedd yn rhan o'r broses rheoli risg oedd y canlynol:

- Pedwar cyfarfod y flwyddyn o'r Pwyllgor Archwilio;
- Rhaglen archwilio fewnol, y cytunwyd arni gan y Pwyllgor Archwilio a'i chyflwyno gan yr archwilwyr mewnol a oedd wedi'u penodi ac a oedd yn adrodd yn ôl arni hefyd;
- Cadw Cofrestr Risg sy'n cael ei harchwilio ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio, gan adrodd yn ôl arni;
- Prosesau blynyddol i sicrhau bod pob risg yn cael ei datgan a'r mesurau rheoli'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Amcanion a Gweithgareddau er Lles y Cyhoedd

Dyma amcanion elusennol yr Ymddiriedolaeth:

- gwarchod a diogelu iechyd corfforol a meddyliol y gymuned drwy hamdden gorfforol (gan gynnwys chwaraeon) ac addysg yng nghyswllt hynny; a
- darparu cyfleusterau ar gyfer hamdden gorfforol (gan gynnwys chwaraeon) a fydd ar gael i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi edrych ar y cyfarwyddyd yng Nghanllawiau'r Comisiwn Elusennol ar Fudd y Cyhoedd wrth adolygu amcanion a nodau'r Ymddiriedolaeth ac wrth gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddau gyfleuster chwaraeon cenedlaethol "mewn ymddiriedolaeth" ac fe'u gweithredir a'u rheoli gan Gyngor Chwaraeon Cymru o dan Gytundeb Rheoli Cyfleusterau. Felly, mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei hamcanion elusennol drwy gyfrwng y cytundeb hwn gyda Chyngor Chwaraeon Cymru.

Adolygu Ariannol

Roedd yr adnoddau net yn mynd allan ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn yn (£46,000) - 2013/14 (£145,000). Yn gyffredinol roedd gostyngiad net yn y cyllid o (£82,000) - 2013/14 cynnydd o £965,000, a achoswyd yn bennaf gan ailbriso'r ddwy ganolfan genedlaethol o ganlyniad i'r prisiau proffesiynol ar 31 Mawrth 2015.

Polisi Arian Wrth Gefn

Gellir gwario arian cyhoeddus digyfyngiad yr Ymddiriedolaeth yn unol â disgresiwn yr Ymddiriedolwyr er mwyn hyrwyddo'r amcanion elusennol yn y Weithred Ymddiriedolaeth.

Cynlluniau ar gyfer Cyfnodau yn y Dyfodol

Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw gynlluniau mawr a fydd yn creu newid sylweddol i lefelau gweithgarwch presennol yr Ymddiriedolaeth. Er hynny, bydd lefel barhaus gweithgarwch yr Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar barhau i dderbyn arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng Cyngor Chwaraeon Cymru.

Datganiad ar Ddatgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol

1. Cyn belled ag y gŵyr y Swyddog Cyfrifo, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilyr yn ymwybodol ohoni, ac
2. Mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cymryd pob cam angenrheidiol er mwyn sicrhau ei bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac er mwyn sefydlu bod yr archwilyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

CYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR MEWN PERTHYNAS Â'R DATGANIADAU ARIANNOL

O dan ei Weithred Ymddiriedolaeth, dyddiedig 16 Mai 1972, mae'n ofynnol i Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar sail croniadau. Mae'r cyfrifon yn cyflwyno darlun cywir a theg o gyflwr materion yr Ymddiriedolaeth ar ddiwedd y flwyddyn ac o'r adnoddau sydd wedi dod i mewn a'r adnoddau sydd wedi'u gwario, a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gyflawni'r canlynol:

- cadw at y Datganiad o Arferion a Argymhellir a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiau cyfrifo addas ar sail gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a gadwyd at safonau cyfrifo priodol, a datgelu ac egluro unrhyw wyro sylfaenol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd yr endid yn parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Llywodraeth Cymru wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Mae ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodolrwydd a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau Chwaraeon Cymru, wedi'u datgan ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

SWYDDOG CYFRIFO:

S Powell

(AR RAN YR YMDDIRIEDOLWYR)

29 Mehefin 2015

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru

Yr wyf wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015, sy'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i ddefnyddio wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Priod gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwilydd annibynnol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ar dudalen 4, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Rwyf i wedi cael fy mhenodi fel archwilydd o dan adran 144 Deddf Elusennau 2011 ac rwyf yn adrodd yn ôl yn unol â'r rheoliadau o dan adran 154 y Ddeddf honno.

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn datgan ei bod yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol ar gyfer Archwilywyr.

Cwmpas yr archwiliad ar y datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys sicrhau tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol, sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatganiadau sylfaenol, boed yn cael eu hachosi gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisiau cyfrifo'n briodol i amgylchiadau'r elusen ac wedi cael eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n briodol; rhesymolrwydd yr amcangyfrifon cyfrifo arwyddocaol a wnaed gan yr ymddiriedolwyr; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Hefyd, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol a heb fod yn ariannol yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr, i ganfod

anghysonderau sylfaenol â'r datganiadau ariannol sydd wedi'u harchwilio ac i ganfod unrhyw wybodaeth sy'n sylfaenol anghywir yn ôl pob tebyg, neu'n sylfaenol anghyson â'r wybodaeth a gefais wrth i mi fynd ati i gynnal yr archwiliad. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylfaenol, rwyf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn cyflwyno darlun cywir a theg o gyflwr materion yr elusen ar 31 Mawrth 2015 ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn iddi a'i defnyddio o adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben; ac
- maent wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig a Deddf Elusennau 2011.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i mae'r wybodaeth yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion y mae'n ofynnol i mi adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno yng nghyswllt y materion canlynol, y mae'n rhaid i mi adrodd arnynt yn unol â Deddf Elusennau 2011 os yw'r canlynol, yn fy marn i, yn wir:

- nid oes cofnodion cyfrifo digonol wedi cael eu cadw;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Gorffennaf 2015

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

**DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL YMDDIRIEDOLAETH
CYNGOR CHWARAEON CYMRU AR GYFER Y FLWYDDYN A
DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2015**

	Nodiadau	2014/2015 £000	2013/2014 £000 Ailddatganwyd
		Arian Cyhoeddus Digyfyngiad	Arian Cyhoeddus Digyfyngiad
ADNODDAU'N DOD I MEWN			
Adnoddau'n dod i mewn o incwm a gynhyrchwyd -			
Incwm Gwirfoddol:			
Grant a dderbyniwyd gan Gyngor Chwaraeon Cymru	2	389	280
Cyfanswm yr Adnoddau'n Dod i Mewn		<u>389</u>	<u>280</u>
ADNODDAU A WARIWYD			
Dibrisiant	3	432	422
Costau llywodraethu:			
Ffi archwilio		<u>3</u>	<u>3</u>
Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd		<u>435</u>	<u>425</u>
ADNODDAU NET (YN MYND ALLAN)		(46)	(145)
(Colledion)/Enillion ar ailbriso asedau sefydlog diriaethol	3	(36)	1,110
Enillion/(Colledion) ar waredu asedau sefydlog	6	5	4
Elw o werthu asedau a ildwyd i Gyngor Chwaraeon Cymru	6	(5)	(4)
(GOSTYNGIAD)/CYNNYDD NET YN Y CYLLID AR GYFER Y FLWYDDYN		(82)	965
Cyfanswm y cyllid a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill	4	<u>18,937</u>	<u>17,972</u>
Cyfanswm y cyllid a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth	4	<u>18,855</u>	<u>18,937</u>

Mae'r gweithgareddau i gyd yn parhau
Mae'r holl enillion a cholledion wedi'u cydnabod

Mae'r nodiadau ar dudalennau 114 i 118 yn rhan
o'r cyfrifon hyn

**MANTOLEN YMDDIRIEDOLAETH
CYNGOR CHWARAEON CYMRU
AR 31 MAWRTH**

	Nodiadau	31 Mawrth 2015 £000	31 Mawrth 2014 £000
		Arian Cyhoeddus Digyfyngiad	Arian Cyhoeddus Digyfyngiad
ASEDAU SEFYDLOG			
Asedau sefydlog diriaethol	3	18,851	18,933
ASEDAU CYFREDOL			
Arian yn y banc ac mewn llaw		4	4
ASEDAU CYFREDOL NET			
		4	4
CYFANSWM ASEDAU LLAI ATEBOLRWYDD CYFREDOL			
		18,855	18,937
ARIANNWYD GAN:			
Cronfa Ailbriso Ddigyfyngiad	4	8,125	8,593
Cronfa Gyffredinol Ddigyfyngiad	4	10,730	10,344
Cyfanswm y cyllid digyfyngiad		18,855	18,937

SWYDDOG CYFRIFO: **S Powell**
(AR RAN YR YMDDIRIEDOLWYR)
29 Mehefin 2015

Mae'r nodiadau ar dudalennau 114 i 118 yn rhan
o'r cyfrifon hyn

DATGANIAD LLIF ARIAN YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2015

Nid oes datganiad llif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 wedi'i baratoi oherwydd ni chynhyrchodd yr Ymddiriedolaeth unrhyw drafodion ariannol yn ystod y flwyddyn.

Roedd yr holl gofnodion yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol naill ai'n syniadol, heb eu gwireddu neu wedi'u trafod drwy gyfrif banc Cyngor Chwaraeon Cymru.

	2014/2015 £000	2013/2014 £000
Cynnydd mewn arian parod yn ystod y cyfnod	-	-
Arian net ar 1 Ebrill	<u>4</u>	<u>4</u>
Arian net ar 31 Mawrth	<u>4</u>	<u>4</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 114 i 118 yn rhan o'r cyfrifon hyn

NODIADAU AR GYFRIFON YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2015

1. DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFO

1.1 Sail y cyfrifo

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol, o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gyfrif am ailbriso rhai asedau sefydlog. Heb gyfyngu ar y wybodaeth sydd wedi'i rhoi, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion y Safonau Cyfrifo a gyhoeddwyd ac a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo o ran bod y gofynion hyn yn briodol i'r Ymddiriedolaeth, a hefyd y Datganiad o Arfer a Argymhellir a gyhoeddwyd gan y Comisiynwyr Elusennau ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2005.

Rheolir y canolfannau cenedlaethol ar ran yr Ymddiriedolaeth gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Mae'r holl drafodion ariannol perthnasol i incwm a gwariant y canolfannau cenedlaethol yn cael eu dwyn i gyfrif gan Gyngor Chwaraeon Cymru, gan gynnwys y swm perthnasol i ddyledwyr a chredydwyr. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn paratoi cyfrif cyfnerthedig ar wahân sy'n dod â'r balansau perthnasol i'r Ymddiriedolaeth ac i'w faterion ariannol ei hun at ei gilydd.

1.2 Cyllid

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael grant syniadol gan Gyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf ar asedau sefydlog diriaethol ac i dalu costau gwasanaeth archwilio allanol. Credydur y grant hwn i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Mae'r elw o waredu'r holl asedau sefydlog diriaethol yn cael ei ildio i Gyngor Chwaraeon Cymru.

1.3 Adnoddau'n Dod i Mewn ac Adnoddau Sy'n Cael eu Gwario

Nid yw'r Ymddiriedolaeth, fel endid anweithredol, yn cael unrhyw incwm ar wahân i'r grant heb fod yn arian gan Gyngor Chwaraeon Cymru, enillion ar waredu asedau sefydlog ac unrhyw incwm buddsoddi mae'n ei dderbyn. Yn yr un modd, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn creu unrhyw wariant ar wahân i gyfrif am ddibrisiant ei asedau a'r ffi archwilio allanol.

1.4 Asedau sefydlog diriaethol

Mae Plas Menai yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth ac mae'r tir rhydd-ddaliadaeth wedi'i gynnwys ar y fantolen yn unol â'i werth ar y farchnad agored. Prydlesir Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru a chredir bod y tir yn cael ei ddal o dan y brydles weithredu ac felly nid yw wedi'i gynnwys ar fantolen yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r ddau adeilad wedi'u cynnwys ar y fantolen ar gost cyfnewid wedi'i ddibrisio i adlewyrchu natur arbenigol yr adeiladau. Sicrheir prisiaid proffesiynol bob blwyddyn.

Mae offer a cherbydau wedi'u cynnwys ar y fantolen yn unol â chost hanesyddol llai darpariaeth ar gyfer dibrisiant. Ym marn yr Ymddiriedolwyr, nid oes gwahaniaeth sylfaenol rhwng gwerthoedd llyfr net cost hanesyddol a chyfredol yr asedau hyn.

Mae gwerth cario'r asedau (ac eithrio tir ac adeiladau) yn cael ei adolygu ar bob dyddiad adrodd yn ôl er mwyn penderfynu a oes unrhyw arwydd o ddiffyg. Os ceir arwydd o'r fath, mae swm adferadwy'r asedau'n cael ei amcangyfrif. Swm adferadwy ased yw'r mwyaf o'i bris gwerthu net a'i werth o ran defnydd.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth drothwy cyfalafu o £5,000.

1.5 Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth ar yr holl asedau sefydlog diriaethol, gan ystyried amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol a'r gwerthoedd gweddillol a ragdybir. Mae oes yr ased at y pwrpas hwn fel a ganlyn:

Eiddo rhydd-ddaliadaeth	35 mlynedd
Eiddo prydes hir	35-50 mlynedd
Offer - cyfrifiaduron	3 blynedd
Arall	3 - 10 mlynedd
Cerbydau	5 mlynedd

Polisi'r Ymddiriedolaeth yw dibrisio asedau o'r mis ar ôl eu prynu.

1.6 Trethiant

Fel elusen gofrestredig, mae gan Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru hawl i eithriadau treth mewn perthynas ag incwm ac enillion cyfalaf a dderbynnir o dan Adrannau 478 - 489 Deddf Treth Gorfforaethol 2010 ac adran 256 Deddf Trethu Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y defnyddir y rhain gyda'i hamcanion elusennol yn unig. Nid oes unrhyw ffioedd treth wedi codi yn yr elusen.

1.7 Costau Gweinyddu

Telir holl gostau gweinyddu'r Ymddiriedolaeth yn uniongyrchol gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

2. GRANT A DDERBYNIWYD GAN GYNGOR CHWARAEON CYMRU

Derbyniwyd grant o £389,000 (2014 £280,000) gan Gyngor Chwaraeon Cymru a'i ddefnyddio ar gyfer y pwrpas canlynol:

	2014/2015 £000	2013/2014 £000
Prynu asedau cyfalaf	386	277
Ffi archwilio	3	3
	<hr/> 389	<hr/> 280

Ni thelir unrhyw arian parod i'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r grant uchod ac nid yw'n derbyn arian o'r fath. Yn hytrach, caiff y prynu asedau a thaliad y ffi archwilio ei

symud drwy gyfrif banc Cyngor Chwaraeon Cymru, a nodir ffigur syniadol sy'n cyfateb i'r gwariant hwn yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth.

3. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

	Tir ac Adeiladau Rhydd- ddaliadaeth Plas Menai	Adeiladau Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru	Offer	Cerbydau	TGCh	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2013	5,260	13,665	835	28	13	19,801
Ychwanegiadau	41	345	-	-	-	386
Gwaredu	-	-	(75)	(19)	-	(94)
Ailbriso	973	(1,441)	-	-	-	(468)
Ar 31 Mawrth 2015	6,274	12,569	760	9	13	19,625
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2014	-	-	(827)	(28)	(13)	(868)
Ffi am y flwyddyn	(174)	(258)	-	-	-	(432)
Gwaredu	-	-	75	19	-	94
Ailbriso	174	258	-	-	-	432
Ar 31 Mawrth 2015	-	-	(752)	(9)	(13)	(774)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2015	6,274	12,569	8	-	-	18,851
Gwerth Llyfr Net ar 1 Ebrill 2014	5,260	13,665	8	-	-	18,933

Cafodd tir ac adeiladau'r Ymddiriedolaeth eu prisio ar 31 Mawrth 2015 yn £18,843,000 gan Feistri Cooke ac Arkwright, Syrfewyr Siartredig. Cynhyrchwyd y prisiad yn unol â Safonau Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, 6ed Rhifyn. Cafodd yr adeiladau eu prisio gan ddefnyddio'r dull cost cyfnewid wedi dibrisio oherwydd eu natur arbenigol. Mae taliadau prydles o £3,071 y flwyddyn yn cael eu talu am Ganolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru. Mae pum deg tri o flynyddoedd yn weddill ar y brydles naw

deg naw mlynedd bresennol, sy'n cyfateb i ymrwymiad cyffredinol o £162,763. Cyllidir yr ymrwymadau sy'n weddill gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

Mae prisiad adeiladau Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru wedi gostwng oherwydd newid i'r dechneg amcangyfrif a ddefnyddir gan y Syrfewyr wrth benderfynu ar gost ailadeiladu'r adeilad.

4. CYSONI'R SYMUD ARIAN

	Cronfa ailbriso ddigyfyngiad	Cronfa gyffredinol ddigyfyngiad	Cyfanswm 2014/2015 £000	Cyfanswm 2013/2014 £000
	£000	£000		
Cyllid ar 1 Ebrill	8,593	10,344	18,937	17,972
Cyfanswm yr adnoddau'n dod i mewn	-	389	389	280
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd	-	(435)	(435)	(425)
Ailbriso asedau sefydlog diriaethol	(36)	-	(36)	1,110
Trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol	(432)	432	-	-
Cyllid ar 31 Mawrth	<u>8,125</u>	<u>10,730</u>	<u>18,855</u>	<u>18,937</u>

Mae'r gronfa ailbriso ddigyfyngiad wedi codi o ailbriso tir ac adeiladau Rhydd-ddaliadaeth ym Mhlas Menai ac yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru.

Mae'r gronfa gyffredinol ddigyfyngiad yn cynrychioli'r cyllid sydd ar gael i bob gweithgaredd arall y mae Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru yn ymgymryd â hwy fel y dangosir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

5. YMRWYMIADAU CYFALAF

	31 Mawrth 2015 £000	31 Mawrth 2014 £000
Contractiwyd ond heb dalu	<u>59</u>	<u>Dim</u>

Nid oes gan Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru unrhyw ymrwymadau cyfalaf oherwydd nid yw'n llunio unrhyw contractau a bydd yr ymrwymadau cyfalaf a ddangosir yn cael eu talu gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

6. GWAREDU ASEDU SEFYDLOG DIRIAETHOL

Arian Cyhoeddus Digyfyngiad	2014/2015 £000	2013/2014 £000
Gwerth llyfr crynswth	94	551
Dibrisiant wedi cronni	(94)	(551)
Gwerth llyfr net	<u>-</u>	<u>-</u>
Elw	<u>5</u>	<u>4</u>
Enillion /(colledion) ar waredu	<u>5</u>	<u>4</u>

7. TRAFODION PARTI CYSYLLTIEDIG

Er bod perthynas parti cysylltiedig rhwng yr Ymddiriedolaeth a Chyngor Chwaraeon Cymru, nid oes unrhyw drafodion parti cysylltiedig ychwanegol y mae'n rhaid eu datgelu yn natganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth. Manylir ar y trafodion hyn yn y Grant a dderbyniwyd gan Gyngor Chwaraeon Cymru, fel y dangosir yn Nodyn 2.

8. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y FANTOLEN

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y fantolen i effeithio ar y datganiadau ariannol hyn. Awdurdodwyd y datganiadau ariannol ar gyfer eu cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifo ar yr un dyddiad ag y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

sportwales
chwaraeoncymru



ADRODDIAD STRATEGOL

Mae ein pwrpas fel asiantaeth datblygu a hyrwyddo chwaraeon Cymru yn ddeublyg: ysbrydoli mwy o bobl i fod, a pharhau i fod, yn egnïol am oes; a rhoi hwb i berfformiad ein hathletwyr, ein timau a'n hyfforddwyr elitaidd. Mae hyn wedi'i gynnwys yn ein dyhead i 'Greu Cenedl o Bencampwyr' a 'Phob plentyn wedi gwirioni ar chwaraeon am oes'.

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn cyflawni'r amcanion hyn ac mae ganddo rôl i'w chwarae mewn dod â phartneriaid a phobl at ei gilydd; awdurdodau lleol, cyrff rheoli chwaraeon, cymunedau, hyfforddwyr, oedolion, pobl ifanc, plant a'r genedl gyfan i gefnogi chwaraeon a chymryd rhan a rhagori ynddynt. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio tuag at sicrhau cydraddoldeb yn ein holl swyddogaethau, gan groesawu ysbryd deddfwriaeth cydraddoldeb a dileu unrhyw ffurf ar wahaniaethu annheg.

DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

Fel corff sy'n llunio Ystadegau Swyddogol, rydym yn darparu data canlyniad hanfodol sy'n gadarn ac yn fanwl gywir, fel sail i bolisiau ac arferion chwaraeon ac i ddylanwadu ar benderfyniadau ar lefel genedlaethol a lleol. Ar hyn o bryd rydym yn casglu'r data hyn gan ddefnyddio dau arolwg ar raddfa fawr ar y boblogaeth, bob dwy flyneddⁱ.

Mae ein data diweddaraf yn dangos tueddiadau cadarnhaol o ran cyfranogiad pobl mewn chwaraeon. Mae hyn yn dangos bod ein dull strategol o weithredu'n arwain at ganlyniadau ac yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl Cymru.

Mae ein perfformiad yn erbyn ein mesurau allweddol wedi'i ddatgan yn y tablau isod:

	Pobl Ifanc (7-16 oed)	
	Wedi Gwirioni ar Chwaraeon ⁱⁱ	Aelodaeth o Glybiau Chwaraeon
2011	27%	46%
2013	40%	53%

	Oedolion (15+ oed)		
	Wedi Gwirioni ar Chwaraeon	Aelodaeth o Glybiau Chwaraeon	Gwirfoddoli mewn Chwaraeon
2008	29%	16%	5%
2012	39%	27%	10%

ⁱNid ydym yn gallu darparu data canlyniad ar gyfer 2010. Ni chadwodd y casglwyr data at y contract ac, o'r herwydd, nid oedd modd defnyddio'r data

ⁱⁱDiffinnir Wedi Gwirioni ar Chwaraeon fel cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos

Bydd data canlyniad newydd ar lefel poblogaeth ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc ac oedolion yn 2015/16.

Mae'r duedd gadarnhaol rydym yn ei gweld ar lefel genedlaethol yn cael ei hadlewyrchu yn y data allbwn rydym yn eu casglu gan ein sefydliadau partner, sy'n dangos bod yr aelodaeth gyffredinol o glybiau yn cynyddu a bod rhaglenni chwaraeon mewn ysgolion yn fwy poblogaidd nag erioed o'r blaen, gyda mwy o bresenoldeb.

	Cofrestriadau'r Ddraig	Presenoldeb 5x60	Amlledd 5x60 20	Pob sesiwn nofio am bob 1000 o'r boblogaeth	Cyfraddau dysgu nofio yn 11 oed	Nifer yr Hyfforddwyr a'r swyddogion gweithredol	Aelodaeth Dynion o Glybiau	Aelodaeth Merched o Glybiau	Aelodaeth Bechgyn o Glybiau	Aelodaeth Genethod o Glybiau	Nifer y Clybiau
Targed 2013-14	250,066	1,202,128	25,654	1,690	78%	50,281	295,028	52,665	158,098	51,909	5,840
Gwirioneddol 2013-14	229,687	1,351,530	22,234	1,456	74%	48,169	258,092	48,548	152,612	57,240	5,431
Targed 2014-15	241,201	1,312,960	27,624	1,609	78%	57,701	271,576	56,966	162,399	68,017	5,366
Gwirioneddol 2014-15	274,969	1,541,304	24,641	1,445	73%	51,765	282,413	72,182	127,601	45,697	5,448

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

National Procurement Service

Annual Report 2014/15

Table of Contents

Chapter	Page
1. Introduction – Sue Moffatt, Director, NPS	3
2. Governance	5
3. Categories	7
4. Contract and Framework Agreements	14
5. Business Intelligence	20
6. Communications	21
7. Key Events	22
8. NPS Staffing Levels	24
9. NPS Future Funding – Income Generation	28
10. Finance Report for 2014-15	29
11. Forward Look	30

1. Introduction – Sue Moffatt, Director, National Procurement Service (NPS)

As a newly formed organisation set up by the Welsh Government the focus of the NPS is to deliver all-Wales contracts and frameworks in areas of common and repetitive spend. The over riding objective is to Buy Once for Wales while, embedding the Wales Procurement Policy Statement into all its work.

During the first year of operation our priority was on recruiting a team of category procurement professionals, developing and implementing processes, transition of existing contracts and establishing and determining the future work programme.

I am delighted to report that this has been achieved. We now have a full staff in place, located across Wales, have transferred across a large number of contracts and are equipped to deliver an initial pipeline of collaborative procurements up to the value of £1.1bn.

Driving collaborative procurement is central to the work of the NPS. With the reduction in public sector budgets, the savings that collaborative procurement can offer is critical to provide the cashable savings for re-investment to front line operational services across Wales

At the end of our first full financial year, our first milestone, I can report cashable savings of over £7million from both NPS and other public sector contracts we have taken on, and in some cases have renegotiated to improve the value. This has exceeded what was set out in the original business case.

We have established a commitment to reduce bureaucracy for suppliers, to run all procurements in a timely manner, in line with EU procurement law and based on a lean methodology. We also operate in a transparent manner, reporting any exceptions and NPS ensures fair and open competition at all times.

In March, the NPS, in conjunction with Value Wales and Business Wales, welcomed over 500 delegates to the inaugural Procurex Wales Live. This was the largest ever gathering in Wales of procurement professionals connecting both buyers from the Welsh public sector with current and future suppliers. It was a great success and has helped raise the profile of public sector procurement in Wales.

This first year was always going to be a transition period, building the team and starting to build the evidence that a NPS can deliver both value for money and drive an increase in Welsh suppliers winning public sector business. It is a truly exciting time for the NPS in Wales as we continue to work more efficiently and collaboratively on behalf of the public sector. We have a team

of committed and expert individuals in place who are eager to rise the challenges ahead.

2. Governance

Following the recommendations of the John McClelland Review of procurement governance across Wales, commissioned by the Minister for Finance and Government Business, creation of a national service also meant the need for an agreed governance structure for NPS which was agreed by the Minister for Finance and Government Business.

NPS Board

NPS is accountable to the NPS Board which comprises of CEO Representatives from across the Welsh public sector and oversees the strategic direction of NPS. The NPS Board originally met on a bi-monthly basis but now meets quarterly. Sector representation includes Welsh Government, NHS, Education, Police, Local Government, Fire and Rescue and Welsh Government sponsored bodies.

The Chair of the NPS Board is Steven Morgan, Ministry of Defence(MOD), who was appointed for a three year period, under the NOLAN principles and chaired his first meeting in June 2014. Two meetings were held prior to this chaired by Neil Frow - Director, NHS shared services, in his role as interim chair.

Delivery Group

The NPS Delivery Group consists of senior procurement leaders from across all sectors in the Welsh public sector. Sector representation includes Welsh Government, NHS, Education, Police, Local Government, Fire and Rescue and Welsh Government Sponsored Bodies. The group which meets on a monthly basis, provides operational direction and approval of the NPS' work programme, including approval to proceed with procurement strategies and ensures that savings plans developed by the NPS are robust and deliverable. The Delivery Group is chaired by Sue Moffatt, Director, NPS. The first meeting was held in April 2014.

Category Forums

Category Forum Groups have been set up to shape procurement strategies in advance of them going to the Delivery Group for approval. The forums which consist of specialist, technical and customer representatives ensure that adequate consultation with the sector has taken place and that barriers to the adoption of the strategies are reduced. Category Forum Members are agreed by the NPS Delivery Group.

Governance Documentation

A suite of governance documentation is now in place for NPS, including standard terms of reference which have been developed and are in place for all of the above governance forums.

Opt Out Guidance

At the point of commitment to the NPS, each organisation was given the opportunity to opt out of categories within scope of NPS. If an organisation did not opt out at this stage then the organisation has committed to using the contracts and frameworks put in place by NPS.

A formal 'opt out' process has now been put in place, with a business case process and approval or rejection of the business case decision sitting under the governance and jurisdiction of the NPS Board. If a member organisation wants to opt out of a procurement exercise then they must provide detailed financial and business justification. Detailed guidance, templates and flowcharts have been developed and circulated to all member organisations.

Customer Charter

In September 2014 NPS completed a review of the customer charter. The customer charter was originally developed in January 2014 and sets the roles of the NPS, expectations of customer organisations and the work that NPS will carry out with suppliers.

3. Categories

NPS has implemented a category management approach and was established with 7 overarching categories of common and repetitive spend.

Common and repetitive spend is determined through an agreed taxonomy using Proclass level 3 and E-Class classification of accounts payable spend taken from stakeholder finance systems.

One of the core deliverables for the 2014/15 year of operation of the NPS was a review of the Outline business Case and re-stating of the targets in a four year business plan. One of these deliverables was to agree the classification of spend.

Food was originally only partially included and further work was carried out to scope the category with the NPS Board agreeing that Food would also be undertaken by NPS for which a strategy is currently under development. Details of each of the categories are listed below.

To view full detailed versions of the category pipelines, please visit the NPS website: <http://nps.gov.wales/pipeline/future-pipeline>

Construction and Facilities Management

The construction and facilities management category covers a broad range of goods and services required by the Welsh public sector to maintain and deliver 21st century infrastructure and buildings to our citizens.

Work has also been undertaken in preparation for NPS to incorporate Utilities as an area within its procurement portfolio of activity.

K e y		Preparation (Analysis, Decision Point, Document Preparation)
		Tender (Tender is live and open for bid submission)
		Evaluation/Recommendation
		Award and Go Live

Construction FM and Utilities Procurement Activity Pipeline		Quarter 1	Quarter 2	Quarter 3	Quarter 4	Quarter 1	Quarter 2	Quarter 3	Quarter 4
Planned Project	Estimated Annual Value	Apr - Jun 2015	Jul - Sep 2015	Oct - Dec 2015	Jan - Mar 2015	Apr - Jun 2016	Jul - Sep 2016	Oct - Dec 2016	Jan - Mar 2016
Civil Engineering Maintenance: Rock Salt	£4,250,000								
Civil Engineering Maintenance: Road Markings	£200,000								
Civil Engineering Maintenance: Maintenance & Traffic Control Systems	£200,000								
Civil Engineering Maintenance: Provision of Highways Lighting Products	£2,500,000								
Construction Materials: Electrical, Heating & Plumbing	£10,000,000								
<http://www.cewales.org.uk/cew/wp-content/uploads/Construction-Procurement-Strategy-E.pdf>

<http://www.cewales.org.uk/cew/wp-content/uploads/Construction-Procurement-Strategy-W.pdf>

Community Benefits

Procurement is viewed as a key driver for delivering the organisations sustainable development commitments. The organisation is striving to develop a vibrant Welsh economy capable of delivering strong and sustainable economic growth by providing opportunities for everyone in Wales. Sustainable Development means ensuring that our actions contribute in the round to social, economic and environmental well-being now and in the future; improving the environment, building stronger communities, reducing social exclusion and poverty and encouraging the development of the economy. The organisation’s commitment to deliver ‘community benefit’ outcomes from our procurement activity is designed to ensure that wider social and economic issues are taken into account when spending public money. The intention is to achieve the very best value for money in the widest sense.

At award of contract following a mini competition, within the highest value bands, the successful tenderer will be expected to work with the contract manager to maximise the community benefits delivered through the contract. The community benefits element may at this point, where appropriate and applicable, form a special condition of contract and expectations in terms of fulfilment of such benefits will be outlined per individual contract. These benefits will be on a non-core basis, i.e. they will not form part of the contract award criteria however will become a condition of the contract.

Examples of the types of community benefits that may be sought include:-

- 1. Training and employment opportunities including work placement for undergraduates, working with local schools and colleges including work experience etc.**
- 2. Contributing to local regeneration schemes/initiatives**
- 3. Other benefits as appropriate to the contract under consideration**

Ymateb i Adroddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cymru ar y Gwasanaeth Awyr oddi fewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn: Adroddiad Terfynol

Argymhelliad 1. Wrth iddi gomisiynu cyngor allanol, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru nodi rhychwant manwl y gwaith angenrheidiol ymlaen llaw ac y dylai unrhyw newidiadau yn y rhychwant hwnnw wedyn gael eu hategu ag achos busnes clir.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Wrth gomisiynu cyngor allanol mewn cysylltiad â Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru, bydd Llywodraeth Cymru'n pennu rhychwant clir a manwl i'r gwaith dan sylw. Gallai Llywodraeth Cymru ddewis lleihau, newid neu gynyddu y rhychwant hwnnw yn sgil clywed y dystiolaeth a roddir wrth gomisiynu, lle bo'r rheolau caffael yn caniatáu hynny.

Argymhelliad 2. Er mwyn caniatáu hyblygrwydd iddi ei hun i wneud penderfyniadau amserol ac effeithiol, dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad bob tair blynedd o contractau a fydd yn dirwyn i ben ac erbyn pa bryd y mae angen dyfarnu contractau newydd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad contract y Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru at ddiben unrhyw adolygiad yn y dyfodol ynghylch parhau'r gwasanaeth ar ôl dyddiad ola'r contract yn 2018. Caiff unrhyw adolygiad yn y dyfodol ei gwblhau mewn da bryd i gyfrannu at yr ymarfer caffael.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, mewn cysylltiad â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, ddarparu asesiad o (a) costau ac effaith agor RAF Valley ar y penwythnos, o'i gymharu ag arfarniad o'r refeniw tebyg ac unrhyw fanteision eraill yn sgil gweithredu; a (b) addasiadau posibl ym Maes Awyr Ynys Môn i ymdopi â nifer fwy o deithwyr, gan gynnwys defnyddio'r cyfle a geir yn sgil gwaith gwella arfaethedig y Llu Awyr.

Ymateb: Derbyn

Bu Llywodraeth Cymru'n trafod y materion hyn gyda RAF Valley a Chyngor Ynys Môn yn ystod proses caffael y contract presennol. Byddwn yn dal i ymchwilio gyda phob carfan y cyfleoedd posibl ar gyfer estyn amserau agor RAF Valley, gan gynnwys ar y penwythnosau. Byddwn yn parhau hefyd i ymchwilio i botensial y maes awr i fodloni'r Rhaglen Ddiogelwch Genedlaethol ar Awyrennau (NASP) er mwyn i awyrennau mwy allu cael eu defnyddio ar y llwybr pe gwelid bod y galw masnachol ac ymhlith teithwyr am hynny.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau i sicrhau bod y newid yn y llwybr am fod RAF Valley yn cau

dros dro yn cael ei gyfleu i'r darpar deithwyr ymhell ymlaen llaw er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn sicrhau bod cwmni'r gwasanaeth, Links Air, yn rhoi gwybod i deithwyr am unrhyw newid i'r gwasanaeth os bydd RAF Valley'n cau dros dro. Byddwn yn dal i gadw mewn cysylltiad â Chyngor Ynys Môn, RAF Valley a Links Air er mwyn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar ddefnyddwyr y gwasanaeth os bydd RAF Fali'n cau am gyfnod.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati gyda Links Air i ystyried dibenion eraill i'w awyren rhwng ei hediadau o dan y PSO, yn enwedig y rhai a allai fod o les mewn manau eraill.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn parhau i annog Links Air i ddatblygu opsiynau ar gyfer llwybrau masnachol gan ddefnyddio'r awyrennau sydd ganddynt yng Nghymru.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad ar niferoedd y teithwyr a rhoi esboniad ar gyfer unrhyw anghysondeb rhyngddyn nhw a ffigurau'r CAA ym mis Ionawr 2016.

Ymateb: Derbyn

Cafwyd mwy o deithwyr yn ystod chwe mis cynta'r contract newydd nag yn yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Byddwn yn cyhoeddi niferoedd teithwyr bob blwyddyn ac yn eu cymharu hefyd â'r ffigurau a gyhoeddir gan yr Awdurdod Hedfan Sifil.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n bwriadu defnyddio canfyddiadau'r arolygon teithwyr angenrheidiol i nodi sut i gynyddu niferoedd y teithwyr.

Ymateb: Derbyn

Bydd yr arolygon teithwyr yn erfyn pwysig i Links Air ei ddefnyddio i weld beth mae'r teithwyr am weld y gwasanaeth awyr yn ei ddarparu. Dylai'r canlyniadau fod yn adnodd gwerthfawr i'r cwmni gan ei alluogi i farchnata'r gwasanaeth yn well i gynyddu nifer y defnyddwyr.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cost y cymhorthdal i bob teithiwr bob hyn a hyn, ynghyd â'i hasesiad o werth y gwasanaeth am arian, gan ddefnyddio cymariaethau addas, a hynny'n flynyddol.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn cyhoeddi cyfrifiad o gost y cymhorthdal fesul teithiwr wrth gyhoeddi ffigurau blynyddol y teithwyr er mwyn gallu asesu a yw'r gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn arfarnu gwaith marchnata'r cynllun, a ddylai gael ei wneud yn gynnar yn 2016.

Ymateb: Derbyn

Un o'r prif fatricsau y byddwn yn ei ddefnyddio i asesu llwyddiant strategaeth farchnata Links Air fydd y cynnydd yn nifer y teithwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Byddwn yn adolygu strategaeth farchnata Links Air, y deunydd a gynhrychir, y gwariant a'r targedau a drawyd er mwyn sicrhau eu bod yn marchnata'r gwasanaeth yn unol â chytundeb y cytundeb.



24 Cathedral Road / Heol y Gadeiriau
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cyfeirnod	PA152/MM/hcj
Dyddiad	18 Medi 2015
Tudalen	1 o 3

Annwyl Darren

Ymateb Llywodraeth Cymru – Gwasanaeth Awyr o fewn Cymru

Roedd llythyr y Clerc, dyddiedig 10 Medi, yn gofyn am gyngor yr Archwilydd Cyffredinol ynglŷn ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad terfynol y Pwyllgor ar y *Gwasanaeth Awyr o fewn Cymru - Caerdydd i Ynys Môn*. Mae'r Archwilydd Cyffredinol ar ei wyliau blynyddol ac yn ei absenoldeb mae wedi gofyn i mi ymateb ar ei ran. Er bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn saith allan o naw argymhelliad y Pwyllgor, gan dderbyn y ddau sy'n weddill mewn egwyddor, mae nifer o faterion sy'n gofyn am eglurder.

Argymhelliad 1: Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, ar y sail ei bod yn cadw'r hawl i newid cwrpas comisiwn lle bo modd o fewn rheolau caffael. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn hyn o beth yn ymddangos yn rhesymol. Fodd bynnag, mae'r ymateb wedi ei fframio yn syml yng nghyd-destun unrhyw gyngor allanol yn y dyfodol ynghylch y Gwasanaeth Awyr. Yr hyn yr oeddem ni'n ei ddeall oedd bod y Pwyllgor yn gwneud yr argymhelliad hwn ynglŷn ag ymarfer Llywodraeth Cymru'n gyffredinol ac felly ei fod yn gofyn am ymateb mwy corfforaethol.

Efallai yr hoffai'r Pwyllgor gyfeirio'n ôl at adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Chwefror 2013 ar *Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori*. Roedd un o'r argymhellion yn yr adroddiad hwnnw yn ymwneud â gwaith cyrff cyhoeddus yn datblygu dogfennaeth dempled i egluro'r holl ffactorau hanfodol y dylent eu hystyried wrth brynu gwasanaethau ymgynghori. Cyfeiriai'r argymhelliad at fynegi'n gynnar yn y broses pa wasanaeth yn union oedd ei angen, beth oedd y deilliannau a ddymunid a beth oedd y costau tebygol, er mwyn creu sylfaen gadarn ar gyfer cymeradwyo prosiect a rheoli a gwerthuso'r contract yn ddiweddarach. Yn ei adroddiad ei hun ar yr un pwnc ym mis Medi 2013, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn datblygu canllaw a thempledi er mwyn sicrhau bod achosion busnes yn bodoli ar gyfer ymarferion caffael gwahanol, a'u bod yn gadarn. Rydym ni'n deall y bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol cyn bo hir efallai yn cyflwyno tystiolaeth ar y camau a gymerwyd mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar wasanaethau ymgynghori.

Argymhelliad 2: Eto, mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r argymhelliad hwn yn benodol yng nghyd-destun contract y Gwasanaeth Awyr, yn hytrach nag o safbwynt mwy corfforaethol. Gyda golwg ar y Gwasanaeth Awyr, nid yw'r sail dros dderbyn yr argymhelliad mewn egwyddor yn unig yn gwbl glir. O gofio pryder y Pwyllgor gynt ynghylch y raddfa amser ar gyfer yr ymarferiad caffael diweddaraf, efallai y byddai wedi bod yn fuddiol i'r ymateb fod wedi cadarnhau y cyfnod o amser arfaethedig ar gyfer cwblhau adolygiad fel sail ar gyfer unrhyw ymarferiad caffael yn y dyfodol cyn i contract y Gwasanaeth Awyr presennol ddod i ben ym mis Rhagfyr 2018.

Argymhelliad 3: Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i barhau i weithio gyda'r holl bartion i edrych i mewn i gyfleoedd i ymestyn yr amseroedd agor yn RAF y Fali a'r posibilrwydd i'r maes awyr gael ei ddatblygu i'w gwneud yn bosibl defnyddio awyrennau mwy o faint ar lwybr y Gwasanaeth Awyr. Er bod yr ymateb yn cyd-fynd ag ysbryd argymhelliad y Pwyllgor, cymerasom y byddai'r Pwyllgor ar ryw bwynt yn disgwyl derbyn tystiolaeth fyddai'n egluro asesiad Llywodraeth Cymru o'r materion hyn, ac unrhyw gostau a manteision cysylltiedig. Yn achos y defnydd o awyrennau mwy o faint, mae'n ddealladwy y byddai'n well cynnal unrhyw asesiad o'r fath pan fydd yna hefyd dystiolaeth gliriach fod yna gynnydd yn y galw, i gefnogi defnyddio awyrennau mwy.

Argymhelliad 4: Byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe gallai Llywodraeth Cymru fod wedi ail gadarnhau'r amserlen ddisgwyliedig ddiweddaraf ar gyfer cau'r RAF yn y Fali, o gofio'r llithriad blaenorol, ac wedi llunio'r amserlen gysylltiedig ar gyfer teithwyr. Y safbwynt a gâi ei adlewyrchu yn adroddiad y Pwyllgor oedd y disgwyliad i'r cau ddigwydd yn haf 2016. Tynnai argymhelliad y Pwyllgor sylw at yr angen am gyfathrebu 'ymhell ymlaen llaw' er mwyn tarfu gyn lleied ag y bo modd ar ddefnydd y gwasanaeth.


Argymhelliad 6: Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gyhoeddi data teithwyr blynyddol ar ddechrau 2016, byddai wedi bod o fudd pe gallai'r ymateb fod wedi cyfrif y niferoedd uwch o deithwyr yn chwe mis cyntaf y contract presennol o'u cymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

Argymhellion 7 a 9: Mae'r ymateb i Argymhelliad 7 yn ymddangos fel pe bai'n gosod y baich ar Links Air i wneud defnydd o wybodaeth yr arolwg teithwyr. Fodd bynnag, mae'r ymateb i argymhelliad 9 yn cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu strategaeth farchnata Links Air. Rydym yn cymryd y byddai unrhyw adolygiad o'r fath yn cymryd gwybodaeth berthnasol allan o'r arolygon teithwyr i ystyriaeth. Er hynny, nid yw ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad 9 yn cadarnhau a fydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2016 fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor.

Argymhelliad 8: Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi addewid pendant y bydd yn cynnwys unrhyw gymariaethau addas pan fydd yn cyhoeddi'r ffigurau teithwyr blynyddol a'i asesiad o'r gwasanaeth o ran gwerth am arian.

Hyderaf fod y cyngor hwn o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Matthew Mortlock'.

Matthew Mortlock
Cyfarwyddwr Archwilio Perfformiad

Lesley Griffiths AC / AM
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF-LG-2246-15

Darren Millar AC
Cadeirydd – y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

25 Awst 2015

Annwyl Darren

Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Ymateb i Ddiwygio Lles yng Nghymru

Diolch am y copi o adroddiad eich Pwyllgor, a anfonwyd at yr Ysgrifennydd Parhaol ar 28 Gorffennaf 2015.

Amgaeaf gopi o ymateb Gweinidogion Cymru i'r adroddiad uchod a gaiff ei osod gerbron y Swyddfa Gyflwyno.

Ar ran y Cabinet, hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor am y modd gofalus ac ystyriol y gwnaethoch gynnal yr ymchwiliad a llunio'r adroddiad.

Lesley Griffiths AC / AM
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Atodiad 1

Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar: Ymateb i Ddiwygio Lles yng Nghymru a gyhoeddwyd ar 28 Gorffennaf 2015.

Croesawn ystyriaeth fanwl y Pwyllgor a nodir yn ei adroddiad. Mae'r canlynol yn ymateb i bob argymhelliad.

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth i reoli effaith diwygio lles lle mae wedi arwain at leihau taliadau lles yng Nghymru. Dylai hyn nodi arferion gorau, darparu arweinyddiaeth gydlynol a gwella cysondeb rhwng y dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a'r trydydd sector ar gyfer ymdrin â diwygio lles.

Derbyniwyd yn Rhannol

Derbynnir yr egwyddorion cyffredinol sy'n sail i argymhelliad y Pwyllgor. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod lliniaru effaith diwygio lles yn un elfen o'i strategaeth ehangach ar drechu tlodi¹. Nid oes achos cymhellol dros gael strategaeth arall, ar wahân. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth yn y maes hwn gyda golwg ar nodi'r angen am weithredu a chyflawni rhaglen wedi'i chynllunio a'i chydlynu, ar y cyd â sefydliadau rhanddeiliaid i helpu pobl i ymdopi ag effaith diwygio lles. Byddai'r rhaglen yn rhan o weithredu strategaeth y Llywodraeth i drechu tlodi, ac yn cyfrannu at weithredu'r strategaeth hon.

Ers mis Medi 2011, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddiwygio Lles wedi monitro effaith debygol diwygio lles a darparu trosolwg strategol ar gyfer y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd o ran lliniaru. Comisiynodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol raglen gynhwysfawr o ymchwil i asesu effaith y diwygiadau hyn. Mae'r holl adroddiadau ymchwil wedi cael eu cyhoeddi ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru. Mae'r dadansoddiad hwn wedi cael ei rannu, drwy gyfres o Ddigwyddiadau Rhanddeiliaid, ag amrywiaeth o sefydliadau sy'n cymryd rhan weithredol i ymdrin ag effaith diwygio lles. Mae'r digwyddiadau hyn wedi galluogi'r sefydliadau hynny i rannu eu canfyddiadau a rhoi adborth i Weinidogion, yn fwyaf diweddar ym mis Mehefin 2015.

Bydd y Bil Diwygio Lles a Gwaith yn cyflwyno newidiadau a thoriadau pellach o ran budd-daliadau, fel yr amlinellwyd yng Nghyllideb Haf 2015 y DU ar 8 Gorffennaf 2015. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol wedi comisiynu ymchwil bellach i asesu effaith debygol y diwygiadau hyn yng Nghymru. Disgwylir y bydd yr adroddiad ymchwil nesaf ar gael yr hydref hwn.

Gwnaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen a arweiniwyd gan Lywodraeth Cymru i ystyried gwaith i liniaru effaith y meini prawf maint Budd-dal Tai gyflwyno adroddiad ym mis Chwefror 2014 gan wneud cyfanswm o 16 o argymhellion – ac mae'r cyfan wedi cael eu gweithredu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a sefydliadau'r Trydydd Sector i nodi'r angen am weithredu pellach ac i gyflawni drwy raglenni presennol a gweithredu newydd gymorth ychwanegol i helpu pobl i ymdopi â diwygio lles pellach.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfres o opsiynau a ystyriwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar gyfer ymateb i ddiwygio lles. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad cost/budd o liniaru effaith lawn diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy daliadau tai yn ôl disgresiwn, fel y dewisodd Llywodraeth yr Alban ei wneud.

Derbyniwyd yn Rhannol

¹ <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150327-child-poverty-strategy-walesv2-cy.pdf>
<http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150706-reducing-poverty-action-plan-2015-cy.pdf>

Yn ystod tymor hwn y Llywodraeth, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol wedi ystyried amrywiaeth eang o weithredoedd efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru eu cymryd mewn ymateb i ddiwygio lles, yn amrywio o benderfyniadau polisi sy'n ofynnol mewn ymateb uniongyrchol i benderfyniadau gan Lywodraeth y DU, i gamau gweithredu anuniongyrchol i fynd i'r afael â chanlyniadau posibl. Byddai'n anymarferol cyhoeddi manylion ar bob agwedd y mae'r Grŵp wedi ei ystyried. Fodd bynnag, caiff crynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru i ddiwygio lles ei ychwanegu at y tudalennau diwygio lles ar ein gwefan.

Mae ein hymchwil wedi ystyried yr effeithiau tebygol yng Nghymru yn sgîl lliniaru effaith meini prawf maint Budd-dal Tai ac mae hefyd yn rhoi arwydd o'r costau a'r budd-daliadau a all gael eu gwireddu pe bai Llywodraeth Cymru yn lliniaru effaith lawn y polisi drwy gynyddu taliadau tai yn ôl disgrisiwn. Fodd bynnag, roedd cost cyfle dargyfeirio cyllid i ymrwymiad rheolaidd o tua £20m y flwyddyn yn gwrthbwyso'r manteision amcangyfrifedig. Roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi llunio ymrwymiad blynyddol o faint tebyg ar Ostwng y Dreth Gyngor (gyda 307,000 o aelwydydd yn elwa ar ddiwedd 2014/15) a chyda cyllidebau'n lleihau, byddem wedi gorfod rhoi terfyn ar raglenni eraill neu eu lleihau, rhaglenni ag iddynt werth tymor hwy, ataliol, fel gweithredu i atal digartrefedd, er mwyn lliniaru effaith y meini prawf maint Budd-dal Tai.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn gwerthuso data allweddol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai mewn perthynas â: -proffil y rhai sy'n derbyn Budd-dal Tai yng Nghymru; -diffygion rhent; -costau casglu dyledion; -atgyfeiriadau i fanciau bwyd a gwasanaethau cynghori; -nifer yr asesiadau gallu ariannol a wneir; -gwybodaeth gan denantiaid am effaith bersonol diwygio lles. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am ddiwygio'r cymhorthdal ystafell sbâr hefyd er mwyn nodi faint o denantiaid sydd wedi symud neu golli eu cartref, wedi trosglwyddo i eiddo tai cymdeithasol arall neu i'r sector rhentu preifat, ac nad ydynt yn hawlio Budd-dal Tai mwyach.

Derbyniwyd yn Rhannol

Fel rhan o'i waith i ddeall ac asesu effaith diwygiadau lles ar bobl yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn ystyried data o amrywiaeth eang o ffynonellau. Mae hyn yn cynnwys data ar broffil derbynwyr Budd-dal Tai yng Nghymru y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyhoeddi data arnynt yn chwarterol.

Drwy enghreifftiau o fonitro data eraill, caiff gwybodaeth am ddiffygion rhent ei chasglu gan landlordiaid cymdeithasol ar ffurf data ôl-ddyledion rhent. Mae'r cyfrif blynyddol hwn yn cael ei ddadgyfuno fesul awdurdod lleol ac yn ôl a yw ôl-ddyledion ar gyfer llai neu fwy na 13 wythnos ar y pwynt y cesglir y data. Mae'n eithriadol o heriol mesur diffygion rhent yn y Sector Rhentu Preifat oherwydd bod yn sector yn fwy amrywiol.

Mae tystiolaeth ar gostau casglu dyledion yn cael ei darparu yng ngwerthusiadau'r Adran Gwaith a Phensiynau o ddiwygio lles. Mae Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau ar ymchwil a gwerthuso. Ceir data ar fanciau bwyd gan ddarparwyr, fel Ymddiriedolaeth Trussel, sy'n cynnal rhwydwaith o fanciau bwyd ledled Cymru. Mae trafodaethau rhagarweiniol hefyd wedi'u cynnal â hwy am y data maent yn eu casglu ac a oes gwybodaeth fanylach ar gael i lywio dadansoddiad ystadegol llawn a chywir ar y defnydd o fanciau bwyd. Rydym yn ymchwilio ar hyn o bryd i ba ddata sydd ar gael yn awr, ac a oes modd cyflawni unrhyw welliannau drwy ddefnyddio ffynonellau a thystiolaeth ymchwil bresennol. Yn gysylltiedig â hyn, mae gennym ymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi i ddatblygu cyfres o ddangosyddion ar dlodi bwyd. Mae'r gwaith hwn yn barhaus, gyda'r bwriad o ddarparu data lefel poblogaeth ar dlodi bwyd. Mae data ar atgyfeiriadau i wasanaethau cyngor hefyd yn cael eu hystyried gan ddarparwyr fel Cyngor ar Bopeth a Shelter Cymru, sy'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae asesiadau gallu ariannol yn fater amserol ac maent yn destun gweithredu presennol i astudio polisiâu ac arferion awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (gweler yr ymateb i argymhelliad 8).

Mae gwybodaeth am effaith bersonol diwygio lles ar denantiaid gan gynnwys, er enghraifft, effaith y meini prawf maint Budd-dal Tai wedi cael ei hystyried fel rhan o weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i helpu pobl i ymdopi â newidiadau i Fudd-dal Tai. Byddwn yn parhau i ystyried y defnydd o ymarferion casglu data achlysurol i lywio'r her ehangach o liniaru effaith diwygio lles ar denantiaid yn y sector rhentu cymdeithasol. Gall hyn fod yn rhywbeth sy'n cael ei gomisiynu fel rhan o'n rhaglen ymchwil. Yn y cyfamser, mae ein hymchwil wedi defnyddio data arolwg a gyhoeddwyd gan adrannau Llywodraeth y DU a sefydliadau ymchwil. Rydym hefyd yn rhagweithiol o ran monitro tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft gwerthusiadau a gynhelir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, a dadansoddiadau a gyhoeddir gan Sefydliad Joseph Rowntree a Chyngor ar Bopeth.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer modelu ar broffil y farchnad tai cymdeithasol a'i hanghenion yn y dyfodol.

Derbyniwyd yn Rhannol

Awdurdodau lleol sy'n bennaf gyfrifol am asesu angen o ran tai ac ar hyn o bryd mae'n cael ei gynnal drwy eu Hasesiadau o'r Farchnad Dai Leol, sy'n llywio Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ddiweddar ei asesiad er mwyn sicrhau nad yw'n fwy na dwy flwydd oed ar unrhyw adeg benodol.

Cynyddu'r cyflenwad tai yw un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac mae'r angen i ddarparu'r math cywir o dai yn cael ei gydnabod. Adlewyrchir hyn gan ei buddsoddiad parhaus yn y Rhaglenni Grant Tai Cymdeithasol a darparu cyllid ychwanegol i gynorthwyo codi eiddo llai mewn ymateb i'r gyfres flaenorol o ddiwygiadau lles. Mae modelu'r galw yn y dyfodol am eiddo o wahanol faint yn her i ni ac i awdurdodau lleol ac rydym yn ymwybodol y gall fod angen cynnal ymchwil bellach. Byddwn yn ystyried hyn ar y cyd ag ystyried canfyddiadau ymchwil arall. Mae Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru wedi bod yn ymwneud â diweddarau'r asesiad hwn o'r angen a'r galw o ran tai, a gyhoeddwyd yn 2010. Bydd ei waith, maes o law, yn ein galluogi i benderfynu ar y ffordd orau o ymateb i anghenion ac amgylchiadau sy'n newid, fel y rhai a achosir gan effaith diwygiadau lles pellach ar unigolion, fel pobl ifanc. Yn ei dro, bydd hyn yn ein llywio o ran y ffordd orau o fuddsoddi ein Grant Tai Cymdeithasol, gan ystyried anghenion o ran tai sy'n deillio o ddiwygio lles ochr yn ochr ag ystyried ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar raddfa a natur anghenion a nodwyd o ran tai.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad cost/budd o ddarparu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn i denantiaid ag anableddau mewn cartrefi a addaswyd yn sylweddol.

Derbyniwyd yn Rhannol

Byddai'r wybodaeth hon yn fuddiol ac mae'n rhywbeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei drafod gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ac awdurdodau lleol.

Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i awdurdodau lleol gofnodi'n rheolaidd eu penderfyniadau at ddibenion ystadegol yr Adran Gwaith a Phensiynau². Maent dim ond yn darparu manylion am geisiadau llwyddiannus sydd wedi codi yn sgîl diwygiadau lles (h.y. cap budd-daliadau, dileu'r cymhorthdal ystafell sbâr mewn tai rhent cymdeithasol ac ati.) a chofnodi'r canlyniad a fwriedir hefyd (dileu costau, aros mewn eiddo wedi ei addasu ac ati)

Yn bwysicaf oll, nid yw awdurdodau lleol, ar ôl gwneud dyfarniad, yn cynnal gwaith dilynol a gwerthuso'n rheolaidd a oedd y canlyniadau wedi cael eu cyflawni.

² https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/300220/discretionary-housing-payments-guide-apr-14.pdf

Oherwydd bod hwn yn faes sydd heb ei ddatganoli, byddai Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar ewyllys da awdurdodau lleol i gyfranogi yn y broses a gofyn iddynt gofnodi gwybodaeth fanylach. Fodd bynnag, cynhelir trafodaethau ag awdurdodau lleol oherwydd byddai gweithredu o'r fath er lles awdurdodau eu hunain o ran gallu rhoi tystiolaeth o benderfyniadau i bobl yn gyffredinol ac, o ystyried dyletswyddau cydraddoldeb, ar gyfer grwpiau penodol yn y boblogaeth e.e. grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru werthuso'r defnydd o eiddo gwag a'r nifer sy'n cael eu gwaredu.

Derbyniwyd

Nid yw'r ystadegau'n nodi cynnydd sylweddol mewn unedau gwag ond efallai mai un o effeithiau'r diwygiadau lles diweddaraf, yn enwedig y cap budd-daliadau aelwyd is, fydd cynnydd yn nifer yr unedau gwag. Mae landlordiaid cymdeithasol yn gyfrifol am reoli eu stoc a'u hasedau eiddo. Os daw problem gyda nifer yr unedau gwag at sylw Llywodraeth Cymru o ganlyniad i'n rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig neu o drafodaethau parhaus ag awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar atal digartrefedd, bydd yr angen am weithredu yn cael ei ystyried. Wrth adolygu'r defnydd o ymarferion casglu data achlysurol (mae'r ymateb i'r Argymhelliad yn cyfeirio at hyn), byddwn yn ystyried casglu data ar unedau gwag fel gan o'r cwrpas a'r cynnwys.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i ba mor gyffredin yw'r arfer o addasu tai cymdeithasol mwy o faint yn llety a rennir, ac a oes angen rheoleiddio er mwyn sicrhau bod safonau tai yn dderbyniol.

Derbyniwyd yn Rhannol

Cyfrifoldeb landlordiaid cymdeithasol yw ymateb i'r proffil anghenion o ran tai yn eu hardaloedd a defnyddio eu heiddo yn hyblyg i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion eu preswylwyr yn y presennol ac yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i adolygu eu defnydd o eiddo mwy. Rydym yn ymwybodol o nifer bach o ddatblygiadau o'r fath ond byddwn yn cysylltu ag awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ganfod graddau'r datblygiadau hyd yma ac unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol y dylai pob tenant tai cymdeithasol fyw mewn cartref derbyniol ac y dylai pob un o'r 225,000 o eiddo tai cymdeithasol gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020. Byddai'r safon yn berthnasol i unrhyw dai cymdeithasol a drosir yn llety a rennir, ac mae hyn yn mynd i'r afael â phryderon y pwyllgor. Rydym eisoes yn cymryd camau sylweddol i sicrhau cydymffurfio. Mae'r rhain yn cynnwys gofyniad ar bob landlord cymdeithasol i gyflwyno ffurflenni ystadegol blynyddol manwl yn dangos cyflawniad yn erbyn y Safon. I'r rhai sy'n cael grant i helpu i gyrraedd y Safon, ceir gofyniad i gyflwyno cynlluniau busnes 30 mlynedd bob blwyddyn, sy'n cael eu dadansoddi a'u monitro'n gadarn.

Ceir gofyniad hefyd i bob landlord cymdeithasol feddu ar Bolisi Cydymffurfio, a ddatblygir mewn ymgynghoriad â thenantiaid, ac y dylai'r polisi fod ar waith erbyn 1 Ebrill 2016. Rhaid i'r polisi hwn ddangos sut y dilyswyd cyrraedd y Safon. Cymerwyd pwerau yn Neddf Tai (Cymru) 2014 i Weinidogion Cymru sicrhau cydymffurfio â safon Cymru os yw'n angenrheidiol ac mae gwerth £108 miliwn y flwyddyn o Lwfans Atgyweiriadau Mawr gan Lywodraeth Cymru yn sail i hyn.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod yn rhaid i addasiadau tai hefyd gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu ac unrhyw amodau cynllunio angenrheidiol.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro effaith yr asesiadau gallu ariannol ac yn gwneud gwaith ymchwil i broffil yr ymgeiswyr sy'n methu'r asesiadau hyn.

Derbyniwyd

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn y broses o gynnal astudiaeth ar y cyd â Cartrefi Cymunedol Cymru a CLILC i archwilio cydweithio rhwng Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol ar atal digartrefedd. Bydd yr astudiaeth yn ystyried polisiau ac arferion, a fydd yn ystyried effaith asesiadau gallu ariannol ar fynediad i dai cymdeithasol. Mae landlordiaid cymdeithasol yn ystyried gwybodaeth am amgylchiadau ariannol darpar denantiaid i asesu eu hangen am dai cymdeithasol ac mae hyn yn aml yn cael ei ddefnyddio i nodi'r angen am gymorth i'w helpu i fanteisio ar eu hawl i fudd-daliadau ac i reoli eu hincwm. Bydd canlyniadau'r astudiaeth hon yn galluogi ystyried effaith asesiadau gallu ariannol, a fydd yn llywio trafodaethau ag awdurdodau lleol ar samplu ymgeiswyr sy'n eu methu er mwyn penderfynu ar nodweddion a phroffil. Bydd hyn yn llywio datblygiadau a gweithredu a'r angen am unrhyw ymchwil ychwanegol.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau na all landlordiaid cymdeithasol atal tenantiaid rhag trosglwyddo i eiddo llai os oes ganddynt ôl-ddyledion sydd wedi codi o ganlyniad i gael gwared ar y cymhorthdal ystafell sbâr.

Derbyniwyd

Bydd yr astudiaeth a nodwyd mewn ymateb i Argymhelliad 8 uchod hefyd yn archwilio polisiau ac arferion lleol i denantiaid sydd am drosglwyddo i eiddo llai a/neu y mae angen iddynt wneud hynny. Mae ein hystyriaeth gychwynnol o hyn, yn seiliedig ar drafodaethau â sawl awdurdod lleol, yn nodi nad yw ôl-ddyledion a achoswyd gan feini prawf maint Budd-dal Tai yn rhwystr a ddefnyddir gan landlordiaid i atal tenant rhag trosglwyddo. Bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau gweithredu priodol mewn achosion lle mae ymchwil bellach yn dangos fel arall.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliad o achosion o droi allan o dai cymdeithasol a'r canlyniadau i aelwydydd ar ôl i hynny ddigwydd.

Derbyniwyd yn Rhannol

Mae'r sail resymegol gyffredinol ar gyfer gwaith o'r fath yn cael ei derbyn. Mae'r union resymau dros droi allan yn niferus ac yn amrywiol. Dull Llywodraeth Cymru yw atal digartrefedd yn y lle cyntaf ac mae hyn wrth wraidd y ddeddfwriaeth ddigartrefedd newydd, a ddaeth i rym ym mis Ebrill eleni. Mae asesu'r rhesymau dros achos o droi allan yn haws nag olrhain y canlyniadau ar gyfer aelwydydd ar ôl troi allan, sy'n creu heriau o ran ymchwil. Byddwn yn ystyried gyda rhanddeiliaid sut y gellid cynnal astudiaeth o'r fath gyda'r bwriad o gomisiynu ymchwil yn y dyfodol.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei pholisiau ar gyfer landlordiaid tai cymdeithasol a rhoi canllawiau i sicrhau bod y rhai sydd â'r angen mwyaf am dai yn cael eu cynorthwyo, waeth faint o fodd ariannol sydd ganddynt.

Derbyniwyd yn Rhannol

Mae Deddf Tai 1996 a'r Cod Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd 2015 eisoes yn darparu gwybodaeth a chanllawiau i landlordiaid cymdeithasol ar gategorïau o bobl sydd â blaenoriaeth ar gyfer tai cymdeithasol fel pobl agored i niwed, pobl â chyflyrau meddygol, pobl ddigartref a'r rhai sy'n ffoi rhag trais yn y cartref. Felly mae'r rhai â'r angen mwyaf o ran tai eisoes yn cael cymorth priodol.

Cyhoeddwyd fersiwn wedi'i diweddarau o'r Cod ym mis Ebrill eleni i gyd-fynd â'r newid a gyflwynwyd gan ddechrau'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd newydd yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, ac i adlewyrchu'r newid hwn. Mae'r Cod yn cael ei adolygu ac mae angen ei ddiweddarau o ganlyniad i

gyfraith achos. Mae wedi'i datblygu fel dogfen gyfeirio ar y we, sy'n galluogi diweddarau prydlon ac amserol yn ôl y galw. Bydd y diweddariad nesaf, sy'n dibynnu ar ganlyniad trafodaethau ag awdurdodau lleol a sefydliadau'r Trydydd Sector ar weithredu'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd newydd a nodir yn Neddf Tai (Cymru) 2014, yn cael ei ystyried ym mis Hydref eleni. Mae nodi'r angen am ddiweddarau posibl o ran y Cod neu eglurhad pellach ar faterion o bolisi neu gyfraith yn y Cod yn rhan o drefniadau i fonitro gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd, sydd wedi'i chynllunio i sicrhau ymarfer cyson ym mhob ardal.

Mae sefyllfa ariannol unigolion y mae angen tai amynt yn cael ei chydabod, yn ogystal â phryderon y Pwyllgor. Bydd canfyddiadau'r arolwg o awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a fydd yn trafod yr asesiad o sefyllfa ariannol pobl, yn llywio'r gwaith o ddiweddarau'r Cod a'r angen am gyngor a chanllawiau pellach i awdurdodau lleol.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi cynnig ariannu tymor hwy i'r sector gwasanaethau cynghori er mwyn gallu cynllunio gwasanaethau'n fwy effeithiol.

Derbyniwyd mewn egwyddor

Mae pwysigrwydd llwyfan cyllid cynaliadwy ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau cyngor effeithiol yn cael ei gydnabod. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol i ddatblygu strategaeth seiliedig ar dystiolaeth y bydd cynnig cyllid tymor hwy ar gyfer gwasanaethau cyngor yn seiliedig arni.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynorthwyo darparu gwasanaethau cyngor am ddim ac annibynnol i sicrhau bod pobl yn fwy cymwys i reoli eu materion eu hunain ac arfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cymorth i'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn arbennig o bwysig i'w galluogi i gael mynediad i gyngor am ddim ac annibynnol, yn enwedig ar faterion lles cymdeithasol.

Mae ymrwymiad y Llywodraeth yn cael ei adlewyrchu gan y £2 filiwn o gyllid a ryddhawyd y flwyddyn ariannol hon i gynorthwyo gwasanaethau cyngor rheng flaen ar faterion sy'n ymwneud â budd-daliadau lles, dyledion, tai a gwahaniaethu, a hefyd gan y £2.2 miliwn i gynorthwyo'r *Prosiect Cyngor Da, Byw'n Well*, sy'n helpu pobl i hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.

Mae amseru cymharol hwyr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU yn ddiweddarach eleni yn creu anawsterau o ran ystyried dyraniadau cadarn ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau cyngor y tu hwnt i ymrwymadau presennol. Byddwn yn cynnal cysylltiadau â darparwyr cyngor rhwng nawr a'r adeg pan fydd penderfyniadau am gyllid yn y dyfodol yn cael eu gwneud.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol yn gwerthuso cydbwysedd y cyngor a ddarperir gan landlordiaid cymdeithasol a gwasanaethau annibynnol, gan gynnwys cynnal arolwg o denantiaid i nodi sut maent yn defnyddio'r gwasanaethau cynghori a'r arbedion a wneir yn sgil defnyddio gwasanaethau cynghori. Dylai hyn hefyd gynnwys gwerthusiad o'r gwasanaethau a gollwyd o ganlyniad i roi llai o gyllid i wasanaethau cynghori.

Derbyniwyd yn Rhannol

Mae'r Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol wedi datblygu cynllun gwaith ar gyfer 2015-16, sy'n cynnwys mapio'r ddarpariaeth bresennol o ran gwasanaethau gwybodaeth a chyngor. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r wybodaeth a'r cyngor a ddarperir gan landlordiaid cymdeithasol ac asiantaethau annibynnol.

Bydd y Rhwydwaith yn ystyried amrywiaeth o ffynonellau data presennol cyn penderfynu a fydd ymchwil neu werthuso pellach yn angenrheidiol cyn cynnal dadansoddiad gwrthrychol o anghenion

cyngor sy'n adlewyrchu ymddygiad sy'n ceisio cyngor. Bydd mesur effaith a chanlyniadau cyngor hefyd yn cael ei ystyried yn ddiweddarach eleni.

Mae gwerthuso gwasanaethau cyngor a gollwyd o ganlyniad i lai o gyllid yn fwy heriol o ran ymchwil oherwydd byddai anawsterau ymarferol o ran cael gwybodaeth lle mae gwasanaethau wedi peidio â bodoli o ganlyniad i hyn. Bydd amrywiaeth llawer ehangach o ffactorau mewnol ac allanol wedi effeithio ar allu darparwyr cyngor unigol i liniaru effaith unrhyw golled ariannol a, lle maent eisoes yn bodoli, mae rhwydweithiau cyngor yn cynnig cyfle i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Mae'r Rhwydwaith yn ystyried sut y gall y broses hon o rannu arferion gorau gael ei datblygu ledled Cymru.

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn arfer mwy o ddylanwad er mwyn sicrhau dull cyson o ddefnyddio taliadau tai yn ôl disgrisiwn ledled Cymru.

Derbyniwyd

O ganlyniad i'r meini prawf maint Budd-dal Tai, mae ceisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgrisiwn wedi cynyddu'n ddramatig. Rhaid gwneud y defnydd gorau posibl o gronfeydd cyfyngedig. Yn dilyn gwaith i ystyried y ffyrdd roedd Taliadau Tai yn ôl Disgrisiwn yn cael eu defnyddio a chan ddefnyddio dull Cyngor Dinas Caerdydd (fel y patrwm wrth weinyddu a defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgrisiwn), cytunwyd ar ddull newydd ag awdurdodau lleol ym mis Ebrill eleni. Cafodd hyn ei gynllunio i sicrhau bod tenantiaid sy'n cael trafferth talu eu costau rhent yn gallu cael mynediad i gymorth ariannol Taliadau Tai yn ôl Disgrisiwn mewn ffordd deg a chyson. Mae Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Clwb Diwygio Lles ac awdurdodau lleol, wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd i ddatblygu protocolau newydd ar gyfer dyfarnu Taliadau Tai yn ôl Disgrisiwn.

Yn sail i'r dull newydd hwn mae canolbwynt ar sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynorthwyo tenantiaid â'r problemau sylfaenol sy'n achosi caledi iddynt. Mae mynd i'r afael ag achosion sylfaenol anawsterau tenantiaid, fel y gwelwyd yn y dull a fabwysiadwyd gan Gyngor Dinas Caerdydd, yn helpu i leihau'r cyfle o broblemau cylchol h.y. cylch o anawsterau sy'n ailadrodd. Mae'r cymorth yn cynnwys darparu cyngor ac atgyfeirio pobl i asiantaethau priodol eraill.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am weinyddu'r gronfa ac yn defnyddio canllawiau a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r canllawiau wedi cael eu beirniadu am eu diffyg eglurder, sydd wedi cyfrannu at anghysondebau o ran dyfarnu taliadau, yn enwedig i bobl anabl a'r rhai sy'n meddiannu eiddo a addaswyd yn arbennig. Disgwylir i'r protocolau newydd gael eu defnyddio ochr yn ochr â chanllawiau presennol yr Adran Gwaith a Phensiynau a byddant yn helpu awdurdodau lleol i ddyfarnu'r cyllid mewn ffordd deg a chyson. Mae'r fframwaith wedi galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio dull cyson o ran budd-daliadau anabled.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn cyhoeddi'r nifer sy'n manteisio ar daliadau tai yn ôl disgrisiwn yng Nghymru, gan gynnwys sut mae awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol yn rhoi gwybod i denantiaid am argaeledd taliadau a'r wybodaeth a roddwyd i ymgeiswyr aflwyddiannus.

Derbyniwyd yn Rhannol

Mae gan awdurdodau lleol Cymru record dda iawn o ddyraniadau gwario gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried hyn fel rhan o'i gwaith i sicrhau dull mwy cyson o ran y defnydd o'r cyllid ledled Cymru. Bydd hyn yn parhau i gael ei wneud fel rhan o'r dull cyffredinol o helpu pobl i ymdopi â'r newidiadau ac fel rhan o flaenoriaeth Llywodraeth Cymru i atal pobl rhag mynd yn ddigartref. Fel rhan o hyn, disgwylir y bydd y ffyrdd y tynnir sylw'r cyhoedd at y cyllid yn cael eu hystyried. Mater i'r Adran Gwaith a Phensiynau yw'r wybodaeth a ddarperir i ymgeiswyr sy'n aflwyddiannus yn eu cais. Mewn achosion o'r fath, bydd y cais yn arwain at yr awdurdod lleol yn rhoi ffurflen gwrthod gyffredinol i'r ymgeisydd.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn mynnu bod pob awdurdod lleol a chymdeithas dai yn rhoi cyhoeddusrwydd i daliadau tai yn ôl disgrisiwn, gan gynnwys y meini prawf cymhwysedd cysylltiedig. Dylent hefyd sicrhau nad yw budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd yn cael eu defnyddio mewn cyfrifiadau incwm, ac esbonio pam nad ydynt wedi defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgrisiwn lle y bo hynny'n briodol.

Derbyniwyd

Nid yw'r mater hwn wedi ei ddatganoli a chyfrifoldeb yr Adran Gwaith a Phensiynau ydyw. Mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa anodd iawn. Mae Taliadau Tai yn ôl Disgrisiwn yn gyfyngedig a bydd pwysau cynyddol ar incwm pobl yn sgîl newidiadau diwygio lles a bydd mwy o gyhoeddusrwydd yn arwain at gynnydd yn y galw. Mae rhai awdurdodau lleol yn ceisio helpu cymaint o denantiaid â phosibl, sy'n gallu arwain at gyllid yn cael ei ledaenu'n denau. Mae eraill yn targedu grwpiau penodol, sy'n golygu nad yw'r cymorth yn cwmpasu pawb y mae ei angen arno neu sydd angen iddynt fod yn ymwybodol ohono. O ystyried yr angen i wneud y defnydd gorau posibl o gronfeydd cyfyngedig, mae'r fframwaith newydd wedi'i anelu at y rhai sydd â'r angen mwyaf ac sy'n awyddus i helpu eu hunain. Mae'r fframwaith newydd yn caniatáu i fudd-daliadau anabledd gael eu hystyried yn llawn ac y dylid gosod yn erbyn unrhyw dreuliau sy'n gysylltiedig â'r budd-dal h.y. golchi dillad, symudedd ac ati. Mae rheolau arbennig yn berthnasol i Lwfans Byw i'r Anabl a Thaliadau Annibyniaeth Bersonol o ganlyniad i achos Sandwell yn ddiweddar. Mae'r gweithredu hwn yn cael ei ategu gan weithredu gan Lywodraeth Cymru e.e. gwaith yn y gorffennol ar Daliadau Tai yn ôl Disgrisiwn (mae'r ymateb i Argymhelliad 14 yn cyfeirio at hyn); monitro gweithredu deddfwriaeth ddigartrefedd newydd, i sicrhau arfer a chymorth cyson i unigolion ym mhob ardal.

Mae awdurdodau lleol wedi cael eu cynghori i ddiystyru pob cydran o Lwfans Byw i'r Anabl (a Thaliadau Annibyniaeth Bersonol) yn yr asesiad ariannol Taliadau Tai yn ôl Disgrisiwn, wrth barhau i ystyried yr holl wariant. Bydd hyn, a defnydd awdurdodau lleol o gyllid Tai yn ôl Disgrisiwn, yn cael eu hystyried fel rhan o ddull cyffredinol Llywodraeth Cymru o helpu pobl i ymdopi â'r newidiadau sy'n deillio o ddiwygio lles pellach.

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn edrych yn gynnar ar effaith debygol y newidiadau yn y system les, gan gynnwys y newidiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer cymhwysedd Budd-dal Tai ar gyfer pobl ifanc 18-21 oed, ac yn ymgynghori'n gynnar ac yn eang ar ei hymateb arfaethedig.

Derbyniwyd

Mae effaith bosibl newidiadau pellach i'r system les yn peri cryn bryder. Rydym eisoes wedi cynnal dadansoddiad cynnar o effeithiau posibl y toriadau lles a gynhwyswyd yng Nghyllideb yr Haf Llywodraeth y DU 2015. Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol o rai o'n casgliadau cychwynnol o'r wybodaeth ychwanegol (anfonwyd ar 18 Mehefin) a ddarparwyd ar ôl cyfarfod y Pwyllgor ar 2 Mehefin. Mae rhagor o waith eisoes ar y gweill fel rhan o'n rhaglen o ymchwil fanylach i ystyried yr effeithiau posibl. Rhagwelwn y bydd ein hadroddiad ymchwil nesaf yn cael ei dderbyn yr hydref hwn 2015.

Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a darparwyr eraill y Trydydd Sector i ystyried effeithiau toriadau lles a gweithredu i helpu pobl i ymdopi â'r newidiadau. Byddwn yn parhau i ddefnyddio dulliau presennol fel ein Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddiwygio Lles, ein Grŵp Cynghori Allanol ar Drechu Tlodi, a'n rhwydweithiau presennol, fel ein rhwydweithiau Cefnogi Pobl a Digartrefedd.